

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

02/07/2013

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
[Questions to the First Minister](#)

[Cwestiwn Brys: Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr](#)
[Urgent Question: Betsi Cadwaladr University Local Health Board](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon](#)
[Questions to the Minister for Culture and Sport](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)
[Business Statement and Announcement](#)

[Datganiad: Cyflwyno Bil Addysg \(Cymru\)](#)
[Statement: Introduction of the Education \(Wales\) Bill](#)

[Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 26.95 i Drin Bil a Gaiff ei Alw'n Fil Sector Amaethyddol \(Cymru\) fel Bil Brys y Llywodraeth, a Chynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 26.98\(ii\) i Gytuno ar Amserlen ar gyfer y Bil a Gaiff ei Alw'n Fil Sector Amaethyddol \(Cymru\)](#)
[Motion under Standing Order No. 26.95 that a Bill to be known as the Agricultural Sector \(Wales\) Bill be treated as a Government Emergency Bill, and a Motion under Standing Order No. 26.98\(ii\) to Agree a Timetable for the Bill to be Known as the Agricultural Sector \(Wales\) Bill](#)

[Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 \(Diwygio Deddf Addysg 1996\) \(Cymru\) 2013](#)
[The Anti-Social Behaviour Act 2003 \(Amendments to the Education Act 1996\) \(Wales\) Order 2013](#)

[Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog Rhif 26.44 ar y Bil Trawsblannu Dynol \(Cymru\)](#)
[Stage 3 Standing Order No. 26.44 debate on the Human Transplantation \(Wales\) Bill](#)

[Cynnig Cyfnod 4 i Gymeradwyo Bil Trawsblannu Dynol \(Cymru\) o dan Reol Sefydlog Rhif 26.47](#)
[Stage 4 Standing Order No. 26.47 Motion to Approve the Human Transplantation \(Wales\) Bill](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd
(Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer
(Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Prynhawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Questions to the First Minister

Gwasanaethau Mamolaeth

Maternity Services

13:30 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau mamolaeth yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)1162(FM)

1. Will the First Minister make a statement on maternity services in South Wales West? OAQ(4)1162(FM)

13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We will ensure that the people of South Wales West continue to receive high-quality maternity services that are safe, sustainable and provided as close to their homes as possible.

Byddwn yn sicrhau bod pobl Gorllewin De Cymru yn parhau i dderbyn gwasanaethau mamolaeth o ansawdd uchel sy'n ddiogel, yn gynaliadwy ac yn cael eu darparu mor agos i'w cartrefi â phosibl.

- 13:31 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, First Minister. I have been reliably informed by people who work in the service that many midwives have to take the air ambulance to Bristol and further afield when provision is not available either in Swansea or Bridgend. This is a massive pressure, not only on the mother involved, but on the midwife who has to take time out of her schedule to travel on these air ambulances with the patient. I have written to Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board regarding this, but have not had a response yet. I would like to hear your response, given the fact that this is a serious operation, and the fact that people should be able to receive maternity services here in Wales.
- Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Fe'm hysbyswyd yn ddibynadwy gan bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth bod yn rhaid i lawer o fydwagedd fynd ar yr ambiwlans awyr i Fryste ac ymhellach i ffwrdd pan nad oes darpariaeth ar gael naill ai yn Abertawe nac ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae hyn yn bwysau enfawr, nid yn unig ar y fam dan sylw, ond ar y fydwraig sy'n gorfod treulio amser o'i hamserlen i deithio ar yr ambiwlansys awyr hyn gyda'r claf. Rwyf wedi ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Lleol Abertawe Bro Morgannwg ynglŷn â hyn, ond nid wyf wedi cael ymateb eto. Hoffwn glywed eich ymateb, o ystyried y ffaith bod hon yn llawdriniaeth ddifrifol, a'r ffaith y dylai pobl allu cael gwasanaethau mamolaeth yma yng Nghymru.
- 13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- I am not aware of the circumstances, and I am not sure whether the circumstances are indeed typical. However, I will investigate the situation and write to the Member with further details.
- Nid wyf yn ymwybodol o'r amgylchiadau, ac nid wyf yn siŵr a yw'r amgylchiadau yn wir nodweddiadol. Fodd bynnag, byddaf yn ymchwilio i'r sefyllfa ac yn ysgrifennu at yr Aelod gyda manylion pellach.
- 13:32 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Whatever the immediate outcome of the south Wales programme reconfiguration, the engagement document signalled a longer-term intention to move maternity services from Singleton Hospital. If that hospital is envisaged to be providing different services in coming years, what is your Government doing to satisfy itself that the LHB and the deanery are already planning properly for recruitment and retention of staff for what might be completely new services at that hospital?
- Beth bynnag fydd canlyniad uniongyrchol ad-drefnu rhaglen de Cymru, mae'r ddogfen yn arwydd o fwriad mwy hirdymor i symud gwasanaethau mamolaeth o Ysbyty Singleton. Os rhagwelir y bydd yr ysbyty hwnnw yn darparu gwahanol wasanaethau yn y blynyddoedd i ddod, beth mae eich Llywodraeth yn ei wneud i fodloni ei hun bod y BILL a'r ddeoniaeth eisoes yn cynllunio'n briodol ar gyfer recriwtio a chadw aelodau staff ar gyfer yr hyn a allai fod yn wasanaethau hollol newydd yn yr ysbyty hwnnw?
- 13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- These are matters for the local health board. The first step, of course, is to go through the south Wales programme and come to a conclusion on that—whatever that conclusion is. Consideration will then be given in the medium term to the future shape of hospitals, not just in that part of Wales, but in all of Wales.
- Materion i'r bwrdd iechyd lleol yw'r rhain. Y cam cyntaf, wrth gwrs, yw mynd trwy raglen de Cymru a dod i gasgliad ar hynny—beth bynnag yw'r casgliad hwnnw. Yna, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi yn y tymor canolig i drefn ysbytai yn y dyfodol, nid yn unig yn y rhan honno o Gymru, ond yng Nghymru gyfan.
- 13:32 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- In the shorter term, First Minister, whatever the outcome of the south Wales programme consultation, certain maternity services will be available in fewer hospitals than is currently the case. What evaluation has your Government made of the resources needed by the health boards concerned to make sure that when those maternity services are restructured, they are able to cope with the demands in all the hospitals in which they would then be available?
- Yn fwy byrdymor, Brif Weinidog, beth bynnag fydd canlyniad yr ymgynghoriad ar raglen de Cymru, bydd gwasanaethau mamolaeth penodol ar gael mewn llai o ysbytai nag y maen nhw ar hyn o bryd. Pa werthusiad mae eich Llywodraeth wedi ei wneud o'r adnoddau sydd eu hangen ar y byrddau iechyd dan sylw i sicrhau, pan fydd y gwasanaethau mamolaeth hynny'n cael eu hailstrwythuro, eu bod yn gallu ymdopi â'r gofynion yn yr holl ysbytai y byddent ar gael ynddynt wedyn?
- 13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- This is part of the south Wales programme board's work, namely to ensure that whatever the results of the reconfiguration, it leads to a better service for patients, as that is indeed the raison d'être behind reconfiguration in the first place.
- Mae hyn yn rhan o waith bwrdd rhaglen de Cymru, sef sicrhau, beth bynnag yw canlyniadau'r ad-drefnu, ei fod yn arwain at wasanaeth gwell i gleifion, gan mai dyna yw'r holl reswm am yr ad-drefnu yn y lle cyntaf.

Y Gwasanaeth Iechyd yn Nhorfaen

The Health Service in Torfaen

- 13:33 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwasanaeth iechyd yn Nhorfaen? OAQ(4)1167(FM)
- 13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Our plans and priorities for healthcare in the whole of Wales are set out in our programme for government and 'Together for Health'.
- 13:33 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I have spoken to many constituents in recent weeks who welcome the fact that a specialist and critical care centre features in all four options in the south Wales programme consultation. Of course they are frustrated by the delays, but despite the criticism from some quarters in the opposition, they recognise that it is capital cuts from Westminster that are the problem, not this Welsh Labour Government. First Minister, does it not say everything about this party's commitment to the NHS we founded that we are continuing to invest in our health service despite these crippling cuts?
- 13:34 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Indeed it does. We were the party that founded the NHS and are commitment to it is absolute. That includes, even in difficult financial times, setting aside the right level of capital moneys to ensure better facilities for the people of Wales in the future.
- 13:34 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I was going to ask about the ambulance service, but following the last question, I will ask another. Why has the centre not been built yet?
- 13:34 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
I am sorry, but I did not hear the start of your question.
- 13:34 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Why has the critical care unit not been built yet?
- 13:34 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
This is part of the south Wales programme board's plans. Once those plans are finalised, the centre can be built.
2. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's priorities for the health service in Torfaen? OAQ(4)1167(FM)
- Nodir ein cynlluniau a'n blaenoriaethau ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru gyfan yn ein rhaglen ar gyfer llywodraethu a 'Law yn Llaw at Iechyd'.
- Rwyf wedi siarad â llawer o etholwyr yn ystod yr wythnosau diweddar sydd yn croesawu'r ffaith fod canolfan gofal arbenigol a chritigol wedi ei chynnwys ym mhob un o'r pedwar opsiwn yn yr ymgynghoriad ar raglen de Cymru. Mae'r oedi yn peri rhwystredigaeth iddynt, wrth gwrs, ond er gwaethaf y feirniadaeth gan rai rhannau o'r wrthblaid, maen nhw'n cydnabod mai toriadau cyfalaf o San Steffan yw'r broblem, nid y Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru. Brif Weinidog, onid yw'n dweud popeth am ymrwymiad y blaid hon i'r GIG a sefydlwyd gennym ein bod yn parhau i fuddsoddi yn ein gwasanaeth iechyd er gwaethaf y toriadau llesteiriol hyn?
- Ydy'n wir. Ni oedd y blaid a sefydlodd y GIG ac mae ein hymrwymiad iddo yn absoliwt. Mae hynny'n cynnwys, hyd yn oed mewn cyfnod ariannol anodd, rhoi'r lefel gywir o arian cyfalaf o'r neilltu i sicrhau gwell cyfleusterau i bobl Cymru yn y dyfodol.
- Roeddwn i'n mynd i ofyn am y gwasanaeth ambiwlans, ond yn dilyn y cwestiwn diwethaf, byddaf yn gofyn un arall. Pam nad yw'r ganolfan wedi ei hadeiladu eto?
- Mae'n ddrwg gennyf, ond ni chlywais ddechrau eich cwestiwn.
- Pam nad yw'r uned gofal critigol wedi ei hadeiladu eto?
- Mae hyn yn rhan o gynlluniau bwrdd rhaglen de Cymru. Gellir adeiladu'r ganolfan ar ôl cwblhau'r cynlluniau hynny.

13:35	<p>William Graham Bywgraffiad Biography</p> <p>For your information, First Minister, we have been discussing this critical care centre now for many years—it is not suddenly about cuts. Time after time, we have heard excuses from relevant Ministers for health, for one reason or another, about why this has not proceeded. The people of Gwent need it now.</p>	<p>Er gwybodaeth, Brif Weinidog, rydym ni wedi bod yn trafod y ganolfan gofal critigol hon ers blynyddoedd lawer bellach—nid yw'n ymwneud â thoriadau yn sydyn. Dro ar ôl tro, rydym ni wedi clywed esgusodion gan y Gweinidogion iechyd perthnasol, am un rheswm neu'r llall, pam nad yw hyn wedi mynd rhagddo. Mae pobl Gwent ei hangen nawr.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:35	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>What sense would there be in building such a centre, and then look at reconfiguration? It makes perfect sense to build it after reconfiguration has been completed.</p>	<p>Pa synnwyr fyddai mewn adeiladu canolfan o'r fath, ac yna ystyried ad-drefnu? Mae'n gwneud synnwyr perffaith i'w hadeiladu ar ôl cwblhau'r ad-drefnu.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:35	<p>Eluned Parrott Bywgraffiad Biography</p> <p>First Minister, all four options in this reconfiguration plan feature the SCCC being built at Cwmbran. However, it is already estimated that it could be seven years, at best, before it is fully functioning. What impact will this delay have on the flow of patients from Aneurin Bevan Local Health Board into the overstretched University Hospital of Wales, in Cardiff, if the planned changes also start driving patients from Cwm Taf Local Health Board there as well?</p>	<p>Brif Weinidog, mae pob un o'r pedwar opsiwn yn y cynllun ad-drefnu hwn yn cynnwys adeiladu'r Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol yng Nghwmbrân. Fodd bynnag, amcangyfrifir eisoes y gallai fod yn saith mlynedd, o leiaf, cyn y bydd yn gweithredu'n llawn. Pa effaith fydd yr oedi hwn yn ei gael ar lif y cleifion o Fwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan i Ysbyty Prifysgol Cymru, yng Nghaerdydd, sydd eisoes dan bwysau, os bydd y newidiadau arfaethedig yn dechrau gyrru cleifion o Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf yno hefyd?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:35	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>These are all factors that the programme board will need to take into account when coming to a final conclusion. I trust that it will.</p>	<p>Mae'r rhain i gyd yn ffactorau y bydd angen i fwrdd y rhaglen eu hystyried wrth ddod i gasgliad terfynol. Hyderaf y bydd yn gwneud hynny.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau</p>		<p>Questions Without Notice from the Party Leaders</p>	
13:35	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>We now move to questions from the party leaders. First this afternoon, we have questions from the leader of the opposition, Andrew R. T. Davies.</p>	<p>Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau. Yn gyntaf y prynhawn yma, mae gennym gwestiynau gan arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:36	<p>Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography <i>Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition</i></p> <p>Last week, Assembly Members, the public and the media were given sight of the report into the overview of governance arrangements at Betsi Cadwaladr University Local Health Board. What did you make of the report's findings?</p>	<p>Yr wythnos diwethaf, cafodd Aelodau'r Cynulliad, y cyhoedd a'r cyfryngau weld yr adroddiad ar y trosolwg o drefniadau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Beth oedd eich barn chi ar ganfyddiadau'r adroddiad hwnnw?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:36	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>You can ask this question when the urgent question comes up—that is what your party wanted.</p>	<p>Cewch ofyn y cwestiwn hwn pan ofynnir y cwestiwn brys—dyna oedd eich plaid ei eisiau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 13:36 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- With respect, First Minister, you are the First Minister, and this is First Minister's questions. That level of flippancy has driven many of the problems that are identified in this report. Frankly, if that is the best that you can offer as First Minister, then there are going to be massive problems to come for the health service in Wales. You have a report that identifies the complete breakdown in relationship between the chairman and the chief executive, as well as massive governance failures that have been identified in the reporting of disease control measures; these are the very things that led to the situation at Mid Staffordshire NHS Foundation Trust. Your type of flippancy drives this type of failure in our health service, and I call on you to give a better answer.
- Gyda phob parch, Brif Weinidog, chi yw'r Prif Weinidog, a chwestiynau i'r Prif Weinidog yw'r rhain. Y lefel yna o wamalrwydd yw'r sail i lawer o'r problemau a nodir yn yr adroddiad hwn. A dweud y gwir, os mai dyna'r gorau y gallwch chi ei gynnig fel Prif Weinidog, yna mae problemau enfawr i ddod i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Mae gennych adroddiad sy'n nodi'r toriad llwyr yn y berthynas rhwng y cadeirydd a'r prif weithredwr, yn ogystal â methiannau llywodraethu enfawr a nodwyd wrth adrodd ar fesurau rheoli clefydau; dyma'r union bethau a arweiniodd at y sefyllfa yn Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Canolbarth Swydd Stafford. Eich math chi o wamalrwydd sy'n gyfrifol am y math hwn o fethiant yn ein gwasanaeth iechyd, ac rwy'n galw arnoch i roi gwell ateb.
- 13:37 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- This is a misuse of the Assembly's time, and I put that very strongly. [Interruption.] It is not acceptable for the Member's party to table an urgent question, and then try to have a second bite at the cherry—or is he overruling his own spokesperson in this regard? [Interruption.] He will have an answer from the Minister for Health and Social Services when the urgent question is asked. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Shame, shame.']
- Mae hyn yn gamddefnydd o amser y Cynulliad, ac rwy'n mynegi hynny'n gryf iawn. [Torri ar draws.] Nid yw'n dderbyniol i blaid yr Aelod gyflwyno cwestiwn brys, ac yna ceisio cael ail gynnig arni—neu a yw ef yn dyfarnu yn erbyn ei lefarydd ei hun yn hyn o beth? [Torri ar draws.] Bydd yn cael ateb gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol pan ofynnir y cwestiwn brys. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'Cywilydd, cywilydd.']
- 13:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Order. Whatever is going on here this afternoon? Trefn. Beth yn y byd sy'n digwydd yma y prynhawn yma?
- 13:37 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Is that a misuse of the Assembly's time? A yw hynny'n gamddefnydd o amser y Cynulliad?
- 13:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Order. I decide whether it is a misuse of the Assembly's time, and I consider that this is appropriate. Trefn. Fi sy'n penderfynu beth sy'n gamddefnydd o amser y Cynulliad, ac rwyf o'r farn bod hyn yn briodol.
- 13:37 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am grateful to you for giving that indication, Presiding Officer. It is obvious that the First Minister is completely out of touch with what the communities of north Wales have been receiving under his Government, and under health boards that are funded by his Government. He should be rightly ashamed of the answers that he has given me this afternoon. I hope that the urgent question will deal with what the Government will do to address these issues, but I will ask him this again, as First Minister—and given that he said back in March that there is no room for complacency in the Welsh NHS—why has he shown such complacency here this afternoon?
- Rwy'n ddiolchgar i chi am ddyodi hynny, Lywydd. Mae'n amlwg nad oes gan y Prif Weinidog syniad o'r hyn y mae cymunedau gogledd Cymru wedi bod yn ei dderbyn dan ei Lywodraeth, a dan fyrddau iechyd sy'n cael eu hariannu gan ei Lywodraeth. Dylai fod ganddo gywilydd o'r atebion y mae wedi eu rhoi i mi y prynhawn yma. Rwy'n gobeithio y bydd y cwestiwn brys yn ymdrin â'r hyn y bydd y Llywodraeth yn ei wneud i fynd i'r afael â'r materion hyn, ond gofynnaf iddo eto, fel Prif Weinidog—ac o ystyried ei fod wedi dweud yn ôl ym mis Mawrth nad oes lle i fod yn hunanfodlon yn y GIG yng Nghymru—pam mae ef wedi dangos cymaint o hunanfodlonrwydd yma y prynhawn yma?
- 13:38 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- The leader of the opposition is behaving disgracefully. He is the leader of a party that has turned the NHS into a joke in England. He is the leader of a party that is depriving the NHS of resources in England. [Interruption.] He is the leader of a party that, if it was ever in Government in Wales—[Interruption.]
- Mae arweinydd yr wrthblaid yn ymddwyn yn warthus. Mae'n arweinydd plaid sydd wedi troi'r GIG yn jôc yn Lloegr. Mae'n arweinydd plaid sy'n amddifadu'r NHS o adnoddau yn Lloegr. [Torri ar draws.] Mae'n arweinydd plaid, a fyddai, pe byddai hi byth mewn Llywodraeth yng Nghymru—[Torri ar draws.]

13:38	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Order.	Trefn.	Senedd.tv Fideo Video
13:38	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i>	He is the leader of a party that, if it was ever in Government in Wales, would destroy the prospects of people in Wales, and would treat the prospects of students in Wales with flippancy, because he says that we should pay more for tuition fees. He is the one who says that people should pay a tablet tax, and pay for prescriptions in Wales. It is not me who is being flippant here—it is him, and the people of Wales will be grateful that his party are not in charge in Wales.	Mae'n arweinydd plaid, pe byddai hi byth mewn Llywodraeth yng Nghymru, a fyddai'n dinistrio rhagolygon pobl yng Nghymru, ac a fyddai'n trin rhagolygon myfyrwyr yng Nghymru mewn modd gwamal, gan ei fod yn dweud y dylem ni dalu mwy am ffioedd dysgu . Ef yw'r un sy'n dweud y dylai pobl dalu treth dabledi, a thalu am bresgripsiynau yng Nghymru. Nid fi sy'n yn bod yn wamal yma—ond fe, a bydd pobl Cymru yn ddiolchgar nad yw ei blaid mewn grym yng Nghymru.	Senedd.tv Fideo Video
13:39	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	I call on the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.	Galwaf ar arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.	Senedd.tv Fideo Video
13:39	Leanne Wood Bywgraffiad Biography <i>Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru</i>	First Minister, I was told in a public meeting in the Rhondda recently that if there was no consensus across the south Wales programme area—and clearly there is none—then the final decision on hospital services will be made by Welsh Ministers. Eight of your Cabinet Members represent south Wales constituencies that are within the programme area. Given the interests of so many members of your Cabinet, including yourself, if there is no consensus across the south Wales programme area, can you tell us who will make the final decision?	Brif Weinidog, fe'm hysbyswyd mewn cyfarfod cyhoeddus yn y Rhondda yn ddiweddar, pe na byddai consensws ar draws ardal rhaglen de Cymru—ac mae'n amlwg nad oes—yna bydd y penderfyniad terfynol ar wasanaethau ysbty yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru. Mae wyth o Aelodau eich Cabinet yn cynrychioli etholaethau yn ne Cymru sydd o fewn ardal y rhaglen. O ystyried buddiannau cymaint o aelodau eich Cabinet, gan gynnwys chi eich hun, os nad oes consensws ar draws ardal rhaglen de Cymru, a allwch chi ddweud wrthym pwy fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol?	Senedd.tv Fideo Video
13:39	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i>	When and if such a referral is made, a decision will then be made as to who takes the final decision. It will, of course, be a Minister who is sufficiently detached from any interest in the programme itself.	Pan gaiff atgyfeiriad o'r fath ei wneud ac os caiff ei wneud, bydd penderfyniad yn cael ei wneud wedyn o ran pwy fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Fe fydd, wrth gwrs, yn Weinidog sydd â digon o bellter oddi wrth unrhyw fuddiant yn y rhaglen ei hun.	Senedd.tv Fideo Video
13:40	Leanne Wood Bywgraffiad Biography	First Minister, the consultation on the south Wales programme ends in July, just as the Assembly goes into recess, as it happens. It is of great interest to hundreds of thousands of people across Wales. There is a democratic deficit in the policies of your Government that affect the majority of our population, if those proposals cannot be properly scrutinised in this National Assembly. Once the health boards have announced their decision in the autumn, will you commit to tabling a Government motion to discuss the south Wales programme, and also that there will be a vote on that decision?	Brif Weinidog, mae'r ymgynghoriad ar raglen de Cymru yn dod i ben ym mis Gorffennaf, ar yr union bryd y mae'r Cynulliad yn mynd i doriad, fel mae'n digwydd. Mae o ddiddordeb mawr i gannoedd o filoedd o bobl ledled Cymru. Ceir diffyg democrataidd ym mhollisiau eich Llywodraeth sy'n effeithio ar fwyafrif ein poblogaeth, os na ellir craffu'n briodol ar y cynigion hynny yn y Cynulliad Cenedlaethol. Ar ôl i'r byrddau iechyd gyhoeddi eu penderfyniad yn yr hydref, a wnewch chi ymrwymo i gyflwyno cynnig gan y Llywodraeth i drafod rhaglen de Cymru, ac y bydd pleidlais ar y penderfyniad hwnnw hefyd?	Senedd.tv Fideo Video
13:40	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i>	That would be wholly inappropriate. It is a matter for Ministers to take the decision and Ministers are then, in turn, answerable to the Assembly. That kind of suggestion would take us back to the pre-2007 days.	Byddai hynny'n gwbl amhriodol. Mater i Weinidogion yw gwneud y penderfyniad ac mae Gweinidogion wedyn, yn eu tro, yn atebol i'r Cynulliad. Byddai'r math yna o awgrym yn mynd â ni yn ôl i'r dyddiau cyn 2007.	Senedd.tv Fideo Video

13:40

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am asking you, First Minister, to enable and ensure that there is proper scrutiny of this decision by this Assembly in this place. So far, 5,000 people have taken part in this consultation, however many of the people who have taken part have expressed to me that they think that the consultation exercise is pointless. A best-fit option has been recommended that means losing services in the Royal Glamorgan Hospital. Many people in the Rhondda and in Pontypridd believe that you are highly unlikely to allow the alternative option 4 to proceed, because that means cutting services in your local hospital. First Minister, when every other hospital in the south Wales area is represented in your Cabinet, with the exception of the Royal Glamorgan, how can you convince people that this consultation exercise is worth while?

Rwy'n gofyn i chi, Brif Weinidog, i alluogi a sicrhau bod craffu priodol ar y penderfyniad hwn gan y Cynulliad hwn yn y lle hwn. Hyd yn hyn, mae 5,000 o bobl wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn, ond mae llawer o'r bobl sydd wedi cymryd rhan wedi dweud wrthyf eu bod o'r farn bod yr ymarfer ymgynghori yn ddibwrpas. Mae opsiwn sy'n cyd-fynd orau wedi ei argymhell a fyddai'n golygu colli gwasanaethau yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae llawer o bobl yn y Rhondda ac ym Mhontypridd yn credu eich bod yn hynod annhebygol o ganiatáu i'r opsiwn 4 amgen fynd yn ei flaen, gan fod hynny'n golygu torri gwasanaethau yn eich ysbyty lleol chi. Brif Weinidog, pan fo pob ysbyty arall yn ardal de Cymru wedi ei gynrychioli yn eich Cabinet, ac eithrio Ysbyty Brenhinol Morgannwg, sut y gallwch chi argyhoeddi pobl fod yr ymarfer ymgynghori hwn yn werth chweil?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:41

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

That is an extraordinary statement. First of all, here we go—the Rhondda again. She is meant to be the leader of Plaid Cymru, but it is Plaid Rhondda once again. Secondly, nobody has questioned the consultation process, or indeed its independence. It is clinically driven, and there is no question of any Minister with any interest taking any decision in this regard. That would be wrong in law. That is well known to all Ministers who have served, either now or in the past. The consultation invites responses. It would be quite wrong for any politician to suggest that it is not worth responding to it, as the leader of Plaid Cymru is implying.

Mae hwnna'n ddatganiad rhyfeddol. Yn gyntaf oll, dyma ni'n mynd—y Rhondda eto. Mae hi i fod yn arweinydd Plaid Cymru, ond Plaid Rhondda yw hi unwaith eto. Yn ail, nid oes unrhyw un wedi cwestiynu'r broses ymgynghori nac, yn wir, ei hannibyniaeth. Fe'i cynhelir ar sail glinigol, ac ni fydd unrhyw Weinidog ag unrhyw fuddiant yn gwneud unrhyw benderfyniad yn hyn o beth. Byddai hynny'n anghywir yn ôl y gyfraith. Mae hynny'n hysbys i'r holl Weinidogion sydd wedi gwasanaethu, naill ai nawr neu yn y gorffennol. Mae'r ymgynghoriad yn gwahodd ymatebion. Byddai'n gwbl anghywir i unrhyw wleidydd awgrymu nad yw'n werth ymateb iddo, fel y mae arweinydd Plaid Cymru yn ei awgrymu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:42

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:42

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

First Minister, today the Assembly will consider historic legislation to change the system of organ donation. The committee that scrutinised that Bill made it absolutely clear that without extra critical care beds being available, there is a danger that the NHS will not have the capacity to deal with any extra donors. When will you increase the capacity of critical care beds in the NHS to ensure that the Human Transplantation (Wales) Bill is a success?

Brif Weinidog, bydd y Cynulliad yn ystyried deddfwriaeth hanesyddol heddiw i newid y system rhoi organau. Fe'i gwnaed yn gwbl eglur gan y pwyllgor a fu'n craffu ar y Bil hwnnw, bod perygl na fydd gan y GIG y gallu i ymdrin ag unrhyw roddwyr ychwanegol, heb i welyau gofal critigol ychwanegol fod ar gael. Pryd wnewch chi gynyddu capasiti gwelyau gofal critigol yn y GIG i sicrhau bod y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) yn llwyddiant?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:42

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We understand, of course, that resources will have to be committed as a result of the Bill. That is all part of the plan to take the Bill forward and its consequences in terms of resources.

Rydym yn deall, wrth gwrs, y bydd yn rhaid ymrwymo adnoddau o ganlyniad i'r Bil. Mae hynny i gyd yn rhan o'r cynllun i gyflwyno'r Bil a'i ganlyniadau o ran adnoddau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, you will be aware, I am sure—or at least I hope so—that your Minister for Health and Social Services has said that, in the short term, there will be no increase in the number of intensive and critical care beds in Wales, but that what we will have to do is to be more efficient in the use of those beds. One way to create extra capacity in critical care, if you cannot commit to extra beds, is to reduce the number of patients forced to wait to be moved into other parts of the hospital due to a lack of beds on general wards. Why are you presiding over a reduction in beds in district general hospitals, thus creating problems in intensive care units and in accident and emergency departments?

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol, rwy'n siŵr—neu rwy'n gobeithio o leiaf—bod eich Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dweud na fydd unrhyw gynnydd i nifer y gwelyau gofal dwys a chritigol yng Nghymru yn y byrdymor, ond mai'r hyn y bydd yn rhaid i ni ei wneud fydd bod yn fwy effeithlon o ran defnyddio'r gwelyau hynny. Un ffordd o greu capasiti ychwanegol mewn gofal critigol, os na allwch ymrwymo i welyau ychwanegol, yw lleihau nifer y cleifion sy'n cael eu gorfodi i aros i gael eu symud i rannau eraill o'r ysbyty oherwydd prinder gwelyau ar wardiau cyffredinol. Pam ydych chi'n goruchwyllo gostyngiad yn nifer y gwelyau mewn ysbytai cyffredinol dosbarth, gan greu problemau mewn unedau gofal dwys ac mewn adrannau damweiniau ac achosion brys?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

First of all, there are pressures in A&E that have long been identified. More and more people are using A&E; there has been a 6.8% increase year on year for the past 10 years. Local health boards will be expected, of course, to provide the appropriate number of beds to deal with that demand, even though the demand has been rather more, I have to confess, than was originally anticipated.

Yn gyntaf oll, ceir pwysau mewn adrannau damweiniau ac achosion brys sydd wedi eu nodi ers amser maith. Mae mwy a mwy o bobl yn defnyddio adrannau damweiniau ac achosion brys; bu cynnydd o 6.8% o flwyddyn i flwyddyn dros y 10 mlynedd diwethaf. Bydd disgwyl i fyrddau iechyd lleol, wrth gwrs, ddarparu'r nifer briodol o welyau i ymateb i'r galw hwnnw, er bod y galw wedi bod cryn dipyn yn fwy, mae'n rhaid i mi gyfaddef, na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, have you read the plans being put forward by your local health boards? All of them rely on a reduction in beds on hospital wards, which makes it impossible for intensive care patients to be moved back on to those wards, and makes it extremely difficult for an A&E patient to be moved up onto the wards. You might not have a grip of the situation, but the Minister for health has said that the answer to this is to reduce the number of delayed transfers of care, that is getting people out of wards and into the community. Yet the latest figures show that those figures are getting worse, despite what the Minister for health says that he intends to do about it. When are you going to get a grip of the number of people who are suffering delayed transfers of care and actually make the NHS in Wales as efficient as it possibly can be?

Brif Weinidog, a ydych chi wedi darllen y cynlluniau sy'n cael eu cynnig gan eich byrddau iechyd lleol? Mae pob un ohonynt yn dibynnu ar ostyngiad yn nifer y gwelyau ar wardiau ysbytai, sy'n ei gwneud yn amhosibl i gleifion gofal dwys gael eu symud yn ôl i'r wardiau hynny, ac yn ei gwneud yn anodd iawn i gleifion adrannau damweiniau ac achosion brys gael eu symud i fyny i'r wardiau. Efallai nad oes gennych reolaeth dros y sefyllfa, ond mae'r Gweinidog Iechyd wedi dweud mai'r ateb i hyn yw lleihau nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, sy'n cael pobl allan o wardiau ac i mewn i'r gymuned. Ac eto mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod y ffigurau hynny'n gwaethygu, er gwaethaf yr hyn mae'r Gweinidog Iechyd yn dweud ei fod yn bwriadu ei wneud am y peth. Pryd ydych chi'n mynd i gael rheolaeth dros nifer o bobl sy'n dioddef oediadau wrth drosglwyddo gofal a gwneud y GIG yng Nghymru mor effeithlon ag y gall fod?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The Minister for Health and Social Services has made his views very clear in this regard. It is right to say that there has been a great increase in demand, and that demand will have to be met. It will take a little time to meet that demand, but we have seen that our ambulance response times are improving, of course. Hopefully, we will now see the spike that we saw during the course of the winter disappearing in terms of accident and emergency. However, the first question was about the Human Transplantation (Wales) Bill. I do hope that this is not some kind of excuse not to support the Bill this afternoon. If that is the case, it would be a very weak reason not to support the Bill, and I hope that the Liberal Democrats are not in that position.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gwneud ei safbwyntiau yn eglur iawn yn hyn o beth. Mae'n iawn i ddweud y bu cynnydd mawr yn y galw, ac y bydd yn rhaid bodloni'r galw hwnnw. Bydd yn cymryd peth amser i fodloni'r galw hwnnw, ond rydym ni wedi gweld bod amseroedd ymateb ambiwlansys yn gwella, wrth gwrs. Y gobaith yw y byddwn yn gweld y cynnydd sydyn a welsom yn ystod y gaeaf yn diflannu o ran damweiniau ac achosion brys. Fodd bynnag, roedd y cwestiwn cyntaf yn ymwneud â'r Bil Trawsblannu Dynol (Cymru). Rwy'n gobeithio nad yw hwn yn rhyw fath o esgus i beidio â chefnogi'r Bil y prynhawn yma. Os yw hynny'n wir, byddai'n rheswm gwan iawn i beidio â chefnogi'r Bil, ac rwy'n gobeithio nad yw'r Democratiaid Rhyddfrydol yn y sefyllfa honno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ysgolion ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain

Twenty-first Century Schools

13:45

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain? OAQ(4)1156(FM)

3. Will the First Minister make a statement on the 21st Century Schools Programme? OAQ(4)1156(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The official start of the programme remains 2014-15, but we are already starting to support a number of early-start projects.

2014-15 yw dechrau swyddogol y rhaglen o hyd, ond rydym ni eisoes yn dechrau cefnogi nifer o brosiectau cychwyn cynnar.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, First Minister. Many people in my constituency have contacted me regarding the future of Ysgol Llanbedr near Ruthin. It is a rural school, a Church in Wales school, and it serves my constituents and the children who attend the school very well. In fact, it is at the heart of the local community. What assurances can you give to my constituents, the pupils, teachers and governors associated with that particular school that the processes that are in place in Wales will allow their voice to be heard in the decision-making process about the future of education in that area?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Mae llawer o bobl yn fy etholaeth i wedi cysylltu â mi ynglŷn â dyfodol Ysgol Llanbedr ger Rhuthun. Mae'n ysgol wledig, ysgol Eglwys yng Nghymru, ac mae'n gwasanaethu fy etholwyr a'r plant sy'n mynychu'r ysgol yn dda iawn. A dweud y gwir, mae yng nghalon y gymuned leol. Pa sicrwydd allwch chi ei roi i'm hetholwyr, y disgyblion, yr athrawon a'r llywodraethwyr sy'n gysylltiedig â'r ysgol benodol honno y bydd y prosesau sydd ar waith yng Nghymru yn caniatáu i'w llais gael ei glywed yn y broses o wneud penderfyniadau am ddyfodol addysg yn yr ardal honno?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Of course, an established process is in place. The local authority has a primary role in terms of dealing with any school within its area, and it is obliged, when taking any decisions, to consult as fully as possible. I would urge any parents at the school, of course, to do that.

Wrth gwrs, mae proses sefydledig ar waith. Mae gan yr awdurdod lleol swyddogaeth sylfaenol o ran ymdrin ag unrhyw ysgol o fewn ei ardal, ac, wrth wneud unrhyw benderfyniadau, mae'n rhaid iddo ymgynghori mor llawn â phosibl. Byddwn yn annog unrhyw rieni yn yr ysgol, wrth gwrs, i wneud hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Brif Weinidog, mae'r rhaglen yn hollbwysig os ydych yn mynd i gael dewis amgen i bobl sy'n wynebu ysgolion lleol yn cau oherwydd lleoedd gwag. Mae dewis deniadol amgen yn golygu y bydd rhieni yn fwy tebygol o gefnogi cau ysgolion. Gan fod eich Gweinidog Addysg a Sgiliau blaenorol wedi ymadael â'r Cabinet dros y mater hwn, a allwch chi gadarnhau bod polisi'r Llywodraeth ar leoedd gwag mewn ysgolion yn dal i fod yr un peth?
First Minister, the programme is crucially important if you are to have an alternative for people who are facing local school closures due to surplus school places. Having a more attractive option would mean that parents are more likely to support school closure. As your previous Minister for Education and Skills left the Cabinet over this issue, can you confirm that the Government's policy on surplus school places remains the same?

13:47 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Ydyw.
Yes, it is.

Prosiectau Twristiaeth Treftadaeth

Heritage Tourism Projects

13:47 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
4. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau twristiaeth treftadaeth yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1168(FM)
4. Will the First Minister provide an update on the heritage tourism projects in west Wales? OAQ(4)1168(FM)

13:47 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Mae'r prosiect twristiaeth treftadaeth, sydd werth £19 miliwn ac yn cael ei reoli gan Lywodraeth Cymru, yn cefnogi cynlluniau ledled gorllewin Cymru. Mae sawl prosiect wedi cael ei datblygu, megis castell Ystumllwynarth a Llys yr Esgob, Tyddewi.
The £19 million Welsh Government managed heritage tourism project supports schemes across west Wales. Several projects have already been progressed, such as Oystermouth castle and St David's Bishop's Palace.

13:47 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Bydd tref Cydweli yn fy etholaeth i, Llanelli, yn dathlu ei nawcanmlwyddiant yn 2015, pan fydd dathliadau lleol yn cynnwys arddangos hanes y dref. Mae diwylliant cryf yng Nghydweli, yn mynd yn ôl i ddyddiau'r Dywysoges Gwenllian, gyda'r castell yn dal i fod yn atyniad lleol heddiw. Yn ogystal â dathliadau ar y pryd, mae angen inni gymryd y cyfle i sicrhau etifeddiaeth a manteision tymor hir yn nhermau twristiaeth treftadaeth. Sut all Llywodraeth Cymru weithio ar y cyd â digwyddiadau o'r fath, a pha gymorth y gallwch chi ei gynnig, drwy brosiectau megis prosiect twristiaeth treftadaeth Cadw, i sicrhau bod cymunedau lleol, fel Cydweli, yn medru cynyddu llwyddiant cyn ac ar ôl y dathliad?
The town of Kidwelly in my constituency of Llanelli will be celebrating its nine hundredth anniversary in 2015, when there will be local exhibitions showing its history. Kidwelly has a strong heritage, dating back to the days of Princess Gwenllian, with the castle still being a prominent attraction today. As well as celebrations at the time, we also need to take the opportunity to ensure long-term legacy and benefits in terms of heritage tourism. How can the Welsh Government work jointly with such events, and what support can you provide, through projects such as the Cadw heritage tourism project, to ensure that local communities, such as that in Kidwelly, can increase their success before and after the celebration?

13:48 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Rwy'n gwybod bod Cadw wedi bod yn siarad â busnesau lleol er mwyn edrych ar gael mwy o gysylltiadau rhwng y castell a'r dref. Bydd Cadw hefyd yn gwneud buddsoddiad eleni o ran adrodd rhagor o stori'r castell. Felly, nod Cadw yw sicrhau bod mwy o gysylltiad rhwng y castell a busnesau er lles pawb.
I know that Cadw has been liaising with local businesses to look at getting more links between the castle and the town. Cadw will also be making investments this year in terms of bringing more of the castle's story to life. Therefore, Cadw's objective is to increase the link between the castle and local business for the benefit of all.

- 13:48 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Brif Weinidog, rwyf wedi derbyn cynrychioliadau gan etholwyr ynghylch cadw hen orsaf bad achub St Justinian, yn dilyn cynnig RNL i adeiladu un newydd yn Nhŷ Ddewi. Rwy'n deall mai'r bwriad ar gyfer yr hen orsaf yn y pen draw yw ei ail-greu yn un o'n hamgueddfeydd. Rwy'n siŵr y gallwch werthfawrogi fod yr orsaf hon yn rhan bwysig o dreftadaeth leol sir Benfro. A wnech chi ymuno â mi i gefnogi'r cynnig hynod o bwysig hwn ac a allwch chi ddweud wrthym beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn benodol i gefnogi mentrau fel hyn?
- First Minister, I have received representations from constituents about retaining the old St Justinian lifeboat station, following the RNL's proposal to build a new one in St David's. I understand that the plan for the old station eventually is to recreate it in one of our museums. I am sure that you can appreciate that this station is an important part of the local heritage of Pembrokeshire. Will you join me in supporting this extremely important proposal, and can you tell us what the Welsh Government is doing specifically to support such initiatives?
- 13:49 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Mae'n bwysig dros ben fod mentrau lleol yn cael eu cefnogi. Ynglŷn â chefnogaeth sydd ddim yn gefnogaeth gyllidol, yr ydym yn falch iawn i wneud hynny. Ond, wrth gwrs, rydym yn deall bod sir Benfro yn ardal sy'n denu lot fawr o dwristiaid. Rwy'n siŵr y byddai unrhyw beth ychwanegol a fyddai'n helpu i ddenu mwy o bobl yn rhywbeth a fyddai'n cael ei werthfawrogi gan y gymuned leol.
- It is extremely important that local initiatives are supported. In terms of non-financial support, we are very pleased to do that. However, we understand that Pembrokeshire is an area that attracts a great deal of tourists. Anything additional that helps to attract more people is something that will certainly be welcomed by the local community.
- 13:49 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Yn gyntaf, diolchaf yn fawr iawn i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth am ei pharodrwydd i ddod i'r grŵp trawsbleidiol ar dwristiaeth i drafod y strategaeth dwristiaeth gydag Aelodau a chynrychiolwyr o'r Gynghrair Twristiaeth.
- First, I thank the Minister for the Economy, Science and Transport very much for her willingness to come to the cross-party group on tourism to discuss the tourism strategy with Assembly Members and representatives from the Tourism Alliance.
- Roedd hynny'n gryn gymorth i bawb i ddeall y strategaeth honno. Yn gyffredinol, heb ofyn i chi gefnogi un prosiect yn benodol, a ydych yn derbyn bod yn rhaid i bobl sy'n ymweld â Chymru gael profiad unigryw o'r ymweliad hwnnw, ac mai hynny a fydd yn eu denu yn ôl yn y dyfodol i sir Gaerfyrddin a mannau eraill?
- That was of great assistance to everyone present to understand that strategy. Generally speaking, without asking you to support one specific project, do you accept that those people who visit Wales must have a unique experience of that visit, and that that is what will attract them back in the future to Carmarthenshire and other places?
- 13:50 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Mae hynny'n iawn—yr USP ydyw, a defnyddio'r llythrennau Saesneg. Mae'n bwysig dros ben ein bod ni yng Nghymru yn gallu gweud, 'Dewch i Gymru achos mae rhywbeth gwahanol yma', a, 'Dewch yn ôl i Gymru am fod pethau newydd i'w gweld'. Felly, rwy'n gefnogol dros ben o unrhyw beth newydd sy'n helpu i ddenu twristiaid i Gymru.
- That is right—it is the USP, to use the English acronym. It is very important that we in Wales can say, 'Come to Wales because there is something different here', and, 'Come back to Wales because there are new things to see'. Therefore, I am very supportive of anything new that helps to attract tourists to Wales.
- 13:50 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- On several occasions in recent times, I have raised the issue in the Chamber of faith tourism and its importance, particularly in south and west Wales. Will you please update us, First Minister, on the progress in developing this aspect of our tourism offer, particularly akin to what has been done successfully in Gwynedd and Conwy in developing pilgrim trails and the like?
- Rwyf wedi codi pwnc twristiaeth ffydd a'i bwysigrwydd yn y Siambr ar sawl achlysur yn ddiweddar, yn enwedig yn ne a gorllewin Cymru. A wnech chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni os gwelwch yn dda, Brif Weinidog, am y cynnydd o ran datblygu'r agwedd hon ar ein cynnig twristiaeth, yn enwedig o ran yr hyn sydd wedi ei wneud yn llwyddiannus yng Ngwynedd a Chonwy i ddatblygu llwybrau pererinion ac ati?

13:51	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I referred earlier to the heritage tourism project, and that is of course led by Cadw to develop heritage tourism across Wales, including faith tourism. Faith, of course, has been an important part of our heritage over the years. The project itself is not just about Cadw sites; it is about assisting and supporting developments at sites that are in the ownership of local authorities, heritage partners and the tourism sector. So, the project benefits the wider community and Wales's tourism industry. I foresee that within that definition of heritage projects, faith heritage projects will very much be a part.</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Cyfeiriais at y prosiect twristiaeth treftadaeth yn gynharach, ac arweinir hwnnw gan Cadw, wrth gwrs, i ddatblygu twristiaeth treftadaeth ledled Cymru, gan gynnwys twristiaeth ffydd. Mae ffydd, wrth gwrs, wedi bod yn rhan bwysig o'n treftadaeth dros y blynyddoedd. Nid yw'r prosiect ei hun yn ymwneud â safleoedd Cadw yn unig; mae'n ymwneud â chynorthwyo a chefnogi datblygiadau ar safleoedd sy'n eiddo i awdurdodau lleol, partneriaid treftadaeth a'r sector twristiaeth. Felly, mae'r prosiect o fudd i'r gymuned ehangach a diwydiant twristiaeth Cymru. Rwy'n rhagweld, o fewn y diffiniad hwnnw o brosiectau treftadaeth, y bydd prosiectau treftadaeth ffydd yn sicr yn rhan ohono.</p>
<p>Disgyblion ag Anghenion Arbennig</p>		<p>Pupils with Additional Learning Needs</p>
13:51	<p>Ann Jones Bywgraffiad Biography <i>5. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol? OAQ(4)1157(FM)</i></p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv Fideo Video</p> <p><i>5. What is the Welsh Government doing to support pupils with additional learning needs? OAQ(4)1157(FM)</i></p>
13:51	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>We are committed to meeting the needs of all pupils with additional learning needs through existing statutory duties and reform of the current special educational needs legal framework.</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Rydym wedi ymrwymo i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol trwy ddyletswyddau statudol presennol a diwygio'r fframwaith cyfreithiol cyfredol ar gyfer anghenion addysgol arbennig.</p>
13:52	<p>Ann Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you very much for that. I want to raise with you the issue of how pupils with emotional and behavioural support needs are dealt with, and how they can be supported and helped to progress. Often, this is the most difficult part for all parties to deal with in any setting. I am sure that you will agree with me that all pupils should be included in mainstream curricular activities, and other measures, such as referrals to pupil referral units and the disapplication of the national curriculum, should only be taken as the absolute last resort. For me, inclusion policies and positive reinforcement are often much more effective in addressing the needs of those with particular behavioural needs. What can your Government do to ensure that we do not actually start to segregate people from the national curriculum, or, indeed, from their peers, from whom they can learn?</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Diolch yn fawr iawn am hynna. Hoffwn godi gyda chi y mater o sut yr ymdrinnir ag anghenion cefnogaeth emosiynol ac ymddygiad disgyblion, a sut y gellir eu cefnogi a'u helpu i wella. Yn aml, dyma'r rhan anoddaf i bawb sy'n berthnasol ymdrin â hi mewn unrhyw leoliad. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno â mi y dylai pob disgybl gael ei gynnwys mewn gweithgareddau cwricwlaidd prif ffrwd, ac y dylid ond cymryd camau eraill, fel atgyfeiriadau i unedau atgyfeirio disgyblion a datgymhwyso'r cwricwlwm cenedlaethol, fel y dewis olaf un. I mi, mae polisïau cynhwysiant ac atgyfnerthu cadarnhaol yn aml yn llawer mwy effeithiol i fynd i'r afael ag anghenion y rhai sydd ag anghenion ymddygiad penodol. Beth all eich Llywodraeth ei wneud i sicrhau nad ydym yn dechrau gwahanu pobl oddi wrth y cwricwlwm cenedlaethol, neu, yn wir, oddi wrth eu cyfoedion, y gallant ddysgu oddi wrthynt?</p>
13:52	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Indeed. We are committed to ensuring that as many pupils as possible are retained in mainstream education. The main objective should be the reintegration of those pupils who are not. Pupil referral units are available as one option, but they are meant to be temporary. They are intended to provide short-term placements. So, the assumption would be that pupils should, wherever possible, remain in mainstream education.</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Yn wir. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod cymaint o ddisgyblion â phosibl yn cael eu cadw mewn addysg prif ffrwd. Y prif amcan ddylai fod ailintegreiddio'r disgyblion hynny nad ydynt. Mae unedau atgyfeirio disgyblion ar gael fel un dewis, ond mesur dros dro ydyn nhw i fod. Eu bwriad yw darparu lleoliadau byrdymor. Felly, y dybiaeth fyddai y dylai disgyblion, pan fo hynny'n bosibl, aros mewn addysg brif ffrwd.</p>

- 13:53 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, as you will be aware, there is quite a lot of discussion at the moment about how we might legislate for the assessment of learning needs. I was wondering whether, in your overarching responsibility, you have had any discussions with either health or education about deciding whether it should be a statutory requirement for a health professional to be part of the education mix when assessing whether somebody has learning needs. I am talking about a statutory requirement.
- Brif Weinidog, fel y gwyddoch, mae cryn dipyn o drafod ar hyn o bryd ynghylch sut y galleddeddfu ar gyfer asesu anghenion dysgu. Roeddwn i'n meddwl tybed a ydych chi, yn eich cyfrifoldeb cyffredinol, wedi cael unrhyw drafodaethau gyda naill ai'r adrannau iechyd neu addysg ynglŷn â phenderfynu pa un a ddylai fod yn ofyniad statudol i weithiwr iechyd proffesiynol fod yn rhan o'r gymysgedd addysg wrth asesu pa un a oes gan rywun anghenion dysgu. Rwy'n sôn am ofyniad statudol.
- 13:53 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- I have not had specific discussions on that issue, but I will raise it with the Ministers for health and education to assess their view on that possibility.
- Nid wyf wedi cael trafodaethau penodol ar y mater hwnnw, ond byddaf yn ei godi gyda'r Gweinidogion iechyd ac addysg er mwyn asesu eu barn ar y posibilrwydd hwnnw.
- 13:53 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Rydych newydd ateb Ann Jones ynglŷn â'r angen i gadw disgyblion ag anghenion arbennig yn y brif ffrwd cymaint ag sy'n bosibl. Serch hynny, mae tipyn o addysg plant o'r fath yn digwydd mewn ysgolion arbennig ac mewn ysgolion preifat. Ym mha ffordd yr ydych yn mynd i ddefnyddio'r Bil addysg newydd, sy'n gwneud darpariaeth yn hyn o beth, i sicrhau bod cysondeb rhwng y gwahanol sectorau, fel y caiff unrhyw blentyn ag anghenion arbennig yng Nghymru yr un cwricwlwm a'r un gefnogaeth, ble bynnag y bo'r 'setting' y mae'n cael ei addysgu ynddo?
- You have just responded to a question from Ann Jones about the need to keep pupils with special educational needs in the main stream as much as possible. However, a lot of the teaching of these children happens in special schools and private schools. How will you use the new education Bill, which makes provision in this area, in order to ensure that there is consistency between the various sectors, so that any child with special needs in Wales is taught the same curriculum and is given the same support whatever the setting of their teaching?
- 13:54 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Mae hynny'n rhywbeth y gellir ei ystyried yn ystod y Bil ei hun. Rwy'n deall y pwynt sy'n cael ei wneud, sef bod yn rhaid wrth ryw fath o gysondeb er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael yr un profiad drwy Gymru gyfan.
- That is something that can be considered while considering the Bill. I understand the point that is being made, that we have to have some kind of consistency in order to ensure that pupils have the same experience across Wales.
- 13:54 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Brif Weinidog, cyhoeddodd eich Llywodraeth adroddiad gan Brifysgol Caeredin yr wythnos diwethaf sy'n sôn am y plant sy'n cael eu gwahardd, dros hanner ohonynt ag anghenion arbennig. Ers 2009, nid oes raid i awdurdodau lleol gofrestru'r plant hynny sydd mewn 'pupil referral units'. Mae nifer o argymhellion yn yr adroddiad. A fyddwch chi fel Llywodraeth yn barod i ystyried yr argymhellion hynny, gan gynnwys, hwyrach, adolygiad o'r polisi a gyflwynwyd yn 2009?
- First Minister, your Government published a report by Edinburgh University last week that discusses those children who are excluded—more than half of them have special needs. Since 2009, local authorities do not have to register those children who are in pupil referral units. In that report, there are a number of recommendations. Will you as a Government be willing to consider those recommendations, including, perhaps, a review of the policy introduced in 2009?
- 13:55 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn ystyried yr argymhellion sydd wedi dod o'r adroddiad hwnnw er mwyn gweld a ydynt yn berthnasol i addysg yng Nghymru. Rydym yn barod, wrth gwrs, i dderbyn unrhyw argymhellion sy'n gwella'r system addysg yng Nghymru ei hun.
- I am sure that the Minister will consider the recommendations that have come from that report to see whether they are relevant to education in Wales. We are prepared, of course, to accept any recommendations that improve the education system in Wales in its entirety.

Model Pwerau a Gedwir yn Ôl

Reserved-powers Model

13:55	Mike Hedges Bywgraffiad Biography <i>6. Pa drafodaethau diweddar y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch model pwerau a gedwir yn ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru? OAQ(4)1159(FM)</i>	<i>6. What recent discussions has the First Minister had with the Secretary of State for Wales regarding a reserved powers model for the National Assembly for Wales? OAQ(4)1159(FM)</i>	Senedd.tv Fideo Video
13:55	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> None.	Dim.	Senedd.tv Fideo Video
13:55	Mike Hedges Bywgraffiad Biography That was quick. Thank you, First Minister. First of all, I thank you for your support last week in the debate on the reserved-powers model. Will you continue to press for the reserved-powers model for the National Assembly for Wales to put us in line with both Scotland and Northern Ireland?	Roedd hynna'n gyflym. Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Yn gyntaf oll, diolchaf i chi am eich cefnogaeth yr wythnos diwethaf yn y drafodaeth ar y model pwerau a gedwir yn ôl. A wnech chi barhau i bwysu am y model pwerau a gadwyd yn ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau ein bod yn yr un sefyllfa â'r Alban a Gogledd Iwerddon?	Senedd.tv Fideo Video
13:56	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> I will. I do not believe that we should be a second-class nation with a second-class devolution settlement. We should have equality with Scotland and Northern Ireland in terms of the structure of devolution in Wales.	Gwnaf. Nid wyf yn credu y dylem fod yn genedl ail-ddosbarth gyda setliad datganoli ail-ddosbarth. Dylem gael cydraddoldeb â'r Alban a Gogledd Iwerddon o ran strwythur datganoli yng Nghymru.	Senedd.tv Fideo Video
13:56	Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography First Minister, obviously, we have a piece of legislation coming before us today—the Agricultural Sector (Wales) Bill. You have various discussions with the Secretary of State, so, are you confident that this Bill that will be presented—given the short time of scrutiny that we will have—will be in the Assembly's competence?	Brif Weinidog, mae gennym, yn amlwg, ddarn o ddeddfwriaeth sy'n dod ger ein bron heddiw—Bil Sector Amaethyddol (Cymru). Rydych chi'n cael amryw o drafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, felly, a ydych chi'n hyderus y bydd y Bil hwn a fydd yn cael ei gyflwyno—o ystyried y cyfnod byr o graffu y bydd gennym ni—o fewn cymhwysedd y Cynulliad?	Senedd.tv Fideo Video
13:56	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> That is our view. If it were not in competence it would not be appearing before the Assembly in the first place.	Dyna yw ein barn. Pe na byddai gennym gymhwysedd, ni fyddai'n ymddangos gerbron y Cynulliad yn y lle cyntaf.	Senedd.tv Fideo Video
13:56	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography I think that it is my decision to decide whether it is in the Assembly's competence.	Rwy'n credu mai fy mhenderfyniad i yw penderfynu pa un a yw o fewn cymhwysedd y Cynulliad.	Senedd.tv Fideo Video
13:56	Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography Thank goodness for that, Presiding Officer. [Laughter]. A yw'r Prif Weinidog yn credu bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn deall cyfansoddiad y Deyrnas Unedig neu ddatganoli a'i fod yn ceisio defnyddio'i swydd nid i hyrwyddo'r berthynas rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig a chydraddoldeb rhwng y gwledydd, ond er mwyn atal rhaigor o ddatganoli?	Diolch byth am hynny, Lywydd. [Chwerthin]. Does the First Minister believe that the Secretary of State for Wales understands the constitution of the United Kingdom or devolution, and that he is attempting to use his position not to promote the relationship between Wales and the rest of the UK and equality between the nations of the UK, but to prevent further devolution?	Senedd.tv Fideo Video

13:57	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Rwy'n credu ei fod yn deall y cyfansoddiad. Nid wyf yn credu ei fod yn cydymdeimlo â'r sefyllfa yma yng Nghymru. Wrth ddarllen beth ddywedodd yr wythnos diwethaf, roedd yn siarad fel rhywun oedd eisiau troi'r cloc yn ôl i'r dyddiau cyn datganoli. Mae pethau wedi newid. Mae pobl Cymru wedi dweud ddwywaith nawr beth y maen nhw eisiau ei weld. Wrth gwrs, mae'n bwysig dros ben ein bod yn gweld comisiwn Silk nawr yn dod. Rydym wedi sôn, wrth gwrs, am 'Waiting for Godot', sef drama yn yr iaith Saesneg; nawr, rydym yn sôn am 'Waiting for Silk'.</p>	<p>I think that he understands the constitution, but I do not think that he sympathises with the situation in Wales. In reading what he said last week, he was talking like somebody who wanted to turn the clock back to the days before devolution. Things have changed. The people of Wales have said on two occasions what they want to see. Of course, it is important that we see the Silk commission being implemented. We talk of 'Waiting for Godot', which is an English-language play; now, we talk of 'Waiting for Silk'.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Buddsoddiad Economaidd yng Ngogledd Cymru</p>		<p>Economic Investment in North Wales</p>	
13:57	<p>Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography <i>7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fuddsoddiad economaidd Llywodraeth Cymru yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)1166(FM)</i></p>	<p><i>7. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's economic investment in North Wales? OAQ(4)1166(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:57	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Yes. We are continuing our efforts to support the economy and economic investment in all parts of Wales by encouraging jobs and growth, including, of course, enterprise zones in north Wales.</p>	<p>Gwnaf. Rydym yn parhau â'n hymdrechion i gefnogi'r economi a buddsoddiad economaidd ym mhob rhan o Gymru trwy annog swyddi a thwf, gan gynnwys, wrth gwrs, ardaloedd menter yng ngogledd Cymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:57	<p>Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography</p> <p>First Minister, I am interested to hear that. I was always taught that actions speak louder than words. Turning to the Wales economic growth fund in 2012, nearly £11.5 million was allocated to businesses in south Wales, with less than £2 million allocated across the whole of north Wales, meaning that, on average, a business in south Wales received £51,000 more than a business in north Wales. What is your explanation for your Government's actions in relation to that, First Minister?</p>	<p>Brif Weinidog, mae'n ddiddorol i mi glywed hynny. Fe'm haddysgwyd erioed bod gwneud yn well na dweud. Gan droi at gronfa twf economaidd Cymru yn 2012, dyrannwyd bron i £11.5 miliwn i fusnesau yn ne Cymru, a dyrannwyd llai na £2 filiwn ledled gogledd Cymru gyfan, sy'n golygu, ar gyfartaledd, bod busnes yn ne Cymru yn derbyn £51,000 yn fwy na busnes yng ngogledd Cymru. Beth yw eich esboniad o ran gweithredoedd eich Llywodraeth yn hynny o beth, Brif Weinidog?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:58	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>The Welsh Government approved 23 projects across the north, through the Wales economic growth fund, and committed in excess of £7.5 million. So, I do not know where she gets those figures from. The final decision to proceed, of course, with any potential investment is made by the individual company and not by the Welsh Government.</p>	<p>Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru 23 o brosiectau ledled y gogledd, trwy gronfa twf economaidd Cymru, ac ymrwymodd dros £7.5 miliwn. Felly, nid wyf yn gwybod o ble mae'n cael y ffigurau hynny. Gwneir y penderfyniad terfynol i fwrw ymlaen gydag unrhyw fuddsoddiad posibl, wrth gwrs, gan y cwmni unigol ac nid gan Lywodraeth Cymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:58	<p>Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>Dyma gwestiwn hawdd, Brif Weinidog: a fydddech yn cytuno bod y buddsoddiad i wella'r A470 i'r de a'r gogledd o Ddolgellau a ffordd osgoi Porthmadog a wnaed, neu a ddechreuwyd, o dan Lywodraeth Cymru'n Un, a'r bwriad i adeiladu ffordd osgoi i Bontnewydd a Chaernarfon, yn gyfraniad pwysig i economi'r ardal, ac a wnewch chi sicrhau bod eich Llywodraeth yn gofalu bod yr amserlen ar gyfer y ffordd newydd yn cael ei pharchu?</p>	<p>This is an easy question, First Minister: would you agree that the investment to improve the A470 both north and south of Dolgellau and the Porthmadog bypass that was commenced under the One Wales Government, and the intention to build a bypass for Bontnewydd and Caernarfon, are important contributions to the economy of the area, and will you ensure that your Government will ensure that the timetable for the new road is respected?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

13:59 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Wrth gwrs, mae hynny'n rhywbeth yr ydym mo'yn ei wneud. Rydym wedi gweld y budd sydd wedi dod i bobl sy'n teithio ar yr A470 o ganlyniad i'r gwelliannau sydd wedi cael eu gwneud dros y blynyddoedd. Wrth ddeall, wrth gwrs, mai hon yw'r brif heol rhwng y de a'r gogledd, rydym wastad yn awyddus i wella'r heol pan mae arian ar gael.

Of course, that is something that we want to do. We have seen the benefit that has been given to the people who travel on the A470 as a result of the improvements that have been made over the years. Of course, in understanding that this is the main road between the south and the north, we are always eager to improve that road when money is available.

Protocolau Diogelu

Safeguarding Protocols

13:59 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
8. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod digon o brotocolau diogelu ar waith ar gyfer plant ac oedolion agored i niwed? OAQ(4)1161(FM)

8. Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's plans for ensuring sufficient safeguarding protocols are in place for children and vulnerable adults? OAQ(4)1161(FM)

13:59 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
We have issued statutory guidance on how agencies should work together to safeguard children and adults at risk. That guidance is underpinned by all-Wales procedures and protocols that help guide the day-to-day actions of practitioners.

Rydym ni wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar sut y dylai asiantaethau weithio gyda'i gilydd i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl. Mae gweithdrefnau a phrotocolau Cymru gyfan sy'n helpu i lywio gweithredoedd ymarferwyr o ddydd i ddydd yn sail i'r canllawiau hynny.

14:00 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I wondered if you would consider reviewing how we might best protect children and vulnerable adults here in Wales, because I know that some of the home nations are looking at their own systems of enhanced CRB checks. I ask this for two specific reasons. First, there is now a system whereby, if you are going to deal with a vulnerable adult, you can get a CRB check done in 48 hours. I do not think that that is sufficiently long to ensure that a vulnerable adult has the protection that they require. This is from the UK statute, for England and Wales. Secondly, it is not always necessary for even a teacher to have an enhanced CRB check, or a disclosure and barring service check, as it is now known, looking at the list of barred people. You can have an enhanced CRB check, but not the ultimate one, which says whether you have ever been reported before. This is an area that Wales could look at, and could be another first for us.

Roeddwn i'n meddwl tybed a fydddech chi'n ystyried adolygu sut y gallem amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed orau yma yng Nghymru, gan fy mod yn gwybod bod rhai o'r gwledydd cartref yn edrych ar eu systemau eu hunain o archwiliadau manwl gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Rwy'n gofyn hyn am ddau reswm penodol. Yn gyntaf, ceir system erbyn hyn sy'n golygu y gallwch gael archwiliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol mewn 48 awr os ydych chi'n mynd i ymdrin ag oedolyn sy'n agored i niwed. Nid wyf yn credu bod hynny'n ddigon hir i sicrhau bod oedolyn sy'n agored i niwed yn cael y diogelwch sydd ei angen arno. Daw hyn o statud y DU, ar gyfer Cymru a Lloegr. Yn ail, nid yw bob amser yn angenrheidiol i hyd yn oed athro neu athrawes gael archwiliad manwl gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol, nac archwiliad gwasanaeth datgelu a gwahardd fel y'i gelwir erbyn hyn, i edrych ar y rhestr o bobl sydd wedi'u gwahardd. Gallwch gael archwiliad manwl gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol, ond nid y prif archwiliad, sy'n nodi pa un a hysbyswyd amdanoch erioed o'r blaen. Mae hwn yn faes y gallai Cymru ei ystyried, a gallai fod yn gyntaf arall i ni.

14:01	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>It is an interesting point. More generally, the Social Services and Wellbeing (Wales) Bill does look at introducing the national safeguarding board, which will advise members on the adequacy of existing arrangements, support effective co-operation and drive up standards. It will also introduce a new footprint for safeguarding children boards and safeguarding adult boards. There are plans afoot in the social services Bill to move forward with the agenda on safeguarding, and any particular issues, such as the one the Member has raised, will need to be looked at very carefully.</p>	<p>Mae'n bwynt diddorol. Yn fwy cyffredinol, mae'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn edrych ar gyflwyno'r bwrdd diogelu cenedlaethol, a fydd yn cynghori aelodau ar addasrwydd trefniadau presennol, yn cefnogi cydweithio effeithiol ac yn gwella safonau. Bydd hefyd yn cyflwyno ôl-troed newydd ar gyfer byrddau diogelu plant a byrddau diogelu oedolion. Mae cynlluniau ar y gweill yn y Bil gwasanaethau cymdeithasol i symud ymlaen â'r agenda ar ddiogelu, a bydd angen edrych yn ofalus iawn ar unrhyw faterion penodol, fel yr un y mae'r Aelod wedi ei godi.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:01	<p>Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Having looked at child protection protocols, it seems that an area that could be strengthened in terms of awareness raising among professionals is young children and their sexual cultures. The cross-party group is looking at this, and it may be worthwhile exploring how we work with children and young people on the pressures that they face. Is this something that your Government could support?</p>	<p>Ar ôl edrych ar brotocolau amddiffyn plant, mae'n ymddangos mai un maes y gellid ei gryfhau o ran codi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol yw plant ifanc a'u diwyllianau rhywiol. Mae'r grŵp trawsbleidiol yn edrych ar hyn, ac efallai y byddai gwerth mewn ystyried sut yr ydym ni'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ar y pwysau maen nhw'n ei wynebu. A yw hyn yn rhywbeth y gallai eich Llywodraeth ei gefnogi?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:02	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Once again, that is something that can be looked at, either during the course of the Bill, as it passes, or in other ways. We are keen to make sure that we provide as much support and safeguarding for children and adults alike.</p>	<p>Unwaith eto, mae hynny'n rhywbeth y gellir edrych arno, naill ai yn ystod datblygiad y Bil, wrth iddo gael ei gymeradwyo, neu mewn ffyrdd eraill. Rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn darparu cymaint o gefnogaeth a mesurau diogelwch â phosibl i blant ac oedolion fel ei gilydd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:02	<p>Kirsty Williams Bywgraffiad Biography</p> <p>As currently drafted, the Social Services and Wellbeing (Wales) Bill omits a definition of neglect and corporate accountability for abuse and neglect. Given concerns being raised with Assembly Members about these omissions, will the Government look again at the suitability of the current provisions within that Bill with a view to bringing forward amendments to ensure that our safeguarding rules and laws are as strong as they possibly can be?</p>	<p>Fel y mae wedi ei ddrafftio ar hyn o bryd, nid yw'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn cynnwys diffiniad o esgeulustod ac atebolrwydd corfforaethol am gam-drin ac esgeulustod. O ystyried y pryderon sy'n cael eu codi gydag Aelodau'r Cynulliad am y bylchau hyn, a wnaiff y Llywodraeth edrych eto ar addasrwydd y darpariaethau presennol yn y Bil hwnnw gyda'r nod o gyflwyno diwygiadau i sicrhau bod ein rheolau a'n deddfau diogelu mor gryf ag y gallant fod?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:02	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>We are always open to amendments that will improve legislation. I am sure that there will be a number of amendments during the course of the Bill's passage.</p>	<p>Rydym ni bob amser yn agored i ddiwygiadau a fydd yn gwella deddfwriaeth. Rwy'n siŵr y bydd nifer o ddiwygiadau yn ystod datblygiad y Bil.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Cefnogi Gwasanaethau Iechyd</p>		<p>Supporting Health Services</p>	
14:03	<p>Nick Ramsay Bywgraffiad Biography</p> <p><i>9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei bolisiâu ar gyfer cefnogi gwasanaethau iechyd? OAQ(4)1164(FM)</i></p>	<p><i>9. Will the First Minister make a statement on his policies for supporting health services? OAQ(4)1164(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:03	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Yes. Our priorities are set out in our programme for government and 'Together for Health'.</p>	<p>Gwnaf. Mae ein blaenoriaethau wedi eu nodi yn ein rhaglen ar gyfer llywodraethu a 'Law yn Llaw at Iechyd'.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:03

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister, for that answer. Up until now, with regard to the proposed reconfiguration of health services, the Gwent area has appeared to be the sole part of Wales where your Government's health plans have not been met with absolute disdain. However, not content with this positive situation, there are now rumblings in my constituency that Nevill Hall Hospital is to face a degree of downgrading, with accident and emergency becoming a minor injuries unit—never part of the original consultation, and never agreed. Would you agree that your Welsh Government's failure to protect the health service budget in real terms in Wales is helping to fuel these anxieties?

Diolch i chi, Brif Weinidog, am yr ateb yna. Hyd yma, o ran yr ad-drefnu arfaethedig o wasanaethau iechyd, mae'n ymddangos mai ardal Gwent yw'r unig ran o Gymru lle na chafwyd ymateb cwbl ddirmygus i gynlluniau iechyd eich Llywodraeth. Fodd bynnag, heb fod yn fodlon â'r sefyllfa gadarnhaol hon, ceir sion yn fy etholaeth bellach bod Ysbyty Nevill Hall yn wynebu rhywfaint o israddio, wrth i'r adran damweiniau ac achosion brys droi'n uned mân anafiadau—nad oedd erioed yn rhan o'r ymgynghoriad gwreiddiol, ac na chytunwyd arno erioed. A fydddech chi'n cytuno bod methiant eich Llywodraeth Cymru i ddiogelu cyllideb y gwasanaeth iechyd mewn termau real yng Nghymru yn helpu i fwydo'r pryderon hyn?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:03

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Not in the slightest. Here we go again. How many times are they going to fall into this trap? To start with—let us remind ourselves—they said that there was a £500 million deficit in funding. Then we came back from Whitsun and it was £800 million. Then it was £814 million, confirmed by the Research Service. Then it was £812 million. Then it was £534 million, according to Byron Davies in the 'Glamorgan Gazette'. [Interruption.] Darren Millar does not specify a figure, sensibly, I think. Then we came back here and it was £800 million again from the leader of the opposition. [Interruption.] The reality of the situation is that we in Wales have protected our health service despite the cuts that have come from his party in London. We are standing by our NHS even as his party wants to see it crumble.

Dim o gwbl. Dyma ni'n mynd unwaith eto. Sawl gwaith maen nhw'n mynd i syrthio i'r trap hwn? I ddechrau—gadewch i ni atgoffa ein hunain—nodwyd ganddynt fod diffyg o £500 miliwn mewn cyllid. Yna, daethom yn ôl ar ôl y Sulgwyn ac roedd yn £800 miliwn. Yna, roedd yn £814 miliwn, wedi ei gadarnhau gan y Gwasanaeth Ymchwil. Yna, roedd yn £812 miliwn. Yna, roedd yn £ 534 miliwn, yn ôl Byron Davies yn y 'Glamorgan Gazette'. [Torri ar draws.] Nid yw Darren Millar yn nodi ffigur penodol, yn synhwyrol, rwy'n meddwl. Yna, daethom yn ôl yma ac roedd yn £800 miliwn eto gan arweinydd yr wrthblaid. [Torri ar draws.] Y gwirionedd am y sefyllfa yw ein bod ni yng Nghymru wedi amddiffyn ein gwasanaeth iechyd er gwaethaf y toriadau sydd wedi dod gan ei blaid ef yn Llundain. Rydym yn cefnogi ein GIG hyd yn oes os yw ei blaid ef yn dymuno ei weld yn chwalu.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:04

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Would the First Minister agree that Wales has played a key role in supporting treatment for breast cancer, which has resulted in new guidelines from the National Institute for Health and Care Excellence, which say that the NHS should offer healthy women with increased risk of developing breast cancer Tamoxifen or raloxifene for five years, as these drugs can cut the risk of developing the disease by about 40%?

A fyddai'r Prif Weinidog yn cytuno bod Cymru wedi cyflawni swyddogaeth allweddol o ran cefnogi triniaeth ar gyfer canser y fron, sydd wedi arwain at ganllawiau newydd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Gofal, sy'n dweud y dylai'r GIG gynnig Tamoxifen neu ralocsiffen i fenywod iach sydd mewn mwy o berygl o ddatblygu canser y fron am bum mlynedd, gan y gall y cyffuriau hyn leihau'r perygl o ddatblygu'r clefyd o tua 40%?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:05

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes, indeed, and we are pleased with the results that we have seen as a result of that. It is important that, where there are effective treatments, they are made available as soon as possible, particularly to those at risk of breast cancer. We know that there are effective treatments that can be made available in that way. It shows that the Welsh health service is delivering. It shows that, as far as breast cancer patients are concerned, they can expect hope where once there was very little.

Byddwn, yn wir, ac rydym ni'n falch o'r canlyniadau yr ydym ni wedi eu gweld o ganlyniad i hynny. Mae'n bwysig, lle ceir triniaethau effeithiol, eu bod yn cael eu rhoi ar gael cyn gynted â phosibl, yn enwedig i'r rhai sydd mewn perygl o gael canser y fron. Rydym yn gwybod bod triniaethau effeithiol y gellir eu rhoi ar gael yn y ffordd honno. Mae'n dangos bod gwasanaeth iechyd Cymru yn cyflawni. Mae'n dangos, cyn belled ag y mae cleifion canser y fron yn y cwestiwn, y gallant ddisgwyl gobaith lle'r oedd ychydig iawn cynt.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Targedau Allweddol ym Maes Iechyd

Key Targets for Health

14:05	<p>Russell George Bywgraffiad Biography</p> <p><i>10. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yng nghyswllt y targedau allweddol ym maes iechyd a nodwyd yn y Rhaglen Lywodraethu? OAQ(4)1160(FM)</i></p>	<p><i>10. Will the First Minister provide an update on progress against key targets for health set out in the Programme for Government? OAQ(4)1160(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:05	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Yes. On 4 June, I published the annual report, and that sets out the progress against that key commitment.</p>	<p>Gwnaf. Ar 4 Mehefin, cyhoeddais yr adroddiad blynyddol, ac mae hwnnw'n nodi'r cynnydd o ran yr ymrwymiad allweddol hwnnw.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:05	<p>Russell George Bywgraffiad Biography</p> <p>I do not want you to pass the buck on to local health boards on this issue. You stated in your programme for government that you would improve access to dentists where there are localised problems. In a letter to me last July, you admitted that there were still difficulties in some areas of Powys for members of the public to be able to access an NHS dentist. A year on, those difficulties remain, and I cannot see any performance management of this issue in your progress report. What is your Government doing to achieve its objectives, and how is performance and progress being measured and assessed?</p>	<p>Nid wyf eisiau i chi daflu'r baich ar fyrdau iechyd lleol o ran y mater hwn. Nodwyd gennych yn eich rhaglen ar gyfer llywodraethu y byddech yn gwella mynediad at ddeintyddion lle ceir problemau lleol. Mewn llythyr i mi fis Gorffennaf diwethaf, cyfaddefwyd gennych fod anawsterau yn parhau mewn rhai ardaloedd o Bowys i aelodau'r cyhoedd allu cael mynediad at ddeintydd y GIG. Flwyddyn yn ddiweddarach, mae'r anawsterau hynny'n parhau, ac ni allaf weld unrhyw reoli perfformiad ar y mater hwn yn eich adroddiad o gynnydd. Beth mae eich Llywodraeth yn ei wneud i fodloni ei hamcanion, a sut mae perfformiad a chynnydd yn cael eu mesur a'u hasesu?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:06	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I can only refer the Member to the number of people who are now receiving treatment from NHS dentists, which has increased remarkably in the past five or six years. We are in a situation now where 1,360 NHS dentists carried out treatment in the course of 2011-12. That is a substantial improvement on previous years. The community dental surgeries also saw around 71,000 patients in the year up to 31 March 2012. So, the situation has much improved, and the Welsh health survey shows that 70% of adults reported that they had used a dentist in the past 12 months.</p>	<p>Gallaf ond cyfeirio'r Aelod at y nifer o bobl sy'n derbyn triniaeth gan ddeintyddion y GIG bellach, sydd wedi cynyddu'n rhyfeddol yn ystod y pump neu chwe blynedd diwethaf. Rydym ni mewn sefyllfa erbyn lle y darparwyd triniaeth gan 1,360 o ddeintyddion y GIG yn ystod 2011-12. Mae hynny'n welliant sylweddol ar y blynyddoedd blaenorol. Gwelodd y meddygfeydd deintyddol cymunedol tua 71,000 o gleifion yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012 hefyd. Felly, mae'r sefyllfa wedi gwella'n sylweddol, ac mae arolwg iechyd Cymru yn dangos bod 70% o oedolion wedi dweud eu bod wedi defnyddio deintydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:07	<p>Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography</p> <p>I want to ask you about your target for reducing the number of people in Wales who smoke. It is a commendable target, but I would like to see it a bit lower. We all know that the number of people who smoke in Wales is now plateauing, at about 22%. However, in the lower socioeconomic class, there is an increase, and I find that alarming. Are you able to give us an indication of any additional assistance that you can give to people in the lower socioeconomic class to help them to kick this addiction?</p>	<p>Rwyf eisiau eich holi am eich targed ar gyfer lleihau nifer y bobl yng Nghymru sy'n ysmegu. Mae'n darged i'w gymeradwyo, ond hoffwn ei weld ychydig yn is. Rydym i gyd yn gwybod bod nifer y bobl sy'n ysmegu yng Nghymru yn lefelu bellach, ar ganran o tua 22%. Fodd bynnag, yn y dosbarth economaidd-gymdeithasol is, ceir cynnydd, ac mae hynny'n peri pryder i mi. A allwch chi roi syniad i ni am unrhyw gymorth ychwanegol y gallwch chi ei roi i bobl yn y dosbarth economaidd-gymdeithasol is er mwyn eu helpu i gael gwared ar y caethiwed hwn?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:07	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>We have the tobacco control action plan, which we have moved forward. We have also lobbied the UK Government on legislation on plain packaging, which has not been taken forward, as yet. The Member will be aware of what we have said with regard to smoking in cars where there are children present, reserving the position in terms of legislation, should a campaign of education not work.</p>	<p>Mae'r cynllun gweithredu ar reoli tybaco gennym, yr ydym ni wedi bwrw ymlaen ag ef. Rydym hefyd wedi lobio Llywodraeth y DU ar ddeddfwriaeth ar becynnu plaen, na fwriwyd ymlaen ag ef, hyd yn hyn. Bydd yr Aelod yn ymwybodol o'r hyn yr ydym ni wedi ei ddweud am ysmegu mewn ceir pan fydd plant yn bresennol, gan gadw'n ôl sefyllfa deddfwriaeth, os na fydd ymgyrch addysg yn gweithio.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Rhanbarth Dinesig Bae Abertawe		Swansea Bay City Region	
14:08	<p>Julie James Bywgraffiad Biography <i>11. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu Rhanbarth Dinesig Bae Abertawe? OAQ(4)1163(FM)</i></p>	<p><i>11. Will the First Minister outline what the Welsh Government is doing to promote the Swansea Bay City Region? OAQ(4)1163(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:08	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Yes. A task and finish group has been established for the region. The group has reported back with its early views. It has reported widespread support across the region for its work.</p>	<p>Gwnaf. Mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi ei sefydlu ar gyfer y rhanbarth. Mae'r grŵp wedi adrodd yn ôl gyda'i safbwyntiau cynnar. Mae wedi nodi cefnogaeth eang i'w waith ledled y rhanbarth.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:08	<p>Julie James Bywgraffiad Biography</p> <p>I am sure that you welcome the success of Swansea bay, being the only Welsh region to reach the short list for the City of Culture 2017. Recent research by the Local Government Association shows that for every £1 invested in cultural and artistic endeavours, £4 is returned to the economy. That means that the bid is a great chance to boost the economy in Swansea bay and Wales, based on our rich cultural and artistic heritage. Will you welcome Swansea bay's achievement in reaching the last four in the City of Culture bid, and back the bid for it to be the City of Culture 2017?</p>	<p>Rwy'n siŵr eich bod yn croesawu llwyddiant bae Abertawe, fel yr unig ranbarth yng Nghymru i gael ei chynnwys ar y rhestr fer ar gyfer Dinas Diwylliant 2017. Mae gwaith ymchwil diweddar gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn dangos, o bob £1 a fuddsoddir mewn ymdrechion diwylliannol a chelfyddydol, y dychwelir £4 i'r economi. Mae hynny'n golygu bod y cais yn gyfle gwych i roi hwb i'r economi ym mae Abertawe a Chymru, yn seiliedig ar ein treftadaeth ddiwylliannol a chelfyddydol gyfoethog. A wnewch chi groesawu llwyddiant bae Abertawe o ran cyrraedd y pedwar olaf yn y cais i fod yn Ddinas Diwylliant, a chefnogi'r cais iddi fod yn Ddinas Diwylliant 2017?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:09	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Of course, we would like to see a Welsh city get this accolade. Swansea bay is well placed for that. We have the Dylan Thomas centenary next year. As a Government, we would be pleased to see it succeed.</p>	<p>Wrth gwrs, byddem yn hoffi gweld dinas yng Nghymru yn cael yr anrhydedd hon. Mae bae Abertawe mewn sefyllfa dda i sicrhau hynny. Mae canmlwyddiant Dylan Thomas gennym y flwyddyn nesaf. Fel Llywodraeth, byddem yn falch o weld llwyddiant yn hyn o beth.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:09	<p>Byron Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>What action has your Government taken to protect and enhance the assets of city regions? I am thinking in particular about tourism within the Swansea bay city region. The region has Gower at its heart, and as you know, it was the first area designated as being of outstanding natural beauty in the UK. That is an asset in promoting the region, and would lend itself easily to any Welsh Government or local authority campaign. What are you doing specifically as a Government to capitalise on the profile of Gower and to promote the area as a key destination in Wales and to drive the city region concept in terms of tourism?</p>	<p>Pa gamau mae eich Llywodraeth wedi eu cymryd i ddiogelu a gwella asedau rhanbarthau dinas? Rwy'n meddwl yn benodol am dwristiaeth yn rhanbarth dinas bae Abertawe. Mae Gŵyr yn ganolog i'r rhanbarth, ac fel y gwyddoch, hon oedd yr ardal gyntaf yn y DU i gael ei dynodi fel bod o harddwch naturiol eithriadol. Mae hynny'n ased wrth hyrwyddo'r rhanbarth, a byddai'n cynnig ei hun yn rhwydd i unrhyw ymgyrch gan Lywodraeth Cymru neu awdurdod lleol. Beth ydych chi'n ei wneud yn benodol fel Llywodraeth i fanteisio ar broffil Gŵyr ac i hyrwyddo'r ardal fel cyrchfan allweddol yng Nghymru ac i ddatblygu'r syniad o ranbarth dinas o ran twristiaeth?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:09	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>These are matters for Visit Wales, along with the appropriate tourism authorities, but the Member is right to say that the Gower is an enormous attraction. He will notice, if he returns to Cardiff Airport, that the Gower features very prominently in the arrivals experience that is in place there now as a result of the Welsh Government's action in securing the airport's future.</p>	<p>Materion i Groeso Cymru yw'r rhain, ynghyd â'r awdurdodau twristiaeth priodol, ond mae'r Aelod yn iawn i ddweud bod Gŵyr yn atyniad enfawr. Bydd yn sylwi, os bydd yn dychwelyd i Faes Awyr Caerdydd, fod Gŵyr yn nodwedd amlwg iawn yn y profiad o gyrraedd y maes awyr sydd wedi'i sefydlu yno bellach, o ganlyniad i gamau Llywodraeth Cymru i sicrhau dyfodol y maes awyr.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Byrddau Sector Cyhoeddus		Public Sector Boards	
14:10	<p>Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography <i>12. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bodloni safonau cydraddoldeb yng nghyswllt cyfansoddiad Byrddau Sector Cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)1165(FM)</i></p>	<p><i>12. Will the First Minister make a statement on how the Welsh Government intends to meet equality standards regarding the composition of Public Sector Boards in Wales? OAQ(4)1165(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:10	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>We will be holding a seminar for chairs of key public sector boards on 8 July. I expect the chairs of those boards to apply the good practice identified in the Sport Wales case study and to confirm their action plans to increase diversity on their boards.</p>	<p>Byddwn yn cynnal seminar i gadeiryddion byrddau sector cyhoeddus allweddol ar 8 Gorffennaf. Rwy'n disgwyl i gadeiryddion y byrddau hynny ddilyn yr arfer da a nodwyd yn astudiaeth achos Chwaraeon Cymru ac i gadarnhau eu cynlluniau gweithredu i gynyddu amrywiaeth ar eu byrddau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:10	<p>Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that reply, First Minister. The Welsh Government's own report on its programme for government highlights that the make-up of Welsh public sector boards is disproportionate to those they represent. For example, one-fifth of the working-age population in Wales identifies itself as disabled, but less than 5.5% of board members identified themselves as disabled. I know that there is a seminar next week, on 8 July, at which this matter will be discussed. What practical plans does the Welsh Government have to increase diversity on Welsh public sector boards?</p>	<p>Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Mae adroddiad Llywodraeth Cymru ei hun ar ei rhaglen ar gyfer llywodraethu yn amlgu bod cyfansoddiad byrddau sector cyhoeddus Cymru yn anghymesur i'r rhai maen nhw'n eu cynrychioli. Er enghraifft, mae un o bob pump o boblogaeth o oedran gweithio Cymru yn nodi eu bod yn anabl, ond mae llai na 5.5% o aelodau byrddau yn nodi eu bod yn anabl. Rwy'n gwybod bod seminar yr wythnos nesaf, ar 8 Gorffennaf, pryd y bydd y mater hwn yn cael ei drafod. Pa gynlluniau ymarferol sydd gan Lywodraeth Cymru i gynyddu amrywiaeth ar fyrddau sector cyhoeddus Cymru?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:11	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I refer the Member to the answer I just gave.</p>	<p>Cyfeiriaf yr Aelod at yr ateb yr wyf newydd ei roi.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:11	<p>Julie Morgan Bywgraffiad Biography</p> <p>Does the First Minister agree that moving ahead in a voluntary way to increase the number of women on boards, up to 40%, is taking a very long time and is quite difficult to implement? Would he consider acting in a more prescriptive way to ensure that this happens? Is what is happening in France, which has recently passed a law that says that 40% of private sector boards should be made up of women, a spur for us to move ahead?</p>	<p>A yw'r Prif Weinidog yn cytuno bod symud ymlaen mewn ffordd wirfoddol i gynyddu nifer y menywod ar fyrddau, hyd at 40%, yn cymryd amser hir iawn ac yn eithaf anodd ei weithredu? A fyddai'n ystyried gweithredu mewn ffordd fwy rhagnodol er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd? A yw'r hyn sy'n digwydd yn Ffrainc, sydd wedi cymeradwyo deddf yn ddiweddar sy'n dweud y dylai 40% o fyrddau sector preifat fod yn fenywod, yn sbardun i ni fwrw ymlaen?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:11	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>In Norway, I believe, a similar system operates. There is a very serious question here. We need to ensure that there is as much diversity as possible on public sector boards in Wales. That, of course, means that there has to be more representation on the part of women. I will consider what the Member has said. Perhaps she will allow me to write to her with further details regarding the present situation and what might be done in order to ensure that there is proper balance on these boards.</p>	<p>Ceir system debyg yn Norwy, rwy'n credu. Ceir cwestiwn ddifrifol iawn yma. Mae angen i ni sicrhau bod cymaint o amrywiaeth â phosibl ar fyrddau sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae hynny'n golygu, wrth gwrs, bod yn rhaid cael mwy o gynrychiolaeth o ran menywod. Byddaf yn ystyried yr hyn y mae'r Aelod wedi ei ddweud. Efallai y gwnaiff hi ganiatáu i mi ysgrifennu ati gyda mwy o fanylion am y sefyllfa bresennol a'r hyn y gellid ei wneud er mwyn sicrhau bod cydbwysedd priodol ar y byrddau hyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Prentisiaethau		Apprenticeships	
14:12	<p>Eluned Parrott Bywgraffiad Biography <i>13. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu prentisiaethau i'r rheini sy'n gadael yr ysgol yng Nghymru? OAQ(4)1158(FM)</i></p>	<p><i>13. What is the Welsh Government doing to promote apprenticeships to school leavers in Wales? OAQ(4)1158(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:12	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>We have a comprehensive marketing and communication strategy to enhance the apprenticeship brand and to increase individual recruitment to the programme. Within the additional £40 million allocated for apprenticeship delivery in the coming financial year, funding will be invested to bridge the gap between apprenticeships, education and sustainable employment.</p>	<p>Mae gennym strategaeth marchnata a chyfathrebu gynhwysfawr i wella'r brand prentisiaethau ac i gynyddu recriwtio unigol i'r rhaglen. O fewn y £40 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer darparu prentisiaethau yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod, bydd arian yn cael ei fuddsoddi i lenwi'r bwlch rhwng prentisiaethau, addysg a chyflogaeth gynaliadwy.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:12	<p>Eluned Parrott Bywgraffiad Biography</p> <p>Research by ColegauCymru last year showed that 93% of 15-year-olds were unable to name apprenticeships as a post-16 option. Despite this, support services through things like Careers Wales seem to be retreating back to a responsive method of communicating, where young people are expected to seek out information in a one-stop-shop website. Would you not agree that we need to establish a proactive schools-based engagement programme to tell young people about the benefits of apprenticeships if we want to tackle the issues of visibility, but also esteem?</p>	<p>Dangosodd waith ymchwil gan ColegauCymru y llynedd bod 93% o ddisgyblion 15 oed nad oeddent yn gallu enwi prentisiaethau fel dewis ôl-16. Er gwaethaf hyn, mae'n ymddangos bod gwasanaethau cymorth trwy bethau fel Gyrfa Cymru yn ymddangos yn dychwelyd i ddull ymatebol o gyfathrebu, lle y disgwylir i bobl ifanc chwilio am wybodaeth ar wefan siop-un-stop. Oni fydddech chi'n cytuno bod angen i ni sefydlu rhaglen ymgysylltu ragweithiol mewn ysgolion i hysbysu pobl ifanc am fanteision prentisiaethau os ydym ni eisiau mynd i'r afael â materion amlygrwydd, ond hefyd parch?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:13	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I would argue that that is happening in any event. If you look, for example, at what we have in place with the apprenticeship matching scheme, of course, through Jobs Growth Wales, and the work that is being done by various private sector bodies that are also looking to recruit apprentices straight from school. The Pathways to Apprenticeship programme is another example of that, as are the traineeships that are made available for young people between the ages of 16 and 18. It is also important, of course, that we have kept the education maintenance allowance, which was scrapped in England, which allows so many young people to continue with their studies.</p>	<p>Byddwn yn dadlau bod hynny'n digwydd beth bynnag. Os edrychwch chi, er enghraifft, ar yr hyn sydd gennym ar waith gyda'r cynllun paru prentisiaethau, wrth gwrs, trwy Twf Swyddi Cymru, a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan gyrrff sector preifat amrywiol sydd hefyd eisiau recriwtio prentisiaid yn syth o'r ysgol. Mae'r rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau yn enghraifft arall o hynny, ac felly hefyd y swyddi dan hyfforddiant sydd ar gael i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed. Mae hefyd yn bwysig, wrth gwrs, ein bod wedi cadw'r lwfans cynhaliath addysg, a gafodd ei ddiddymu yn Lloegr, sy'n caniatáu cymaint o bobl ifanc i barhau â'u hastudiaethau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 14:13 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, I am really glad that the Member raised the issue of apprenticeships, and that she did so in relation to Careers Wales, because several constituents have raised concerns with me that there is much emphasis on support and advice from agencies such as Careers Wales if one is going forward in a more academic career, but that when it comes to vocational training, there is very little support coming forward. How will you, as the Welsh Government, seek to address this?
- Brif Weinidog, rwy'n falch iawn bod yr Aelod wedi codi mater prentisiaethau, a'i bod wedi gwneud hynny yng nghyswllt Gyrfa Cymru, gan fod nifer o etholwyr wedi codi pryderon gyda mi bod llawer o bwyslais ar gymorth a chynghor gan asiantaethau fel Gyrfa Cymru os bydd rhywun yn mynd ymlaen i yrfa fwy academaidd, ond pan ddaw'n fater o hyfforddiant galwedigaethol, prin iawn yw'r gefnogaeth a gynigir. Sut y byddwch chi, fel Llywodraeth Cymru, yn mynd ati i fynd i'r afael â hyn?
- 14:14 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- As I have already mentioned, there are a number of schemes in place. We have Jobs Growth Wales, the traineeships, the increased apprenticeships offer, the apprenticeships matching service, Pathways to Apprenticeship, shared apprenticeships, the Young Recruits Programme and, of course, importantly, the education maintenance allowance, which the Member has always failed to support.
- Fel rwyf wedi sôn eisoes, mae nifer o gynlluniau ar waith. Mae gennym Twf Swyddi Cymru, y swyddi dan hyfforddiant, y cynnig uwch o brentisiaethau, y gwasanaeth paru prentisiaethau, Llwybrau at Brentisiaethau, prentisiaethau a rennir, y Rhaglen Recriwtiaid Ifanc ac, wrth gwrs, yn bwysig, y lwfans cynhaliaeth addysg, y mae'r Aelod wedi methu â'i gefnogi erioed.
- Rhaglen Ehangu Undebau Credyd** **Credit Union Expansion Programme**
- 14:14 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 14. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â Chymdeithas Undebau Credyd Prydain (ABCUL) a thîm prosiect Cornerstone Mutual Services ynghylch y Rhaglen Ehangu Undebau Credyd? OAQ(4)1155(FM)*
- 14. What discussions has the Welsh Government had with ABCUL and the Cornerstone Mutual Services project team concerning the Credit Union Expansion Programme? OAQ(4)1155(FM)*
- 14:14 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- There has been continual dialogue between us and ABCUL as the cornerstone mutual services project has been developing.
- Bu deialog parhaus rhyngom ni ac ABCUL wrth i'r prosiect cornerstone mutual services ddatblygu.
- 14:14 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, First Minister. Both the UK Government and the Welsh Government have a common goal of trying to expand credit unions and use them to tackle social disadvantage. Can you confirm that the money that is being made available by the Welsh Government is not duplicating that from the UK Government and that you are working in a complementary fashion to ensure that those objectives are achieved?
- Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Mae gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru nod cyffredin o geisio ehangu undebau credyd a'u defnyddio i fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol. A allwch chi gadarnhau nad yw'r arian sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru yn dyblygu'r arian gan Lywodraeth y DU ac eich bod yn gweithio gyda'ch gilydd i sicrhau bodloni'r amcanion hynny?
- 14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Absolutely. It would be pointless to duplicate the moneys that are made available. Money has been made available jointly by us and the European regional development fund running to September of this year, as the Member will know. Certainly, we will be working to ensure that any money that we provide is indeed complementary to money provided by the UK Government.
- Yn sicr. Ni fyddai pwrpas dyblygu'r arian sydd ar gael. Mae arian wedi ei ddarparu ar y cyd gennym ni a'r gronfa datblygu rhanbarthol Ewrop sy'n rhedeg hyd at fis Medi eleni, fel y bydd yr Aelod yn gwybod. Yn sicr, byddwn yn gweithio i sicrhau bod unrhyw arian yr ydym yn ei ddarparu yn ategu arian a ddarperir gan Lywodraeth y DU.

14:15	<p>Mark Isherwood Bywgraffiad Biography</p> <p>More than 16 leading credit unions across the UK, including in Wales, have signed up to the partnership between ABCUL and Cornerstone Mutual Services Limited to strengthen the credit union movement. The UK Government's credit union expansion project has recently been welcomed on a cross-party basis at the Scottish Parliament and the House of Lords. So, I am pleased to hear your assurance that there will be no duplication, but how will the Welsh Government be working with the UK Government and ABCUL to ensure that its credit union expansion programme and your support for credit unions sincerely complement each other, and drive mutual benefit for all?</p>	<p>Mae mwy na 16 o undebau credyd blaenllaw ledled y DU, gan gynnwys Cymru, wedi ymuno â'r bartneriaeth rhwng ABCUL a Cornerstone Mutual Services Cyfyngedig i gryfhau'r mudiad undebau credyd. Mae prosiect ehangu undebau credyd Llywodraeth y DU wedi ei groesawu ar sail drawsbleidiol yn Senedd yr Alban a Thŷ'r Arglwyddi yn ddiweddar. Felly, rwy'n falch o glywed eich sicrwydd na fydd unrhyw ddyblygu, ond sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ac ABCUL i sicrhau bod eu rhaglen ehangu undebau credyd a'ch cefnogaeth chi i undebau credyd yn ategu ei gilydd yn bendant, ac yn sicrhau budd i bawb?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:16	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>In the usual way—through correspondence with the appropriate Government department and, of course, through meetings between Ministers.</p>	<p>Yn y ffordd arferol—trwy ohebiaeth gydag adran briodol y Llywodraeth a thrwy gyfarfodydd rhwng Gweinidogion, wrth gwrs.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:16	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, First Minister.</p>	<p>Diolch yn fawr, Brif Weinidog.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:16	<p>Cwestiwn Brys: Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I have agreed to an urgent question under Standing Order No. 12.66, and I call on Darren Millar to ask the urgent question.</p>	<p>Urgent Question: Betsi Cadwaladr University Local Health Board</p> <p>Rwyf wedi cytuno i gwestiwn brys dan Reol Sefydlog Rhif 12.66, a galwaf ar Darren Millar i ofyn y cwestiwn brys.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:16	<p>Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography</p> <p>Point of order, Presiding Officer, on the grounds that this is an inaccurate question—</p>	<p>Pwynt o drefn, Lywydd, ar y sail bod hwn yn gwestiwn gwallus—</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:16	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>It is my decision on urgent questions.</p>	<p>Fi sydd i benderfynu am gwestiynau brys.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:16	<p>Darren Millar Bywgraffiad Biography</p> <p><i>A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymddiswyddiad Cadeirydd a Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr? EAQ(4)0306(HSS)</i></p>	<p><i>Will the Minister make a statement on the resignation of the Chairman and Chief Executive of Betsi Cadwaladr University Health Board? EAQ(4)0306(HSS)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:16	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography <i>Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services</i></p> <p>I begin by putting on record my thanks to the chair and chief executive of Betsi Cadwaladr University Local Health Board for their periods of public service. We will now move swiftly to appoint a new chair to enable the board to begin a new chapter. The chief executive has indicated her intention to step down, although she has not yet resigned. The board is currently working through the detail of her departure.</p>	<p>Hoffwn gychwyn drwy nodi fy niolch i gadeirydd a phrif weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr am eu cyfnodau o wasanaeth cyhoeddus. Byddwn yn symud yn gyflym nawr i benodi cadeirydd newydd i alluogi'r bwrdd i ddechrau pennod newydd. Mae'r prif weithredwr wedi nodi ei bwriad i ymadael o'i swydd, er nad yw wedi ymddiswyddo eto. Mae'r bwrdd wrthi'n gweithio trwy fanylion ei hymadawiad ar hyn o bryd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:17	Darren Millar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you for that response, Minister. The Welsh Audit Office report painted an absolutely appalling picture of the governance at the largest public sector organisation in Wales. As a result of the failings that were identified, the chair has quite rightly tendered his resignation for the failings that he has brought to the table as far as that board is concerned.</p>	<p>Diolch i chi am yr ateb yna, Weinidog. Cyflwynodd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ddarlun hollol warthus o'r llywodraethu yn y sefydliad sector cyhoeddus mwyaf yng Nghymru. O ganlyniad i'r diffygion a nodwyd, mae'r cadeirydd, yn gwbl gywir, wedi cynnig ei ymddiswyddiad am y methiannau y mae wedi bod yn gyfrifol amdanynt cyn belled ag y mae'r bwrdd hwnnw yn y cwestiwn.</p>
	<p>The report identified serious issues of patient safety being compromised, the under-reporting of infection control outbreaks, and finance potentially being a driver for decision making, instead of clinical excellence and patient safety.</p>	<p>Nododd yr adroddiad faterion difrifol o ddiogelwch cleifion yn cael ei beryglu, dim digon o hysbysu am achosion rheoli heintiau, a'r posibilrwydd bod cyllid yn sbardun ar gyfer gwneud penderfyniadau, yn hytrach na rhagoriaeth glinigol a diogelwch cleifion.</p>
	<p>Minister, if a local education authority or a council were responsible for this service, you would have immediately disbanded the body appointed to run those services and intervened immediately as a Welsh Government. Why on earth are you not suspending the operation of this board and directly intervening to ensure that patient confidence can be restored in north Wales?</p>	<p>Weinidog, pe bai awdurdod addysg lleol neu gyngor yn gyfrifol am y gwasanaeth hwn, byddech wedi chwalu'r corff a benodwyd i redeg y gwasanaethau hynny ar unwaith, ac wedi ymyrryd ar unwaith fel Llywodraeth Cymru. Pam ar y ddaear nad ydych yn atal gweithrediad y bwrdd hwn ac yn ymyrryd yn uniongyrchol er mwyn sicrhau y gellir adennill hyder cleifion yn y gogledd?</p>
14:18	Mark Drakeford Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>A series of steps have already been taken to respond to the report. The chief executive of NHS Wales, David Sissling, has moved to strengthen the executive side of the university health board with extra help in relation to finance, in clinical terms and in operational management. I have made it clear that I expect the chair's post to be advertised next week. This morning, I accepted the resignation of the vice-chair of the university health board, and I pay tribute, too, to his work over many years in north Wales. We will have a new chair in place before the end of August, and that chair will lead a root-and-branch review of the governance arrangements of Betsi Cadwaladr LHB.</p>	<p>Mae cyfres o gamau wedi eu cymryd eisoes i ymateb i'r adroddiad. Mae prif weithredwr GIG Cymru, David Sissling, wedi symud i gryfhau ochr weithredol y bwrdd iechyd prifysgol gyda chymorth ychwanegol o ran cyllid, ar sail glinigol ac o ran rheoli gweithredol. Rwyf wedi ei gwneud yn eglur fy mod yn disgwyl i swydd y cadeirydd gael ei hysbysebu yr wythnos nesaf. Y bore yma, derbyniais ymddiswyddiad is-gadeirydd y bwrdd iechyd prifysgol, a thalaf deyrnged, hefyd, i'w waith ef dros flynyddoedd lawer yn y gogledd. Bydd gennym gadeirydd newydd cyn diwedd mis Awst, a bydd y cadeirydd hwnnw yn arwain adolygiad trwyadl o drefniadau llywodraethu BILI Betsi Cadwaladr.</p>
	<p>Thirdly, I am grateful to Health Inspectorate Wales and the Wales Audit Office—</p>	<p>Yn drydydd, rwy'n ddiolchgar i Arolygiaeth Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru—</p>
14:19	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Order. Darren Millar, you asked this question; are you listening?</p>	<p>Trefn. Darren Millar, chi ofynnodd y cwestiwn hwn; a ydych chi'n gwrando?</p>
14:19	Darren Millar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I am listening.</p>	<p>Rwyf yn gwrando.</p>
14:19	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>It is difficult to listen looking the other way. Will you pay attention?</p>	<p>Mae'n anodd gwrando wrth edrych y ffordd arall. A wnewch chi dalu sylw?</p>
14:19	Mark Drakeford Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Diolch, Llywydd. I was making a third point in reply to the Member that I am grateful to HIW and the WAO for agreeing to undertake a further piece of work with the Welsh Government to make recommendations as to the arrangements and processes that can be used in future to respond to the risk of organisational or service failure.</p>	<p>Diolch, Lywydd. Roeddwn i'n gwneud trydydd pwynt wrth ymateb i'r Aelod fy mod yn ddiolchgar i AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru am gytuno i ymgymryd â darn pellach o waith gyda Llywodraeth Cymru i wneud argymhellion o ran y trefniadau a'r prosesau y gellir eu defnyddio yn y dyfodol i ymateb i'r risg o fethiant y sefydliad neu'r gwasanaeth.</p>

14:19 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'r adroddiad hwn nid yn unig yn un beirniadol—mae hefyd yn un damniol, a dweud y gwir. Mae'n cyfeirio at llywodraethu gwael, at arweinyddiaeth meddygol gwan a chymysgylid—sydd yn peri dychryn i bobl—ac mae'n sôn am fwrdd sydd mewn anwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd o fewn y gwasanaeth. Y cwestiwn sy'n codi i mi yw: pa bryd y daeth y Llywodraeth yn ymwybodol o'r gwendidau hyn? A oeddech, fel Llywodraeth, yn ymwybodol ohonynt cyn yr adroddiad hwn? Os oeddech, pam oeddech wedi caniatáu i fwrdd iechyd a oedd allan o reolaeth, mewn gwirionedd, fwrw ymlaen â chynlluniau ad-drefnu?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

This report is not only critical, but damning indeed. It refers to poor governance, to weak and confused clinical leadership—which is a cause of real concern to people—and it talks of a board that is in a state of ignorance about what is happening within the service. The question for me is: when did the Government become aware of these weaknesses? Were you, as a Government, aware of these weaknesses before this report? If you were, why did you allow a health board that was out of control, if truth be told, to continue with reconfiguration proposals?

14:20 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Government responded to concerns at Betsi Cadwaladr LHB through the report that we have now received and we have taken immediate action in response to it. I agree with what the Member has just said in his description of some of the conclusions that that report draws about the governance arrangements at the board and its ability to fulfil its responsibilities for the future. In addition to the course of action that I have already outlined, I have also asked David Jenkins, who is one of the most experienced chairs of a local health board in Wales, and someone who leads a health board whose governance arrangements are generally acknowledged to be very secure, to assist the Betsi Cadwaladr board and its new chair to create a new culture within the board so that we can be confident that it is able to discharge its responsibilities effectively in the future.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Ymatebodd y Llywodraeth i bryderon yn BILI Betsi Cadwaladr drwy'r adroddiad yr ydym ni bellach wedi ei dderbyn ac rydym ni wedi cymryd camau ar unwaith i ymateb iddo. Rwy'n cytuno â'r hyn y mae'r Aelod newydd ei ddweud yn ei ddisgrifiad o rai o'r casgliadau y mae'r adroddiad hwnnw yn dod iddynt am drefniadau llywodraethu'r bwrdd a'i allu i gyflawni ei gyfrifoldebau ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal â'r camau yr wyf eisoes wedi eu hamlinellu, rwyf hefyd wedi gofyn i David Jenkins, sy'n un o'r cadeiryddion mwyaf profiadol o fwrdd iechyd lleol yng Nghymru, a rhywun sy'n arwain bwrdd iechyd y cydnabyddir yn gyffredinol bod ei drefniadau llywodraethu yn ddiogel iawn, gynorthwyo bwrdd Betsi Cadwaladr a'i gadeirydd newydd i greu diwylliant newydd o fewn y bwrdd fel y gallwn fod yn hyderus y bydd yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau yn effeithiol yn y dyfodol.

14:21 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, mae cryn bryder yn y gogledd ynghylch yr adroddiad damniol hwn, fel y dywedodd Alun Ffred Jones. Un mater sy'n achosi cryn bryder yw'r gyllideb. Yn ystod tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y bore yma, roedd yn eithaf amlwg nad oeddent yn gwybod a yw cyllideb y bwrdd wedi'i gytuno ar gyfer eleni. Y llynedd, nid oedd cytundeb ar y gyllideb tan mis Medi. Hefyd, mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddod â chynlluniau ymlaen ynglŷn â gwasanaethau dwys erbyn mis Hydref. A ydych yn ffyddiog, wrth ystyried yr holl anhawsterau hyn, y bydd y cynlluniau hynny yn barod?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, there is considerable concern in north Wales about this damning report, as Alun Ffred Jones said. One issue that is causing a lot of concern is the budget. During evidence to the Public Accounts Committee this morning, it was quite obvious that they did not know whether the budget for the health board has been agreed for this year. Last year, there was no agreement on the budget until September. Also, the health board has to bring forward plans in relation to critical care by October. Are you confident that, given all these difficulties, those plans will be ready?

14:22 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Betsi Cadwaladr University Local Health Board lived within the financial envelope available to it in the last financial year. It is aware of the finances available to it in this year. Of course, it has to manage those finances throughout the year, and I expect it to do exactly that. As part of the additional help that the board will have through its executive team, we have taken steps to make sure that its financial arrangements are strengthened.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Roedd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithredu o fewn y gyllideb a oedd ar gael iddo yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'n ymwybodol o'r cyllid sydd ar gael iddo eleni. Wrth gwrs, mae'n rhaid iddo reoli'r cyllid hwnnw trwy gydol y flwyddyn, ac rwy'n disgwyl iddo wneud yn union hynny. Yn rhan o'r cymorth ychwanegol y bydd gan y bwrdd trwy ei dîm gweithredol, rydym ni wedi cymryd camau i sicrhau bod ei drefniadau ariannol yn cael eu cryfhau.

14:22

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As you will be aware, the report identified management failings contributing to significant risks with hospital infections, operations being delayed and waiting lists allowed to grow. Given that matters such as these have been populating my casework inbox, and, I am sure, those of many other North Wales Members, for many years, will you revisit the Welsh Government's decision in the last Assembly to scrap the independent review that formed the second stage of the complaints procedure and ensured that complaints could be scrutinised properly? Will you revisit the recent consultation that campaigners described as a 'sham'? In Flint, they said that the figures being picked were those that the health board wanted. Will you assure us that there will not be expensive pay-offs to senior persons who may have to stand down as a consequence of this report?

Fel y byddwch yn ymwybodol, nododd yr adroddiad fethiannau rheoli a gyfrannodd at risgiau sylweddol o ran heintiau mewn ysbytai, llawdriniaethau'n cael eu hoedi a chaniatáu i restrau aros dyfu. O ystyried bod materion fel y rhain wedi bod yn llenwi fy mewnflwch gwaith achos, a rhai nifer o Aelodau eraill yng ngogledd Cymru, rwy'n siŵr, ers blynyddoedd lawer, a wnewch chi ailystyried penderfyniad Llywodraeth Cymru yn y Cynulliad diwethaf i gael gwared ar yr adolygiad annibynnol a oedd yn ffurfio ail gam y drefn gwynion ac yn sicrhau y gellid craffu ar gwynion yn iawn? A wnewch chi ailystyried yr ymgynghoriad diweddar a ddisgrifiwyd fel bod yn 'ffug' gan ymgyrchwyr? Yn y Fflint, dywedasant mai'r ffigurau yr oedd y bwrdd iechyd eu heisiau a oedd yn cael eu dewis. A wnewch chi ein sicrhau na fydd taliadau drud am adael yn cael eu talu i unigolion uwch y gallai fod yn rhaid iddynt ymddiswyddo o ganlyniad i'r adroddiad hwn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:23

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Neither of the matters raised by the Member is addressed in the report produced by HIW and the WAO. However, I am grateful to him, because his question allows me to be absolutely clear on this matter: the report does not lead in any way to a re-opening of those matters that were agreed last year between the health board and the community health council. I have no intention of revisiting those matters on the basis of a report that did not address them.

Nid yw'r naill na'r llall o'r materion a godwyd gan yr Aelod yn cael sylw yn yr adroddiad a gynhyrchwyd gan AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru. Fodd bynnag, rwy'n ddiolchgar iddo, gan fod ei gwestiwn yn caniatáu i mi i fod yn hollol eglur ar y mater hwn: nid yw'r adroddiad yn arwain mewn unrhyw ffordd at ail-agor y materion hynny y cytunwyd arnynt y llynedd rhwng y bwrdd iechyd a'r cyngor iechyd cymuned. Nid oes gennyf unrhyw fwriad o ailystyried y materion hynny ar sail adroddiad nad oedd yn ymdrin â nhw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

Cofebion Rhyfel

Questions to the Minister for Culture and Sport

War Memorials

14:23

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gymorth y gall ei roi i gymunedau sy'n dymuno cynnal cofebion rhyfel? OAQ(4)0053(CS)

1. Will the Minister provide an update on any support he can give communities wishing to maintain war memorials? OAQ(4)0053(CS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:24

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport

War memorials are an important part of our heritage. They are a reminder of the sacrifices made and losses sustained by our communities, and of the great need to work to maintain peace. Support for maintaining them is available from Cadw through its historic buildings or civic initiatives grants.

Mae cofebion rhyfel yn rhan bwysig o'n treftadaeth. Maent yn ein hatgoffa o'r aberth a wnaethpwyd a'r colledion a ddioddefwyd gan ein cymunedau, ac o'r angen mawr i weithio i gadw heddwch. Mae Cadw'n rhoi cymorth i'w cynnal a'u cadw drwy ei grantiau adeiladau hanesyddol neu fentrau dinesig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:24 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. I am sure that you will know, as we all do, that next year marks 100 years since the start of the great war in 1914—a war that took over 8 million soldiers' lives and the lives of well over 12 million civilians. War memorials are a way not only of being able to pay tribute to all of the people who lost their lives, but of reminding us of the utter futility of war. I have a lot of war memorials in my area—Pembrokeshire and Carmarthenshire are rich with military history—but communities there tell me that they struggle with trying to get funds to help them to do them up in anticipation of events next year. I will go forward with the comment—
- Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rwyf yn siŵr eich bod yn gwybod, fel yr ydym i gyd, y bydd hi'n 100 mlynedd ers dechrau'r rhyfel mawr yn 1914 y flwyddyn nesaf—rhyfel a hawliodd fywydau dros 8 miliwn o filwyr ac ymhell dros 12 miliwn o sifiliaid. Yn ogystal â bod yn ffordd o dalu teyrnged i'r holl bobl a gollodd eu bywydau, mae cofebion rhyfel yn ein hatgoffa hefyd o oferedd llwyr rhyfel. Mae llawer o gofebion rhyfel yn fy ardal i—mae gan Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin hanes milwrol cyfoethog—ond mae cymunedau yno'n dweud wrthyf eu bod yn ei chael yn anodd ceisio cael arian i'r helpu i'w paratoi at ddigwyddiadau'r flwyddyn nesaf. Af ymlaen â'r sylw—
- 14:25 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Order. Are you coming to a question? Trefn. A ydych yn dod at gwestiwn?
- 14:25 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- However, Minister, are there any other funds that you are able to make temporarily available just for the specific drive for next year and the commemoration of that war?
- Fodd bynnag, Weinidog, a oes unrhyw arian arall y gallech sicrhau ei fod ar gael am gyfnod penodol ar gyfer yr ymgyrch benodol y flwyddyn nesaf a choffâu'r rhyfel hwnnw?
- 14:25 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Angela Burns for that supplementary question on that very important commemoration, which will shortly be with us. The First Minister leads on these matters and a group has been set up—Deian Hopkin, working with stakeholders—to work up a series of events to commemorate the first world war. As part of that, I am sure that we—I, the First Minister, and others—can give consideration to the availability of funding for those crucially important war memorials.
- Diolch i Angela Burns am y cwestiwn atodol hwnnw am y coffâu pwysig iawn hwnnw, sydd ar ein gwarthaf. Prif Weinidog Cymru sy'n arwain y materion hyn ac mae grŵp wedi ei sefydlu—Deian Hopkin, yn gweithio gyda rhanddeiliaid—i lunio cyfres o ddigwyddiadau i goffâu'r rhyfel byd cyntaf. Yn rhan o hynny, rwyf yn siŵr y gallwn ni—fi, y Prif Weinidog ac eraill—ystyried y cyllid sydd ar gael i ariannu'r cofebion rhyfel hollbwysig hynny.
- 14:26 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, last year, it was reported that the location of about 40% of war memorials was unknown and many had fallen into disrepair. At the time, it was agreed that much more would be done to locate and maintain the memorials. Could you tell us whether that figure of 40% has changed?
- Weinidog, y llynedd, adroddwyd na wyddys ble mae tua 40% o gofebion rhyfel a bod llawer wedi dadfeilio. Ar y pryd, cytunwyd y byddid yn gwneud llawer mwy i ddod o hyd i'r cofebion a'u cynnal a'u cadw. A allwch ddweud wrthym a yw'r ffigur o 40% wedi newid?
- 14:26 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I will write to the Member with details of the up-to-date position, but I know that Cadw has been working with a range of interested parties and stakeholders on these matters. The importance of these memorials, as I said to Angela Burns, is recognised by Welsh Government, Cadw and others.
- Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod â manylion y sefyllfa ddiweddaraf, ond gwn fod Cadw wedi bod yn gweithio gydag amrywiaeth o garfanau â diddordeb a rhanddeiliaid ar y materion hyn. Fel y dywedais wrth Angela Burns, mae Llywodraeth Cymru, Cadw ac eraill yn cydnabod pwysigrwydd y cofebion hyn.
- There are some interesting proposals, for example, in relation to telling the stories of ordinary people, as it were—not just those who were combatants in the first world war—around the war memorials. I think that that is an interesting aspect. I know that local schools and others may well be looking at names on war memorials and researching the history of those individuals.
- Mae rhai cynigion diddorol, er enghraifft, o ran adrodd straeon pobl gyffredin, fel petai—nid dim ond y rhai a oedd yn brwydro yn y rhyfel byd cyntaf—yn ymwneud â'r cofebion rhyfel. Credaf fod honno'n agwedd ddiddorol. Gwn ei bod yn bosibl fod ysgolion lleol ac eraill yn edrych ar enwau ar gofebion rhyfel ac yn ymchwilio i hanes yr unigolion hynny.
- 14:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black. Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

- 14:27 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Presiding Officer. Minister, further to those questions, I very much endorse the comments of Angela Burns and the sentiments of Jocelyn Davies in relation to restoring those war memorials. Is there a project in place to properly record and identify where war memorials are, among the various historical and heritage bodies that are under your command as a Minister, and how will you be encouraging such a project to go forward?
- Diolch, Lywydd. Weinidog, i ychwanegu at y cwestiynau hynny, rwyf yn cefnogi'n fawr sylwadau Angela Burns a theimladau Jocelyn Davies ynglŷn ag adfer y cofebion rhyfel hyn. A oes prosiect ar waith i gofnodi a nodi'n iawn ble y mae cofebion rhyfel, ymhlith y gwahanol gyfrff hanesyddol a threftadaeth sydd o dan eich rheolaeth fel Gweinidog, a sut y byddwch yn annog prosiect o'r fath i frwr ymlaen?
- 14:27 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We are lucky in Wales to have a wealth of archive material held by the National Library and in various archives across the country. As part of their work on the commemoration, Deian Hopkin and his group will look at how we can best structure the commemoration and the series of events. I am sure that these matters will be included in that work.
- Rydym yn ffodus yng Nghymru fod gennym gyfoeth o ddeunydd archifol yn y Llyfrgell Genedlaethol ac mewn gwahanol archifau ar draws y wlad. Fel rhan o'u gwaith coffáu, bydd Deian Hopkin a'i grŵp yn edrych ar y ffordd orau o strwythuro'r coffáu a'r gyfres o ddigwyddiadau. Rwyf yn siŵr y caiff y materion hyn eu cynnwys yn y gwaith hwnnw.
- 14:28 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. There is also a huge amount of historical material available to those bodies—photographs, writings, et cetera. Is there any way in which the project group—I understand that, as you say, it is under the First Minister, but you no doubt have an input—can look at how we can marry up that material to make sure that, when we have the commemoration next year, all the communities involved will not just be commemorating around their war memorials, but will also have access to that material and be able to do proper research and identify those who are not commemorated on those memorials as part of those events?
- Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae llawer iawn o ddeunydd hanesyddol ar gael i'r cyrff hynny hefyd—ffotograffau, ysgrifau, ac ati. A oes unrhyw ffordd y gallai'r grŵp prosiect—rwyf yn deall, fel y dywedwch, mai cyfrifoldeb y Prif Weinidog ydyw, ond siawns bod gennych rywfaint o ddylanwad—edrych ar sut y gallwn gyfuno'r deunydd hwnnw i wneud yn siŵr, pan fyddwn yn coffáu'r rhyfel y flwyddyn nesaf, y bydd yr holl gymunedau dan sylw, yn ogystal â choffáu o gwmpas eu cofebion rhyfel, hefyd yn gallu cael gafael ar y deunydd hwnnw ac yn gallu gwneud gwaith ymchwil go iawn ac adnabod y bobl hynny nad ydynt wedi'u coffáu ar y cofebion hynny fel rhan o'r digwyddiadau hynny?
- 14:28 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I know that that sort of activity is envisaged, but I very much take on board Peter Black's points. I will feed into the group the need to perhaps have an overview of what is taking place in Wales and what might take place, with a view to structuring it a little more than would perhaps otherwise be the case.
- Gwn y rhagwelir y bydd y math hwnnw o weithgarwch yn digwydd, ond rwyf yn sicr yn derbyn pwyntiau Peter Black. Byddaf yn dweud wrth y grŵp fod angen efallai sicrhau bod gennym drosolwg o'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru a'r hyn a allai ddigwydd, gyda'r bwriad o roi ychydig mwy o strwythur iddo, efallai.

Cyfranogiad mewn Chwaraeon

- 14:29 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei raglen waith i hybu cyfranogiad mewn chwaraeon yng Nghymru? OAQ(4)0052(CS)*
- 2. Will the Minister make a statement on his work programme to promote sports participation in Wales? OAQ(4)0052(CS)*

- 14:29 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Un o brif amcanion Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod mwy o bobl o bob oedran, rhyw, a grŵp cymdeithasol, ac o bob rhan o Gymru, yn cymryd rhan mewn chwaraeon. Mae ein rhaglen waith yn cael ei gweithredu drwy Chwaraeon Cymru, ac mae ganddo nifer o raglenni yn eu lle ar gyfer cyflawni hyn.
- One of the Welsh Government's key aims is to see increases in sport participation across Wales for all age, gender and social groups. Our work programme is being delivered via Sport Wales, which has a number of programmes in place to drive forward those aims.

14:29

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Bu etifeddiaeth y Gemau Olympaidd yn allweddol i ddatblygiad dyfodol chwaraeon. Mae gymnasteg yn esiampl dda, gyda'i aelodaeth wedi cynyddu gan 25%, ond mae sawl clwb heb y cyfleusterau angenrheidiol neu'r capasiti i gwrdd â'r galw.

Yn dilyn adolygiad, mae Gymnasteg Cymru yn adolygu ei drefniadau gwaith ac yn gweithredu modelau mentrau cymdeithasol. Mae clwb gymnasteg Llanelli yn un o'r rhain, ac wedi symud o ganolfan y YMCA yn Llanelli i le gwaith Calsonic. Mae'r clwb wedi derbyn £146,000 ac yn y broses o greu menter gymdeithasol. Mae croeso i chi ddod i Lanelli unrhyw bryd i weld y clwb. A ydych yn cytuno bod hyn yn weithred bositif sy'n rhoi chwaraeon ar sail fwy cynaliadwy? Sut ydych yn bwriadu codi ymwybyddiaeth a darparu cefnogaeth i glybiau sydd eisiau gwneud yr un peth?

The legacy of the Olympic Games was crucial for the development of the future of sport. Gymnastics is a good example, with club membership having increased by 25%, but many clubs do not have the necessary equipment or capacity to meet the demand.

Following a review, Welsh Gymnastics is reviewing its arrangements and is implementing social enterprise models. The Llanelli gymnastics club is one of these, and it has moved from the YMCA in Llanelli to the Calsonic works. The club has received £146,000 and is in the process of creating a social enterprise. You are welcome to visit Llanelli at any time to see the club in action. Do you agree that this is a positive development that places sport on a more sustainable footing? How do you intend to raise awareness and provide support for clubs that want to the same thing?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:30

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

These are very significant matters in terms of the legacy of the Olympics. We know that there has been a significant increase in gymnastics in Wales, and that it is particularly popular with young girls. It is a very valuable aspect of sport and physical activity in Wales. I recently visited a gymnastics club in a new facility in my own constituency and heard at first hand from the club and Welsh Gymnastics about the social enterprise model and the links between leisure centres feeding through to the more purpose-built facilities. It is a very positive picture and I am pleased to know that it is happening in Llanelli as well as in other parts of Wales. Working with Sport Wales, the Welsh Government is very much committed to rolling out that model.

Mae'r rhain yn faterion pwysig iawn o ran gwaddol y Gemau Olympaidd. Rydym yn gwybod y bu cynnydd sylweddol mewn gymnasteg yng Nghymru, a'i bod yn arbennig o boblogaidd ymysg merched ifanc. Mae'n agwedd werthfawr iawn ar chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru. Yn ddiweddar, bûm yn ymweld â chlwb gymnasteg mewn cyfleuster newydd yn fy etholaeth i a chlywais yn uniongyrchol gan y clwb a chan Gymnasteg Cymru am y model menter gymdeithasol a'r cysylltiadau rhwng canolfannau hamdden a'r cyfleusterau mwy pwrpasol. Mae'n ddarlun cadarnhaol iawn ac rwyf yn falch o wybod bod hyn yn digwydd yn Llanelli yn ogystal â mewn rhannau eraill o Gymru. Gan weithio gyda Chwaraeon Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymroddedig i gyflwyno'r model hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:31

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Participation in football is essential if the game is to thrive in Wales. The Welsh Government accepted the recommendation of the Communities, Equality and Local Government Committee that it should adopt a co-ordinated approach to developing football in Wales, alongside the Football Association of Wales and Sport Wales. Will the Minister update the Assembly on progress in this regard?

Mae cyfranogiad mewn pêl-droed yn hanfodol er mwyn i'r gêm ffynnu yng Nghymru. Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y dylai fabwysiadu dull cydlynol o ddatblygu pêl-droed yng Nghymru, ochr yn ochr â Chymdeithas Bêl-droed Cymru a Chwaraeon Cymru. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am y cynnydd yn hyn o beth?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:32

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, certainly. There is a very strong partnership in Wales now between the Welsh Government, Sport Wales, the Football Association of Wales, and indeed the Welsh Football Trust. There are new opportunities; we now have two premier clubs in Wales, so the profile of the game has risen quite significantly. We have some good role models and some good opportunities to create the wider grass-roots participation, which will create the stars for the future. It is a really good time for football in Wales, and we have those important partnerships in place.

Gwnaf, yn sicr. Mae partneriaeth gref iawn yng Nghymru bellach rhwng Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru, Cymdeithas Bêl-droed Cymru, ac yn wir Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru. Mae cyfleoedd newydd; mae gennym bellach ddau glwb uwch gynghrair yng Nghymru, felly mae proffil y gêm wedi codi'n eithaf sylweddol. Mae gennym fodolau rôl da a chyfleoedd da i feithrin mwy o gyfranogiad ar lawr gwlad, a fydd yn creu sêr y dyfodol. Mae'n amser da iawn i bêl-droed yng Nghymru, ac mae'r partneriaethau pwysig hynny ar waith gennym.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:32

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Plaid Cymru spokesperson, Bethan Jenkins.

Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Bethan Jenkins.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:32

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wythnos diwethaf, gofynnais am ddatganiad neu ddadl yn amser y Llywodraeth ar yr adroddiad gan Tanni Grey-Thompson ar chwaraeon mewn ysgolion. Mae'n bwysig iawn i ni gael trafodaeth yma fel Aelodau Cynulliad, o ystyried nifer y bobl ifanc sydd ddim yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn eu hysgolion. A fydddech chi, fel Gweinidog, yn fodlon cael y ddadl hon ar lawr y Senedd?

Last week, I asked whether we could have a statement or debate in Government time on the report by Tanni Grey-Thompson on sport in schools. It is very important that we have this discussion as Assembly Members, bearing in mind the number of young people who do not participate in sport in our schools. Would you, as Minister, be willing to have that debate on the floor of the Senedd?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:33

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Bethan Jenkins raises a very significant and important issue in terms of the development of sport in Wales. We all know that we have a captive audience in our schools, and if we can significantly improve the sport and physical recreation offer to our children, it will instil the good habits in our young people that will stay with them throughout their lives. That report must now go through due process, as it were, and has to be considered by the Minister for Education and Skills and by me; it was jointly commissioned. It must also be factored into work around the curriculum more broadly and other matters. I will work very closely with the Minister for Education and Skills on these matters, and I am sure that they will come to the floor of the Assembly in due course.

Mae Bethan Jenkins yn codi mater arwyddocaol a phwysig iawn o ran datblygu chwaraeon yng Nghymru. Rydym i gyd yn gwybod bod gennym gynulleidfa gaeth yn ein hysgolion, ac os gallwn wella'n sylweddol y cyfleoedd chwaraeon a hamdden corfforol sydd ar gael i'n plant, bydd yn meithrin arferion da ymysg ein pobl ifanc a fydd yn aros gyda hwy drwy gydol eu bywydau. Rhaid i'r adroddiad hwnnw yn awr fynd drwy'r drefn briodol, fel petai, a rhaid i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau a minnau ei ystyried; fe'i comisiynwyd ar y cyd. Rhaid ei gynnwys hefyd mewn gwaith yn ymwneud â'r cwricwlwm yn ehangach a materion eraill. Byddaf yn cydweithio'n agos iawn â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y materion hyn, ac rwyf yn siŵr y byddant yn cyrraedd llawr y Cynulliad maes o law.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:34

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister; that is really heart-warming to hear. The other issue is with regard to kickboxing. Morgan Paget, a young person in my area, is seeking to go to an international competition, but because kickboxing has not been defined as a sport here in Wales, he cannot access any funding whatsoever. I have sought to discuss this with Sport Wales, but I am not getting very far at the moment. Is there something that you could do as Minister to look into why some sports are not defined as sports here in Wales?

Diolch, Weinidog, mae'n wirioneddol galonogol clywed hynny. Mae'r mater arall yn ymwneud â chifocfocio. Mae Morgan Paget, person ifanc o fy ardal i, yn ceisio mynd i gystadleuaeth ryngwladol, ond gan nad yw cicfocio wedi ei ddiffinio'n chwaraeon yma yng Nghymru, ni all gael dim arian o gwbl. Rwyf wedi ceisio trafod hyn â Chwaraeon Cymru, ond nid wyf yn cael fawr o lwyddiant ar hyn o bryd. A oes rhywbeth y gallech ei wneud fel Gweinidog i weld pam nad yw rhai chwaraeon yn cael eu diffinio'n chwaraeon yma yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:34

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

These are matters that Sport Wales takes forward on behalf of the Welsh Government, in terms of deciding which sports have priorities and how funding should be structured, but that is within the Welsh Government's strategy and our remit letter. I would be very happy to discuss these matters with Sport Wales, and perhaps facilitate communication with the Member.

Mae'r rhain yn faterion y mae Chwaraeon Cymru'n bwrw ymlaen â hwy ar ran Llywodraeth Cymru, o ran penderfynu pa chwaraeon sy'n cael blaenoriaeth a sut y dylid strwythuro cyllid, ond mae hynny o fewn strategaeth Llywodraeth Cymru a'n llythyr cylch gwaith. Byddwn yn hapus iawn i drafod y materion hyn â Chwaraeon Cymru, ac efallai hwyluso cyfathrebu â'r Aelod.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:35

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, rydych wedi sôn am y bartneriaeth rhwng Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru. Rhoddwyd £0.75 miliwn gan Chwaraeon Cymru a Chymdeithas Bêl-droed Cymru at Barc y Ddraig yng Nghasnewydd. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd tebyg i iuenctid yn y gogledd, sy'n creu problemau. Nid oes gair yn strategaeth bum mlynedd Cymdeithas Bêl-droed Cymru ynglŷn â chyfleusterau yn y gogledd. A fydddech yn barod i herio'r gymdeithas ynglŷn â'r diffyg hwn?

Minister, you have spoken about the partnership between the Football Association of Wales, the Welsh Government and Sport Wales. Sport Wales and the FAW have given £0.75 million to Dragon Park in Newport. However, there are no similar opportunities for youngsters in north Wales, which causes problems. There is not a word in the FAW's five-year strategy about facilities in north Wales. Would you be willing to challenge the association about that lack?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:35 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I will raise these matters with the FAW. I know that it has a commitment across Wales to take forward football, and the development of football. These are matters that, ultimately, come down to available resources, but there are ways of linking with others and of working pan-Wales, even if the headquarters are in one particular location.

Byddaf yn codi'r materion hyn â Chymdeithas Bêl-droed Cymru. Gwn ei bod wedi ymrwmo i hybu pêl-droed, a datblygu pêl-droed, ledled Cymru. Mae'r rhain yn faterion sydd, yn y pen draw, yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael, ond mae ffyrdd o gysylltu â phobl eraill a gweithio drwy Gymru gyfan, hyd yn oed os yw'r pencadlys mewn un leoliad penodol.

14:36 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, the Special Olympics has an important role to play in terms of offering people with learning disabilities a lifetime of development through sport. How is the Welsh Government recognising the achievements of our Special Olympics competitors, whose stories and achievements are every bit as inspiring and as worthy of celebration as our Olympic and Paralympic champions?

Weinidog, mae gan y Gemau Olympaidd Arbennig ran bwysig i'w chwarae o ran cynnig oes o ddatblygiad drwy chwaraeon i bobl ag anableddau dysgu. Sut y mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod cyflawniadau ein cystadleuwyr yn y Gemau Olympaidd Arbennig? Mae eu hanesion a'u cyflawniadau yr un mor ysbrydoledig ac yn haeddu eu datlu yn yr un modd â'n pencampwyr Olympaidd a Pharalympaidd.

14:36 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I very much agree with the points that Rebecca Evans makes. Special Olympics Wales is an excellent example of how we can encourage participation in a variety of sports for people with learning disabilities. I am pleased to say that the Welsh Government has been able to support a Welsh team to take part in this year's Special Olympics GB 2013 National Summer Games, which is taking place in Bath. I am sure that all Members will wish our team every success in that event.

Cytunaf yn llwyr â phwyntiau Rebecca Evans. Mae Gemau Olympaidd Arbennig Cymru yn enghraifft wych o'r ffordd y gallwn annog cyfranogiad pobl ag anableddau dysgu mewn amrywiaeth o chwaraeon. Rwyf yn falch o ddweud bod Llywodraeth Cymru wedi gallu cefnogi tîm Cymru i gymryd rhan yng Ngemau Haf Cenedlaethol Gemau Olympaidd Arbennig Prydain Fawr 2013 eleni, sy'n cael eu cynnal yng Nghaerfaddon. Rwyf yn siŵr y bydd pob Aelod yn dymuno pob llwyddiant i'n tîm yn y digwyddiad hwnnw.

Perthynas rhwng Chwarae a Chwaraeon

Relationship between Play and Sport

14:37 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

3. Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog yn ei rhoi i'r berthynas rhwng chwarae a chwaraeon wrth ddatblygu ei bolisiau? OAQ(4)0045(CS)

3. What consideration does the Minister give to the relationship between play and sport when developing his policies? OAQ(4)0045(CS)

14:37 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Play is an important part of a child's development in terms of physical literacy. It is therefore a key consideration in the development of our policies and programmes that promote or encourage participation in sport or physical activity.

Mae chwarae'n rhan bwysig o ddatblygiad plentyn o ran llythrennedd corfforol. Mae felly'n ystyriaeth allweddol wrth ddatblygu ein polisiau a'n rhaglenni sy'n hybu neu'n annog cyfranogiad mewn chwaraeon neu weithgarwch corfforol.

14:37 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

You will be aware that the play sector has previously expressed concern that the redefinition of play in the Children and Families (Wales) Measure 2010 to include recreational activity moved away from play-work principles. I understand that play sufficiency assessments that were submitted by local authorities subsequent to that have included, in many cases, sports grounds within those sufficiency assessments. Therefore, in allocating resources following those play sufficiency assessments, how will you ensure that play and sport are addressed separately, and not as the same thing?

Byddwch yn ymwybodol bod y sector chwarae wedi mynegi pryder yn y gorffennol bod ailddiffinio chwarae ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 i gynnwys gweithgareddau hamdden wedi symud i ffwrdd oddi wrth egwyddorion gwaith chwarae. Rwyf ar ddeall bod asesiadau o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol ers hynny, mewn llawer o achosion, yn cynnwys meysydd chwaraeon yn yr asesiadau digonolrwydd hynny. Felly, wrth ddyrannu adnoddau ar ôl yr asesiadau hynny o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae, sut y byddwch yn sicrhau bod chwarae a chwaraeon yn cael sylw ar wahân, ac nid fel yr un peth?

14:37	John Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>These are important matters, and are recognised by Sport Wales, which has a play-to-learn initiative as part of the physical education and school sport initiative more generally. We seek to address these matters, working with health and educational professionals in a variety of ways. I will write to the Member with regard to the matters that he raises, following discussions with the appropriate stakeholders.</p>	<p>Mae'r rhain yn faterion pwysig, y mae Chwaraeon Cymru yn eu cydnabod; mae ganddynt fenter chwarae-i-ddysgu fel rhan o fenter addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion yn fwy cyffredinol. Rydym yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn, gan gydweithio â gweithwyr proffesiynol ym meysydd iechyd ac addysg mewn amryw o ffyrdd. Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod o ran y materion y mae'n eu codi, yn dilyn trafodaethau â'r rhanddeiliaid priodol.</p>
14:38	Ann Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, while accepting that children's play is sometimes structured in order for them to meet objectives and goals for their development, scoring the winning goal for Wales, in a cup final, in the last minute, with jumpers as goalposts and a tin can for a football, has to be every child's dream in Wales, and is therefore as important as structured play.</p>	<p>Weinidog, gan dderbyn bod chwarae plant yn cael ei strwythuro weithiau er mwyn iddynt fodloni amcanion a nodau o ran eu datblygiad, mae'n rhaid mai sgorio'r gôl fuddugol i Gymru, yn rownd derfynol gêm gwpan, yn y funud olaf, a siwmperi'n byst gôl a thun yn bêl-droed, yw breuddwyd pob plentyn yng Nghymru, a bod hynny felly yr un mor bwysig â chwarae wedi'i strwythuro.</p>
14:38	Alun Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Or scoring tries.</p>	<p>Neu sgorio ceisiau.</p>
14:38	Ann Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>No, not tries—goals. [Laughter.] I am concerned that children are losing that ability to be able to imagine and to play without structure. That allows them to develop skills—for example, if you have a team that has 14 on one side, and six on the other, you soon learn that you have to even that out. Those are social skills that we cannot teach through in structured play. What can your Government do to ensure that that child's imagination is not lost, and that they are allowed to just enjoy their childhood?</p>	<p>Na, nid ceisiau—golïau. [Chwerthin.] Rwyf yn pryderu bod plant yn colli'r gallu hwnnw i allu dychmygu a chwarae heb strwythur. Mae hynny'n eu galluogi i ddatblygu sgiliau—er enghraifft, os oes gennych dîm sydd â 14 ar un ochr, a chwech ar y llall, byddwch yn dysgu'n ddigon buan bod rhaid ichi unioni hynny. Mae'r rhain yn sgiliau cymdeithasol na allwn eu dysgu drwy chwarae wedi'i strwythuro. Beth all eich Llywodraeth ei wneud i sicrhau nad yw dychymyg y plentyn yn cael ei golli, a'u bod yn cael cyfle i fwynhau eu plentyndod?</p>
14:39	John Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Your words bring back a few memories for me, Ann, as I am sure is the case for other Members as well. These are very wide-ranging issues, are they not? They readily bring forward thoughts of the sort of society that we live in now, and the worries that parents have in terms of allowing their children to go out to play, and to roam a little more widely, as it were. There are also issues around green spaces in our communities, and their adequacy, or not. Therefore, these are important matters that need to be addressed right across Government with a number of Ministers and officials. However, I very much agree that unstructured, informal play is a very important part of the overall picture, and produces those skills that are very valuable in all sorts of ways to equip our young people for life. I am sure that, working with other partners as we take forward our policies, we will ensure that these matters are considered.</p>	<p>Mae eich geiriau'n dod ag ychydig o atgofion yn ôl imi, Ann, ac i Aelodau eraill hefyd, rwyf yn siŵr. Mae'r rhain yn faterion eang iawn, onid ydynt? Maent yn gwneud inni feddwl am y math o gymdeithas yr ydym yn byw ynddi nawr, ac am y pryderon sydd gan rieni o ran caniatáu i'w plant fynd allan i chwarae, ac i grwydro ychydig mwy, fel petai. Mae materion hefyd yn ymwneud â mannau gwyrdd yn ein cymunedau, a pha mor ddigonol ydynt, neu fel arall. Felly, mae'r rhain yn faterion pwysig y mae angen rhoi sylw iddynt ar draws y Llywodraeth gyda nifer o Weinidogion a swyddogion. Fodd bynnag, rwyf yn cytuno'n gryf fod chwarae anffurfiol, distrywthur yn rhan bwysig iawn o'r darlun cyffredinol, a'i fod yn meithrin y sgiliau hynny sy'n werthfawr iawn ym mhob math o ffyrdd i arfogi ein pobl ifanc ar gyfer bywyd. Rwyf yn siŵr y byddwn, gan gydweithio â phartneriaid eraill wrth inni fwrw ymlaen â'n polisiau, yn sicrhau bod y materion hyn yn cael eu hystyried.</p>
	Cyfleusterau Chwaraeon	Sports Facilities
14:40	Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>4. A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gamau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i wella cyfleusterau chwaraeon yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0039(CS)</p>	<p>4. Will the Minister outline what steps are being taken by the Welsh Government to improve sports facilities in South Wales Central? OAQ(4)0039(CS)</p>

- 14:40 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The Welsh Government and Sport Wales continue to work with partners such as local authorities to encourage the provision and improvement of sports facilities.
Mae Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru yn parhau i gydweithio â phartneriaid megis awdurdodau lleol i annog darparu a gwella cyfleusterau chwaraeon.
- 14:40 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you, Minister, for that answer. Key partners in developing good sporting facilities are local authorities, which are charged with delivering education services as well. Part of the redevelopment of many school campuses is about developing the community use of those facilities. However, it has been brought to my attention that the educational need—in the sporting sense—often overrides the needs of the community. Are you confident that your department interacts progressively with the education department and local authorities, so that communities can receive the best dividend from the new sports pitches and sports facilities that are made available, which very often replace the leisure services that are provided elsewhere in towns and villages?
Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Mae awdurdodau lleol yn bartneriaid allweddol o ran datblygu cyfleusterau chwaraeon da; maent hefyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau addysg. Mae rhan o waith aiddatblygu sawl campws ysgol yn ymwneud â datblygu defnydd cymunedol ar y cyfleusterau hynny. Fodd bynnag, tynnwyd fy sylw at y ffaith bod yr angen addysgol—o ran chwaraeon—yn aml yn cael blaenoriaeth dros anghenion y gymuned. A ydych yn hyderus bod eich adran yn rhyngweithio'n flaengar â'r adran addysg ac awdurdodau lleol, fel y gall cymunedau gael y didfend gorau o'r caeau chwaraeon a'r cyfleusterau chwaraeon newydd sydd ar gael, sydd yn aml iawn yn disodli'r gwasanaethau hamdden sy'n cael eu darparu mewn mannau eraill mewn trefi a phentrefi?
- 14:41 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I very much agree with the points that Andrew R. T. Davies raises. We all know that we are not only in difficult times when it comes to budgets and capital, but that we will probably continue to be in those difficult times for a protracted period, unfortunately. Therefore, it makes perfect sense to make better use of existing buildings and new buildings built for purposes that are not centrally about sport, community sport and physical activity. We have good examples of good practice around Wales, but it is probably patchy. I would be keen to work with Huw Lewis, as the Minister for education, and others to ensure that we get good practice across Wales and drive progress on these important matters.
Cytunaf yn gryf â'r pwyntiau a wnaeth Andrew R.T. Davies. Rydym i gyd yn gwybod ein bod nid yn unig mewn cyfnod anodd o ran cyllidebau a chyfalaf, ond y bydd y cyfnod anodd hwn yn ôl pob tebyg yn parhau am gyfnod hir, yn affodus. Felly, mae'n gwneud synnwyr perffaith i wneud gwell defnydd o adeiladau sy'n bodoli eisoes ac adeiladau newydd a adeiladwyd at ddibenion nad ydynt yn ymwneud yn bennaf â chwaraeon, chwaraeon cymunedol a gweithgareddau corfforol. Mae gennym enghreifftiau da o arfer da o gwmpas Cymru, ond mae'n debyg ei fod yn anghyson. Byddwn yn awyddus i gydweithio â Huw Lewis, y Gweinidog addysg, ac eraill i sicrhau arfer da ledled Cymru ac i sbarduno cynnydd ar y materion pwysig hyn.
- 14:42 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Community-focused schools could play a very important part in expanding the number of sports facilities available to the wider community. However, the Welsh Sports Association reports that it is really difficult to get community-focused schools to engage. Will you have discussions with the new Minister for education on how we can get schools to be more community-focused, particularly in relation to sports participation?
Gallai ysgolion bro chwarae rhan bwysig iawn o ran cynyddu nifer y cyfleusterau chwaraeon sydd ar gael i'r gymuned ehangach. Fodd bynnag, mae Cymdeithas Chwaraeon Cymru yn dweud ei bod yn anodd iawn sicrhau bod ysgolion bro'n ymgysylltu. A wnewch chi gynnal trafodaethau â'r Gweinidog addysg newydd ynghylch sut y gallwn sicrhau bod ysgolion yn gwneud mwy i ganolbwyntio ar y gymuned, yn enwedig o ran cymryd rhan mewn chwaraeon?
- 14:43 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Absolutely. As I said in answer to the previous question, I will be pleased to have discussions and joint working with Huw Lewis, as Minister for education, to make sure that we can jointly address these significant matters for sports and physical activity in Wales.
Wrth gwrs. Fel y dywedais wrth ateb y cwestiwn blaenorol, byddaf yn falch o drafod â Huw Lewis, y Gweinidog addysg, a chydweithio ag ef i wneud yn siŵr y gallwn ymdrin ar y cyd â'r materion pwysig hyn o ran chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru.

Clwb Pêl-droed Llanelli

Llanelli Association Football Club

- 14:43 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
5. Pa drafodaethau sydd wedi eu cynnal rhwng y Gweinidog a'i swyddogion a Chymdeithas Bêl-droed Cymru ynglyn â Chlwb Pêl-droed Llanelli OAQ(4)0051(CS)
5. What discussions have taken place between the Minister and his officials and the Welsh Football Association regarding Llanelli AFC? OAQ(4)0051(CS)
- 14:43 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
My officials have contacted the Football Association of Wales over Llanelli Association Football Club. The FAW advises that it is in discussion with the club's supporters group in order to consider its future and the way ahead.
Mae fy swyddogion wedi cysylltu â Chymdeithas Bêl-droed Cymru ynglyn â Chlwb Pêl-droed Llanelli. Mae'r Gymdeithas yn dweud ei bod yn cynnal trafodaethau â grŵp cefnogwyr y clwb er mwyn ystyried ei ddyfodol a'r ffordd ymlaen.
- 14:43 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
On 13 June, the Football Association of Wales decided that Llanelli AFC, as a reformed club, ought not to enter league division three, and instead rejoin its local Carmarthenshire league—a similar situation to Barry Town Football Club. That has serious implications for football and its development as a game across Wales. Both teams have represented Wales in Europe, their academies offer opportunities for young players and they have stadiums that Welsh football cannot afford to lose. As Minister with responsibility for national policy and strategy in relation to sport, will you commit to looking into the matter in great detail?
Ar 13 Mehefin, penderfynodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru na ddylai Clwb Pêl-droed Llanelli, fel clwb wedi'i ailffurfio, fynd i drydedd adran y gynghrair, ac y dylai yn lle hynny ailymuno â'i gynghrair leol yn sir Gaerfyrddin—sefyllfa debyg i Glwb Pêl-droed Tref y Barri. Mae goblygiadau difrifol i hynny o ran pêl-droed a'i ddatblygiad fel gêm ledled Cymru. Mae'r naill dîm a'r llall wedi cynrychioli Cymru yn Ewrop, mae eu hacademiau yn cynnig cyfleoedd i chwaraewyr ifanc ac mae ganddynt stadiymau na all pêl-droed Cymru fforddio eu colli. Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am bolisi a strategaeth genedlaethol ym maes chwaraeon, a wnewch chi ymrwymo i edrych ar y mater yn fanwl iawn?
- 14:44 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
I can assure Keith Davies that I will indeed look into these matters generally, although they are essentially matters for the FAW, and rightly so. I am aware of how much football matters to local communities and how much football clubs matter to local people. The Member has made me perfectly aware, in other conversations, of the strength of feeling locally, and his own strength of feeling, on these matters. Similarly, Jane Hutt has also told me in no uncertain terms the strength of feeling regarding Barry Town FC and the particular circumstances surrounding that club. I am fully aware of the importance of these matters and, with and through officials and others, I will seek to address them.
Gallaf sicrhau Keith Davies y byddaf yn wir yn edrych ar y materion hyn yn gyffredinol, er mai materion i Gymdeithas Bêl-droed Cymru ydynt yn y bôn, a dyna sy'n briodol. Rwyf yn ymwybodol o bwysigrwydd pêl-droed i gymunedau lleol ac o bwysigrwydd clybiau pêl-droed i bobl leol. Mae'r Aelod wedi fy ngwneud yn gwbl ymwybodol, mewn sgorsiau eraill, o gryfder y teimlad yn lleol, ac o gryfder ei deimladau ei hun, am y materion hyn. Yn yr un modd, mae Jane Hutt hefyd wedi sôn wrthyf yn blwmp ac yn blaen am gryfder y teimlad ynghylch Clwb Pêl-droed Tref y Barri ac amgylchiadau penodol y clwb hwnnw. Rwyf yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd y materion hyn a byddaf yn cydweithio â swyddogion ac eraill i geisio mynd i'r afael â hwy.
- 14:45 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
Minister, on the same lines as the question that Keith Davies asked, the decision of the FAW to refuse Llanelli and Barry Town AFCs entry into the Welsh league has been met with dismay by the supporters of both clubs. These clubs play a vital role in encouraging young people to be active and to play football, which is in the long-term interest of the game in Wales. What representation has the Minister made to the FAW on behalf of Llanelli AFC and Barry Town AFC to ask it to reconsider and reverse its decision?
Weinidog, ar yr un trywydd â'r cwestiwn a ofynnodd Keith Davies, bu penderfyniad Cymdeithas Bêl-droed Cymru i wrthod mynediad i glybiau pêl-droed Llanelli a Thref y Barri i gynghrair Cymru yn destun siom i gefnogwyr y ddau glwb. Mae'r clybiau hyn yn chwarae rhan hanfodol o ran annog pobl ifanc i fod yn weithgar ac i chwarae pêl-droed, sydd o fudd hirdymor i'r gêm yng Nghymru. Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cyflwyno i Gymdeithas Bêl-droed Cymru ar ran Clwb Pêl-droed Llanelli a Chlwb Pêl-droed Tref y Barri i ofyn iddi ailystyried a newid ei phenderfyniad?
- 14:45 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
As I said earlier, my officials have been in contact with the FAW, and it is discussing these matters with the club supporters groups.
Fel y dywedais yn gynharach, mae fy swyddogion wedi bod mewn cysylltiad â'r Gymdeithas, sy'n trafod y materion hyn â grwpiau cefnogwyr y clybiau.

- 14:46 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, nid ydych yn gyfrifol am weithredoedd mewnol Cymdeithas Bêl-droed Cymru, ond, wedi dweud hynny, rydych newydd ddisgrifio partneriaeth gref rhyngoch chi, fel Llywodraeth, a'r gymdeithas, ac mae'n bryd edrych ar y bartneriaeth hon a sut mae'n gallu gweithio er lles clybiau fel Llanelli a'r Barri. Dyma ddau glwb sydd â chefnogaeth gref iawn, gyda chefnogwyr yn rhan o reoli'r clybiau ac yn arwain yn hynny. Dyma glybiau sydd hefyd yn ganolfannau cymunedol ac felly'n cyflawni rhywbeth pwysig y mae eich Llywodraeth a'r Cynulliad eisiau ei weld yn digwydd mewn cymdeithas. Roedd y gymdeithas bêl-droed yn dweud bod y clybiau hyn yn ffitio i mewn i'w gynllun strategol cyn i'r penderfyniad hwn gael ei wneud. Felly, a gaf i erfyn arnoch eto i wneud popeth y medrwich fel Llywodraeth i weld bod y gymdeithas yn gwneud tro pedol ar y penderfyniad hwn? Byddai neb yn ei beio pe bai'n gwneud y tro pedol hwnnw.
- 14:47 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- As I said earlier, these are important matters for the clubs, their areas and the supporters, and I very much recognise that, having gone through a fairly interesting history with Newport County AFC over decades, before it got back into the football league, which, thankfully, it now has. Therefore, I fully understand the importance of these matters and, with officials and others, we will give careful consideration to them. However, I am pleased that the FAW is now in talks with the supporters groups.
- Fel y dywedais yn gynharach, mae'r rhain yn faterion pwysig i'r clybiau, eu hardaloedd a'r cefnogwyr, ac rwyf yn ymwybodol iawn, ar ôl profi degawdau o hanes eithaf diddorol gyda chlwb pêl-droed Casnewydd, cyn iddo ddychwelyd i'r gynghrair bêl-droed, sydd, diolch byth, wedi digwydd bellach. Felly, rwyf yn deall pwysigrwydd y materion hyn ac, ynghyd â swyddogion ac eraill, byddwn yn eu hystyried yn ofalus. Fodd bynnag, rwyf yn falch bod Cymdeithas Bêl-droed Cymru nawr yn cynnal trafodaethau â'r grwpiau cefnogwyr.
- 14:47 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, both Llanelli and Barry Town have been given hope by the announcement that there will be an extraordinary general meeting of the FAW a week today, and I am sure that you will join me in calling for both teams to be able to take their rightful place in the Welsh league next season. However, do you think that the scenario that we have seen over the last two weeks has damaged the reputation of Welsh football in Europe, when two of our biggest and most successful clubs have been, basically, brought down to the level at which they are at the moment?
- Weinidog, mae'r cyhoeddiad y bydd y Gymdeithas Bêl-droed yn cynnal cyfarfod cyffredinol arbennig wythnos i heddiw wedi rhoi gobaith i Lanelli a Thref y Barri, ac rwyf yn siŵr y byddwch yn ymuno â mi i alw am i'r ddau dîm gael cymryd eu lle haeddiannol yng nghynghrair Cymru y tymor nesaf. Fodd bynnag, a ydych yn meddwl bod y sefyllfa yr ydym wedi'i gweld dros y pythefnos diwethaf wedi niweidio enw da pêl-droed Cymru yn Ewrop, pan fo dau o'n clybiau mwyaf a'r mwyaf llwyddiannus, yn y bôn, wedi eu tynnu i lawr i'r lefel lle y maent ar hyn o bryd?
- 14:48 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Certainly, we want to see all of our major clubs in Wales succeeding and prospering on and off the field. It is very important that we take forward some positive developments around supporters trusts in Wales, because if you have that broad base of ownership and management of a club among the supporters—the people who really have the passion and interest—it is far healthier than having a concentration of power and responsibility in the hands of one person or a few people.
- Yn sicr, hoffem weld pob un o'n prif glybiau yng Nghymru'n llwyddo ac yn ffynnu ar y cae ac oddi arno. Mae'n bwysig iawn ein bod yn symud ymlaen â rhai datblygiadau cadarnhaol o ran ymddiriedolaethau cefnogwyr yng Nghymru, oherwydd os oes gennych sylfaen eang o berchnogaeth a rheolaeth dros glwb ymysg y cefnogwyr—y bobl a chanddynt wirioneddol frwdfrydedd a diddordeb—mae'n llawer iachach na chrynhoi pŵer a chyfrifoldeb yn nwylo un unigolyn neu nifer bach o bobl.
- 14:48 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I want to concentrate on the 100 and more children who are in Llanelli AFC's academy and the decision that could jeopardise the future of those individuals. Will you join me in welcoming, at least, the FAW's decision to convene that special EGM, where the decision to exclude the club from the Welsh league will, I hope, be reconsidered?
- Weinidog, rwyf am ganolbwyntio ar y 100 a mwy o blant sydd yn academi Clwb Pêl-droed Llanelli, ac ar y penderfyniad a allai beryglu dyfodol yr unigolion hynny. A wnewch ymuno â mi i groesawu, o leiaf, benderfyniad Cymdeithas Bêl-droed Cymru i gynnull y cyfarfod cyffredinol arbennig hwnnw, lle bydd y penderfyniad i eithrio'r clwb o gynghrair Cymru, gobeithio, yn cael ei ailystyried?

- 14:49 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I am pleased that the FAW is talking to the supporters groups and is taking action to address these matters. Rwyf yn falch bod y Gymdeithas Bêl-droed yn siarad â'r grwpiau cefnogwyr ac yn cymryd camau i unioni'r materion hyn.
- 14:49 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
When Merthyr and Newport reformed after similar problems, they started at the bottom of the English pyramid system, not in a local league. Does the Minister share my concern that Llanelli and Barry could be forced to join the English pyramid system unless the FAW changes its mind? Pan aiffurfiodd Merthyr a Chasnewydd ar ôl problemau tebyg, dechreusant ar waelod system byramid Lloegr, nid mewn cynghrair leol. A yw'r Gweinidog yn rhannu fy mhryder y gallai Llanelli a'r Barri gael eu gorfodi i ymuno â system byramid Lloegr oni fydd y Gymdeithas Bêl-droed yn newid ei meddwl?
- 14:49 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I think that the Member raises further matters that might be relevant to the wider picture, but I am sure that all concerned would want to consider the widest possible number of issues that are relevant, because only by doing so will the right results be arrived at. Credaf fod yr Aelod yn codi materion pellach a all fod yn berthnasol i'r darlun ehangach, ond rwyf yn siŵr y byddai pawb dan sylw'n dymuno ystyried y nifer mwyaf posibl o faterion sy'n berthnasol, oherwydd dim ond drwy wneud hynny y cawn y canlyniadau iawn yn y pen draw.
- 14:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Question 6, OAQ(4)0048(CS), has been withdrawn. Cwestiwn 6, OAQ (4) 0048 (CS), yn ôl.

Sefydliadau Celfyddydol

Arts Organisations

- 14:50 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
7. A wnaiffy Gweinidog ddatganiad am y cymorth a roddir i sefydliadau celfyddydol sy'n cynrychioli Cymru dramor? OAQ(4)0044(CS) *7. Will the Minister make a statement on the support given to arts organisations representing Wales abroad? OAQ(4)0044(CS)*
- 14:50 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
A wide range of practical and financial support is available to arts organisations that represent Wales abroad from the Welsh Government's European and external affairs division, and from Wales Arts International, which is part funded by grant in aid from the Arts Council of Wales. Mae ystod eang o gymorth ymarferol ac ariannol ar gael i sefydliadau celfyddydol sy'n cynrychioli Cymru dramor gan is-adran materion Ewropeaidd ac allanol Llywodraeth Cymru, a chan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru, a ariennir yn rhannol drwy gymorth grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru.
- 14:50 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Minister, will you join me in congratulating the Cory Band on winning the European championships in Oslo, and wish it luck in the world championships this weekend in Kerkrade? I would also appreciate, Minister, your thoughts on how best to utilise such bands as the Cory Band to promote Wales, for example during its forthcoming tour of Australia this summer, and its planned tours of South Korea in 2014 and Japan in 2015. Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i longyfarch Band Cory am ennill pencampwriaeth Ewrop yn Oslo, a dymuno pob lwc iddynt ym mhencampwriaethau'r byd y penwythnos hwn yn Kerkrade? Byddwn hefyd yn gwerthfawrogi, Weinidog, eich barn am y ffordd orau i ddefnyddio bandiau megis Band Cory i hyrwyddo Cymru, er enghraifft yn ystod eu taith i Awstralia yr haf hwn, a'r teithiau y maent wedi'u cynllunio i Dde Korea yn 2014 ac i Japan yn 2015.

- 14:50 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- I am pleased to congratulate the Cory Band on its success in winning the European championships. I am sure that all Members will join me in wishing the band every success in the forthcoming world championships. The Cory Band has been recognised as one of Wales's premier amateur performing bands, and rightly so. Therefore, it is an important organisation in terms of flying the flag for Wales internationally. It is part of the rich history that we are fortunate to have in terms of brass and silver bands. With that sort of background, I am sure that the Welsh Government and international relations officials would be happy to learn more of the Cory Band's international programme and to see whether it is possible to work with it to promote Wales more widely.
- Mae'n bleser gennyf longyfarch Band Cory am eu llwyddiant wrth ennill pencampwriaeth Ewrop. Rwyf yn siŵr y bydd yr holl Aelodau'n ymuno â mi i ddydduno pob llwyddiant i'r band ym mhencampwriaeth y byd. Mae Band Cory wedi eu cydnabod yn un o brif fandiau perfformio amatur Cymru, ac mae hynny'n briodol iawn. Felly, mae'n sefydliad pwysig o ran chwifio'r faner dros Gymru yn rhyngwladol. Mae'n rhan o'r hanes cyfoethog yr ydym yn ffodus i'w gael o ran bandiau pres ac arian. Gyda'r math hwnnw o gefndir, rwyf yn siŵr y byddai Llywodraeth Cymru a swyddogion cysylltiadau rhyngwladol yn hapus i ddysgu mwy am raglen ryngwladol Band Cory a gweld a fyddai'n bosibl gweithio gyda hwy i hyrwyddo Cymru'n ehangach.
- 14:51 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- The Minister for Economy, Science and Transport has just visited Russia. What arts and heritage organisations did she take with her?
- Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth newydd ymweld â Rwsia. Pa sefydliadau celfyddydau a threftadaeth a aeth gyda hi?
- 14:51 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Wherever possible, we do try to factor in our foremost cultural organisations with international trade missions. It is not always possible. However, I have been discussing with the Minister how we might be better aligned so that we can learn of the international programmes of our major arts organisations in Wales, and that of others that perhaps have not played a part until now, such as the Cory Band, as we have just discussed, and make sure that there is alignment in timing between those arts organisations' programmes, our international trade missions and other economic development activity.
- Lle bynnag y bo'n bosibl, rydym yn ceisio cynnwys ein sefydliadau diwylliannol mwyaf blaenllaw mewn teithiau masnach rhyngwladol. Nid yw bob amser yn bosibl. Fodd bynnag, rwyf wedi bod yn trafod â'r Gweinidog sut y gallem gydweithio'n well fel y gallwn ddysgu am raglenni rhyngwladol ein sefydliadau celfyddydol mawr yng Nghymru, a rhai eraill nad ydynt efallai wedi cymryd rhan hyd yn hyn, megis Band Cory, fel yr ydym newydd ei drafod, a sicrhau bod yr amseru'n cyd-fynd rhwng rhaglenni'r sefydliadau celfyddydol hynny, ein teithiau masnach rhyngwladol a gweithgarwch datblygu economaidd arall.
- 14:52 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for the answer. Perhaps I can assist you by saying that the answer to my question was actually 'none'. Although Russia is the world's ninth largest economy in a growing global tourism market, it has curiously been overlooked in the Welsh tourism strategy. Your predecessor stated that he was not precious when it came to using Wales's heritage and cultural assets to maximise Wales's tourism potential abroad. So, are you able to say at this stage how often Visit Wales accompanies our arts organisations when they go on tour in the UK or abroad?
- Diolch am yr ateb. Efallai y gallaf eich cynorthwyo drwy ddweud mai'r ateb i fy nghwestiwn mewn gwirionedd oedd 'dim'. Er mai Rwsia yw'r nawfed economi fwyaf yn y byd mewn marchnad dwristiaeth fyd-eang sy'n tyfu, yn rhyfedd ddigon, nid yw strategaeth dwristiaeth Cymru yn rhoi ystyriaeth i hynny. Dywedodd eich rhagflaenydd na fyddai'n dal yn ôl rhag defnyddio asedau treftadaeth a diwylliannol Cymru i gynyddu potensial twristiaeth Cymru dramor. Felly, a allwch ddweud ar hyn o bryd pa mor aml y mae Croeso Cymru yn mynd gyda'n sefydliadau celfyddydol pan fyddant yn mynd ar daith yn y DU neu dramor?
- 14:53 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- I will write to the Member with detailed statistics on that, but I can say that one important aspect of making the connections between international trade missions and Welsh culture and sport was the event attended by the Wales rugby sevens team, which was defending its world title in Russia. The tournament coincided with this particular trade mission. I am sure that much is going on in terms of making these connections, but I am happy to write to the Member with details.
- Ysgrifennaf at yr Aelod ag ystadegau manwl am hynny, ond gallaf ddweud mai un agwedd bwysig ar greu'r cysylltiadau rhwng teithiau masnach rhyngwladol a diwylliant a chwaraeon Cymru oedd y digwyddiad lle'r oedd tîm rygbi saith bob ochr Cymru'n chwarae, ac yn amddiffyn pencampwriaeth y byd yn Rwsia. Roedd y trnamaint yn cyd-daro â'r daith fasnach benodol hon. Rwyf yn siŵr bod llawer yn digwydd o ran creu'r cysylltiadau hyn, ond rwyf yn fodlon ysgrifennu at yr Aelod i roi'r manylion.

- 14:53 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- A gaf i longyfarch Mick Antoniw ar ei swydd newydd fel swyddog cyhoeddusrwydd Band Cory? Mae wedi gwneud ei waith yn arbennig o dda y prynhawn yma, ac y mae wedi codi pwynt eithriadol o bwysig, wrth gwrs, sef bod y teithiau hyn gan rai o'n hartistiaid pennaf ni ac arddangosfeydd celfyddydol o Gymru yn gallu denu diddordeb yng Nghymru o ran buddsoddiad economaidd ac yn sicr o ran twristiaeth. Rwy'n cymryd, o'ch ateb i Suzy Davies, Weinidog, eich bod yn mynd i edrych yn fanwl iawn ar y potensial hwn i weld beth y gellir ei wneud i hyrwyddo Cymru drwy'r gweithgareddau hyn.
- I congratulate Mick Antoniw in his new job as the public relations officer for the Cory Band. He has done his work very well this afternoon, and he has raised an extremely important point, of course, which is that these tours by some of our main artists and arts exhibitions from Wales can attract interest in Wales in terms of economic investment and certainly tourism. I presume, from your answer to Suzy Davies, Minister, that you will look in great detail at this potential to see what could be done to promote Wales through these activities.
- 14:54 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Absolutely. A lot has happened, and a lot is happening, but that is not to say that we cannot build on achievements to date and have an even stronger picture for the future. One of the first meetings that I had after taking this ministerial post was with a visiting delegation from China. The delegates spoke of a National Museum Wales exhibition in Chongqing, with which they were very impressed. They made connections between Chinese history and culture around the dragon and Wales's own dragon. It was really important, I think, for me to understand the strength of feeling that they had in terms of cultural ties and how they feed into economic benefit.
- Yn sicr. Mae llawer wedi digwydd, ac mae llawer yn digwydd, ond nid yw hynny'n golygu na allwn adeiladu ar y llwyddiannau hyd yma a chael darlun hyd yn oed yn gryfach ar gyfer y dyfodol. Un o'r cyfarfodydd cyntaf a gefais ar ôl cymryd y swydd weinidogol hon oedd cyfarfod â dirprwyaeth ar ymweliad o Tsieina. Siaradodd y cynrychiolwyr am arddangosfa gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn Chongqing a wnaeth argraff dda iawn arnynt. Roeddent yn creu cysylltiadau rhwng hanes a diwylliant Tsieina yn ymwneud â'r ddraig a draig Cymru hithau. Roedd yn bwysig iawn, rwyf yn meddwl, imi ddeall cryfder eu teimladau o ran cysylltiadau diwylliannol a sut y maent yn cyfrannu at fudd economaidd.
- 14:55 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Minister, another enormous opportunity to raise the profile of the arts in Wales internationally is the very successful Swansea bay bid to become the city of culture 2017, which was welcomed just a few minutes ago by the First Minister in this Chamber. Minister, will you and your department also get behind the Swansea bay bid and help us to succeed over Dundee, Hull and Leicester to become the UK city of culture 2017?
- Weinidog, mae cais llwyddiannus iawn bae Abertawe i ddod yn ddinas diwylliant 2017, a groesawyd rai munudau'n ôl gan y Prif Weinidog yn y Siambr hon, yn gyfle enfawr arall i godi proffil y celfyddydau yng Nghymru ledled y byd. Weinidog, a wnewch chi a'ch adran hefyd gefnogi cais bae Abertawe a'n helpu i drechu Dundee, Hull a Chaerlŷr i fod yn ddinas diwylliant y Deyrnas Unedig yn 2017?
- 14:55 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- I am very happy to join Julie James and the First Minister in wishing Swansea all the best with its city of culture bid. Obviously, I have been in discussion with Swansea council, as have my officials and others, around these matters, and we will be very pleased to work with Swansea to maximise its chances of success.
- Rwyf yn hapus iawn i ymuno â Julie James a'r Prif Weinidog i ddymuno'n dda i gais Abertawe i fod yn ddinas diwylliant. Yn amlwg, rwyf wedi bod yn trafod y materion hyn â chyngor Abertawe, ynghyd â'm swyddogion ac eraill, a byddwn yn falch iawn o weithio gydag Abertawe i roi'r cyfle gorau posibl iddi lwyddo.
- Chwaraeon Morol** **Marine Sport**
- 14:56 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth sydd ar gael i ddatblygu chwaraeon morol yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0038(CS)
8. Will the Minister make a statement on the support available for marine sport development in north Wales? OAQ(4)0038(CS)
- 14:56 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Welsh Government supports marine sport development across Wales, including north Wales, where we invest in the National Watersports Centre at Plas Menai.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu chwaraeon morol ledled Cymru, gan gynnwys yn y gogledd, lle rydyn ni'n buddsoddi yn y Ganolfan Chwaraeon Dŵr Genedlaethol ym Mhlas Menai.

14:56 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you that response, Minister. You will be aware of the improvements that have been taking place in Colwyn Bay, and the development that has taken place on the coast there at Porth Eirias. It is a fantastic destination, which the local authority and many others in the town of Colwyn Bay are seeking to develop as a marine tourism hotspot. Will you join me in congratulating Colwyn Bay Watersports, a community interest company that has been set up to take advantage of the opportunities presented in the locality? Also, what support might you be able to offer the company, possibly through a visit in the future, to ensure that the maximum opportunities are taken as a result of the development that has taken place?

Diolch am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol o'r gwelliannau sydd wedi bod yn digwydd ym Mae Colwyn, ac o'r gwaith datblygu sydd wedi'i wneud ar yr arfordir yno ym Mhorth Eirias. Mae'n gyrchfan wych; mae'r awdurdod lleol a llawer o bobl eraill yn nhref Bae Colwyn yn ceisio ei datblygu fel man poblogaidd ym maes twristiaeth forol. A wnewch ymuno â mi i longyfarch Chwaraeon Dŵr Bae Colwyn, cwmni buddiant cymunedol sydd wedi'i sefydlu i fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir yn yr ardal? Hefyd, pa gymorth y gallech ei gynnis i'r cwmni, o bosibl drwy ymweld yn y dyfodol, i sicrhau ein bod yn manteisio ar gynifer â phosibl o gyfleoedd o ganlyniad i'r datblygiad sydd wedi digwydd?

14:57 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I am very pleased to join Darren Millar in recognising the important development that has taken place and the advantages and potential that this brings. I think that Colwyn Bay Watersports is one example of development across Wales that is very significant and encouraging. When I am in that part of Wales, I would be very happy to arrange a visit.

Rwyf yn falch iawn o ymuno â Darren Millar a chydabod y datblygiad pwysig sydd wedi digwydd a'r manteision a'r potensial a ddaw yn sgil hyn. Credaf fod Chwaraeon Dŵr Bae Colwyn yn un enghraifft o ddatblygiad ar draws Cymru sy'n arwyddocaol ac yn galonogol iawn. Pan fyddaf yn y rhan honno o Gymru, byddwn yn hapus iawn i drefnu ymweliad.

14:57 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Mae partneriaeth awyr agored gogledd-orllewin Cymru wedi bod yn meithrin diddordeb a hyrwyddo datblygiad sgiliau plant a phobl ifanc mewn gwahanol chwaraeon dŵr, gan ddefnyddio'r adnoddau ym Mhlas Menai ac ym Mhwlheli—ac rydym yn gobeithio y bydd yr academi hwylio yn y fan honno yn llwyddiant mawr. A wnewch chi sicrhau bod y gwaith ardderchog sy'n digwydd yn y bartneriaeth yn cael ei barhau drwy gefnogaeth ariannol sy'n dod gan Lywodraeth Cymru i'r bartneriaeth?

The north-west Wales outdoor pursuit partnership has been nurturing interest and promoting the development of the skills of children and young people in various marine sports, using the resources in Plas Menai and in Pwllheli—and we hope that the sailing academy there will be a huge success. Will you ensure that this excellent work that is happening in the partnership is continued via financial support that is provided by the Welsh Government to the partnership?

14:58 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I am very aware of the developments from my current ministerial post and, indeed, previous posts, and I think that they have been very productive and useful. It is a very difficult time, as we all know, in terms of budgets and finances, but I and other Government Ministers will be very pleased to continue working with partners in north Wales on these matters.

Rwyf yn ymwybodol iawn o'r datblygiadau yn sgil fy swyddi weinidogol bresennol ac, yn wir, yn sgil swyddi blaenorol, ac rwyf yn meddwl eu bod wedi bod yn gynhyrchiol ac yn ddefnyddiol iawn. Mae'n gyfnod anodd iawn, fel y gwyddom oll, o ran cyllidebau a chyllid, ond byddaf fi a Gweinidogion eraill y Llywodraeth yn falch iawn o barhau i gydweithio â phartneriaid yng ngogledd Cymru ar y materion hyn.

Plant yn Cymryd Rhan mewn Chwaraeon

The Participation of Children in Sport

14:58 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn annog plant i gymryd rhan mewn chwaraeon fel rhan o ffordd iach o fyw? OAQ(4)0037(CS)

9. Will the Minister make a statement on how the Welsh Government is encouraging children to participate in sport as part of a healthy lifestyle? OAQ(4)0037(CS)

14:58 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Through Sport Wales, we are investing in sports governing bodies, local authorities and the third sector to provide a variety of opportunities for children to play sport and to give them the skills, confidence and motivation to enjoy playing sport throughout their lives.

Drwy Chwaraeon Cymru, rydym yn buddsoddi mewn cyrff llywodraethu chwaraeon, awdurdodau lleol a'r trydydd sector i ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd i blant gymryd rhan mewn chwaraeon ac i roi'r sgiliau, yr hyder a'r cymhelliant iddynt i fwynhau cymryd rhan mewn chwaraeon drwy gydol eu bywydau.

- 14:59 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer. Minister, we all want our children to stay healthy. Do you agree with me that it is not just about diet, and that participation in sport, particularly organised sport, is equally important? With this in mind, will you join me in congratulating the small army of volunteers who, across Islwyn and the rest of Wales, make grass-roots sport possible?
- Diolch am yr ateb hwnnw. Weinidog, hoffem i gyd i'n plant aros yn iach. A ydych yn cytuno â mi nad dim ond mater o ddeiet yw hynny, a bod cymryd rhan mewn chwaraeon, ac yn arbennig chwaraeon wedi'u trefnu, yr un mor bwysig? Felly, a wnewch chi ymuno â mi i longyfarch y fyddin fechan o wirfoddolwyr sydd, ar draws Islwyn a gweddill Cymru, yn gwneud chwaraeon ar lawr gwlad yn bosibl?
- 14:59 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am very pleased to join Gwyn Price in paying tribute to our volunteers; we cannot do it often or strongly enough. Volunteers bring so much to Wales, right across the piece of life and activity. In terms of sport, they are absolutely its lifeblood. So, I am very pleased that Sport Wales has a specific target to double the number of volunteers in Wales. We have increased the number of active coaches over the past 12 months as well. These are very important matters. I am pleased to join the Member in paying tribute to those volunteers.
- Rwyf yn falch iawn o ymuno â Gwyn Price a thalu teyrnged i'n gwirfoddolwyr; ni allwn wneud hynny'n ddigon aml nac yn ddigon cryf. Mae gwirfoddolwyr yn rhoi cymaint i Gymru, drwyddi draw mewn bywyd a gweithgareddau. Gwirfoddolwyr yw enaid chwaraeon. Felly, rwyf yn falch iawn fod gan Chwaraeon Cymru darged penodol i ddyblu nifer y gwirfoddolwyr yng Nghymru. Rydym wedi cynyddu nifer yr hyfforddwyr gweithredol yn ystod y 12 mis diwethaf hefyd. Mae'r rhain yn faterion pwysig iawn. Rwyf yn falch o ymuno â'r Aelod a thalu teyrnged i'r gwirfoddolwyr hynny.
- 15:00 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I concur with Gwyn Price's question, Minister. You will be aware that the report from the schools and physical activity task and finish group called on the Welsh Government to make physical education in schools a core subject, along with mathematics and English, to help tackle rising obesity. I wonder what your view of that is. Would you agree that the problem is that PE is confined to a limited time in the school day and has a one-size-fits-all approach? Is it not better that we try to encourage children to engage in a wide range of sports, particularly outside school and beyond their school career?
- Rwyf yn cytuno â chwestiwn Gwyn Price, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol bod yr adroddiad gan y grŵp gorchwyl a gorffen ysgolion a gweithgarwch corfforol wedi galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod addysg gorfforol yn bwnc craidd mewn ysgolion, ynghyd â mathemateg a Saesneg, i helpu i fynd i'r afael â gordewdra cynyddol. Tybed beth yw eich barn am hynny? A fydech yn cytuno mai'r broblem yw bod addysg gorfforol wedi'i chyfyngu i gyfnod penodol iawn yn y diwrnod ysgol gan ddefnyddio dull un-maint-i-bawb? Oni fyddai'n well inni geisio annog plant i gymryd rhan mewn ystod eang o chwaraeon, yn enwedig y tu allan i'r ysgol a'r tu hwnt i'w gyrfa yn yr ysgol?
- 15:00 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- It is important that we address these issues from a variety of angles within and without school. As I said earlier, Tanni Grey-Thompson's report is a significant piece of work. It is vital that we reach children effectively with regard to sport and physical activity in school, where they spend a considerable amount of time. I think that that single recommendation, in terms of making sport a core part of the curriculum, is a powerful one. Together with the Minister for Education and Skills, I will consider the report and respond in due course.
- Mae'n bwysig ein bod yn mynd i'r afael â'r materion hyn o amryw o gyfeiriadau y tu mewn i'r ysgol a'r tu allan. Fel y dywedais yn gynharach, mae adroddiad Tanni Grey-Thompson yn ddarn arwyddocaol o waith. Mae'n hanfodol ein bod yn cyrraedd plant yn effeithiol o ran chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn yr ysgol, lle maent yn treulio cryn dipyn o amser. Credaf fod yr un argymhelliad hwnnw, o ran gwneud chwaraeon yn bwnc craidd yn y cwricwlwm, yn un pwerus. Ynghyd â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, byddaf yn ystyried yr adroddiad ac yn ymateb maes o law.
- 15:01 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I ought to say, before I ask my question, that my daughter is one of the Minister's sports coaches. [Laughter.] Minister, the National Union of Teachers says that there has been a 12% decline in secondary school sport participation. One of the most significant factors is self-esteem, especially for girls. It is illogical, it seems to me, that you promote sport, on the one hand, and then insist that girls wear PE skirts or shorts on the other. Can you explain how a PE skirt improves somebody's self-esteem?
- Dylwn ddweud, cyn imi ofyn fy nghwestiwn, fod fy merch yn un o hyfforddwyr chwaraeon y Gweinidog. [Chwerthin.] Weinidog, mae Undeb Cenedlaethol yr Athrawon yn dweud y bu 12% o ostyngiad mewn cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ysgolion uwchradd. Un o'r ffactorau mwyaf arwyddocaol yw hunan-barch, yn enwedig ymysg merched. Mae'n ymddangos yn afresymegol i mi eich bod yn hyrwyddo chwaraeon ar y naill law, ac yna'n mynnu bod merched yn gwisgo sgertiau addysg gorfforol neu siorts ar y llaw arall. A allwch chi egluro sut y mae sgert addysg gorfforol yn gwella hunan-barch rhywun?

15:02	John Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I am not able to explain how a PE skirt increases somebody's self-esteem, and I do not intend to try. [Laughter]. I congratulate Jocelyn Davies's daughter on her efforts to ensure that we become a more sporting nation. These are significant matters that are well-recognised. There is a particular problem with girls in secondary schools, especially when it comes to taking part in sport, and dress is a significant part of the equation. That is well-recognised as well. We have to provide a better offer in terms of variety—dance, for example, is popular with many girls. It is not the only option that is a solution to these issues, but it is a significant part of offering that greater choice. We understand these problems, so do Sport Wales and schools. By working together, around Tanni Grey-Thompson's report, I am sure that we can make further progress.</p>	<p>Ni allaf esbonio sut y mae sgert addysg gorfforol yn rhoi hwb i hunan-barch rhywun, ac nid wyf yn bwriadu rhoi cynnig ar hynny. [Chwerthin]. Rwyf yn llongyfarch merch Jocelyn Davies am ei hymdrechion i sicrhau ein bod yn dod yn genedl sy'n gwneud mwy o chwaraeon. Mae'r rhain yn faterion pwysig sydd wedi cael llawer o gydnabyddiaeth. Mae problem benodol o ran merched mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig o ran cymryd rhan mewn chwaraeon, ac mae gwsg yn rhan bwysig o'r hafaliad. Mae hynny hefyd wedi cael llawer o gydnabyddiaeth. Rhaid inni wneud cynnig gwell o ran amrywiaeth—mae dawns, er enghraifft, yn boblogaidd ymysg llawer o ferched. Nid dyma'r unig opsiwn i ddatrys y materion hyn, ond mae'n rhan bwysig o gynnig y dewis ychwanegol hwnnw. Rydym yn deall y problemau hyn, ac mae Chwaraeon Cymru ac ysgolion yn eu deall hefyd. Drwy gydweithio, yn seiliedig ar adroddiad Tanni Grey-Thompson, rwyf yn siŵr y gallwn wneud cynnydd pellach.</p>
15:03	William Powell Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Gwyn Price, as a fellow member of the cross-party group on sport, raises an important point today. I know that it is true to say that a number of popular Welsh sports, such as bowls, are traditionally practised by people of the older generation, more so than younger people. What steps is the Welsh Government prepared to take to promote cross-generational participation in such sports, not only with the healthy lifestyles agenda, but also with the benefits that would accrue in terms of community and inclusion?</p>	<p>Mae Gwyn Price, fel cyd-aelod o'r grŵp trawsbleidiol ar chwaraeon, yn codi pwynt pwysig heddiw. Gwn ei bod yn wir dweud bod nifer o chwaraeon sy'n boblogaidd yng Nghymru, megis bowlio, yn cael eu chwarae'n draddodiadol gan bobl y genhedlaeth hŷn, yn fwy felly na phobl iau. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n barod i'w cymryd i hybu cyfranogiad ar draws y cenedlaethau mewn chwaraeon o'r fath, nid yn unig o ran yr agenda ffyrdd iach o fyw, ond hefyd y manteision a fyddai'n deillio o hynny o ran y gymuned a chynhwysiant?</p>
15:03	John Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Our general strategy is about reaching all age groups and all sections of society in Wales, and that includes older people. They are very much part of our sports strategy and policies. That applies to Sport Wales and others. The inter-generational aspects are not so developed and considered. Those are interesting matters and I will ensure that they are brought to the attention of Sport Wales and others.</p>	<p>Mae ein strategaeth gyffredinol yn ymwneud â chyrraedd pob grŵp oedran a phob rhan o'r gymdeithas yng Nghymru, ac mae hynny'n cynnwys pobl hŷn. Maent yn rhan bwysig iawn o'n strategaeth a'n polisiau chwaraeon. Mae hynny'n berthnasol i Chwaraeon Cymru ac eraill. Nid yw'r agweddau rhyng-genhedlaeth wedi'u datblygu na'u hystyried i'r un graddau. Mae'r rhain yn faterion diddorol a byddaf yn sicrhau ein bod yn tynnu sylw Chwaraeon Cymru ac eraill atynt.</p>
	S4C	S4C
15:04	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw drafodaethau y mae ei adran wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU ynglyn ag S4C? OAQ(4)0046(CS)</p>	<p>10. Will the Minister make a statement on any discussions his department has had with the UK Government about S4C? OAQ(4)0046(CS)</p>
15:04	John Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Fel Llywodraeth, rydym wedi mynegi ein pryderon yn rheolaidd i Lywodraeth Prydain ynglŷn ag effaith toriadau i gyllid S4C a phwysigrwydd diogelu annibyniaeth y sianel. Ar 24 Mehefin, ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i fynegi pryder am effeithiau unrhyw doriadau pellach ar S4C.</p>	<p>As a Government, we have regularly expressed our concerns to the UK Government about the impact that any major funding cuts will have on S4C and the importance of protecting the independence of S4C. On 24 June, I wrote to the Secretary of State for Culture, Media and Sport to express concern about the effect of any further cuts on S4C.</p>

15:05	<p>Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography</p> <p>Diolch am yr ateb hwnnw, Gweinidog. Wrth gwrs, mae'n galonogol nad oedd toriadau pellach i S4C, ond mae'r arian sy'n mynd i S4C yn bitw beth bynnag. Pa drafodaethau rydych wedi eu cael ynglŷn â beth fydd yn digwydd yn y dyfodol pan fydd ail-negodi ar gytundeb y BBC? Mae'n bwysig ein bod yn cael cyllideb annibynnol i S4C, er mwyn i'r sianel gyflawni'r hyn sy'n bosibl gyda'r arian hwnnw, ac er mwyn i raglenni fel 'Heno' allu parhau, gan helpu'r economi leol.</p>	<p>Thank you for that reply, Minister. Of course, it was encouraging that there were no additional cuts for S4C, but the money that it receives is not much as it is. What discussions have you had with regard to what will happen in future, when the BBC agreement is renegotiated? It is important that we have an independent budget for S4C, so that the channel is able to do what it can with that money, and so that programmes such as 'Heno' can continue, thereby helping the local economy.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:05	<p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>S4C is important to Wales in many ways—the language, our culture, broadcasting and the economy. It has a vital role. We have all been concerned at the substantial cuts that it has suffered in its funding. I have met with S4C and, indeed, BBC Wales and others to discuss these matters. There was a feeling that the independence of the channel had been safeguarded through the new relationship with the BBC Trust, and perhaps some sort of settled position had been arrived at. That is why the concerns around further cuts in DCMS funding were so alarming. Thankfully, that did not happen, but we all need to redouble our efforts to ensure that there is stability and confidence for the future.</p>	<p>Mae S4C yn bwysig i Gymru mewn sawl ffordd—yr iaith, ein diwylliant, darlledu a'r economi. Mae ganddi swyddogaeth hanfodol. Rydym i gyd wedi bod yn pryderu am y toriadau sylweddol y mae wedi'u dioddef i'w chyllid. Rwyf wedi cwrdd â S4C ac, yn wir, â BBC Cymru ac eraill i drafod y materion hyn. Roedd teimlad bod annibyniaeth y sianel wedi ei diogelu drwy berthynas newydd ag Ymddiriedolaeth y BBC, a'i bod efallai wedi cyrraedd rhyw fath o sefyllfa sefydlog. Dyna pam yr oedd y pryderon ynghylch toriadau pellach i gyllid DCMS mor frafwychus. Diolch byth, ni ddigwyddodd hynny, ond mae angen inni i gyd barhau i ymdrechu i sicrhau y ceir sefydlogrwydd a hyder ar gyfer y dyfodol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:06	<p>Suzy Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Weinidog, rwy'n siŵr ein bod i gyd yn croesawu penderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddiogelu S4C rhag toriadau yn yr adolygiad gwariant diweddaraf. Fel y dywedodd Bethan Jenkins, nid dyna ddiwedd y stori. Yn eich trafodaethau â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, faint ydych yn dadlau nad yw S4C yn berthnasol i Gymru yn unig, ond ei fod hefyd yn hybu treftadaeth iaith sy'n berthnasol i Brydain gyfan?</p>	<p>Minister, I am sure that we all welcome the UK Government's decision to safeguard S4C's funding in the last spending review. As Bethan Jenkins said, that is not the end of the story. In your discussions with the UK Government, to what extent do you argue that S4C is not only relevant to Wales, but that it also promotes a linguistic heritage that is relevant to the whole of Britain?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:07	<p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Absolutely. It is part of that overall picture—the 'rich tapestry', as which I think it might be described—that makes up the UK. That is a very important point to make, and one that is well understood.</p>	<p>Yn hollol. Mae'n rhan o'r darlun cyffredinol—y 'tapestri cyfoethog', fel yr wyf yn meddwl y gellid ei ddisgrifio—sy'n gwneud y DU. Mae hwnnw'n bwynt pwysig iawn i'w wneud, ac yn un yr ydym yn ei deall yn dda.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Hanes Diwyllianol Cymru</p>		<p>Welsh Cultural History</p>	
15:07	<p>Angela Burns Bywgraffiad Biography</p> <p><i>11. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gynlluniau i ehangu gwybodaeth am hanes diwylliannol Cymru? OAQ(4)0050(CS)</i></p>	<p><i>11. Will the Minister provide an update on his plans to widen knowledge of Welsh cultural history? OAQ(4)0050(CS)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:07	<p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Welsh Government will continue to develop strategies and policies to strengthen and widen knowledge, understanding and enjoyment of cultural history.</p>	<p>Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ddatblygu strategaethau a pholisïau i gryfhau ac ehangu gwybodaeth, dealltwriaeth a mwynhad o hanes diwylliannol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:07	<p>Angela Burns Bywgraffiad Biography</p> <p>Have you had any conversations with either the Minister for Education and Skills or any of the examination or curricula-setting bodies as to how we might incorporate more Welsh cultural history into things like GCSE history?</p>	<p>A ydych wedi cael unrhyw sgysiau naill ai â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, neu ag unrhyw un o'r cyrff arholi neu osod cwricwla ynghylch sut y gallem gynnwys mwy o hanes diwylliannol Cymru mewn pethau fel TGAU hanes?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

15:08 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

These are early days for our new Minister for Education and Skills, of course, and we have not had an opportunity to discuss these matters yet, but we will do so. Of course, the Cwricwlwm Cymreig has been the subject of a review group chaired by Dr Elin Jones to consider the teaching of Welsh history. That group has produced an interim report with recommendations, and there was recently a consultation exercise. The group will now consider the responses received, and will be providing a final report to the Minister for education in July.

Megis dechrau yn ei swydd y mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau newydd, wrth gwrs, ac nid ydym wedi cael cyfle i drafod y materion hyn eto, ond byddwn yn gwneud hynny. Wrth gwrs, mae'r Cwricwlwm Cymreig wedi bod yn destun grŵp adolygu dan gadeiryddiaeth Dr Elin Jones i ystyried dysgu hanes Cymru. Mae'r grŵp hwnnw wedi cynhyrchu adroddiad interim gydag argymhellion, a chafwyd ymarfer ymgynghori'n ddiweddar. Bydd y grŵp nawr yn ystyried yr ymatebion a gafwyd, ac yn darparu adroddiad terfynol i'r Gweinidog addysg ym mis Gorffennaf.

15:08 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Question 12, OAQ(4)0047(CS), has been withdrawn. Tynnwyd cwestiwn 12, OAQ (4) 0047 (CS), yn ôl.

Treftadaeth Lenyddol

Literary Heritage

15:08 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13. A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo treftadaeth lenyddol Cymru? OAQ(4)0041(CS)

13. Will the Minister outline the Welsh Government's plans to promote Wales' literary heritage? OAQ(4)0041(CS)

15:09 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Wales has a rich and diverse literary heritage that is safeguarded and promoted by organisations like the Welsh Books Council and Literature Wales. The Library of Wales series was developed specifically to ensure that a collection of classics, both in English and Welsh, is available both in print and digitally.

Mae gan Gymru dreftadaeth lenyddol gyfoethog ac amrywiol sy'n cael ei diogelu a'i hybu gan sefydliadau megis Cyngor Llyfrau Cymru a Llenyddiaeth Cymru. Cafodd cyfres Llyfrgell Cymru ei datblygu'n benodol i sicrhau bod casgliad o glasuron, yn Gymraeg a Saesneg, ar gael mewn print ac yn ddigidol.

15:09 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Many decades ago, James Joyce enthusiasts in Dublin created Bloomsday, which is now celebrated not only in Ireland, but across the world. In anticipation of the centenary celebrations for Dylan Thomas's birth next year, will you meet with a group of enthusiastic supporters with a view to establishing a 'Dylan's Day'—not just here in Wales—to celebrate the life of that author, and to promote and exploit that opportunity as a way of exporting Welsh culture and heritage and improving our tourism offer? Would you meet with those individuals who feel that this is an appropriate way to enhance the reputation of our literary heritage?

Ddegawdau lawer yn ôl, creodd selogion James Joyce yn Nulyn Bloomsday, sydd erbyn hyn yn cael ei ddathlu nid yn unig yn Iwerddon, ond ledled y byd. I baratoi at ddathliadau canmlwyddiant genedigaeth Dylan Thomas y flwyddyn nesaf, a wnewch chi gwrdd â grŵp o gefnogwyr brwd gyda golwg ar sefydlu 'Dydd Dylan'—nid dim ond yma yng Nghymru—i ddathlu bywyd yr awdur hwnnw, ac i hyrwyddo a manteisio ar y cyfle hwnnw fel ffordd o allforio diwylliant a threftadaeth Cymru a gwella ein cynnig i dwristiaid? A wnewch chi gwrdd â'r unigolion hynny sy'n teimlo bod hon yn ffordd briodol o hybu enw da ein treftadaeth lenyddol?

15:10 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Member raises interesting ideas. Bloomsday is an important international success, and is good for Ireland and its literary heritage. If the Member's constituents bringing forward these ideas were to write to me with more detail, I could consider them and respond in due course.

Mae'r Aelod yn codi syniadau diddorol. Mae Bloomsday yn llwyddiant rhyngwladol pwysig, ac mae'n dda i Iwerddon a'i threftadaeth lenyddol. Pe bai etholwyr yr Aelod sydd wedi cyflwyno'r syniadau hyn yn ysgrifennu ataf â mwy o fanylion, gallwn eu hystyried ac ymateb maes o law.

- 15:10 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Will you join me in paying tribute to the Association for Welsh Writing in English and all it has done over the last three decades to promote the study of Welsh writing in English? As you may be aware, the association has just celebrated its twenty-fifth annual conference, which continues to be held in its spiritual home of Gregynog Hall in my constituency. What continued support can the Welsh Government provide to the association to ensure that its important work continues to expand and flourish?
- A wnewch chi ymuno â mi i dalu teyrnged i Gymdeithas Llên Saesneg Cymru a phopeth y maent wedi'i wneud dros y tri degawd diwethaf i hybu astudio ysgrifennu Saesneg o Gymru? Fel y byddwch yn ymwybodol, mae'r gymdeithas newydd ddathlu ei phumed cynhadledd flynyddol ar hugain, sy'n dal i gael ei chynnal yn ei chartref ysbrydol yn Neuadd Gregynog yn fy etholaeth. Pa gymorth parhaus y gall Llywodraeth Cymru ei roi i'r gymdeithas er mwyn sicrhau bod ei gwaith pwysig yn parhau i ehangu a ffynnu?
- 15:11 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Welsh writing in English is important to Wales and is an important part of the literary scene, and the association does a great deal of good work; I congratulate the Member on his constituency connection. These are matters that we do and will consider, because they are an important part of our overall strategies and policy.
- Mae ysgrifennu Saesneg o Gymru yn bwysig i Gymru ac mae'n rhan bwysig o'r byd llenyddol, ac mae'r gymdeithas yn gwneud llawer iawn o waith da; hoffwn longyfarch yr Aelod am y cysylltiad â'i etholaeth. Mae'r rhain yn faterion yr ydym yn eu hystyried, ac y byddwn yn eu hystyried, oherwydd maent yn rhan bwysig o'n strategaethau a'n polisi cyffredinol.
- 15:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister. Diolch, Weinidog.
- Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.11 p.m.* *The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.11 p.m.*
- 15:11 **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes** Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Business Statement and Announcement**
- Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*
- I have one change to report to this week's business. The statement on qualifications in Wales has been postponed. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.
- Mae gennyf un newid i'w adrodd i fusnes yr wythnos hon. Mae'r datganiad am gymwysterau yng Nghymru wedi ei ohirio. Mae busnes y tair wythnos nesaf fel y dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ymysg y papurau agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.
- 15:12 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am grateful to the Minister for her statement today. I ask her to bring forward a statement on the basis that, last Sunday, while attending an illegal bonfire in Garndiffaith, missiles were thrown at firefighters and their fire engine while they tried to put out the fire. We are all aware of regular attacks on ambulance crews as they attend to injured people, but an FBU report highlighted that some 40 attacks on fire crews occur across the country each week. I am sure that all Members agree that it is beyond belief that firefighters and paramedics are attacked while serving our communities and while they try to save lives. I request a ministerial statement, providing further guidance to relevant authorities on tackling incidents of attacks upon our emergency services personnel, particularly at this time of the year, when grass fires may be anticipated.
- Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw. Gofynnaf iddi gyflwyno datganiad am yr hyn a ddigwyddodd ddydd Sul diwethaf, mewn coelcerth anghyfreithlon yng Ngarndiffaith, pan daflwyd taflegrau at ddiffoddwyr tân a'u hinjan dân tra oeddent yn ceisio diffodd y tân. Rydym i gyd yn ymwybodol o ymosodiadau rheolaidd ar griwiau ambiwlans wrth iddynt roi sylw i bobl sydd wedi'u hanafu, ond nododd adroddiad FBU fod tua 40 o ymosodiadau ar griwiau tân yn digwydd ledled y wlad bob wythnos. Rwyf yn siŵr bod pob Aelod yn cytuno ei bod yn gwbl anhygoel bod diffoddwyr tân a pharafeddygon yn dioddef ymosodiadau wrth iddynt wasanaethu ein cymunedau a cheisio achub bywydau. Gofynnaf am ddatganiad gweinidogol, yn rhoi arweiniad pellach i awdurdodau perthnasol ar ymateb i ymosodiadau ar staff ein gwasanaethau brys, yn enwedig ar yr adeg hon o'r flwyddyn, pan all tanau glaswellt ddigwydd.

15:12

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that question. It is certainly disheartening to hear of such attacks on our emergency services personnel. Fire and rescue authorities work in collaboration with the police to crack down on the perpetrators of any grass fires or arson attacks. Deliberate fire setting is a crime, and the authorities work closely together. I am keeping a close eye on that, and I am doing a great deal of work with fire and rescue authorities at the moment, and I will bring a statement forward in due course.

Diolch am y cwestiwn hwnnw. Mae'n sicr yn dorcalonnu clywed am ymosodiadau o'r fath ar staff ein gwasanaethau brys. Mae awdurdodau tân ac achub yn cydweithio â'r heddlu i atal y rhai sy'n cynnu tanau glaswellt neu'n cyflawni ymosodiadau llosgi bwriadol. Mae cynnu tân yn fwrriadol yn drosedd, ac mae'r awdurdodau'n cydweithio'n agos. Rwyf yn cadw llygad barud ar hynny, ac rwyf yn gwneud llawer iawn o waith gydag awdurdodau tân ac achub ar hyn o bryd, a byddaf yn cyflwyno datganiad maes o law.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:13

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Further to that, could we have a statement on what measures the Welsh Government is putting in place to ensure a degree of preparedness in the event of any large-scale grass fires this year? This may not seem a problem given the current weather, but we are all aware of the dangers that these fires have caused in previous years. Such fires are very traumatic for some communities. My constituency has suffered over the years, when grass fires break out. Could we also have some information on how different departments of the Welsh Government are working with partner agencies to promote awareness of the dangers of these fires?

Ar ben hynny, a gawn ni ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i baratoi rhywfaint rhag ofn y ceir tanau glaswellt ar raddfa fawr eleni? Efallai nad yw'n ymddangos bod hyn yn broblem ac ystyried y tywydd ar hyn o bryd, ond rydym i gyd yn ymwybodol o'r peryglon y mae'r tanau hyn wedi eu hachosi mewn blynyddoedd blaenorol. Mae tanau o'r fath yn drawmatig iawn i rai cymunedau. Mae fy etholaeth i wedi dioddef dros y blynyddoedd o ganlyniad i danau glaswellt. A allem hefyd gael rhywfaint o wybodaeth am sut y mae gwahanol adrannau Llywodraeth Cymru'n cydweithio ag asiantaethau sy'n bartneriaid i hybu ymwybyddiaeth o beryglon y tanau hyn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:14

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I met with the chief fire officers two weeks ago, along with the chairs, and I was quite shocked at how many grass fires there had been this year, even with the poor summer weather. I mentioned in my answer to William Graham that fire and rescue authorities work closely with the police, local authorities and Natural Resources Wales to crack down on the perpetrators, and are at the forefront in the delivery of preventative education.

Cefais gyfarfod â'r prif swyddogion tân bythefnos yn ôl, ynghyd â'r cadeiryddion, ac roedd yn gryn syndod imi glywed faint o danau glaswellt sydd wedi digwydd eleni, hyd yn oed yn nhywydd gwael yr haf. Soniais yn fy ateb i William Graham am y ffaith bod awdurdodau tân ac achub yn cydweithio'n agos â'r heddlu, awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru i atal y rhai sy'n gyfrifol am hyn, a'u bod ar flaen y gad o ran darparu addysg ataliol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:14

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call for two statements. The first is in relation to a prison in north Wales. You will be aware of the welcome news that the Ministry of Justice announced last week that north Wales is a preferred location for a £250 million prison, with work possibly starting as early as summer 2015. The Secretary of State said that this will be the first prison for north Wales and a massive boost to the economy, but failed to confirm that Wrexham would, indeed, be its home. Given also that the leader of Wrexham County Borough Council, on behalf of the region, wrote to the First Minister last week, talking about developing a business case tailored to the Wrexham location—the former fire service site on Wrexham industrial estate—and concluding by saying that he hoped that the First Minister would give full and serious consideration to the proposal, could we have a statement detailing the Welsh Government's position and its engagement to drive forward Wrexham as the preferred location?

Galwaf am ddau ddatganiad. Mae'r cyntaf yn ymwneud â charchar yn y gogledd. Byddwch yn ymwybodol o'r newyddion da bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyhoeddi'r wythnos diwethaf fod y gogledd yn lleoliad a ffefrir ar gyfer charchar gwerth £250 miliwn, a'i bod yn bosibl y bydd y gwaith yn dechrau mor gynnar â haf 2015. Dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol mai hwn fydd charchar cyntaf gogledd Cymru ac y bydd yn hwb enfawr i'r economi, ond ni chadarnhaodd mai Wrecsam, yn wir, fyddai lleoliad y charchar. A chofio hefyd fod arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ar ran y rhanbarth, wedi ysgrifennu at y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf, yn sôn am ddatblygu achos busnes wedi'i deilwra i leoliad Wrecsam—hen safle'r gwasanaeth tân ar stad ddiwydiannol Wrecsam—ac wedi gorffen drwy ddweud ei fod yn gobeithio y byddai'r Prif Weinidog yn ystyried y cynnig yn llawn ac yn ddifrifol, a gawn ni ddatganiad yn manylu ar safbwynt Llywodraeth Cymru a'i hymrwymiad i yrru Wrecsam ymlaen fel y lleoliad a ffefrir?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Secondly, could I have a statement in relation to the Wales rugby league wheelchair team? Last Friday, I had the pleasure of visiting the Wales rugby league wheelchair international squad training at Deeside. Could we have a Welsh Government statement as a message of good luck to the team in the Wheelchair Rugby League World Cup, which starts tomorrow, when Wales will be playing Ireland at Medway Park in Gillingham?

Yn ail, a gaf i ddatganiad am dîm rygbi'r gynghrair cadair olwyn Cymru? Ddydd Gwener diwethaf, cefais y pleser o ymweld â sesiwn hyfforddi sgwad rhyngwladol rygbi'r gynghrair cadair olwyn Cymru yng Nglannau Dyfrdwy. A gawn ni ddatganiad gan Lywodraeth Cymru i ddymuno pob lwc i'r tîm yng Nghwpan Rygbi'r Gynghrair Cadair Olwyn y Byd, sy'n dechrau yfory, pan fydd Cymru'n chwarae Iwerddon ym Mharc Medway yn Gillingham?

15:16 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In response to your question regarding the prison in north Wales, Wrexham is my constituency, so the First Minister and the Minister for Economy, Science and Transport have done a great deal of work around Welsh Government support for a prison in north Wales. We strongly believe that that is right for north Wales. As you have said, the Ministry of Justice brought forward a statement last week. It did not specify Wrexham as the confirmed site for the prison, but we are very supportive of Wrexham as the site.

I ateb eich cwestiwn am y carchar yn y gogledd, mae Wrecsam yn fy etholaeth i, felly mae'r Prif Weinidog a Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi gwneud llawer iawn o waith ar gefnogaeth Llywodraeth Cymru i garchar yn y gogledd. Credwn yn gryf fod hynny'n iawn i'r gogledd. Fel yr ydych wedi'i ddweud, cyflwynodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ddatganiad yr wythnos diwethaf. Nid oedd yn nodi mai Wrecsam oedd y safle a ffeirir ar gyfer y carchar, ond rydym yn gefnogol iawn i Wrecsam fel safle.

In relation to the Wheelchair Rugby League World Cup, I am sure that the Minister for Culture and Sport, on behalf of the Welsh Government, would be very happy to send a message of support.

O ran Cwpan y Byd Rygbi'r Gynghrair Cadair Olwyn, rwyf yn siŵr y byddai'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, ar ran Llywodraeth Cymru, yn hapus iawn i anfon neges o gefnogaeth.

15:16 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Does the Minister agree that it is high time that we had a debate about equality in public and political life? Last week, in the Chamber, we heard about Carmel Napier being removed from her post; she was one of only seven women police chief constables out of 45 in the UK. Since then, we have heard about Julia Gillard losing her position as the first female Prime Minister of Australia, after a campaign of appalling sexism. Could we have a debate about this?

A yw'r Gweinidog yn cytuno ei bod yn hen bryd inni gael dadl am gydraddoldeb mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol? Yr wythnos diwethaf, yn y Siambr, clywsom fod Carmel Napier wedi colli ei swydd; roedd hi'n un o ddim ond saith o fenywod sy'n brif gwnstablaid heddlu o gyfanswm o 45 yn y DU. Ers hynny, rydym wedi clywed bod Julia Gillard wedi colli ei swydd fel Prif Weinidog benywaidd cyntaf Awstralia, ar ôl ymgyrch warthus o ragfarn yn seiliedig ar ryw. A gawn ni ddadl am hyn?

15:17 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that we are making good progress in Wales regarding women in the public sector. You will have heard the First Minister's answer to you earlier, and I know that the Presiding Officer has done a great deal of work around promoting women in public life. Of course, we want to see our society represented in a much more fair way. I certainly have concerns about the lack of diversity in that respect within local government and I am in the process of setting up an expert group on local government diversity. I mentioned that in a debate that we had in the Chamber on local democracy on 14 May, and I am just about to announce the membership of that group. Someone mentioned earlier the Sport Wales report, which was an excellent piece of work in relation to achieving a much more diverse board across these areas of public life.

Credaf ein bod yn gwneud cynnydd da yng Nghymru o ran menywod yn y sector cyhoeddus. Byddwch wedi clywed ateb y Prif Weinidog ichi yn gynharach, ac rwyf yn gwybod bod y Llywydd wedi gwneud llawer iawn o waith i hyrwyddo menywod mewn bywyd cyhoeddus. Wrth gwrs, hoffem weld ein cymdeithas yn cael ei chynrychioli mewn ffordd lawer mwy teg. Rwyf yn sicr yn pryderu am y diffyg amrywiaeth yn hynny o beth o fewn llywodraeth leol ac rwyf wrthi'n sefydlu grŵp arbenigol ar amrywiaeth mewn llywodraeth leol. Soniais am hynny yn y dadl a gawsom yn y Siambr ar ddemocratiaeth leol ar 14 Mai, ac rwyf ar fin cyhoeddi aelodaeth y grŵp hwnnw. Soniodd rhywun yn gynharach am adroddiad Chwaraeon Cymru, a oedd yn ddarn rhagorol o waith o ran sicrhau llawer mwy o amrywiaeth ar draws y meysydd hyn mewn bywyd cyhoeddus.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:18

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, is it possible to have a statement on the provision of maternity services? You will well remember from your time as Minister for health that there are quite significant pressures on staff modelling because of the rising birth rate, and certain units have become midwife-led units. In south Wales, in particular, we have seen the reverse: the midwife-led unit at Llandough Hospital was closed and services were moved to the University Hospital of Wales, on the other side of Cardiff. Part of the dividend of that closure was that there would be more community facilities. I would be particularly interested, if the Minister for Health and Social Services was prepared to bring a statement forward, to hear how he is addressing the provision of community maternity services, because obviously that increases women's ability to have home births and to be supported within their own home, rather than having to make the journey into hospital. On a lighter note, would you pass on our best wishes to the Government Chief Whip, who is currently indisposed? We hope that she will have a speedy recovery.

Weinidog, a yw'n bosibl cael datganiad am ddarpariaeth gwasanaethau mamolaeth? Byddwch yn cofio o'ch cyfnod fel Gweinidog iechyd fod pwysau sylweddol ar fodelu staff oherwydd y cynnydd yn y gyfradd geni, ac mae rhai unedau wedi dod yn unedau dan arweiniad bydwragedd. Yn y de, yn arbennig, rydym wedi gweld y gwrthwyneb: cafodd yr uned dan arweiniad bydwragedd yn Ysbyty Llandochau ei chau a symudwyd gwasanaethau i Ysbyty Athrofaol Cymru, yr ochr arall i Gaerdydd. Rhan o ddifidndd y cau hwnnw oedd y byddai mwy o gyfleusterau cymunedol. Byddai gennyf ddiddordeb arbennig, pe bai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn barod i gyflwyno datganiad, cael clywed sut y mae'n mynd i'r afael â darpariaeth gwasanaethau mamolaeth cymunedol, oherwydd yn amlwg mae hynny'n cynyddu gallu'r menywod i eni yn y cartref ac i gael cymorth yn eu cartrefi eu hunain, yn hytrach na gorfod teithio i'r ysbyty. Ar nodyn ysgafnach, a wnewch chi ddymuno'n dda ar ein rhan i Brif Chwip y Llywodraeth, sydd yn wael ar hyn o bryd? Rydym yn gobeithio y caiff wellhad buan.

15:19

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that; I will certainly pass on your best wishes to her.

Diolch am hynny; byddaf yn sicr yn dymuno'n dda iddi ar eich rhan.

In relation to maternity services, it is very important that women have choices—you mentioned home births and hospital births. The Minister for Health and Social Services will be looking at maternity services within the reconfiguration that is going ahead right across Wales, not just in south Wales, and will be bringing a statement forward in due course.

O ran gwasanaethau mamolaeth, mae'n bwysig iawn fod merched yn cael dewisiadau—soniasoch am enedigaethau yn y cartref a genedigaethau yn yr ysbyty. Bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn edrych ar wasanaethau mamolaeth yn yr ad-drefnu sy'n digwydd ledled Cymru, nid yn unig yn y de, a bydd yn cyflwyno datganiad maes o law.

15:19

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, the Government has been very clear that putting robust plans in place to deal with winter pressures on the NHS is a priority. So, I would like to ask for a statement to update us on the plans to address winter pressures this year, including an update on how the Welsh Government will seek to improve the uptake of the flu vaccine, particularly among vulnerable and at risk groups, and how you will make the best use of community pharmacies to drive this forward. It might seem a strange request at the start of summer, but early planning could be key to dealing with the issue and taking some of the pressure off the NHS.

Weinidog, mae'r Llywodraeth wedi dweud yn glir iawn fod rhoi cynlluniau cadarn ar waith i ddelio â phwysau'r gaeaf ar y GIG yn flaenoriaeth. Felly, hoffwn ofyn am ddatganiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y cynlluniau i ymdrin â phwysau'r gaeaf eleni, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am sut y bydd Llywodraeth Cymru'n ceisio cynyddu nifer y bobl sy'n cael brechiad rhag y ffliw, yn enwedig ymysg grwpiau sy'n agored i niwed ac mewn perygl, a sut y byddwch yn defnyddio fferyllfeydd cymunedol yn y ffordd orau bosibl i fwrw ymlaen â hyn. Efallai y bydd hwn yn ymddangos yn gais rhyfedd ar ddechrau'r haf, ond gallai cynllunio cynnar fod yn allweddol i ymdrin â'r mater a thynnu rhywfaint o'r pwysau oddi ar y GIG.

In terms of the second statement that I would like to request, I first spoke in this Chamber of my concerns about the dangers posed by sky lanterns back in 2011. I welcome the fact that, since then, the UK Government and the Welsh Government have worked together to undertake a joint study to identify the risks and impacts for the environment and livestock. In the wake of the devastating fire in the west Midlands, which saw firefighters taken to hospital and damages likely to be in the region of £6 million, I would very much welcome a Government statement updating us on your approach to dealing with sky lanterns, and their risks and impacts.

O ran yr ail ddatganiad yr hoffwn ofyn amdano, siaradais yn gyntaf yn y Siambr hon am fy mhryderon am y peryglon a achosir gan lusernau awyr yn ôl yn 2011. Croesawaf y ffaith bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ers hynny, wedi cydweithio i gynnal astudiaeth ar y cyd i nodi'r risgiau a'r effeithiau o ran yr amgylchedd a da byw. Yn sgil y tân difrodus yng ngorllewin canolbarth Lloegr, lle gwelwyd diffoddwyr tân yn cael eu cludo i'r ysbyty a difrod sy'n debygol o fod oddeutu £6 miliwn, byddwn yn croesawu'n fawr ddatganiad gan y Llywodraeth i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am eich dull o ymdrin â llusernau awyr, a'u risgiau a'u heffeithiau.

15:21

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for those questions. The Minister for Health and Social Services has received unscheduled care recovery action plans from all health boards and from the Welsh Ambulance Services NHS Trust. They are currently being scrutinised by the Minister and his officials.

With regard to flu vaccination, you will be aware that, last year, community pharmacies were involved in pilot projects to deliver flu vaccination. General practitioners are the main providers of influenza immunisation, and community pharmacies support them in that work. If we want to achieve that target of a 75% uptake, it is really important that we encourage GPs and pharmacies to work together.

In relation to the Chinese lanterns or sky lanterns issue, I think that we were all very shocked—I certainly was—to see on the news last night the enormous fire in the west Midlands, which is thought to have been sparked by a Chinese lantern. The Minister for Natural Resources and Food will provide a written statement to the Assembly on his proposed actions following the publication of the research report on the impact of sky lantern, and also helium balloon, releases.

Diolch am y cwestiynau hynny. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael cynlluniau gweithredu adfer gofal heb ei drefnu gan yr holl fyrddau iechyd a chan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlsans Cymru. Mae'r Gweinidog a'i swyddogion wrthi'n craffu arnynt.

O ran brechu rhag y fflw, byddwch yn ymwybodol bod fferyllfeydd cymunedol, y llynedd, wedi cymryd rhan mewn prosiectau peilot i gyflwyno brechiadau rhag y fflw. Meddygon teulu yw prif ddarparwyr imiwneiddio rhag y fflw, ac mae fferyllfeydd cymunedol yn eu cynorthwyo i wneud y gwaith hwnnw. Os ydym am gyrraedd y targed o frechu 75% o bobl, mae'n bwysig iawn ein bod yn annog meddygon teulu a fferyllfeydd i gydweithio.

O ran llusernau Tsieineaidd neu lusernau awyr, rwyf yn meddwl y cawsom i gyd sioc fawr—yn sicr cefais i fy synnu—wrth weld ar y newyddion neithiwr y tân enfawr yng ngorllewin canolbarth Lloegr; credir iddo gael ei gynnau gan lusern Tsieineaidd. Bydd y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd yn darparu datganiad ysgrifenedig i'r Cynulliad am y camau y mae'n bwriadu eu cymryd yn sgil cyhoeddi'r adroddiad ymchwil ar effaith rhyddhau llusernau awyr, a hefyd falwnau heliwm.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:22

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to ask, Minister, for a statement to be made to the Chamber outlining the location and make-up of the new Menai science park. This is urgently needed, because I have several serious concerns regarding the physical location of the park. It appears that the Tŷ Mawr site is the favourite for the science park, but there are very real issues for me about this Government's handling of the site if that is the case. The owners of a key piece of land within the Tŷ Mawr site are the Channels Islands-registered South Wales Land Developments Ltd, who purchased the land from the regeneration investment fund for Wales—essentially, the Welsh Government. I remain deeply concerned about the terms of that deal, and I again assert my view that taxpayers received nowhere near the true value of the land. We still await the Welsh Government's internal review and, indeed, the Wales Audit Office's investigation, so, in respect of the Menai science park, I think that a statement is necessary to clarify whether the Welsh Government or another public body now needs to buy back land it recently owned. It raises real concerns about asset management and value for money for the taxpayer.

Hoffwn ofyn, Weinidog, am ddatganiad i'r Siambr yn amlinellu lleoliad a chyfansoddiad parc gwyddoniaeth newydd Menai. Mae angen hyn ar frys, oherwydd mae gennyf nifer o bryderon difrifol ynglŷn â lleoliad ffisegol y parc. Mae'n ymddangos mai safle Tŷ Mawr yw'r ffefryn ar gyfer y parc gwyddoniaeth, ond mae problemau go iawn o'm safbwynt i ynghylch y ffordd y mae'r Llywodraeth yn trin y safle os yw hynny'n wir. South Wales Land Developments Cyf, cwmni wedi'i gofrestru yn Ynsoedd y Sianel, yw perchnogion y darn allweddol o dir o fewn safle Tŷ Mawr. Prynodd y cwmni'r tir drwy gronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio—gan Lywodraeth Cymru, i bob diben. Rwyf yn dal yn bryderus iawn am delerau'r fargen honno, ac rwyf unwaith eto am ddatgan fy marn na ddaeth trethdalwyr yn agos at gael gwir werth y tir. Rydym yn dal i aros am adolygiad mewnol Llywodraeth Cymru ac, yn wir, am ymchwiliad Swyddfa Archwilio Cymru, felly, o ran parc gwyddoniaeth Menai, rwyf yn meddwl bod angen datganiad i egluro a oes angen i Lywodraeth Cymru, neu gorff cyhoeddus arall, brynu tir yn ôl y bu'n berchen arno'n ddiweddar. Mae'n codi pryderon gwirioneddol am reoli asedau a gwerth am arian i'r trethdalwr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:23

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am sure that the Minister for Economy, Science and Transport will bring forward a statement to the Assembly after receiving the reports to which you refer and her consideration.

Rwyf yn siŵr y bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn cyflwyno datganiad i'r Cynulliad ar ôl iddi dderbyn yr adroddiadau yr ydych yn cyfeirio atynt, a'u hystyried.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Datganiad: Cyflwyno Bil Addysg (Cymru)

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills

Yesterday, I introduced the Education Wales (Wales) Bill, together with an explanatory memorandum, to the National Assembly for Wales. Today, I am pleased to carry on with the work of my predecessor and to have this opportunity to debate this Bill.

With your permission, Deputy Presiding Officer, I would like to take a moment to thank the outgoing Minister for Education and Skills for his work on this Bill, and for his work on the wide-ranging agenda that he has taken forward over the last few years. To education, and across Government, he brought a sense of urgency, clarity of purpose and a mastery of detail. He delivered policies that truly put Wales on the map, and helped to establish devolution not just as a concept, but as a political reality—not just in classrooms, but in newsrooms and boardrooms too. His commitment to take on vested interests and any cosy relationships, and to demand the best for our students, is a beacon for us all. His relentless focus on standards is something that I will seek to emulate. I look forward to his continuing advice, support and guidance in this Chamber and elsewhere.

Education forms a significant part of both our manifesto and our programme for government. As demonstrated through our first education Bill—now the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013, having received Royal Assent on 4 March this year—the Welsh Government is committed to achieving the necessary improvements in our schools. This Education (Wales) Bill will continue to build upon the School Standards and Organisation (Wales) Act by further strengthening and enhancing school standards, improving local determination, and reducing complexity and bureaucracy.

This Bill presents the opportunity, for the first time, to formally recognise the status and professionalism of all education practitioners working in Wales and the contribution they make to raising school standards and the outcomes for all learners. It will place a requirement on school teachers, school learning support workers, further education teachers and further education learning support workers to register with the reformed and renamed body, the education workforce council. This will establish a single coherent system for the wider education workforce.

The council will be given powers in this Bill to support the wider education workforce by carrying out a number of key functions. These include promoting careers in the education workforce, providing advice on matters including professional standards, continuing professional development and initial training, and investigating and taking action in relation to unacceptable professional conduct and professional incompetence.

Statement: Introduction of the Education (Wales) Bill

Ddoe, cyflwynais Fil Addysg Cymru (Cymru), ynghyd â memorandwm esboniadol, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Heddiw, rwyf yn falch o barhau â gwaith fy rhagflaenydd, ac i gael y cyfle hwn i gael dadl ar y Bil hwn.

Gyda'ch caniatâd, Ddirprwy Lywydd, hoffwn gymryd eiliad i ddiolch i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau sy'n ymadael am ei waith ar y Bil hwn, ac am ei waith ar yr agenda eang y mae wedi'i datblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ym maes addysg, ac ar draws y Llywodraeth, daeth ag ymdeimlad o frys, eglurder pwrpas a meistrolaeth o fanylion. Cyflwynodd bolisiau a oedd wir yn rhoi Cymru ar y map, a helpodd i sefydlu datganoli nid yn unig fel cysyniad, ond fel realiti gwleidyddol—nid yn unig yn yr ystafell ddosbarth, ond mewn ystafelloedd newyddion ac ystafelloedd bwrdd hefyd. Mae ei ymrwymiad i herio buddiannau personol ac unrhyw berthynas glyd, ac i fynnu'r gorau i'n myfyrwyr, yn esiampl i ni i gyd. Mae ei ffocws di-baid ar safonau yn rhywbeth y byddaf yn ceisio ei efelychu. Edrychaf ymlaen at ei gyngor, ei gefnogaeth a'i gyfarwyddyd parhaus yn y Siambr hon ac mewn manau eraill.

Mae addysg yn rhan sylweddol o'n manifestio a'n rhaglen ar gyfer llywodraethu. Fel y dangoswyd trwy ein Bil addysg cyntaf—Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 bellach, ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol ar 4 Mawrth eleni—y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol yn ein hysgolion. Bydd y Bil Addysg (Cymru) hwn yn parhau i adeiladu ar y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) drwy gryfhau a gwella safonau ysgolion ymhellach, gwella'r drefn o wneud penderfyniadau'n lleol, a lleihau cymhlethdod a biwrocratiaeth.

Mae'r Bil hwn yn rhoi cyfle, am y tro cyntaf, i gydnabod yn ffurfiol statws a phroffesiynoldeb yr holl ymarferwyr addysg sy'n gweithio yng Nghymru a'r cyfraniad y maent yn ei wneud i godi safonau mewn ysgolion a'r canlyniadau ar gyfer pob dysgwyr. Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i athrawon ysgol, gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion, athrawon addysg bellach a gweithwyr cymorth dysgu mewn addysg bellach gofrestru gyda'r corff diwygiedig a ailenwyd, cyngor y gweithlu addysg. Bydd hyn yn sefydlu system sengl gydlynol ar gyfer y gweithlu addysg ehangach.

Bydd y cyngor yn cael pwerau yn y Bil hwn i gefnogi'r gweithlu addysg ehangach trwy gyflawni nifer o swyddogaethau allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys herwyddo gyrfaoedd yn y gweithlu addysg, rhoi cyngor ar faterion sy'n cynnwys safonau proffesiynol, datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant cychwynnol, ac ymchwilio a chymryd camau mewn perthynas ag ymddygiad proffesiynol annerbyniol ac anghymhwysedd proffesiynol.

I want the council to become a key partner in delivering better coherence and supporting the agenda to drive up standards in teaching and learning. There is no doubt that we all highly value those practitioners directly involved in supporting teaching and learning, whether they are based in schools or in colleges. They directly support our children and young people to achieve their full potential. The Bill will facilitate all education practitioners having access to well-designed qualifications, support and development.

The Bill also provides a unique opportunity to make sure that the valuable role the wider education workforce plays in raising standards is recognised, but also maintains public confidence in the education system by making sure that everyone working in the education profession upholds the highest professional standards. That is why the Bill enables Welsh Ministers to develop the first code of conduct and practice for the education workforce. This code will ensure that the entire education workforce is clear about the standards it is expected to uphold, and will enable the public to recognise the skills, commitment and professionalism of all those who support our learners.

I am committed to having a high-performing education system, in which practitioners work together, collaboratively, to improve standards of teaching and the quality of learning. The powers in the Bill deliver a reformed education workforce council that will provide the platform for us to achieve this.

Transition from school is a challenging time and it can be even more so for those with learning difficulties. Through effective transition planning, all learners are able to achieve their long-term goals. Currently, local authorities cease to have responsibility for assessing and meeting the needs of learners with special educational needs once they leave school or reach the age of 19. Through this Bill, I want to improve these arrangements by making local authorities responsible for managing the transition and assessment process for these learners up to the age of 25. It will also make local authorities responsible for securing specialist further education provision where it is necessary to meet assessed education and training needs. These proposed changes will support better transition planning for learners moving from school to further education, and facilitate better liaison between schools, local authorities and FE colleges and specialist providers. In addition, the Bill will also include a right of appeal to the Special Educational Needs Tribunal for Wales.

The main objective of these changes is to bring about less complex and bureaucratic systems that better meet and protect the needs of this vulnerable group of learners. Following detailed consideration and consultation with key stakeholders, I am also proposing to introduce a single registration process for independent schools wishing to admit learners with a statement of SEN.

Rwyf am i'r cyngor ddod yn bartner allweddol o ran darparu gwell cydlynad a chefnogi'r agenda i godi safonau mewn addysgu a dysgu. Nid oes amheuaeth ein bod i gyd yn gwerthfawrogi'n fawr iawn yr ymarferwyr hynny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chefnogi'r prosesau addysgu a dysgu, p'un a ydynt wedi eu lleoli mewn ysgolion neu mewn colegau. Maent yn cefnogi ein plant a'n pobl ifanc yn uniongyrchol i gyflawni eu llawn potensial. Bydd y Bil yn ei gwneud yn haws i'r holl ymarferwyr addysg elwa ar gymwysterau, cefnogaeth a datblygiad a gynlluniwyd yn dda.

Mae'r Bil hefyd yn darparu cyfle unigryw i sicrhau bod y rôl werthfawr y mae'r gweithlu addysg ehangach yn ei chwarae wrth godi safonau yn cael ei chydabod, ond hefyd yn cynnal hyder y cyhoedd yn y system addysg drwy wneud yn siŵr bod pawb sy'n gweithio yn y proffesiwn addysg yn cadw at y safonau proffesiynol uchaf. Dyna pam y mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddatblygu'r cod ymddygiad ac ymarfer cyntaf ar gyfer y gweithlu addysg. Bydd y cod hwn yn sicrhau bod y gweithlu addysg cyfan yn deall y safonau y disgwylir iddo'u cynnal, a bydd yn galluogi'r cyhoedd i gydnabod sgiliau, ymroddiad a phroffesiynoldeb pawb sy'n cefnogi ein dysgwyr.

Rwyf wedi ymrwymo i gael system addysg sy'n perfformio'n dda, lle mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd, ar y cyd, i wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu. Mae'r pwerau yn y Bil yn darparu cyngor gweithlu addysg diwygiedig a fydd yn darparu llwyfan i ni i gyflawni hyn.

Mae'n gyfnod anodd pan fo rhywun yn gadael yr ysgol, a gall fod hyd yn oed yn anoddach ar gyfer y rhai sydd ag anawsterau dysgu. Trwy gynllunio'r broses bontio'n effeithiol, mae pob dysgwr yn gallu cyflawni ei amcanion yn y tymor hir. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn peidio â bod yn gyfrifol am asesu a diwallu anghenion dysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig ar ôl iddynt adael yr ysgol neu gyrraedd 19 oed. Drwy'r Bil hwn, rwyf am wella'r trefniadau hyn drwy wneud awdurdodau lleol yn gyfrifol am reoli'r broses asesu a phontio ar gyfer y dysgwyr hyn hyd at 25 oed. Bydd hefyd yn gwneud awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau darpariaeth addysg bellach arbenigol lle bo angen, i ddiwallu anghenion addysg a hyfforddiant a aseswyd. Bydd y newidiadau arfaethedig yn cynorthwyo i gynllunio'r broses bontio'n well ar gyfer dysgwyr sy'n symud o'r ysgol i addysg bellach, a hwylyso gwell cyswllt rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach a darparwyr arbenigol. Yn ogystal, bydd y Bil hefyd yn cynnwys yr hawl i apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.

Prif amcan y newidiadau hyn yw cyflwyno systemau llai cymhleth a biwrocraidd sy'n bodloni ac yn amddiffyn anghenion y grŵp hwn o ddysgwyr agored i niwed yn well. Yn dilyn ystyriaeth fanwl ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, rwyf hefyd yn bwriadu cyflwyno proses gofrestru sengl ar gyfer ysgolion annibynnol sydd am dderbyn dysgwyr sydd â datganiad o AAA.

Importantly, the registration will state what type of SEN provision the school can cater for. This not only increases transparency, but will also speed up the process of placing a child in suitable education. It is vital that we have measures in place to support working families, and I am aware of the difficulties faced by many hard-working families across Wales due to variations in school term dates, and therefore school holidays. Unfortunately, there is currently no way of ensuring that such variations do not occur. In order to address this issue, the Bill places a duty on local authorities and governing bodies of voluntary-aided and foundation schools to co-operate and co-ordinate with each other when setting school term dates, to ensure that the dates they set for their respective schools are the same, or as similar as they can be. Should variations remain, or the dates need amending, I will have the power to direct local authorities and relevant governing bodies to ensure that appropriate dates are set. Variations in dates will occur very occasionally, but only where such variations can be justified.

Finally, the Bill will provide that the First Minister will have the role of advising Her Majesty in respect of the appointment and removal of Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training for Wales and on the appointment of inspectors of education. This change will require the repeal of section 19(6) of the Education Act 2005, and this Bill is considered to be the most suitable legislative vehicle to make the amendment. As I have mentioned, this Bill provides an excellent opportunity to build on the work already undertaken, and I therefore commend this Bill to the National Assembly for Wales for your approval.

Yn bwysig, bydd y cofrestrriad yn nodi pa fath o ddarpariaeth AAA y gall yr ysgol ddarparu ar ei chyfer. Mae hyn yn gwneud y broses yn fwy tryloyw, ond bydd hefyd yn cyflymu'r broses o osod plentyn mewn addysg addas. Mae'n hanfodol bod gennym fesurau ar waith i gefnogi teuluoedd sy'n gweithio, ac rwyf yn ymwybodol o'r anawsterau a wynebir gan lawer o deuluoedd sy'n gweithio'n galed ar draws Cymru oherwydd bod dyddiadau tymor yr ysgol, a gwyliau'r ysgol felly, yn amrywio. Yn anffodus, ar hyn o bryd nid oes ffordd o sicrhau nad yw amrywiadau o'r fath yn digwydd. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig i gydweithredu a chydgyssylltu â'i gilydd wrth osod dyddiadau tymor ysgol, er mwyn sicrhau bod y dyddiadau a osodwyd ar gyfer eu hysgolion priodol yr un fath, neu mor debyg ag y gallant fod. Os bydd dyddiadau'n parhau i amrywio, neu os oes angen newid y dyddiadau, bydd y pŵer gennyf i roi cyfarwyddiadau i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu perthnasol i sicrhau bod dyddiadau priodol yn cael eu gosod. Bydd dyddiadau yn amrywio'n achlysurol iawn, ond dim ond lle y gellir cyfiawnhau amrywiadau o'r fath.

Yn olaf, bydd y Bil yn darparu y bydd gan y Prif Weinidog y swyddogaeth o gynghori Ei Mawrhydi o ran penodi a diswyddo Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ac o ran penodi arolygwyr addysg. Bydd y newid hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddiddymu adran 19 (6) o Ddeddf Addysg 2005, ac ystyrir mai'r Bil hwn yw'r dull deddfwriaethol mwyaf addas i wneud y gwelliant. Fel yr wyf wedi crybwyll, mae'r Bil hwn yn rhoi cyfle gwych i adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes, ac felly rwyf yn cymeradwyo'r Bil hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

15:32

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, first of all, I congratulate you on your new appointment and wish you well in it. You may well be aware that although I did not always agree with the previous Minister for education, there were times when the Welsh Conservatives did agree with him. All of us in the Chamber want to have the best possible education system for our children. Therefore, if it is of any help to you, I would be more than happy to meet with you in order to update you and brief you on our views on any aspect of education that you would care to mention.

As you mentioned the previous Minister for education, I will, too. However, I am mindful of his tweet last week, in which he declared that he was delighted to be able to read his own obituaries, so I will keep it very short and say publicly, as I hope I have managed to do privately, that I extend my absolute best wishes to him.

Weinidog, yn gyntaf oll, hoffwn eich llongyfarch ar eich penodiad newydd a dymuno'n dda i chi. Efallai eich bod yn ymwybodol nad oeddwn bob amser yn cytuno â'r Gweinidog addysg blaenorol, er bod adegau pan oedd y Ceidwadwyr Cymreig yn cytuno ag ef. Mae pob un ohonom yn y Siambr am gael y system addysg orau bosibl i'n plant. Felly, os yw o unrhyw gymorth i chi, byddwn yn fwy na pharod i gwrdd â chi er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi a'ch briffio ar ein barn am unrhyw agwedd ar addysg y byddech yn hoffi ei grybwyll.

Gan eich bod wedi sôn am y Gweinidog addysg blaenorol, fe wnafr innau, hefyd. Fodd bynnag, rwyf yn ymwybodol o'i drydar yr wythnos diwethaf, lle'r oedd yn datgan ei fod yn falch iawn o allu darllen ei ysgrifau coffa ei hun, felly rwyf am fod yn gryno iawn a dweud yn gyhoeddus, fel y gobeithiaf fy mod wedi llwyddo i'w wneud yn breifat, fy mod yn estyn fy nymuniadau gorau iddo.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you for bringing this Bill to the house today. There is much to commend in it and we have great sympathy with the broad thrust of much of the Bill, particularly the issue of addressing the registration of the education workforce, and also in terms of addressing some of the issues that arise in the provision of special educational needs education. I managed to stay up until quite late last night to read the entire explanatory memorandum, although I glazed over slightly by the end. I have a number of questions, but I do not intend to raise them all now; I am very happy to write to you, and we will be exploring these questions in committee stages as well. However, I have brought forward a couple of the key ones, on which I hope you might be able to give us some direction.

In terms of the registration of the workforce, I must confess that when I first became an Assembly Member, and then became involved in education, I was very surprised to realise how narrow the registration of the education workforce is. I wonder whether you can perhaps share with us the thinking of the Government in not including teachers and support workers who may be working in independent schools. I think that everybody in Wales who operates in education should be on a register of some sort or another. I would be very keen to understand that.

Having said that, on the other side, I would also like to understand the inclusion of youth workers. I think it was Gwyn Price who raised it in a question earlier today, when he talked about the grass roots and how we need all these youth workers—in his case, he was talking about youth workers in grass-roots sports—out there helping. So, I am not clear, given that so many youth workers are transitory and come in for specific parts of the year, from so many different fields apart from teaching, and do not actually teach, how you see them being part of the workforce registration.

Paragraph 16 of the explanatory memorandum starts by saying that,

‘Professionalism, suitability and standards of conduct, training and development are key to the success of the education workforce.’

I totally agree with that sentiment. However, it has been raised with me as a concern by a great many teachers—or the representatives of teachers—that the word ‘teaching’ is no longer part of the lexicon of workforce registering. Again, I wonder whether you might be able to respond to that. Can you also tell me whether it is correct that non-union members will be allowed to be on the education workforce council?

Diolch ichi am ddod â'r Bil hwn gerbron y tŷ heddiw. Mae llawer i'w ganmol yn ddo, ac mae gennym gydymdeimlad mawr â byrdwn cyffredinol llawer o'r Bil, yn enwedig mynd i'r afael â chofrestru'r gweithlu addysg, a hefyd o ran mynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n codi o ran darpariaeth addysg anghenion addysgol arbennig. Llwyddais i aros ar fy nhraed tan yn weddol hwyr neithiwr i ddarllen y memorandwm esboniadol cyfan, er fy mod yn pylu ychydig erbyn y diwedd. Mae gennyf nifer o gwestiynau, ond nid wyf yn bwriadu eu codi i gyd yn awr; rwyf yn hapus iawn i ysgrifennu atoch, a byddwn yn edrych ar y cwestiynau hyn mewn cyfnodau pwyllgor hefyd. Fodd bynnag, rwyf wedi cyflwyno ambell un o'r rhai allweddol, a gobeithio y byddwch yn gallu rhoi cyfarwyddyd i ni arnynt.

O ran cofrestru'r gweithlu, mae'n rhaid i mi gyfaddef pan ddeuthum yn Aelod Cynulliad gyntaf, ac yna dod i ymwneud ag addysg, fy mod wedi fy syfrdannu'n fawr i sylweddoli pa mor gul yw cofrestru'r gweithlu addysg. Tybed a allwch o bosibl rannu meddylfryd y Llywodraeth gyda ni o ran peidio â chynnwys athrawon a gweithwyr cymorth a all fod yn gweithio mewn ysgolion annibynnol. Rwyf yn credu y dylai pawb yng Nghymru sy'n gweithredu mewn addysg fod ar gofrestr o ryw fath neu'i gilydd. Byddwn yn awyddus iawn i ddeall hynny.

Wedi dweud hynny, ar yr ochr arall, byddwn hefyd yn hoffi deall sut y gellid cynnwys gweithwyr ieuencid. Rwyf yn credu mai Gwyn Price a gododd y mater mewn cwestiwn yn gynharach heddiw, pan soniodd am lawr gwlad a sut y mae angen yr holl weithwyr ieuencid hyn arnom—yn ei achos ef, roedd yn sôn am weithwyr ieuencid mewn chwaraeon llawr gwlad—allan yno'n helpu. Felly, nid wyf yn glir, o gofio bod cynifer o weithwyr ieuencid yn rhai dros dro ac yn dod i mewn ar gyfer rhannau penodol o'r flwyddyn, o gymaint o wahanol feysydd ar wahân i addysgu, ac nad ydynt yn dysgu mewn gwirionedd, sut rydych chi'n eu gweld nhw yn rhan o'r drefn o gofrestru'r gweithlu.

Mae paragraff 16 o'r memorandwm esboniadol yn dechrau drwy ddweud,

‘Mae proffesiynoldeb, addasrwydd, safonau ymddygiad, hyfforddiant a datblygiad y gweithlu addysg yn allweddol i'w lwyddiant.’

Cytunaf yn llwyr â'r farn honno. Fodd bynnag, mae wedi cael ei godi gyda mi fel pryder gan nifer fawr o athrawon—neu gynrychiolwyr athrawon—nad yw'r gair ‘addysgu’ yn rhan o eirfa cofrestru gweithlu mwyach. Unwaith eto, tybed a fydddech yn gallu ymateb i hynny. A allwch chi hefyd ddweud wrthyf a yw'n gywir y bydd pobl nad ydynt yn aelodau o undeb yn cael bod ar gyngor y gweithlu addysg?

The education workforce council will be responsible for disciplinary functions, which I utterly welcome. However, again, are you able to talk to us a little about how we might be able to set the bar higher? In the last few years, I believe that we have only had eight teachers ever disbarred from teaching, which is actually a very low number, when you look at it in a statistically proportionate way. Can you please talk about what sanctions might be available to the education workforce council, as well as whether you would consider more categories for review?

I will gallop through my questions—I am sorry, Minister, if this is too quick. The reform of registration and the approval of independent schools in respect of SEN is excellent news. However, I am not clear whether you will remove or retain the requirement for LEAs to get the Welsh Government's permission to place a child with SEN into an independent registered school, which is what they have to do. Furthermore, will we be in a position where we can give children with special educational needs the same choice as other children?

On assessment, and post-16 education and training needs, if this part of the Bill does nothing but stop the fight between parents and local education authorities, then it is a truly excellent step forward. However, I have enormous concerns about the role that LEAs will play in this—concerns that are too great to go into here. I would like to discuss these concerns further with you, Minister, starting from funding, all the way through to responsibility, out-of-county placements, and in-county placements—the whole gamut.

I am drawing to a close now. On school-term dates, it is very interesting that the Welsh Government wants to be so involved in setting those. I am curious to understand why Ministers feel that they should reserve that right to make the decisions; is this because you might be looking towards changing the length of term times?

I have one more question on SEN, as it is a subject that is very dear to my heart, because of all the constituents who have been to see me with these problems. Different councils all have different ways of diagnosing special educational needs. Even in my patch of the Hywel Dda Local Health Board, Ceredigion, Carmarthenshire and Pembrokeshire councils all completely differently diagnose autism, and all have completely different structures on how to deal with children with autism. That is just one example. Therefore, can you tell us how you might be able to be sure that there is consistency in how children are identified as having an additional need, and how then their independent development plan is drawn up?

Bydd cyngor y gweithlu addysg yn gyfrifol am y swyddogaethau disgyblu, a chroesawaf hynny'n llwyr. Fodd bynnag, unwaith eto, a allwch siarad â ni ychydig am sut y byddwn yn gallu gosod y bar yn uwch? Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rwyf yn credu mai dim ond wyth o athrawon sydd wedi cael eu diarddel erioed o addysgu, sydd mewn gwirionedd yn nifer isel iawn, wrth edrych arno mewn ffordd ystadegol gymesur. A allwch chi os gwelwch yn dda siarad am ba gosbau allai fod ar gael i gyngor y gweithlu addysg, yn ogystal ag a fydddech yn ystyried mwy o gategoriâu ar gyfer adolygiad?

Byddaf yn carlamu drwy fy nghwestiynau—mae'n ddrwg gennyf, Weinidog, os yw hyn yn rhy gyflym. Mae diwygio'r drefn gofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol mewn perthynas ag AAA yn newyddion gwych. Fodd bynnag, nid wyf yn glir a fyddwch yn cadw neu'n cael gwared ar yr angen i AALLau gael caniatâd Llywodraeth Cymru i leoli plentyn sydd ag AAA mewn ysgol gofrestredig annibynnol, sef yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud. Ar ben hynny, a fyddwn ni mewn sefyllfa lle y gallwn roi'r un dewis â phlant eraill i blant ag anghenion addysgol arbennig?

O ran asesu, ac addysg ôl-16 ac anghenion hyfforddi, os yw'r rhan hon o'r Bil yn gwneud dim mwy nag atal y frwydr rhwng rhieni ac awdurdodau addysg lleol, yna mae'n gam gwirioneddol ragorol ymlaen. Fodd bynnag, mae gennyf bryderon mawr am y rhan y bydd AALLau yn ei chwarae yn hyn—pryderon sy'n rhy fawr i'w trafod yma. Hoffwn drafod y pryderon hyn ymhellach gyda chi, Weinidog, gan ddechrau â chyllid, hyd at gyfrifoldeb, lleoliadau y tu allan i'r sir, a lleoliadau yn y sir—yr amrediad cyfan.

Rwyf am ddirwyn i ben yn awr. O ran dyddiadau tymor yr ysgol, mae'n ddiddorol iawn bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i ymwneud cymaint â'r broses o bennu'r rheini. Rwyf yn awyddus i ddeall pam mae Gweinidogion yn teimlo y dylent gadw'r hawl honno i wneud y penderfyniadau; a yw hyn oherwydd eich bod o bosibl yn ystyried newid hyd y tymhorau?

Mae gennyf un cwestiwn arall ar AAA, gan ei fod yn bwnc sy'n agos iawn at fy nghalon, oherwydd yr holl etholwyr sydd wedi bod i'm gweld gyda'r problemau hyn. Mae gan wahanol gynghorau i gyd wahanol ffyrdd o wneud diagnosis o anghenion addysgol arbennig. Hyd yn oed yn fy ardal i sef Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, mae cynghorau Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro i gyd yn gwneud diagnosis cwbl wahanol o awtistiaeth, ac mae gan bob un strwythurau hollol wahanol ar gyfer delio â phlant ag awtistiaeth. Dyna un enghraifft yn unig. Felly, a allwch ddweud wrthym sut y gallech chi fod yn siŵr y ceir cysondeb yn y modd y mae plant yn cael eu hadnabod fel rhai sydd ag angen ychwanegol, a sut wedyn y mae eu cynllun datblygu annibynnol yn cael ei lunio?

Finally, I have a quick comment on the finances. I must say that that was the bit that I got to when my eyes started to glaze over. However, there are some financial aspects of it that do not seem to be wildly robust, and I would like to have the opportunity to explore that in further detail with you at a later stage. However, overall, I am very pleased to see that there are going to be very strong moves made on sorting out how we look after the most vulnerable in our society, and, to me, they do not come much more vulnerable than children with special educational needs.

Yn olaf, mae gennyf sylw cyflym ar gyllid. Mae'n rhaid imi ddweud mai dyma lle'r oeddwn wedi cyrraedd pan ddechreuodd fy llygaid bylu. Fodd bynnag, mae rhai agweddau ariannol nad ydynt yn ymddangos yn hollol gadarn, a byddwn yn hoffi cael y cyfle i archwilio hynny'n fanylach gyda chi yn nes ymlaen. Fodd bynnag, ar y cyfan, rwyf yn falch iawn o weld y bydd symudiadau cryf iawn yn cael eu gwneud ar roi trefn ar sut yr ydym yn gofalu am y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, ac, i mi, nid oes neb sy'n llawer mwy agored i niwed na phlant ag anghenion addysgol arbennig.

15:39

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I wish to thank Angela Burns for her kind words, which were directed at me, and at my predecessor; they are much appreciated. I also appreciate her broad welcome for the Bill, particularly in terms of the registration of the wider workforce, and for its emphasis on streamlining and on increasing the transparency—as well as improving transition—for young people with special educational needs.

Hoffwn ddiolch i Angela Burns am ei geiriau caredig, a oedd wedi'u cyfeirio ataf fi, ac at fy rhagflaenydd; rwyf yn eu gwerthfawrogi'n fawr. Rwyf hefyd yn gwerthfawrogi ei chroeso cyffredinol i'r Bil, yn enwedig o ran cofrestru'r gweithlu ehangach, a'r pwyslais ar symleiddio ac ar gynyddu tryloywder—yn ogystal â gwella'r broses o bontio ar gyfer pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig.

I will attempt to answer Angela Burns's questions as succinctly as I can; there were quite a number of them. This conversation will, of course, go on as the Bill makes its journey through the Assembly. The staff and support staff in independent schools, and youth workers—which are in a slightly different situation—have not, thus far, been part of the remit of this Bill. At the moment, I do not envisage that we should broaden our scope to include those schools, at least through this Bill. There are a relatively small number of independent schools in Wales, all with ways of working that parents opt to pay for. However, I am always willing to listen. As yet, no public clamour for such measures has reached my ears, at least.

Byddaf yn ceisio ateb cwestiynau Angela Burns mor gryno ag y gallaf; roedd cryn nifer ohonynt. Bydd y sgwrs hon, wrth gwrs, yn parhau wrth i'r Bil fynd ar ei daith drwy'r Cynulliad. Nid yw staff a staff cymorth mewn ysgolion annibynnol, a gweithwyr ieuentid—sydd mewn sefyllfa ychydig yn wahanol—hyd yma, wedi bod yn rhan o gylch gwaith y Bil hwn. Ar hyn o bryd, nid wyf yn rhagweld y dylem ehangu ein cwrpas i gynnwys yr ysgolion hynny, o leiaf drwy'r Bil hwn. Mae nifer gymharol fach o ysgolion annibynnol yng Nghymru, pob un â ffyrdd o weithio y mae rhieni'n dewis talu amdanynt. Fodd bynnag, rwyf bob amser yn barod i wrando. Hyd yn hyn, nid oes unrhyw glebar cyhoeddus am fesurau o'r fath wedi cyrraedd fy nghlustiau i, o leiaf.

In terms of youth workers, I think that there is a separate conversation to be had. The work of youth workers can be extraordinarily varied. Although I think that we can legitimately describe them as part of that wider educational and support family around young people, I think that the topic of the registration and future inclusion of youth workers needs to be on the agenda, but not necessarily during the passage of this Bill. This Bill allows for the addition of new categories of the educational workforce over time. Given the time constraints around the passage of any piece of legislation through the Assembly, I think that it is wise, at this point, that we postpone, if you like, the discussion around youth workers and how to include them in this kind of thinking, perhaps until the passage of the Bill is complete.

O ran gweithwyr ieuentid, rwyf yn credu bod sgwrs ar wahân i'w chael. Gall gwaith gweithwyr ieuentid fod yn amrywiol eithriadol. Er fy mod yn credu y byddai'n deg eu disgrifio fel rhan o'r teulu addysg a chymorth ehangach o amgylch pobl ifanc, rwyf yn credu bod angen i bwnc cofrestru a chynnwys gweithwyr ieuentid yn y dyfodol fod ar yr agenda, ond nid o reidrwydd yn ystod hyn y Bil hwn. Mae'r Bil hwn yn caniatáu ar gyfer ychwanegu categorïau newydd o'r gweithlu addysgol dros gyfnod o amser. O ystyried y cyfyngiadau amser sydd ynghlwm wrth hyn unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth drwy'r Cynulliad, rwyf yn meddwl ei bod yn ddoeth, ar hyn o bryd, ein bod yn gohirio, os mynnwch chi, y drafodaeth ynghylch gweithwyr ieuentid a sut i'w cynnwys yn y ffordd hon o feddwl, efallai nes i'r Bil gwblhau ei daith.

In terms of paragraph 16, and the emphasis on professionalism, I have heard other voices raising concerns around the absence of the word 'teaching' in the title of the educational workforce council. The title is intended to describe what is in the tin. A wider group of people than teachers is involved in this new registration and organisational set-up. I suppose that you could make the counter-argument that to include the word 'teaching' would cause problems in terms of public perception of what the council actually does and to whom it relates.

O ran paragraff 16, a'r pwyslais ar broffesiynoldeb, rwyf wedi clywed lleisiau eraill yn codi pryderon am absenoldeb y gair 'addysgu' yn nheitl cyngor y gweithlu addysgol. Bwriad y teitl yw disgrifio beth sydd yn y tin. Mae grŵp ehangach o bobl nag athrawon yn rhan o'r cofrestriad a'r drefn sefydliadol newydd. Mae'n debyg y gallech wneud y ddatl i'r gwrthwyneb y byddid, trwy gynnwys y gair 'addysgu', yn achosi problemau o ran canfyddiad y cyhoedd o'r hyn y mae'r cyngor yn ei wneud mewn gwirionedd ac i bwy y mae'n berthnasol.

In terms of setting the bar higher, we will have that conversation around the code of conduct that will follow after proper formal consultation. The initial code of conduct will be set by Welsh Ministers, but I intend to set up a task and finish group to look at that; there will be a formal consultation around that. The code of conduct would, in the first instance, stem from that kind of process and would then be handed over to the council for regular updating and renewal.

In terms of the Welsh Government's permission being required for placements for pupils with special educational needs, the answer is a direct 'no'. Part of the streamlining of this procedure that is intended to flow from the Bill is that that kind of permission would not be necessary. Local education authorities would be empowered to get on with that job on the ground.

In terms of post-16 education, LEAs are, again, placed at the centre of the debate. The idea there is that responsibility for a transitional period into post-16 education is best placed with LEAs, which understand the pre-16 educational path of a particular child and are as close to individualising the package around a child's needs as possible. So, that duty of care is best placed with them.

In terms of school term dates, Wales is now heading in the diametrically opposite direction to what is happening across the border in England, as a result of announcements that we have heard today. However, there has been clear public demand in Wales that the harmonisation of school term dates can only help families, particularly in terms of the difficulty of juggling childcare and childcare costs, but also in terms of school holidays. At this stage, there is no intention for this to stray into the realm of altering the length of terms. I have no intention of opening up options within the Bill for Ministers to alter the length of term times. The powers within the Bill, as described, are intended for use in unusual circumstances. For instance, there might be a large international sporting event being staged in a region of Wales, such as the Ryder Cup. Might it be a good idea, in that instance, to take a look at varying term holiday dates for schools and young people to participate in the wider spin-offs of such an event? Perhaps, the Commonwealth Games will be staged here in future; who knows? In such instances, young people would be able to take best advantage of such unexpected or unusual things coming their way.

I can only agree with Angela Burns's comments on the need to get this legislation absolutely right, particularly in terms of the vulnerability of SEN young people and in terms of making a robust financial case for the Assembly's consideration. I will be working very hard with all potential partners, including Angela and her colleagues, in that regard.

O ran gosod y bar yn uwch, byddwn yn cael y sgwrs honno ynglŷn â'r cod ymddygiad a fydd yn dilyn ar ôl ymgynghori ffurfiol priodol. Bydd y cod ymddygiad cychwynnol yn cael ei osod gan Weinidogion Cymru, ond rwyf yn bwriadu sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar hynny; bydd ymgynghoriad ffurfiol yn cael ei gynnal ynghylch hynny. Byddai'r cod ymddygiad, yn y lle cyntaf, yn deillio o'r math hwnnw o broses a byddai wedyn yn cael ei drosglwyddo i'r cyngor i'w ddiweddarau a'i adnewyddu'n rheolaidd.

O ran y cwestiwn a fyddai'n ofynnol cael caniatâd Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig, yr ateb yn syml yw 'na'. Rhan o'r broses y bwriedir iddi ddiwydd o ganlyniad i'r Bil i symleiddio'r weithdrefn hon yw na fyddai'r math hwnnw o ganiatâd yn angenrheidiol. Byddai awdurdodau addysg lleol yn cael eu grymuso i frw ymlaen â'r gwaith ar lawr gwlad.

O ran addysg ôl-16, mae AALLau, unwaith eto, wedi eu gosod yng nghanol y ddadl. Y syniad yno yw mai AALLau sydd yn y sefyllfa orau i fod yn gyfrifol am y cyfnod pontio i addysg ôl-16 gan eu bod yn deall llwybr addysgol cyn-16 plentyn penodol ac mor agos ag y bo modd at dargedu'r pecyn at anghenion unigol y plentyn. Felly, mae'n well rhoi'r ddyletswydd gofal iddynt hwy.

O ran dyddiadau tymor ysgol, mae Cymru bellach yn mynd i'r cyfeiriad hollol groes i'r hyn sy'n digwydd dros y ffin yn Lloegr, o ganlyniad i'r cyhoeddiadau yr ydym wedi eu clywed heddiw. Fodd bynnag, bu galw cyhoeddus dir yng Nghymru na all cysoni dyddiadau tymor ysgol ond helpu teuluoedd, yn enwedig o ran anhawster jyglo gofal plant a chostau gofal plant, ond hefyd o ran gwyliau ysgol. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fwiad i hyn grwydro i mewn i faes newid hyd tymhorau. Nid oes gennyf unrhyw fwiad i gyflwyno opsiynau o fewn y Bil i Weinidogion newid hyd y tymhorau. Bwriedir i'r pwerau yn y Bil, fel y'u disgrifir, gael eu defnyddio mewn amgylchiadau anarferol. Er enghraifft, gallai digwyddiad chwaraeon rhyngwladol mawr fod yn cael ei gynnal mewn rhanbarth o Gymru, megis Cwpan Ryder. Oni allai fod yn syniad da, yn yr achos hwnnw, i edrych ar wahanol ddyddiadau gwyliau tymor er mwyn i ysgolion a phobl ifanc gymryd rhan yn y digwyddiadau ehangach a gynhelir yn sgil digwyddiad o'r fath? Efallai y bydd Gemau'r Gymanwlad yn cael eu cynnal yma yn y dyfodol; pwy a wŷr? Mewn achosion o'r fath, byddai pobl ifanc yn gallu manteisio orau ar bethau annisgwyl neu anarferol o'r fath a ddoi i'w cyfeiriad.

Ni allaf ond cytuno â sylwadau Angela Burns ar yr angen i gael y ddeddfwriaeth hon yn hollol gywir, yn enwedig o ran pa mor agored i niwed yw pobl ifanc AAA ac o ran gwneud achos ariannol cadarn i'w ystyried gan y Cynulliad. Byddaf yn gweithio'n galed iawn gyda'r holl bartneriaid posibl, gan gynnwys Angela a'i chydweithwyr, yn hynny o beth.

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Presiding Officer, may I start by thanking the Minister for his very kind and generous comments about me earlier on, and by thanking the opposition spokesperson, Angela Burns, as well? It is true that I have read or heard my obituary so often in the last week that I thought I had better come here to reassure people that I am still alive. [Laughter.]

I was very pleased indeed, to hear what the Minister had to say about taking forward the standards agenda. May I urge him to ensure that that remains at the heart of his agenda for the Welsh Government's education policy?

Would he agree with me that one of the critical things that we have to do is to continue to upskill the wider workforce in our schools? Some 5,500 people have joined the wider workforce as a result of the foundation phase. Would he also agree that unions such as the GMB, Unison and Unite, which represent those people in the wider workforce, have a very important role to play in shaping the development of the education workforce council? Would he agree with me further that the skills of all of those in our schools are essential to ensure that we have a quality learning environment for our young people? In that light, may I urge him to keep the name 'education workforce council'?

Ddirprwy Lywydd, a gaf fi ddechrau trwy ddiolch i'r Gweinidog am ei sylwadau caredig a hael iawn amdanaf yn gynharach, a thrwy ddiolch i lefarydd yr wrthblaid, Angela Burns, yn ogystal? Mae'n wir fy mod wedi darllen neu glywed fy ysgrif goffa mor aml yn yr wythnos diwethaf nes imi feddwl y byddai'n well i mi ddod yma i sicrhau pobl fy mod yn dal yn fyw. [Chwerthin.]

Roeddwn yn falch iawn yn wir i glywed beth oedd gan y Gweinidog i'w ddweud am fwrw ymlaen â'r agenda safonau. A allaf i ei annog i sicrhau bod hynny'n parhau i fod wrth wraidd ei agenda ar gyfer polisi addysg Llywodraeth Cymru?

A fyddai'n cytuno â mi mai un o'r pethau allweddol y mae'n rhaid inni ei wneud yw parhau i wella sgiliau'r gweithlu ehangach yn ein hysgolion? Mae rhyw 5,500 o bobl wedi ymuno â'r gweithlu ehangach yn sgil y cyfnod sylfaen. A fyddai hefyd yn cytuno bod gan undebau fel y GMB, Unsain ac Unite, sy'n cynrychioli'r bobl hynny yn y gweithlu ehangach, ran bwysig iawn i'w chwarae yn natblygiad cyngor y gweithlu addysg? A fyddai'n cytuno â mi ymhellach fod sgiliau pawb yn ein hysgolion yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gennym amgylchedd dysgu o ansawdd ar gyfer ein pobl ifanc? Yng ngoleuni hynny, a gaf fi ei annog i gadw'r enw 'cyngor y gweithlu addysg'?

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Presiding Officer, may I thank Leighton Andrews for those very perceptive points? I absolutely give a guarantee to him and every Member of this Assembly that the standards agenda remains absolutely central in terms of the Welsh Government's education and skills policy. There is no question and no doubt that it is absolutely the first priority.

Leighton is quite right to talk about the need to upskill the wider workforce that teaches and supports our young people. We have to bear in mind the enormous changes that have happened over the last decade, or so. The foundation phase, as the Member has mentioned, is one of those, as is our demand for greater collaboration, post 16 in particular, between schools and further education establishments. That has meant that whole new groups of people have been brought into the support and teaching network around young people. Those people are professionals and need access to a level playing field in terms of professional development. On the other side of that coin of professionalism, we need also to be able to hold to account those emerging and new professions in the educational field to a level of standards and a code of conduct. We need everything that goes along with that, which is what the education workforce council seeks to be. I see no reason at this point for seeking to modify the name of the council. As I mentioned earlier, it is the description on the tin that is most accurate.

Ddirprwy Lywydd, hoffwn ddiolch i Leighton Andrews am y pwyntiau craff iawn hynny. Rwyf yn rhoi gwarant lwyr iddo ef a phob Aelod o'r Cynulliad hwn bod yr agenda safonau yn parhau i fod yn gwbl ganolog o ran polisi addysg a sgiliau Llywodraeth Cymru. Nid oes unrhyw gwestiwn ac nid oes amheuaeth mai dyma'r brif flaenoriaeth.

Mae Leighton yn llygad ei le i sôn am yr angen i uwchsgilio'r gweithlu ehangach sy'n addysgu ac yn cefnogi ein pobl ifanc. Mae'n rhaid i ni gadw mewn cof y newidiadau enfawr sydd wedi digwydd dros y degawd diwethaf, fwy neu lai. Mae'r cyfnod sylfaen, fel y mae'r Aelod wedi crybwyll, yn un o'r rheini, fel y mae ein galwad am fwy o gydweithio, ôl-16 yn arbennig, rhwng ysgolion a sefydliadau addysg bellach. Mae hynny wedi golygu bod grwpiau cyfan newydd o bobl wedi cael eu dwyn i mewn i'r rhwydwaith cefnogi ac addysgu o amgylch pobl ifanc. Mae'r bobl hynny yn weithwyr proffesiynol ac mae angen cyfle teg arnynt o ran datblygiad proffesiynol. Ar ochr arall y geiniog broffesiynoldeb honno, mae angen inni hefyd i'w dwyn i gyfrif y proffesiynau hynny sy'n datblygu ac yn newydd ym maes addysg, o ran safonau a chod ymddygiad. Mae arnom angen popeth sy'n mynd gyda hynny, a dyna a fwriedir i gyngor y gweithlu addysg fod. Ni welaf unrhyw reswm ar hyn o bryd i geisio newid enw'r cyngor. Fel y soniais yn gynharach, dyna'r disgrifiad mwyaf cywir ar y tun.

Hoffwn groesawu'r Gweinidog newydd i'w swydd a dymuno'n dda iddo. Rwy'n mawr obeithio y caiff lwyddiant yn y swydd hon sy'n bwysig nid yn unig i'r Cynulliad fel corff a'r Llywodraeth fel sefydliad, ond i broses datganoli yng Nghymru. Mae gennym pob arf sy'n rheoli addysg wedi'i ddatganoli i Gymru ac mae'n hynod o bwysig ein bod yn dangos i bobl Cymru sydd yn ein gyrru ni yma—o ba bynnag blaid—ein bod yn gallu cynnal cyfundrefn addysg sy'n rhoi'r cyfle gorau i bob plentyn ac sy'n cau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad y plant mwyaf amddifadus a'r plant mwyaf breintiedig. Dyna'r gwaith yr oedd y cyn-Weinidog, Leighton Andrews, wedi gosod fel ei amcan. Rwy'n diolch iddo am yr hyn a wnaeth fel Gweinidog, ac yn arbennig am osod amcanion mor glir i'r sector yng Nghymru ac am osod cywair. Rwy'n gobeithio y bydd y cywair hwnnw yn cael ei ddilyn gan y Gweinidog presennol. Byddwn yn colli gallu Leighton Andrews i siarad yn blwmp ac yn blaen, ac efallai ei allu i siarad yn gryno hefyd o bryd i'w gilydd. Er ein bod ni'n cefnogi'r Bil hwn mewn egwyddor, buasem hefyd am gefnogi polisiau eraill y Llywodraeth sydd yn mynd i'r afael â safonau, fel rydym newydd glywed.

Rhaid imi ddweud, serch hynny, ar nodyn llai positif, y collais rywfaith o ffydd yn y cyn-Weinidog ar y diwrnod yr ymddiswyddodd. Os ydym am ddiwygio'r gyfundrefn addysg yng Nghymru, mae angen yr arweiniad—oedd, roedd y cyn-Weinidog yn rhoi arweiniad—ond mae angen cefnogaeth ehangach na chefnogaeth y Blaid Lafur neu'r mudiad Llafur yn unig i wneud hynny. Mae'n hynod bwysig, pan fo'r drws yn agored a phan fo cefnogaeth yn dod gan y gwrthbleidiau, nad yw'r drws yn cael ei gau'n glep pan fo ystyriaethau pleidiol ac etholaethol yn dod i mewn i'r cwestiwn. Mae'n bwysig iawn, os ydym yn mynd i lwyddo i gyrraedd y nod yr ydym i gyd yn cytuno arno yn y sefydliad hwn, ein bod yn gweithio gyda'n gilydd cymaint â phosibl. Rwyf ond yn dweud wrth y Gweinidog newydd yr hyn a ddywedais mewn llythyr i'r Prif Weinidog yr wythnos diwethaf.

Rwy'n troi yn awr at y Bil ei hun. Rwy'n croesawu'r Bil, fel y dywedais. Mae'n ymddangos i mi fod dau brif bwrpas i'r Bil. Un yw ehangu'r cofrestru ar gyfer y gweithlu addysgol, ac rwy'n croesawu'r rhesymau y gosododd Leighton Andrews allan am hynny. Rwy'n credu bod hyn yn bwysig ac yn gam pwysig ymlaen i broffesiynoli a chodi safonau a statws y gweithlu ehangach. Mae hefyd yn bwysig o ran y Bil hwn ein bod yn cynnal annibyniaeth y cyngor sy'n mynd i reoli ac edrych ar y proffesiwn ehangach yng Nghymru.

Rwyf am sôn am gwplw o bethau sy'n destun pryder a lle rwy'n meddwl bod y Bil fel y mae efallai'n ddiffygiol. Yn gyntaf oll, nid wyf yn ymddiheuro am ddod yn ôl at y ffaith nad yw gweithwyr ysgolion preifaf yn rhan o hyn. Mae'n ymddangos i mi fod drws cefn anffodus yn y fan hon i rywun nad ydyw wedi cymhwyso o dan y cyngor newydd i weithio mewn sefydliad addysgol yng Nghymru. Efallai nad oes llawer ohonynt—nid oes cymaint ag sydd yn Lloegr, neu yn Llundain yn bendant—ond yr hyn a ddywedasoch yn eich datganiad, Weinidog, oedd,

'all education practioners working in Wales'.

I welcome the new Minister to his post and wish him well. I very much hope that he is successful in this role, which is crucial not only for the Assembly as a body and the Government as an institution, but to the process of devolution in Wales. We have every tool devolved to Wales in terms of education and it is extremely important that we show the people of Wales who put us in this place—from whatever party we are—that we can maintain an education regime that gives the best opportunities to every child and closes that gap between the attainment of the most deprived and the most privileged of our children. That was the work that the former Minister, Leighton Andrews, had put in place as his ambition. I thank him for what he achieved as Minister, and particularly for setting such clear objectives for the sector in Wales and for setting the tone. I hope that that will be pursued by the current Minister. We will miss Leighton Andrews's ability to speak plainly, and perhaps his ability to speak succinctly from time to time. Although we do support this Bill in principle, we would also want to support other Government policies that could tackle the issue of standards, as we have just heard.

I have to say, however, on a less positive note that I did lose some faith in the former Minister on the day of his resignation. If we are to reform the education system in Wales, we need leadership—yes, the former Minister provided leadership—but you need wider support rather than just the support of the Labour Party or the Labour movement to achieve that. It is extremely important that if the door is open and if there is support from the opposition parties, that that door is not closed in people's faces when party political and constituency considerations come into the picture. It is very important, if we are to achieve the aim that we have all agreed on in this institution, that we work together as much as possible. I am only telling the current Minister what I said in a letter to the First Minister last week.

I turn now to the Bill itself. I welcome the Bill, as I have said. It appears to me that there are two main purposes to the Bill. One is to expand registration for the workforce, and I welcome the reasons for that as set out by Leighton Andrews. I think that this is important and an important step forward to professionalise and to raise standards and the status of the wider workforce. It is also important in terms of this Bill that we maintain the independence of the council that is to manage and look at the wider profession in Wales.

I will mention certain issues that do cause concern and where I feel that the Bill is perhaps deficient. First, I do not apologise for returning to the fact that workers in the independent sector are not included. It appears to me that there is an unfortunate back door for someone who is not qualified under the new council to work in an educational establishment in Wales. There may be very few of them—nowhere near as many as exist in England, and certainly not in London—but what you said in your statement, Minister, was,

holl ymarferwyr addysg sy'n gweithio yng Nghymru .

Os nad yw hynny'n cynnwys y sector breifat, nid yw'n cynnwys pawb. Rwy'n pwysu arnoch i ailystyried hynny wrth i'r Bil fynd drwy'r Cynulliad.

Rwyf hefyd yn meddwl bod angen edrych i wneud yn siŵr bod y cyngor newydd—beth bynnag yw ei enw; cawn drafod hynny yn nes ymlaen mae'n debyg, ond gadewch inni dderbyn yr enw am y tro—yn ddigon annibynnol i gynnig cyngor i'r Gweinidog ac i'r sector ehangach heb orfod mynd ar ofyn y Gweinidog. Felly, mae rhywfaint o gyfyngu ar ryddid y cyngor yn y Bil fel y mae, a bydd angen edrych ar hynny.

Rwyf am ofyn i'r Gweinidog yn benodol pam mae'n teimlo ei bod hi mor bwysig bod y cod ymddygiad yn cael ei baratoi gan Weinidogion Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r cod ymddygiad yn cael ei baratoi gan y cyngor addysgu cyffredinol. A oes rheswm pam mae'n credu bod yn rhaid i'r cod gael ei baratoi gan y Gweinidogion yn hytrach na gan gorff cwbl annibynnol, efallai i'w gymeradwyo wedyn drwy ddulliau yn y lle hwn? Hoffwn edrych ar hynny eto. Yn yr un cyd-destun, mae angen sicrhau nad yw'r cyngor newydd yn troi'n rhyw fath o gwango a'i fod yn annibynnol ar y Llywodraeth. Felly, mae'n codi cwestiwn ynglŷn â sut yr ydym yn penodi aelodau i'r cyngor. Rwy'n meddwl bod hwnnw'n gwestiwn yr hoffwn fynd i'r afael ag ef drwy'r pwyllgor ac ati. Nid wyf yn mynd i siarad yn rhy hir, oherwydd mae materion y gellir eu codi yn y pwyllgor.

Rwyf braidd yn siomedig, a dweud y gwir, nad yw'r Gweinidog yn gweld y cyfle i edrych ar wyliau yng Nghymru. Rwyf o'r farn bod angen ystyried eto y patrwm gwyliau sydd gennym. Rwy'n meddwl bod angen gwyliau cenedlaethol. Nid wyf eisiau mynd i lawr y llwybr sydd yn cael ei amlinellu heddiw yn Lloegr. Fodd bynnag, mae angen i bob plentyn yng Nghymru i fynd i'r ysgol ar yr un diwrnod a bod ar wyliau ar yr un diwrnod yn fy marn i. Mae eisiau edrych ar batrwm a hyd gwyliau, achos mae tystiolaeth, yn enwedig yn y trosglwyddo o addysg gynradd i uwchradd, ymysg bechgyn a dros yr haf, bod dirywiad mewn safonau. Mae'n werth ailystyried hynny. Felly, er bod y Gweinidog yn dweud mai eithriad yw'r pŵerau y mae'n chwilio amdanynt yn y Bil hwn, buasem ni ym Mhlaid Cymru eisiau cryfhau'r rhan hon o'r Bil er mwyn rhoi'r gallu hwnnw i amrywio wrth i bethau ddatblygu.

Dyma Fil a ddylai godi proffil y gweithwyr atodol sydd mor bwysig nawr ar gyfer cyrraedd safonau yn ein system addysg. Dyma Fil i godi statws a phroffesiynoldeb y gweithwyr atodol hynny. Dyma Fil i sicrhau a diogelu statws presennol athrawon, ac i sicrhau cysondeb ar draws Cymru. Os bydd y Bil yn ei ffurf derfynol yn cyflawni hynny, byddaf yr un mor falch i'w gefnogi bryd hynny hefyd.

If it does not include the independent sector, it does not include everyone. I would urge you to reconsider that as the Bill progresses through the Assembly.

I also feel that we need to ensure that the new council—whatever it is called; we will discuss that at a later stage perhaps, but let us accept the name as it is at present—is sufficiently independent to provide advice to the Minister and to the wider sector without having to ask the Minister for permission. Therefore, there is some restriction on the freedom of the council in the Bill as it is, and we need to address that.

I want to ask the Minister specifically why he feels that it is so important that the code of conduct should be prepared by Welsh Ministers. At present, the code is drawn up by the general teaching council. Is there any reason why he believes that the code would have to be prepared by Ministers instead of a completely independent body and then approved perhaps through the procedures in this place? I would like to look at that again. In the same context, we must ensure that this new council does not turn into some sort of quango and that it is independent of Government. Therefore, a question arises as to how we appoint members to the council. I think that that is a question that we need to get to grips with at the committee stage. I am not going to speak for too much longer because there are issues that could be addressed in committee.

I think that we need to reconsider our current holiday pattern. I think that we need to set national holidays. I do not want to go down the route outlined in England today. However, every child in Wales needs to go to school on the same day and to be on holiday at the same times, in my opinion. We need to look at the pattern and length of school holidays, because there is evidence, especially in the transition from primary to secondary education, among boys and over the summer period, that there is a decline in standards. It is worth reconsidering that. Therefore, although the Minister says that the powers that he is seeking in this Bill are an exception, we in Plaid Cymru would want to strengthen that particular part of the Bill in order to provide that ability to vary as things develop.

This is a Bill that should raise the profile of auxiliary workers who are so important now in terms of increasing standards in our education system. This is a Bill to increase the status and professionalism of those workers. This is a Bill that will safeguard the current status of teachers and provide consistency across Wales. If the Bill in its final form achieves that, I will be equally happy to support it at that point too.

My thanks to Simon Thomas for his very considered and helpful remarks around the issues of the Bill. I hope that he will not be too disappointed in terms of the change of tone, given the change in Minister. I hope that I did not detect an underhand elbow in the ribs. I do not know what he meant about the succinct nature of my predecessor's responses and how that might compare with mine. I am sure that they could both be held up as models of debating style in their own way.

Of course, this is about the registration of a wider workforce. It is about recognising the professionalism of that wider family of specialists who work together and collaborate to support our children and young people. I will—as we work through the practicalities of what is, I am beginning to feel, quite a consensual feeling across the parties in the Chamber—look for the support of other parties to deliver for that workforce, which, in turn, means delivering for the people concerned.

Constitutionally, the new education workforce council would have the same status as the current GTCW, so it would be independent of Government. There is no change. In essence, the Bill evolves the GTCW into another body, but does not interfere with its constitutional status and its relationship with the Welsh Government. Therefore, there is independence built in there.

I take on board Simon Thomas's remarks in terms of the private sector. It is interesting that the Welsh Conservatives and Plaid Cymru have both made those remarks. It is something, perhaps, for me to ponder upon.

On the code of conduct being written by the Welsh Ministers in the first instance, as I said, this would be undertaken by a task and finish group that I would intend to set up, and there would be a full, formal consultative process around that. I cannot see any better way, at the moment, of ensuring fairness, clarity and transparency in terms of the first draft of the code of conduct. Of course, that would then be handed over to the education workforce council, and it would be its responsibility to review that code of conduct periodically, to bring it up to date and to ensure that it was fit for purpose. However, given that the council does not exist at the moment, I cannot see any fairer way than Welsh Ministers overseeing a transparent process for the drafting of the first code of conduct.

I agree with Simon Thomas that the appointment of members is perhaps something best left to, hopefully, a consensual debate during the committee stage.

In terms of patterns of school holidays, I would dispute with the Plaid Cymru spokesperson that this Bill is necessarily the best place to have the debate around the pattern of school holidays in Wales. We are seeing the opening up of a free-for-all in England around school holidays that could cause all sorts of headaches for parents when it comes to arranging childcare as well as annual family holidays and so on. I certainly do not want to travel down that path.

Hoffwn ddiolch i Simon Thomas am ei sylwadau ystyriol a defnyddiol iawn am faterion y Bil. Rwyf yn gobeithio na fydd yn rhy siomedig o ran y newid cywair, o ystyried y newid Gweinidog. Rwyf yn gobeithio nad oeddwn yn canfod penelin llechwraidd yn yr asennau. Wn i ddim beth oedd yn ei olygu wrth ddweud bod ymatebion fy rhagflaenydd yn gryno a sut y gallai hynny gymharu â'm rhai i. Rwyf yn siŵr y gellid ystyried y ddau yn fodelau o sut i gyflwyno dadl yn eu ffordd eu hunain.

Wrth gwrs, mae hyn yn ymwneud â chofrestru gweithlu ehangach. Mae'n ymwneud â chydabod proffesiynoldeb y teulu ehangach o arbenigwyr sy'n gweithio gyda'i gilydd ac yn cydweithio i gefnogi ein plant a phobl ifanc. Byddaf—wrth i ni weithio trwy elfennau ymarferol yr hyn sydd, rwyf yn dechrau teimlo, yn deimlad eithaf cydsyniol ar draws y pleidiau yn y Siambr—yn chwilio am gefnogaeth y pleidiau eraill i gyflawni ar gyfer y gweithlu hwnnw, sydd, yn ei dro, yn golygu cyflawni ar gyfer y bobl dan sylw.

Yn gyfansoddiadol, byddai gan gyngor y gweithlu addysg newydd yr un statws â'r Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ar hyn o bryd, felly byddai'n annibynnol ar y Llywodraeth. Nid oes unrhyw newid. Yn ei hanfod, mae'r Bil yn esblygu Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn gorff arall, ond nid yw'n amharu ar ei statws cyfansoddiadol a'i berthynas â Llywodraeth Cymru. Felly, mae annibyniaeth yn rhan annatod ohono.

Rwyf yn derbyn sylwadau Simon Thomas o ran y sector preifat. Mae'n ddi-ddorol bod y Ceidwadwyr Cymreig a Phlaid Cymru ill dau wedi gwneud y sylwadau hynny. Mae'n rhywbeth, efallai, imi gnoi cil arno.

O ran y ffaith y byddai'r cod ymddygiad yn cael ei ysgrifennu gan Weinidogion Cymru yn y lle cyntaf, fel y dywedais, byddai hyn yn cael ei wneud gan grŵp gorchwyl a gorffen y byddwn yn bwriadu ei sefydlu, a byddai proses ymgynghori lawn, ffurfiol o amgylch hynny. Ni allaf weld unrhyw ffordd well, ar hyn o bryd, o sicrhau tegwch, eglurder a thryloywder o ran drafft cyntaf y cod ymddygiad. Wrth gwrs, byddai hwnnw wedyn yn cael ei drosglwyddo i gyngor y gweithlu addysg, a'i gyfrifoldeb ef fyddai adolygu'r cod ymddygiad o bryd i'w gilydd, er mwyn ei wneud yn gyfredol a sicrhau ei fod yn addas at y diben. Fodd bynnag, o ystyried nad yw'r cyngor yn bodoli ar hyn o bryd, ni allaf weld unrhyw ffordd deach na chael Gweinidogion Cymru i oruchwyllo proses dryloyw ar gyfer drafftio'r cod ymddygiad cyntaf.

Rwyf yn cytuno â Simon Thomas fod pwnc penodi aelodau efallai yn rhywbeth y mae'n well ei adael i ddael a fydd, gobeithio, yn un gydsyniol yn ystod y cyfnod pwyllgor.

O ran patrymau gwyliau ysgol, byddwn yn dadlau gyda llfarydd Plaid Cymru mai'r Bil hwn o reidrwydd yw'r lle gorau i gael y ddael ynghylch patrwm gwyliau ysgol yng Nghymru. Rydym yn gweld gwyliau ysgol yn dod yn gwbl benagored yn Lloegr, a gallai hynny achosi pob math o gur pen i rieni o ran trefnu gofal plant yn ogystal â gwyliau teuluol blynyddol ac yn y blaen. Yn sicr, nid wyf am fynd ar hyd y trywydd hwnnw.

If we were to consider the pattern of school holidays across Wales, we would need a proper consultative process on that as a free-standing issue, as it would be of such concern to parents and families across Wales. I would not necessarily be convinced—certainly not at this point in time—that the passage of this Bill would allow for a full and proper consultation up and down the country, with enough feedback from enough people to ensure that we had clarity in terms of the settled will, if you like, of the Welsh people when it came to altering the school year and the pattern of it.

I can only agree with Simon Thomas's remarks on the profile of supplementary staff. More and more, we are seeing our model of education in Wales becoming distinctive. One of the distinctive aspects of this, I hope, will be the parity of esteem that we extend to the wider professional family surrounding our children and young people, and helping them to succeed.

16:01

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I also welcome you to your new role, Minister, and acknowledge the work carried out by Leighton Andrews. Not all of us, as opposition spokespeople, agreed with all of the detail, but none of us could question his commitment to raising standards or his eye for the detail in the brief, at committee as much as in Plenary. Therefore, I acknowledge the work that Leighton Andrews carried out.

I share some of the concerns expressed by Angela Burns and Simon Thomas with regard to the inclusion of the independent school sector. I cannot, for the life of me, see that people in any other profession would be kept out of a situation dependent on where they worked, rather than on their profession. Clearly, this will be a matter for discussion at committee. I will also be anxious to hear the Government's justification for the inclusion of youth workers, where other registration processes might be considered in consultations going through at the moment.

However, the real issue for me is whether or not a full cost assessment has been undertaken with regard to this particular legislation. Given the situation in Scotland, as I understand it, at the moment, and that the Minister's control over registration fees will be removed by this Bill, is there any indication as to the level of registration fee paid by teachers and other workers within the education workforce, and the costs that would then ensue to local authorities, because there are agreements at local authority level in most cases with regard to the payment of professional registration fees?

I also share in Simon Thomas's comments with regard to the code of practice and wanting to understand why Welsh Ministers should be responsible in the first instance. I would also refer you to paragraph 7(4), which appears to require the Minister's permission before the education workforce council can provide advice to Government or other bodies. That is a rather strange provision, so I ask what the justification is for it.

Pe byddem yn ystyried patrwm gwyliau ysgol ledled Cymru, byddai angen proses ymgynghori briodol ar hynny fel pwnn annibynnol, gan y byddai mor bwysig i rieni a theuluoedd ledled Cymru. Ni fyddwn o reidrwydd yn cael fy narbwyllo—yn sicr nid ar hyn o bryd—y byddai hynt y Bil hwn yn caniatáu ar gyfer ymgynghoriad llawn a phriodol ar hyd a lled y wlad, gyda digon o adborth gan ddigon o bobl i sicrhau bod ewyllys pobl Cymru, os mynnwch chi, yn eglur ynglŷn â newid y flwyddyn ysgol a phatrwm honno.

Ni allaf ond cytuno â sylwadau Simon Thomas ynglŷn â phroffil staff atodol. Yn gynyddol, rydym yn gweld ein model addysg yng Nghymru yn datblygu ei nodweddion unigryw ei hun. Un o agweddau nodedig hyn, rwyf yn gobeithio, fydd y parch cydradd yr ydym yn ei ymestyn i'r teulu proffesiynol ehangach o amgylch ein plant a'n pobl ifanc, a'u helpu i lwyddo.

Rwyf hefyd yn eich croesawu i'ch rôl newydd, Weinidog, ac yn cydnabod y gwaith a wnaed gan Leighton Andrews. Nid oedd pob un ohonom, fel llefarwyr yr wrthblaid, yn cytuno â'r holl fanylion, ond ni allai'r un ohonom amau ei ymrwymiad i godi safonau neu ei lygad am y manylion yn y briff, yn y pwyllgor yn gymaint ag yn y Cyfarfod Llawn. Felly, rwyf yn cydnabod y gwaith a wnaeth Leighton Andrews.

Rwyf yn rhannu rhai o'r pryderon a fynegwyd gan Angela Burns a Simon Thomas o ran cynnwys y sector ysgolion annibynnol. Ni allaf, yn fy myw, weld y byddai pobl mewn unrhyw broffesiwn arall yn cael eu cadw allan o sefyllfa gan ddiybnnu ar ble maent yn gweithio, yn hytrach nag ar eu proffesiwn. Yn amlwg, bydd hyn yn fater i'w drafod yn y pwyllgor. Byddaf hefyd yn awyddus i glywed cyfiawhad y Llywodraeth dros gynnwys gweithwyr ieuencid, lle gallai prosesau cofrestru eraill gael eu hystyried mewn ymgynghoriadau sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, y broblem go iawn i mi yw p'un a gynhaliwyd asesiad cost llawn ynglŷn â'r ddeddfwriaeth benodol hon. O ystyried y sefyllfa yn yr Alban, yn ôl a ddeallaf, ar hyn o bryd, ac o ystyried y bydd y Bil hwn yn cael gwared ar reolaeth y Gweinidog dros ffioedd cofrestru, a oes unrhyw arwydd o lefel y ffi cofrestru a delir gan athrawon a gweithwyr eraill yn y gweithlu addysg, a'r costau a fyddai'n deillio o hynny i awdurdodau lleol, oherwydd y ceir cytundebau ar lefel awdurdod lleol yn y rhan fwyaf o achosion o ran talu ffioedd cofrestru proffesiynol?

Rwyf hefyd yn rhannu sylwadau Simon Thomas o ran y cod ymarfer ac awydd i ddeall pam y dylai Gweinidogion Cymru fod yn gyfrifol yn y lle cyntaf. Byddwn hefyd yn eich cyfeirio at baragraff 7(4), sy'n ymddangos fel pe bai'n gofyn am ganiatâd y Gweinidog cyn y gall cyngor y gweithlu addysg roi cyngor i'r Llywodraeth neu gyrff eraill. Mae honno'n ddarpariaeth braidd yn rhyfedd, felly rwyf yn gofyn beth yw'r cyfiawhad drosti.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Moving to the issue of special educational needs, there is reference in the explanatory memorandum to 1,400 assessments being required per annum for post-16 students, at a cost of £182,000. How robust is that information and will the cost be borne by local authorities?

Finally, given that the single regulation process for independent schools appears to have been brought about following a Government consultation to which there were only nine responses and, as I said to the First Minister, against the backdrop of over 50% of excluded pupils from mainstream education having special educational needs, and given that registration will be introduced for independent schools, is there a need for the Government to look again at provision whereby there can either be dual registration in mainstream schools for SEN pupils, or no registration whatsoever, as far as pupil referral units are concerned, which may mean that certain pupils with special educational needs virtually disappear from the system? Much of the problem with post-16 provision to date has been where local authorities, in some instances, have not even started the assessment process until after the child's sixteenth birthday. Would there be any requirement on local authorities to start the assessment process early, so that children are not awaiting placement at post-16 level merely because the bureaucratic processes in an authority are not up to what they should be?

Gan symud at fater anghenion addysgol arbennig, mae cyfeiriad yn y memorandwm esboniadol at y ffaith bod 1,400 o asesiadau yn ofynnol y flwyddyn ar gyfer myfyrwyr ôl-16, am gost o £182,000. Pa mor gadarn yw'r wybodaeth honno ac a fydd y gost yn cael ei thalu gan awdurdodau lleol?

Yn olaf, o ystyried yr ymddengys fod y broses reoleiddio seagl ar gyfer ysgolion annibynnol wedi cael ei chyflwyno yn dilyn ymgynghoriad gan y Llywodraeth lle cafwyd dim ond naw o ymatebion ac, fel y dywedais wrth y Prif Weinidog, o ystyried bod gan dros 50% o ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd o addysg brif ffrwd anghenion addysgol arbennig, ac o gofio y bydd proses gofrestru'n cael ei chyflwyno ar gyfer ysgolion annibynnol, a oes angen i'r Llywodraeth edrych eto ar y ddarpariaeth lle gellir cael naill ai gofrestriad deuol mewn ysgolion prif ffrwd ar gyfer disgyblion ag AAA, neu ddim cofrestriad o gwbl, o safbwynt unedau cyfeirio disgyblion, a allai olygu bod rhai disgyblion ag anghenion addysgol arbennig bron â diflannu o'r system? Mae llawer o'r broblem gyda darpariaeth ôl-16 hyd yn hyn wedi codi lle mae awdurdodau lleol, mewn rhai achosion, heb ddechrau ar y broses asesu hyd yn oed tan ar ôl pen-blwydd y plentyn yn un ar bymtheg. A fyddai unrhyw ofyniad ar awdurdodau lleol i gychwyn y broses asesu yn gynnar, fel nad yw plant yn aros am leoliad ar lefel ôl-16 dim ond oherwydd nad oedd y prosesau biwrocraidd mewn awdurdod gystal â'r hyn y dylent fod?

16:05

Huw Lewis [Bywgraffiad Biography](#)

My thanks to Aled Roberts for those points. Some of those points, as he mentioned, are probably best tested at committee stage, but I will attempt to outline my thoughts as best I can at present.

In terms of the cost assessment and the fees, we are, of course, talking about a fees regime here in terms of how the new workforce council would operate. Currently, the GTCW has a standard fee of around £45 per member. That gives Members some idea of where we are at present. I think that we would need to consider and test models that include some kind of sliding scale. We need that for fairness, I think, as there will be wide variation in the take-home pay and salaries of the various professionals involved. So, we need to test financial models around that, maybe taking the £45 as a starting point and something that we would not want to stray too far away from for the fees level. Again, that can be tested at committee stage, and quite rightly so.

I am not quite clear about Aled Roberts's points on paragraph 7(4). With your indulgence, Deputy Presiding Officer, I will look into that and write to the Member in that regard.

Hoffwn ddiolch i Aled Roberts am y pwyntiau hynny. Mae'n debyg mai'r lle gorau i brofi rhai o'r pwyntiau hynny, fel y soniodd, yw yn ystod y cyfnod pwyllgor, ond byddaf yn ceisio amlinellu fy syniadau gystal ag y gallaf ar hyn o bryd.

O ran yr asesiad cost a'r ffioedd, rydym, wrth gwrs, yn siarad am drefn ffioedd yma o ran sut y byddai cyngor newydd y gweithlu yn gweithredu. Ar hyn o bryd, mae gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ffi safonol o tua £45 yr aelod. Mae hynny'n rhoi rhyw syniad i Aelodau o ble'r ydym ar hyn o bryd. Credaf y byddai angen i ni ystyried a phrofi modelau sy'n cynnwys rhyw fath o raddfa. Mae arnom angen hynny ar gyfer tegwch, rwyf yn meddwl, gan y bydd cyflogau'r gwahanol weithwyr proffesiynol dan sylw yn amrywio'n fawr. Felly, mae angen i ni brofi modelau ariannol ynghylch hynny, efallai gan gymryd y £45 fel man cychwyn ac yn rhywbeth na fyddem am fynd yn rhy bell oddi wrtho ar gyfer lefel y ffioedd. Unwaith eto, gellir profi hynny yn ystod y cyfnod pwyllgor, a hynny'n gwbl briodol.

Nid wyf yn gwbl glir ynglŷn â phwyntiau Aled Roberts ar baragraff 7 (4). Gyda'ch maddeuant, Ddirprwy Lywydd, byddaf yn edrych ar hynny ac yn ysgrifennu at yr Aelod yn hynny o beth.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

On SEN provision and how robust the financial structure around this is, we are currently operating within what is roughly a £9 million envelope for local authorities, and that is now distributed through the—I was going to say ‘social housing grant’. It is the RSG—that is the abbreviation I was searching for. Again, we will have to have a mind to this being fair and to it being distributed fairly, and the best place to test this is in committee. However, I cannot envisage that we would be in a position to stray very far from that £9 million expenditure envelope, as it is at present. Local authorities, though, will be making the decisions; they will become autonomous in this regard, and I believe that they are the organisations best placed to make those decisions, given their familiarity with the educational trajectory of the young people in their care.

I would agree wholeheartedly with Aled Roberts on the transition for young people. We must discuss, as part of the passage of this Bill, how we can ensure that local authorities start early and ensure a thoughtful, considered, tailor-made transition for young people with SEN prior to that sixteenth birthday cut-off point. We must have a fair and, as far as possible, tailor-made service for those young people, wherever they might live in Wales.

16:09

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I, too, am pleased to have the opportunity to speak today and to congratulate the new Minister on his appointment, and I, too, would like to congratulate the previous Minister. One thing that they have in common is that both have said that it is important to look at standards, and I am glad about that. I hope, Minister, that you will follow your predecessor in listening to teachers, and not take the road that Gove is taking in England, by falling out with teachers all the time. To be successful, we need to take the education workforce with us. I am, therefore, happy that, in the first part of this Bill, we are talking about the new registration system for the education workforce. When you consider the number of people who work out there—I think that the former Minister talked about 8,000 teachers; I am told that there are 23,000 other people who work in our schools and colleges supporting the young people—in this Bill you are talking about enabling them to get qualifications as well as registration. That is important.

O ran darpariaeth AAA a pha mor gadarn yw'r strwythur ariannol o gwmpas hyn, rydym ar hyn o bryd yn gweithredu o fewn amlen fras o £9 miliwn ar gyfer awdurdodau lleol, ac mae bellach yn cael ei ddsbarthu drwy—roeddwn yn mynd i ddweud ‘grant tai cymdeithasol’. Yr RSG ydyw—dyna'r byrfodd yr oeddwn yn chwilio amdano. Unwaith eto, bydd yn rhaid inni roi sylw i sicrhau bod hyn yn deg ac yn cael ei ddsbarthu'n deg, a'r lle gorau i brofi hyn yw yn y pwyllgor. Fodd bynnag, ni allaf ragweld y byddem mewn sefyllfa i grwydro yn bell iawn o'r cwmpas gwariant £9 miliwn, fel y mae ar hyn o bryd. Awdurdodau lleol, fodd bynnag, fydd yn gwneud y penderfyniadau; byddant yn dod yn annibynnol yn hyn o beth, ac rwyf yn credu mai nhw yw'r sefydliadau yn y sefyllfa orau i wneud y penderfyniadau hynny, o gofio eu bod yn gyfarwydd â llwybr addysgol y bobl ifanc yn eu gofal.

Byddwn yn cytuno'n llwyr ag Aled Roberts ynglŷn â'r cyfnod pontio ar gyfer pobl ifanc. Mae'n rhaid i ni drafod, fel rhan o hynt y Bil hwn, sut y gallwn sicrhau bod awdurdodau lleol yn dechrau'n gynnar ac yn sicrhau cyfnod pontio meddylgar, ystyriol, wedi'i deilwra ar gyfer pobl ifanc sydd ag AAA cyn eu pen-blwydd yn un ar bymtheg oed. Rhaid inni gael gwasanaeth teg a, chyn belled ag y bo modd, wedi'i deilwra ar gyfer y bobl ifanc hynny, ble bynnag y maent yn byw yng Nghymru.

Rwyf innau, hefyd, yn falch o gael y cyfle i siarad heddiw ac i longyfarch y Gweinidog newydd ar ei benodiad, a hoffwn innau hefyd, longyfarch y Gweinidog blaenorol. Un peth sydd ganddynt yn gyffredin yw bod y ddau wedi dweud ei bod yn bwysig edrych ar safonau, ac rwyf yn falch o hynny. Rwyf yn gobeithio, Weinidog, y byddwch yn dilyn eich rhagflaenydd drwy wrando ar athrawon, a pheidio â dilyn trywydd Gove yn Lloegr, drwy ffræo ag athrawon drwy'r amser. I fod yn llwyddiannus, mae angen i ni fynd â'r gweithlu addysg gyda ni. Rwyf, felly, yn hapus ein bod yn sôn, yn rhan gyntaf y Bil hwn, am y system gofrestru newydd ar gyfer y gweithlu addysg. Pan fyddwch yn ystyried nifer y bobl sy'n gweithio yno—credaf fod y cyn Weinidog wedi sôn am 8,000 o athrawon; dywedir wrthyf fod 23,000 o bobl eraill sy'n gweithio yn ein hysgolion a'n colegau yn cefnogi'r bobl ifanc—yn y Bil hwn rydych yn siarad am eu galluogi i gael cymwysterau yn ogystal â chofrestru. Mae hynny'n bwysig.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have a few points on flexibility. The first one is similar to the one that Aled Roberts talked about. That point is about the power that you have to determine induction assessment standards, which will have to vary for different categories of registration. My first question is this: what level and methods of consultation with a new council will be required of you before making a determination? On the same thing, the Bill provides for regular meetings between you and the council. Will you commit to making a statement on the outcome and decisions of these meetings, so that we can monitor the implementation? My third point relates to what all three previous speakers have said, which is that registration should also apply to independent schools. When I started my teaching career, I was offered a post in an independent school, but turned it down and started in a state school. When talking about young people, we think that they should have the same support, whatever school or college that they attend.

As far as school term dates are concerned, this issue goes back a long time. When I worked in what was, at the time, one of eight education authorities in Wales, we tried for years to get them to agree on the same term dates. One of them, which shall remain nameless, but which had something to do with the Royal Welsh Show, would not agree with the seven others. I will not name that particular authority. At lunchtime today, we had two groups of youngsters from primary schools in south Wales in the Assembly and I was talking to the teachers, who were telling me that they cannot believe what is happening in England, where they are going to let individual schools determine school terms and holidays. That seems to me to be inappropriate.

Before you make any direction, Minister, you talk about having appropriate consultation. What factors will that include and with whom will you be consulting? You talked about the Ryder Cup. I remember from 1999, when we had the first Rugby World Cup in Cardiff, that some schools wanted to take the day off to bring the students here, but other schools would not do the same. Would parents be involved in this, or is it only schools and local authorities? We would look for more detail on that consultation.

Mae gennyf ychydig o bwyntiau ar hyblygrwydd. Mae'r un cyntaf yn debyg i'r un y soniodd Aled Roberts amdano. Mae'r pwynt yn ymwneud â'r pŵer sydd gennych i benderfynu ar safonau asesu ym maes ymfedydlu. Bydd yn rhaid i'r rhain amrywio ar gyfer gwahanol gategoriâu o gofrestrriad. Fy nghwestiwn cyntaf yw hwn: sut ac at ba lefel y bydd yn rhaid i chi ymgynghori â chynghor newydd cyn gwneud penderfyniad? Ar yr un peth, mae'r Bil yn darparu ar gyfer cyfarfodydd rheolaidd rhyngoch chi a'r cynghor. A wnewch chi ymrwmo i wneud datganiad ar ganlyniad a phenderfyniadau'r cyfarfodydd hyn, fel y gallwn fonitro gweithrediad? Mae fy nhrydydd pwynt yn ymwneud â'r hyn y mae'r tri siaradwr blaenorol wedi'i ddweud, sef y dylai cofrestru hefyd fod yn berthnasol i ysgolion annibynnol. Pan ddechreuais fy ngyrfa addysgu, cefais gynnig swydd mewn ysgol annibynnol, ond fe'i gwrthodais a dechrau mewn ysgol wladol. Wrth siarad am bobl ifanc, rydym yn credu y dylent gael yr un cymorth, pa bynnag ysgol neu goleg y maent yn eu mynychu.

O ran dyddiadau tymor ysgol, mae'r mater hwn yn mynd yn ôl yn bell. Pan oeddwn yn gweithio yn yr hyn a oedd, ar y pryd, yn un o wyth awdurdod addysg yng Nghymru, roeddem yn ceisio am flynyddoedd eu cael nhw i gytuno ar yr un dyddiadau tymor. Roedd un ohonynt, a fydd yn ddiennw, ond sydd â rhywbeth i'w wneud â Sioe Frenhinol Cymru, na fyddai'n cytuno â'r saith eraill. Nid enwaf yr awdurdod penodol. Amser cinio heddiw, roedd gennym ddau grŵp o bobl ifanc o ysgolion cynradd yn ne Cymru yn y Cynulliad ac roeddwn yn siarad â'r athrawon, a oedd yn dweud wrthyf na allant gredu'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr, lle maent yn mynd i adael i ysgolion unigol benderfynu ar dymhorau a gwyliau ysgol. Mae hynny'n ymddangos yn amhriodol.

Cyn i chi wneud unrhyw gyfarwyddyd, Weinidog, rydych yn siarad am gael ymgynghoriad priodol. Pa ffactorau fydd hynny'n eu cynnwys a gyda phwy y byddwch yn ymgynghori? Soniasoch am Gwpan Ryder. Rwyf yn cofio 1999, pan gawsom Gwpan Rygbi'r Byd cyntaf yng Nghaerdydd, bod rhai ysgolion yn awyddus i gymryd y diwrnod i ffwrdd i ddod â'r myfyrwyr yma, ond na fyddai ysgolion eraill yn gwneud yr un peth. A fyddai rhieni'n cymryd rhan yn hyn, neu ai dim ond yr ysgolion ac awdurdodau lleol yn unig? Byddem yn dymuno cael mwy o fanylion ar yr ymgynghoriad hwnnw.

Finally, on independent schools, I welcome the Bill's proposals to reform how independent schools are registered and approved for SEN learners and for better SEN transition between schools and FE, by placing a responsibility on local authorities to assess learner needs and to secure specialist FE provision. I am also in agreement that local authorities are better placed to ensure joined-up working between education and social care teams. It is particularly welcome that parents and guardians will have improved access to information on the types of SEN services available, so as to inform their choice. There is one thing that worries me, though. When I was working in education, I remember that one of our young people had to go to an independent school in England to receive support, and the cost for that one pupil was £220,000 per year. In the Bill, you talk about Estyn, local authorities and you looking at the provision of special schools in Wales. What is going to happen to the youngsters who may have to go to special schools in England? Who will guarantee that those youngsters have the kind of education that they might have had if they were in an independent school in Wales, where we will be controlling them, in a sense? That does not happen, as far as devolution is concerned, in educational terms for youngsters who have to go to England. I wonder what we can do about that.

Yn olaf, ar ysgolion annibynnol, rwyf yn croesawu cynigion y Bil i ddiwygio'r modd y mae ysgolion annibynnol yn cael eu cofrestru a'u cymeradwyo ar gyfer dysgwyr AAA ac ar gyfer gwell pontio AAA rhwng ysgolion ac addysg bellach, drwy roi cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i asesu anghenion dysgwyr ac i sicrhau darpariaeth AB arbenigol. Rwyf hefyd yn cytuno bod awdurdodau lleol mewn sefyllfa well i sicrhau gweithio cydgysylltiedig rhwng addysg a thimau gofal cymdeithasol. Mae'n arbennig o dderbyniol y bydd rhieni a gwarcheidwaid yn cael gwell mynediad at wybodaeth am y mathau o wasanaethau AAA sydd ar gael, er mwyn llywio eu dewis. Mae un peth sy'n fy mhoeni, er hynny. Pan oeddwn yn gweithio ym maes addysg, rwyf yn cofio bod rhaid i un o'n pobl ifanc fynd i ysgol annibynnol yn Lloegr i gael cymorth, ac roedd y gost ar gyfer yr un disgybl hwnnw yn £220,000 y flwyddyn. Yn y Bil, rydych yn siarad am Estyn, awdurdodau lleol a chithau yn edrych ar ddarpariaeth ysgolion arbennig yng Nghymru. Beth sy'n mynd i ddigwydd i'r bobl ifanc a allai fod yn gorfod mynd i ysgolion arbennig yn Lloegr? Pwy fydd yn gwarantu bod y bobl ifanc hynny'n cael y math o addysg y gallent fod wedi ei chael pe baent mewn ysgol annibynnol yng Nghymru, lle y byddwn ni'n eu rheoli, mewn ffordd? Nid yw hynny'n digwydd, o safbwynt datganoli, mewn termau addysgol ar gyfer pobl ifanc sy'n gorfod mynd i Lloegr. Tybed beth allwn ni ei wneud am hynny.

16:14

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Keith Davies for those points. My figures indicate that we are, in terms of the wider professional workforce that may be affected by the setting up of the educational workforce council, talking about numbers that are more like 65,000 people in total, which is a very large body of people—all the more reason why we need to get this legislation just right. In terms of induction, Keith Davies is quite right to say that we need to look carefully at the various professions that are involved here. They are all starting from a slightly different place, and everyone is familiar with the induction and appraisal of teachers and how that works. The General Teaching Council for Wales has long experience of that. I do not pretend to come here today with ready-cooked answers to this and how that might relate to support staff in their various roles in schools and further education institutions. They are all starting from very different places, and we need to get, as much as we can, harmonisation of that sort of work, while recognising the unique roles and the skills that each group brings to the young person.

Diolch i Keith Davies am y pwyntiau hynny. Mae fy ffigurau'n dangos ein bod, o ran y gweithlu proffesiynol ehangach a allai gael ei effeithio trwy sefydlu cyngor y gweithlu addysgol, yn siarad am rifau sy'n fwy tebyg i 65,000 o bobl i gyd, sydd yn gorff mawr iawn o bobl—mwy o reswm fyth pam mae angen i ni gael y ddeddfwriaeth hon yn iawn. O ran ymsefydlu, mae Keith Davies yn llygad ei le i ddweud bod angen inni edrych yn ofalus ar y gwahanol broffesiynau sy'n cael eu cynnwys yma. Maent i gyd yn dechrau o le ychydig yn wahanol, ac mae pawb yn gyfarwydd ag ymsefydlu a gwerthuso athrawon a sut mae hynny'n gweithio. Mae gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru brofiad helaeth o hynny. Nid wyf yn honni fy mod yn dod yma heddiw gydag atebion parod i hyn a sut y gallai fod yn berthnasol i gefnogi staff yn eu rolau gwahanol mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach. Maent i gyd yn dechrau o leoedd gwahanol iawn, ac mae angen i ni, gymaint ag y gallwn, gysoni'r math hwnnw o waith, yn ogystal â chydabod y rolau unigryw a'r sgiliau sydd gan bob grŵp i gefnogi'r person ifanc.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think it is a little early for me to set down when and how often I will be undertaking meetings with the council, although I would, of course, be very interested in Members' views on how that relationship should work as we develop this piece of legislation. I note Keith's remarks in relation to independent schools. In terms of school term dates and the debate around that, it is very important to be clear here: what this Bill does is to attempt to harmonise school term start and end dates—so that we, in other words, can have some synchronicity around school holidays. It is not intended to overhaul the school year, and it is not intended to open a debate around the length of the summer holiday, for instance. That, I think, would be most appropriately undertaken as a completely different, free-standing debate, such would be its resonance with the Welsh public, and would require its own procedure and consultation with both parents and professionals. So, this Bill is an attempt to harmonise what we currently have to aid parents, in particular, as regards childcare, in particular. Keith is quite right to point out that this is completely the opposite of the road that is being taken in England, where there is an atomisation of schools and school provision. To my mind, that is not really about holiday provision at all; it is about that further distancing of government from educational provision at whatever level, as the Conservatives and Liberal Democrats seek their small-state solution to every problem. That is not the way that things are moving in Wales, and I do not think that it is the way the public would want it to move, either. If the Welsh Conservatives want to test that with the Welsh public, I look forward to the responses they receive out on doorsteps when they do so.

On Keith's final point about out-of-county and, indeed, out-of-country provision, he is quite right: this is extraordinarily expensive when it does occur. It is relatively rare, but local authorities do still make placements out of county and indeed outside Wales—out of country—on occasion. This Bill will at least ensure that we would trigger Estyn inspection of independent institutions within Wales once they have become part of the system, once they are registered as part of the system, and once they declare which kind of special education needs provision they are suited to provide. I think that we will need to have another conversation through the committee stages on how we might think about out-of-country provision, as something that is perhaps a much tougher nut to crack.

Rwyf yn credu ei bod braidd yn gynnar imi bennu pryd a pha mor aml y byddaf yn cynnal cyfarfodydd gyda'r cyngor, er y byddai gennyf, wrth gwrs, ddi-ddordeb mawr ym marn yr Aelodau ar sut y dylai'r berthynas weithio wrth i ni ddatblygu'r darn hwn o ddeddfwriaeth. Nodaf sylwadau Keith ynglŷn ag ysgolion annibynnol. O ran dyddiadau tymor ysgol a'r ddaol am hynny, mae'n bwysig iawn bod yn glir yma: yr hyn y mae'r Bil hwn yn ei wneud yw ceisio cysoni dyddiadau dechrau a diwedd tymor ysgol—er mwyn inni, mewn geiriau eraill, allu cydamseru gwyliau ysgol i ryw raddau. Nid yw'n fwriad ailwampio'r flwyddyn ysgol, ac ni fwriedir agor trafodaeth ynghylch hyd y gwyliau haf, er enghraifft. Y lle mwyaf priodol i wneud hynny, rwyf yn meddwl, fyddai mewn dadl hollol wahanol, annibynnol, gan y byddai mor bwysig i'r cyhoedd yng Nghymru, a byddai angen ei gweithdrefn ei hun ac ymgynghori gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol. Felly, mae'r Bil hwn yn ymgais i gysoni'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd er mwyn cynorthwyo rhieni, yn arbennig, o ran gofal plant, yn arbennig. Mae Keith yn hollol iawn i nodi bod hyn yn gwbl groes i'r trywydd sy'n cael ei ddilyn yn Lloegr, lle mae ysgolion a darpariaeth ysgol yn cael eu hatomeiddio. Yn fy marn i, nid yw hynny'n ymwneud â darpariaeth gwyliau o gwbl; mae'n ymwneud â phellhau llywodraeth ymhellach oddi wrth y ddarpariaeth addysgol ar ba lefel bynnag, gan fod y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ceisio eu hateb gwladwriaeth fach i bob problem. Nid dyna'r ffordd y mae pethau'n symud yng Nghymru, ac nid wyf yn credu mai dyna'r ffordd y byddai'r cyhoedd am iddynt symud, ychwaith. Os yw'r Ceidwadwyr Cymreig am brofi hynny gyda'r cyhoedd yng Nghymru, rwyf yn edrych ymlaen at yr ymateb a gânt ar garreg y drws pan fyddant yn gwneud hynny.

Ar bwynt olaf Keith ynghylch darpariaeth y tu allan i'r sir ac, yn wir, y tu allan i'r wlad, mae'n hollol iawn: mae hyn yn hynod o ddrud pan fydd yn digwydd. Mae'n gymharol brin, ond mae awdurdodau lleol yn dal i wneud lleoliadau y tu allan i'r sir ac yn wir y tu allan i Gymru—allan o'r wlad—ar adegau. Bydd y Bil hwn o leiaf yn sicrhau y byddem yn sbarduno arolygiad Estyn o sefydliadau annibynnol yng Nghymru ar ôl iddynt ddod yn rhan o'r system, wedi iddynt gael eu cofrestru fel rhan o'r system, ac unwaith iddynt ddatgan pa fath o ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig y maent yn addas i'w darparu. Credaf y bydd angen i ni gael sgwrs arall drwy'r cyfnodau pwyllgor ar sut y byddwn yn ystyried darpariaeth y tu allan i'r wlad, fel rhywbeth sydd efallai yn fwy anodd ei ddatrys.

Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 26.95 i Drin Bil a Gaiff ei Alw'n Fil Sector Amaethyddol (Cymru) fel Bil Brys y Llywodraeth, a Chynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 26.98(ii) i Gytuno ar Amserlen ar gyfer y Bil a Gaiff ei Alw'n Fil Sector Amaethyddol (Cymru)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is proposed that these items be debated together, unless any Member objects. There are no objections. I call on the Minister for Natural Resources and Food to move the motions.

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw William Graham.

Cynnig NDM5279 Alun Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.95 yn:

Cytuno bod Bil llywodraeth a gaiff ei alw'n Fil Sector Amaethyddol (Cymru) a gyflwynir yn y Cynulliad, yn cael ei drin fel Bil Brys llywodraeth.

Cynnig NDM5280 Alun Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.98(ii) yn:

Cytuno y bydd yr amserlen ar gyfer Bil Brys llywodraeth a gaiff ei alw'n Fil Sector Amaethyddol (Cymru) fel ag y mae yn 'Amserlen ar gyfer ystyried Bil Sector Amaethyddol (Cymru)' a osodwyd ger bron y Cynulliad ar 25 Mehefin 2013.

Motion under Standing Order No. 26.95 that a Bill to be known as the Agricultural Sector (Wales) Bill be treated as a Government Emergency Bill, and a Motion under Standing Order No. 26.98(ii) to Agree a Timetable for the Bill to be Known as the Agricultural Sector (Wales) Bill

Cynigir bod yr eitemau hyn yn cael eu trafod gyda'i gilydd, oni bai bod Aelod yn gwrthwynebu. Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd i gynnig y cynigion.

The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of William Graham.

Motion NDM5279 Alun Davies

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 26.95:

Agrees that a government Bill to be known as the Agricultural Sector (Wales) Bill, to be introduced in the Assembly, be treated as a government Emergency Bill.

Motion NDM5280 Alun Davies

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 26.98(ii):

Agrees that the timetable for the government Emergency Bill to be known as the Agricultural Sector (Wales) Bill will be as set out in the 'Timetable for consideration of the Agricultural Sector (Wales) Bill' laid before the Assembly on 25 June 2013.

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

I move the motions.

Our Standing Orders require that this be called an emergency Bill, which, I accept, is possibly an overly dramatic form of words for what is expedited legislation. What we are seeking to do here is to ask the National Assembly to provide us with the opportunity to give urgent consideration to this legislation in order to preserve the current statutory regime and to avoid disruption to the agricultural industry. I think it is important for Members to recognise that the purpose of this Bill is to maintain the status quo; it does not seek to make any significant changes to the situation as it exists today.

Cynigiau y cynigion.

Mae ein Rheolau Sefydlog yn mynnu bod hwn yn cael ei alw'n Fil Brys, sydd, rwyf yn derbyn, o bosibl yn air rhy ddramatig am ddeddfwriaeth sydd wedi'i chyflymu. Yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yma yw gofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol roi'r cyfle inni roi ystyriaeth frys i'r ddeddfwriaeth hon er mwyn cadw'r drefn statudol bresennol ac er mwyn osgoi cythrwfl i'r diwydiant amaethyddol. Credaf ei bod yn bwysig i Aelodau gydnabod mai pwrpas y Bil hwn yw cynnal y status quo, nid yw'n ceisio gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r sefyllfa fel ag y mae heddiw.

I am firmly of the view—and I think that the National Assembly has agreed to this on previous occasions—that it is right to preserve the current system of bespoke statutory regulation for the engagement of agricultural workers in Wales. I have undertaken extensive negotiations and correspondence with the UK Government, which I have reported to this place, with a view to securing the retention of the Agricultural Wages Board for England and Wales in Wales, while allowing the UK Government to proceed with its plan to abolish it in England. Members will be aware that I was hopeful that we would be able to reach agreement on a Public Bodies Act 2011 Order, which would have achieved this.

It is a disappointment to me—it is a disappointment that I have reported to this place before—that we find ourselves in this position. The UK Government has consistently ignored the wishes of the Welsh Government and of the National Assembly in this matter. It is also a matter of great disappointment that the United Kingdom moved quickly to abolish the AWB, through a means and a mechanism that was created in order to subvert the settlement that exists in the United Kingdom and to undermine the constitutional settlement between different institutions in this country. I will say this: while it would not be my preferred means to have followed this mechanism, there will, nevertheless, be an opportunity for Members here to have far more debate on these motions than was allowed by the UK Government for debate in the House of Commons or in the House of Lords. There was no opportunity in the House of Commons for anybody to express a view on the abolition of the AWB. We are ensuring that there will be sufficient time to debate this matter here, and an opportunity for Members to express their views on the matter.

We have had very little time to consider our options, and the best course and option, we conclude, is that of a legislative intervention. The only way to ensure the continuity of the current regime is to act via an emergency-Bill route, which will ensure that the provisions of the 2012 Order are preserved in Wales beyond October 2013. I urge Members to agree to the use of this procedure and to the proposed timetable, which will allow us time to consider its provisions on this occasion. I will speak more fully and respond to Members' contributions when I conclude this debate.

Rwyf yn gadarn o'r farn—ac rwyf yn credu bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi cytuno i hyn ar achlysur blaenorol—ei bod yn briodol gwarchod y system bresennol o reoleiddio statudol pwrpasol ar gyfer cyflogi gweithwyr amaethyddol yng Nghymru. Rwyf wedi cynnal trafodaethau a gohebiaeth helaeth â Llywodraeth y DU, gan roi adroddiadau i'r lle hwn, gyda golwg ar sicrhau y cedwir y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ar gyfer Cymru a Lloegr yng Nghymru, a chaniatáu i Lywodraeth y DU fwrw ymlaen â'i chynllun i'w ddileu yn Lloegr. Bydd Aelodau yn ymwybodol fy mod yn obeithiol y byddem yn gallu dod i gytundeb ar Orchymyn Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011, a fyddai wedi cyflawni hyn.

Mae'n siom i mi—mae'n siom yr wyf wedi'i grybwyll i'r lle hwn o'r blaen—ein bod yn cael ein hunain yn y sefyllfa hon. Mae Llywodraeth y DU wedi anwybyddu'n gyson ddymuniadau Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn y mater hwn. Mae hefyd yn fater o siom mawr fod y Deyrnas Unedig wedi symud yn gyflym i ddileu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, drwy ddulliau a mecanwaith a gafodd eu creu er mwyn gwyrddio'r setliad sy'n bodoli yn y Deyrnas Unedig ac i dansellio'r setliad cyfansoddiadol rhwng gwahanol sefydliadau yn y wlad hon. Byddaf yn dweud hyn: er nad fy newis i fyddai dilyn y mecanwaith hwn, fe fydd cyfle, er hynny, i Aelodau yma gael llawer mwy o drafodaeth ar y cynigion hyn nag a ganiatawyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer dadl yn Nhŷ'r Dyffredin neu yn Nhŷ'r Arglwyddi. Nid oedd unrhyw gyfle yn Nhŷ'r Dyffredin i neb fynegi barn ar ddiwedd y Bwrdd Cyflogaeth Amaethyddol. Rydym yn sicrhau y bydd digon o amser i drafod y mater yma, a chyfle i Aelodau fynegi eu barn ar y mater.

Ychydig iawn o amser a gafwyd i ystyried ein dewisiadau, a deuwn i'r casgliad mai'r cwrs a'r dewis gorau yw ymyriad deddfwriaethol. Yr unig ffordd i sicrhau parhad y drefn bresennol yw gweithredu drwy lwybr Bil brys, a fydd yn sicrhau bod darpariaethau Gorchymyn 2012 yn cael eu cadw yng Nghymru y tu hwnt i fis Hydref 2013. Anogaf yr Aelodau i gytuno i ddefnyddio'r weithdrefn hon ac i'r amserlen arfaethedig, a fydd yn caniatáu amser i ni ystyried ei darpariaethau ar yr achlysur hwn. Byddaf yn siarad yn fwy llawn ac ymateb i gyfraniadau Aelodau wrth ddirwyn y ddadl hon i ben.

16:23

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have selected the three amendments to the motion and I call on Antoinette Sandbach to move amendments 1, 2 and 3, tabled in the name of William Graham.

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Antoinette Sandbach i gynnis gwelliannau 1, 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw William Graham.

Gwelliant 1—William Graham

Amendment 1—William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Gresynu na fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gallu sicrhau bod y Bil arfaethedig yn destun proses graffu ddigonol.

Regrets that the National Assembly for Wales will not be able to subject the proposed Bill to sufficient scrutiny.

Gwelliant 2—William Graham

Amendment 2—William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Gresynu at fethiant Llywodraeth Cymru i ddilyn y weithdrefn Bil Cyhoeddus lawn ar gyfer y Bil, o ystyried y cyfle a gafodd i wneud hynny.

Gwelliant 3—William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Nodi;

a) fod prif ddibenion y Bil arfaethedig yn cynnwys swyddogaethau pennu cyflogau; a

b) nad yw'r gyfraith cyflogaeth wedi'i rhestru o dan Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Regrets the failure of the Welsh Government to subject the Bill to the full Public Bill procedure given the opportunity it had to do so.

Amendment 3—William Graham

Add as new point at end of motion:

Notes that;

a) the key purposes of proposed Bill include wage-setting functions, and

b) employment law is not listed under Schedule 7 of the Government of Wales Act 2006.

16:23

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 1, 2 and 3 in the name of William Graham.

I think that we, as an Assembly, have to act with grave caution when our normal procedural safeguards are sought to be removed under the pretext, and the Minister has virtually accepted that it is a pretext, of an emergency Bill.

Amendment 1 concerns the serious and substantive concern that the Welsh Government has chosen to introduce this Bill in a way that denies Assembly Members the ability to subject this Bill, along with the legally contentious questions of competence, to the level of scrutiny that they deserve. There was no mention of this in any of the submissions to the Silk commission made by the Welsh Government. In fact, a Welsh Government consultation on this very issue closed only last week, and was still open at the point that this motion was tabled, and that Welsh Government consultation proposed an 18-month timetable for legislation on this matter. Clearly, there is little respect for the individuals and organisations who contributed to that consultation and no opportunity to take into account their considerations in the Bill process. The Constitutional and Legislative Affairs Committee has not been given the opportunity to prepare a report to inform the Assembly, nor has the Environment and Sustainability Committee. The Government has tabled this as emergency legislation, but even the Minister accepts that it is not an emergency. This has been known about since July 2010, when the proposals to abolish were first announced.

Cynigiad welliannau 1, 2 a 3 yn enw William Graham.

Rwyf yn meddwl bod rhaid i ni, fel Cynulliad, weithredu â gofal mawr pan geisir diddymu ein camau diogelu gweithdrefnol arferol o dan esgus, ac mae'r Gweinidog wedi derbyn bron ei fod yn esgus, Bil brys.

Mae gwelliant 1 yn ymwneud â'r pryder difrifol a sylweddol bod Llywodraeth Cymru wedi dewis cyflwyno'r Bil hwn mewn ffordd sy'n golygu na all Aelodau'r Cynulliad graffu ar y Bil hwn, ynghyd â materion cymhwysedd, sy'n ddadleuol yn gyfreithiol, i'r lefel y maent yn ei haeddu. Nid oedd unrhyw sôn am hyn yn unrhyw un o'r cyflwyniadau i gomisiwn Silk a wnaed gan Lywodraeth Cymru. Yn wir, daeth ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar y mater hwn i ben dim ond yr wythnos diwethaf, ac roedd yn dal ar agor ar yr adeg y cyflwynwyd y cynnig hwn, ac roedd yr ymgynghoriad hwnnw yn cynnig amserlen 18 mis ar gyfer deddfwriaeth ar y mater hwn. Yn amlwg, nid oes llawer o barch tuag at yr unigolion a'r sefydliadau a gyfrannodd at yr ymgynghoriad hwnnw a dim cyfle i ystyried eu hystyriaethau ym mhroses y Bil. Nid yw'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, na'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, wedi cael y cyfle i baratoi adroddiad i hysbysu'r Cynulliad. Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno hon fel deddfwriaeth frys, ond mae hyd yn oed y Gweinidog yn derbyn nad yw'n fater o argyfwng. Mae hyn wedi bod yn hysbys ers mis Gorffennaf 2010, pan gyhoeddwyd y cynigion i ddileu gyntaf.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Amendment 2 relates to the Welsh Government's decision to wait until the very last minute to introduce this Bill. As I said, the UK Government announced its intentions in July 2010 and, since then, the Welsh Government has had ample opportunity to bring forward legislation through the full public Bill procedure, which would have given the Assembly the opportunity to submit the Bill to proper scrutiny. The draft Bill, which was circulated to Members after my request to the Minister on Thursday last week, is dated April 2013 on every page, suggesting that this Bill was prepared months ago, when there would have been the opportunity to use the appropriate procedure. If there is an emergency to justify the use of this procedure, it appears to have been entirely manufactured by Welsh Ministers.

Members may have had the opportunity to read the report from the House of Lords Constitution Committee on fast-track legislation, which was helpfully circulated by Suzy Davies—I am grateful for that—earlier this week. It lists the problems and the dangers that accompany this procedure, including constrained scrutiny, a pressure on the procedural process, and the inclusion of non-urgent matters in legislation. Clearly, the emergency procedure should be reserved for genuine emergencies, such as foot-and-mouth disease, SARS, or invasion by a foreign power. Those are the kind of emergencies that should justify the suspension of Standing Orders, and not incompetence by the Minister.

The House of Lords report also lists the reasons that could justify the fast-track procedure. The report identifies:

'The need to ensure that legislation is a proportionate, justified and appropriate response to the matter in hand and that fundamental constitutional rights and principles are not jeopardised.'

Given the length of time that the Welsh Government has had to bring legislation through the full public Bill procedure, neither this nor any other reason can be applied in good faith by the Welsh Government to this Bill for it to be deemed an emergency Bill, when the 'emergency' appears to be the need for Welsh Ministers to take advantage of the Member for Anglesey stepping down, which gives them a majority of one. I say that in light of the considerable time that the Welsh Government has had to submit this Bill to public scrutiny.

Finally, amendment 3 notes the apparent conflict between the key purposes of this draft Bill and the current devolution settlement under the Government of Wales Act 2006. The Welsh and UK Governments have explained their views and their different understandings of where competence lies over the wage-setting functions of the Agricultural Wages Board in Wales. This matter is of consequence to Wales and the Assembly should have a proper opportunity to scrutinise it, and not through this rushed and abused procedure—and it is an abuse of procedure.

Mae gwelliant 2 yn ymwneud â phenderfyniad Llywodraeth Cymru i aros tan y funud olaf un i gyflwyno'r Bil hwn. Fel y dywedais, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad ym mis Gorffennaf 2010 ac, ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cael digon o gyfle i gyflwyno deddfwriaeth drwy'r weithdrefn Bil cyhoeddus gyflawn, a fyddai wedi rhoi'r cyfle i'r Cynulliad gyflwyno'r Bil i'r Aelodau graffu arno'n briodol. Mae'r dyddiad Ebrill 2013 ar bob tudalen o'r Bil drafft, a ddosbarthwyd i Aelodau ar ôl fy nghais i'r Gweinidog ddydd lau yr wythnos diwethaf, sy'n awgrymu bod y Bil hwn wedi ei baratoi fisoedd yn ôl, pan fyddai cyfle wedi bod i ddefnyddio'r weithdrefn briodol. Os oes argyfwng i gyfiawnhau defnyddio'r weithdrefn hon, mae'n ymddangos ei fod wedi'i greu yn gyfan gwbl gan Weinidogion Cymru.

Efallai bod aelodau wedi cael y cyfle i ddarllen yr adroddiad gan Bwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi ar ddeddfwriaeth garlam, a ddosbarthwyd yn ddefnyddiol gan Suzy Davies—rwyf yn ddiolchgar am hynny—yn gynharach yr wythnos hon. Mae'n rhestru'r problemau a'r peryglon sy'n cyd-fynd â'r weithdrefn hon, gan gynnwys craffu cyfyngedig, pwysau ar y broses weithdrefnol, a chynnwys materion nad ydynt yn rhai brys mewn deddfwriaeth. Yn amlwg, dylai'r weithdrefn frys gael ei neilltuo ar gyfer argyfyngau go iawn, megis clwy'r traed a'r genau, SARS, neu ymosodiad gan bŵer tramor. Dyna'r math o argyfyngau ddylai gyfiawnhau atal y Rheolau Sefydlog, ac nid anfedruswydd y Gweinidog.

Mae adroddiad Tŷ'r Arglwyddi hefyd yn rhestru'r rhesymau a allai gyfiawnhau'r weithdrefn llwybr carlam. Mae'r adroddiad yn nodi:

Yr angen i sicrhau bod deddfwriaeth yn ymateb cymesur, priodol y gellir ei gyfiawnhau i'r mater dan sylw heb beryglu hawliau ac egwyddorion cyfansoddiadol sylfaenol.

O ystyried faint o amser y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael i ddod â deddfwriaeth drwy'r weithdrefn Bil cyhoeddus lawn, ni all Llywodraeth Cymru yn ddiwyll ddefnyddio hwn nac unrhyw reswm arall er mwyn ystyried y Bil yn Fil brys, pan ymddengys mai'r 'argyfwng' yw'r angen i Weinidogion Cymru fanteisio ar y ffaith bod yr Aelod dros Ynys Môn yn ymddiswyddo, sy'n rhoi mwyafrif o un iddynt. Dywedaf hynny yn wyneb yr amser sylweddol y mae Llywodraeth Cymru wedi ei gael i sicrhau y gellir craffu ar y Bil hwn.

Yn olaf, mae gwelliant 3 yn nodi'r gwrthdaro ymddangosiadol rhwng dibenion allweddol y Bil drafft a'r setliad datganoli presennol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae Llywodraethau Cymru a'r DU wedi egluro eu barn a'u gwahanol ddealltwriaeth o lle mae'r cymhwysedd o ran swyddogaethau'r bwrdd cyflogau amaethyddol yng Nghymru i osod cyflogau. Mae'r mater hwn o bwys i Gymru a dylai'r Cynulliad gael cyfle priodol i graffu arno, ac nid drwy'r weithdrefn frys hon sydd wedi'i chamddefnyddio—mae'n gamddefnydd ar weithdrefnau.

To conclude, given that the emergency appears to be the need to take advantage of the Member for Anglesey stepping down, to use the emergency procedure for this Bill would be an abuse of the process

I gloi, o ystyried ei bod yn ymddangos mai'r argyfwng yw'r angen i fanteisio ar o ran ffaith bod yr Aelod dros Ynys Môn yn ymddiswyddo, byddai defnyddio'r weithdrefn argyfwng ar gyfer y Bil hwn yn gamddefnydd o'r broses

- 16:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Order. You must bring your comments to a close. Trefn. Mae'n rhaid i chi ddod â'ch sylwadau i ben.
- 16:29 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I urge Members to support the amendments. —Rwyf yn annog yr Aelodau i gefnogi'r gwelliannau.
- 16:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
You must bring your comments to a close. Thank you. I remind all Members that this debate is about whether this procedure can be used. It is up to both sides to listen to the arguments carefully. It is a very serious matter. However, there will be a vote and it will be the Assembly that decides whether this procedure is appropriate under these circumstances. Mae'n rhaid i chi ddod â'ch sylwadau i ben. Diolch yn fawr. Rwyf yn atgoffa'r holl Aelodau bod y ddatl hon ynghylch a ellir defnyddio'r weithdrefn hon. Mater i'r ddwy ochr yw gwrandao ar y dadleuon yn ofalus. Mae'n fater difrifol iawn. Fodd bynnag, fe fydd pleidlais a'r Cynulliad sy'n penderfynu a yw'r weithdrefn hon yn briodol o dan yr amgylchiadau hyn.
- 16:29 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I commend the Minister on bringing this forward in this particular way, because the consequences of not doing so are that the abolition of the AWB, which has been carried out, in my view, in an unconstitutional manner, will have a serious impact and it is perfectly right that we take action to maintain the status quo while we have time in order to consider the future of agriculture in Wales and how that might be regulated in some way. Rwyf yn cymeradwyo'r Gweinidog am gyflwyno hyn yn y ffordd arbennig hon, oherwydd mai canlyniadau peidio â gwneud hynny yw y byddai effaith ddifrifol yn deillio o ddileu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, rhywbeth sydd wedi cael ei wneud, yn fy marn i, mewn modd anghyfansoddiadol. Mae'n gwbl iawn ein bod yn cymryd camau i gynnal y status quo tra bod amser gennym, er mwyn ystyried dyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru a sut y gellid ei reoleiddio mewn rhyw ffordd.
- I could go on about all the background debates that we have had about the reason why this is being done, and why £260 million is being taken out of the pockets of agricultural workers and so on, but I will not, because this is not what this particular debate is about. This is about the fact that there was an established procedure for the abolition of the Agricultural Wages Board, which was covered by the Public Bodies Act 2011, and which required the UK coalition Government to consult with and get the agreement of the Welsh Government. It refused to do so. In doing so, it then set about looking for a constitutional mechanism—a sham that undermined the devolution settlement and the agreement between the two Governments—to achieve an objective because it was not happy with the consequences of seeking agreement. In my view, this was an absolute disgrace, and gives further justification to the steps that have been taken by the Minister. Gallwn fynd ymlaen am yr holl ddadleuon cefndir a gawsom am y rheswm pam mae hyn yn cael ei wneud, a pham y mae £260 miliwn yn cael ei gymryd allan o bocedi gweithwyr amaethyddol ac yn y blaen, ond ni wnaf, oherwydd nad dyna destun y ddatl benodol hon. Mae hyn yn ymwneud â'r ffaith bod gweithdrefn sefydledig yn bodoli ar gyfer diddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, a sefydlwyd o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, ac a oedd yn mynnu bod Llywodraeth glymblaid y DU yn ymgynghori gyda Llywodraeth Cymru, a chael ei chytundeb. Gwrthododd wneud hynny. Wrth wneud hynny, aeth ati wedyn i chwilio am fecanwaith cyfansoddiadol—meganwaith ffug sy'n tansellio'r setliad datganoli a'r cytundeb rhwng y ddwy Lywodraeth—i gyflawni amcan am nad oedd yn fodlon ar ganlyniadau ceisio cytundeb. Yn fy marn i, roedd hyn yn warth llwyr, ac yn rhoi cyfiawnhad pellach dros y camau sydd wedi eu cymryd gan y Gweinidog.

We would be remiss not to take the necessary action to defend our interests within our devolved agricultural responsibility. We have already heard of an inquiry by the Environment and Sustainability Committee. We have also had a consultation that has just concluded. The procedure and timetable set out will allow ample time for proper consideration of all the issues surrounding the Agricultural Wages Board that have arisen, any issues that might arise with regard to what the future might be and all the representations that have been made. Bearing in mind the representations that have been made by all key interested parties—the National Farmers Union, Farmers Union of Wales, Wales Young Farmers Clubs, the people who work in the industry through Unite and other organisations—I believe that the real reason why there is an objection by the Member is because she does not like that the status quo is being retained, because in her submissions, she has always been in favour of total abolition.

Referring to the House of Lords committee report, this is a report that the UK coalition Government has not accepted. It seems that you are being very selective when you choose the reports that you rely on and the ones that you do not. In any event, the report outlines 11 particular points on which it is appropriate for emergency legislation to be brought, and it sets out certain caveats. As far as I can see, all those caveats are being satisfied by the way in which the Minister is seeking to proceed. So, I very much support the proposal, and I very much look forward to the subsequent debate that we will have on the future of agriculture in Wales.

16:33

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I know that there is still a determination to be made by the Presiding Officer on the competence issues around this Bill, but I think that it is fair to say that invasion by a foreign power is without the competence of the National Assembly. [Laughter.] So, I think that we should look at the issue before us today.

Let me make it absolutely clear that Plaid Cymru supports the retention of the work of the Agricultural Wages Board in Wales. We have said that continually. We did not support the way in which this was done by Westminster, and we gave support to the Government when it brought forward its legislative consent motion to drive that message home. However, we will not be supporting this motion today.

Byddem ar fai i beidio â chymryd y camau angenrheidiol i amddiffyn ein buddiannau o fewn ein cyfrifoldeb datganoledig am amaethyddiaeth. Rydym eisoes wedi clywed am ymchwiliad gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Rydym hefyd wedi cael ymgynghoriad sydd newydd ddod i ben. Bydd y weithdrefn a'r amserlen a nodir yn caniatáu digon o amser ar gyfer rhoi ystyriaeth briodol i'r holl faterion yn ymwneud â'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol sydd wedi codi, unrhyw faterion a allai godi ynglŷn â'r dyfodol a'r holl sylwadau a wnaed. Gan gadw mewn cof y sylwadau a wnaed gan yr holl bartïon allweddol â diddordeb—Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Undeb Amaethwyr Cymru, Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru, y bobl sy'n gweithio yn y diwydiant trwy Unite a sefydliadau eraill—credaf mai'r gwir reswm pam y ceir gwrthwynebiad gan yr Aelod yw oherwydd nad yw'n hoffi bod y status quo yn cael ei gadw, oherwydd yn ei sylwadau, mae hi bob amser wedi bod o blaid diddymu llwyr.

Gan gyfeirio at adroddiad pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, mae hwn yn adroddiad nad yw Llywodraeth glymblaid y DU wedi ei dderbyn. Mae'n ymddangos eich bod yn ofalus iawn wrth ddewis pa adroddiadau yr ydych yn dibynnu arnynt a pha rai nad ydych yn dibynnu arnynt. Beth bynnag, mae'r adroddiad yn amlinellu 11 pwynt penodol lle mae'n briodol i deddfwriaeth frys gael ei chyflwyno, ac mae'n nodi rhai cafeatau. Cyn belled ag y gallaf weld, mae'r holl gafeatau hynny'n cael eu bodloni gan y modd y mae'r Gweinidog yn ceisio symud ymlaen. Felly, rwyf yn cefnogi'r cynnig yn fawr iawn, ac rwyf yn edrych ymlaen yn fawr at drafodaeth ddilynol y byddwn yn ei chael ar ddyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru.

Gwn fod penderfyniad i'w wneud o hyd gan y Llywydd ar y materion cymhwysedd ynghylch y Bil hwn, ond rwyf yn meddwl ei bod yn deg dweud bod ymosodiad gan bŵer tramor y tu hwnt i gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol. [Chwerthin.] Felly, rwyf yn meddwl y dylem edrych ar y mater ger ein bron heddiw.

Gadewch imi ei gwneud yn gwbl glir bod Plaid Cymru yn cefnogi cadw gwaith y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru. Rydym wedi dweud hynny'n barhaus. Nid oeddem yn cefnogi'r modd y gwnaed hyn gan San Steffan, a rhoddwyd ein cefnogaeth i'r Llywodraeth pan gyflwynodd ei chynnig cydsyniad deddfwriaethol i yrru'r neges honno adref. Fodd bynnag, ni fyddwn yn cefnogi'r cynnig hwn heddiw. Alpha

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

The reason for that is to do with the scrutiny that we must have due regard to as Assembly Members and as the Parliament of Wales. If any Member was somewhat reluctant to go along those lines, the exhibition of the First Minister in response to the leader of the opposition earlier today shows why we have to present and protect the backbench rights and privileges in this place, which are to scrutinise Government legislation as fully and as properly as possible. That is the appropriate way forward. [Interruption.] The First Minister can chunter on, but he is responsible for the Government that introduced the council tax regulations at a fast pace through this place, which turned out to be drafted wrongly and did not have the necessary sum of money attached to them. That was changed because this place rejected the forcing through of executive power. It is always difficult to get the balance correct between what the Government wants to do and our rights as a legislator to scrutinise what the Government wants to do, but I respectfully suggest to the Minister who has brought forward this motion today that this is an inappropriate legislative tool to do what you want to do. I will give way to the Member.

Mae'r rheswm am hynny yn ymwneud â'r craffu y mae'n rhaid inni roi sylw dyledus iddo fel Aelodau Cynulliad ac fel Senedd Cymru. Os oedd unrhyw Aelod braidd yn amharod i fynd y ffordd honno, roedd sioe'r Prif Weinidog mewn ymateb i arweinydd yr wrthblaid yn gynharach heddiw yn dangos pam y mae'n rhaid i ni gyflwyno ac amddiffyn hawliau a breintiau'r meinciau cefn yn y lle hwn, sef craffu ar deddfwriaeth y Llywodraeth mor llawn ac mor briodol ag y bo modd. Dyna'r ffordd briodol ymlaen. [Torri ar draws.] Gall y Prif Weinidog rwnach, ond ef sy'n gyfrifol am y Llywodraeth a gyflwynodd reoliadau'r dreth gyngor yn gyflym drwy'r lle hwn, a'r rheiny erbyn gweld wedi eu drafftio'n anghywir heb i'r swm angenrheidiol o arian fod ynghlwm wrthynt. Cafodd hynny ei newid oherwydd bod y lle hwn wedi gwrthod gadael i rym gweithredol gael ei orfodi. Mae bob amser yn anodd cael y cydbwysedd cywir rhwng yr hyn y mae'r Llywodraeth am ei wneud a'n hawliau fel deddfwr i graffu ar yr hyn y mae'r Llywodraeth am ei wneud, ond awgrymaf yn barchus i'r Gweinidog sydd wedi dod â'r cynnig hwn gerbron heddiw fod hwn yn offeryn deddfwriaethol amhriodol i wneud yr hyn yr ydych am ei wneud. Ildiaf i'r Aelod.Alpha

16:34 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have the greatest respect for what you say, but the consequence of what you say is that all of the protections that exist for many thousands of agricultural workers, and many thousands of casual workers, are going to be lost. Those workers will lose those rights unless urgent action is taken. Do you not consider that it is appropriate to take action in these circumstances?

Mae gennyf y parch mwyaf tuag at yr hyn yr ydych yn ei ddweud, ond canlyniad yr hyn a ddywedwch yw bod yr holl amddiffyniadau sy'n bodoli ar gyfer miloedd lawer o weithwyr amaethyddol, a miloedd lawer o weithwyr achlysurol, yn mynd i gael eu colli. Bydd y gweithwyr hynny'n colli'r hawliau hynny oni bai bod camau brys yn cael eu cymryd. Onid ydych yn credu ei bod yn briodol i weithredu yn yr amgylchiadau hyn?

16:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Order. Please sit down.

Trefn. Os gwelwch yn dda eisteddwch i lawr.

16:35 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Please sit down; you are giving another speech. Let us be clear, your Government could have introduced this legislation months ago. You knew about this months ago. You could have introduced the Bill months ago, with a sunset clause and a commencement clause so that, if what may happen in Westminster later on does not happen, it never had to be commenced; you could have done that. I am told by my group that it is perfectly happy for me to offer that we come back early in September to ensure that this gets proper scrutiny and that it goes through in a proper period of time—even in August, if necessary. We can do it at the Royal Welsh Show. We are absolutely— [Interruption.]

Os gwelwch yn dda eisteddwch i lawr; rydych yn rhoi araith arall. Gadewch inni fod yn glir, gallai eich Llywodraeth fod wedi cyflwyno'r deddfwriaeth hon fisoedd yn ôl. Roeddech yn gwybod am hyn fisoedd yn ôl. Fe allech chi fod wedi cyflwyno'r Bil fisoedd yn ôl, gyda chymal machlud a chymal cychwyn er mwyn sicrhau nad oedd yn rhaid ei gychwyn, os nad yw'r hyn a allai ddiwydd yn San Steffan yn nes ymlaen yn digwydd; gallech fod wedi gwneud hynny. Mae fy ngrŵp yn dweud wrthyf ei fod yn berffaith fodlon imi gynnig ein bod yn dod yn ôl yn gynnar ym mis Medi i sicrhau ein bod yn craffu ar hyn yn briodol a'i fod yn mynd drwyddo mewn cyfnod priodol o amser—hyd yn oed ym mis Awst, os bydd angen. Gallwn ei wneud yn Sioe Frenhinol Cymru. Rydym yn gwbl—[Torri ar draws.]

16:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Order. I cannot hear what is being said. I remind the house that this is a solemn procedure. We are talking about whether an emergency Bill should be taken forward. It is not a matter for levity. We should seriously listen to each other when the arguments for and against are put.

Trefn. Ni allaf glywed yr hyn sy'n cael ei ddweud. Atgoffaf y tŷ fod hon yn weithdrefn ddifrifol. Rydym yn sôn am p'un a ddyldid cyflwyno Bil brys. Nid yw'n fater ysgafn. Dylem wrando o ddifrif ar ein gilydd pan fydd y dadleuon o blaid ac yn erbyn yn cael eu rhoi.

16:36 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We are absolutely focused on ensuring that this Bill goes through. However, we want it to go through with the proper legislative scrutiny—[Interruption.]

Rydym yn canolbwyntio'n llwyr ar sicrhau bod y Bil hwn yn mynd drwyddo. Fodd bynnag, rydym am iddo fynd ymlaen gyda'r craffu deddfwriaethol priodol —[Torri ar draws.]

Alun Davies a gododd—

Alun Davies rose—

16:36 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will take an intervention in a second. We want proper legislative scrutiny, done in a proper manner that allows two very important committees that we have established in this place—the Constitutional and Legislative Affairs Committee and the Environment and Sustainability Committee—to give proper scrutiny to the parts of the Bill. I give way to the Minister.

Byddaf yn cymryd ymyriad mewn eiliad. Rydym am gael craffu deddfwriaethol priodol, wedi'i wneud mewn modd priodol sy'n caniatáu i ddau bwyllgor pwysig iawn yr ydym wedi'u sefydlu yn y lle hwn—y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd—wneud gwaith craffu priodol ar y rhannau o'r Bil. Rwyf yn ildio i'r Gweinidog.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:36 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do not normally intervene when Members are speaking, but I will do so on this occasion. I sought alternatives to using this procedure to ensure that you have the opportunity to scrutinise that you have, rightly, commented on. The Standing Orders of this place do not enable us to do what you have suggested. It is something that I would have sought myself, had it been possible.

Nid wyf fel arfer yn ymyrryd pan fydd Aelodau'n siarad, ond byddaf yn gwneud hynny ar yr achlysur hwn. Ceisiais ddewisiadau amgen yn hytrach na defnyddio'r weithdrefn hon er mwyn sicrhau eich bod yn cael y cyfle i graffu yr ydych, yn gywir, wedi ei grybwyll. Nid yw Rheolau Sefydlog y lle hwn yn ein galluogi i wneud yr hyn yr ydych wedi'i awgrymu. Mae'n rhywbeth y byddwn wedi'i geisio fy hun, pe bai wedi bod yn bosibl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:37 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have to take the Minister's word for what he says—that he did what he said that he did. However, I think that we need to consider suspending Standing Orders; we could have gone about this in a different way. I do not agree that this is the emergency that he sets out that it is. I do not think that the agricultural workers who are protected at the moment will lose that protection automatically—they will, legislatively speaking, but as it is clearly the intention of this Government, with the support of at least one political party here, to introduce this legislation, I think that that sends a very strong message in itself. I think that that gives us enough protection to do the job properly. It gives us enough protection to say that this is not emergency legislation.

Rhaid imi gymryd gair y Gweinidog am yr hyn a ddywed—ei fod wedi gwneud yr hyn a ddywedodd ei fod wedi ei wneud. Fodd bynnag, rwyf yn meddwl bod angen inni ystyried atal y Rheolau Sefydlog; gallem fod wedi gwneud hyn mewn ffordd wahanol. Nid wyf yn cytuno bod hwn yr argyfwng y mae'n dweud ei fod. Nid wyf yn credu y bydd y gweithwyr amaethyddol sydd yn cael eu diogelu ar hyn o bryd yn colli'r diogelwch awtomatig—byddant yn ei gollu, a siarad yn ddeddfwriaethol, ond gan fod y Llywodraeth hon, gyda chefnogaeth o leiaf un blaid wleidyddol yma, yn amlwg yn bwriadu cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon, rwyf yn credu bod hynny'n anfon neges gref iawn ynddo'i hun. Credaf fod hynny'n rhoi digon o amddiffyniad i ni i wneud y gwaith yn iawn. Mae'n rhoi digon o amddiffyniad inni allu dweud nad yw hon yn ddeddfwriaeth frys.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We do not have a declaration on competence, Deputy Presiding Officer. I understand that the Presiding Officer is intending to give us that declaration. I understand why it is not available today. Nevertheless, it adds to the sense of haste and of a lack of proper scrutiny that we can give to this.

Nid oes gennym ddatganiad ar gymhwysedd, Ddirprwy Lywydd. Deallaf fod y Llywydd yn bwriadu rhoi'r datganiad hwnnw i ni. Rwyf yn deall pam nad yw ar gael heddiw. Serch hynny, mae'n ychwanegu at y teimlad o frys ac o ddiffyg craffu priodol y gallwn ei roi i hyn.

We will support the first two amendments from the Conservatives. We do not support the third because it trespasses on the Presiding Officer's determination of competence. We will not be supporting the Government motion.

Byddwn yn cefnogi'r ddau welliant cyntaf gan y Ceidwadwyr. Nid ydym yn cefnogi'r trydydd gan ei fod yn tresmasu ar benderfyniad y Llywydd o ran cymhwysedd. Ni fyddwn yn cefnogi cynnig y Llywodraeth.

16:38 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I should make it clear that if the Assembly grants permission for a Bill to be presented next week, advice on competence will then be issued.

Dylwn ei gwneud yn glir y bydd cyngor ar gymhwysedd wedyn yn cael ei gyhoeddi os bydd y Cynulliad yn rhoi caniatâd i Fil gael ei gyflwyno yr wythnos nesaf.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I begin by confirming that the Welsh Liberal Democrats will be opposing the introduction of this so-called emergency Bill and will be supporting all three amendments tabled in the name of William Graham. In doing so, I would like to agree with the Member for Pontypridd, who identified that we are looking here at procedures and appropriate legal instruments, rather than at the substantive case, which is for a different debate.

As Members will be aware, Standing Order No. 26.95 fails to give a precise definition of what can and cannot be considered an emergency. However, I think that the Minister's uncharacteristically self-conscious tone maybe gives the lie to the fact that this is not a case for COBRA. This is especially true given the months of statements and debates that we have had on the AWB, along with the unwillingness of the Welsh Government to consider issues such as the recent snowfalls and other events as emergencies, despite the significant damage that they caused to the farming industry.

I am particularly concerned about the way in which the use of an emergency Bill at this time completely undermines the democratic functions of the Assembly. As a Member of one of the committees that has been involved in the wider scrutiny of this matter, I am alarmed that the Welsh Government wishes, at this time, via this route, to bypass the constitutional role of committee scrutiny, both by the Constitutional and Legislative Affairs Committee and, indeed, by the committee on which I serve, under Lord Dafydd Elis-Thomas.

The Plenary Chamber does not offer us the appropriate level of evidence gathering and scrutiny that the committee structure would allow. I am also disappointed to see that the Welsh Government announced this Bill before the conclusion of its consultation on the AWB. Like others in the Chamber, I was quick enough to criticise the UK coalition Government back in 2011, when it acted during the consultation stage to change the feed-in tariffs before the end of the consultation. It would be hypocritical and inconsistent of me now not to criticise the Welsh Government for doing precisely the same thing.

Finally, there is a lot of discussion to be had regarding competence, especially given the Welsh Government's refusal some three years ago to take over the responsibility for the functions of the AWB when it was offered, and offered in a timely fashion. Such action has turned what could have been an issue of pragmatic negotiation and agreement into something that puts into question the fundamental principles of democratic accountability vested in the Chamber. I very much regret that it has come to this, and urge the Welsh Government, even at this late stage, to come to its senses.

Dechreuaf drwy gadarnhau y bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn gwrthwynebu cyflwyno'r Bil brys hwn, fel y'i gelwir, a bydd yn cefnogi'r tri gwelliant a gyflwynwyd yn enw William Graham. Wrth wneud hynny, hoffwn gytuno â'r Aelod dros Bontypridd, a nododd ein bod yn edrych yma ar weithdrefnau ac offerynnau cyfreithiol priodol, yn hytrach nag ar yr achos ei hun, sy'n fater ar gyfer dadl wahanol.

Fel y bydd Aelodau'n ymwybodol, nid yw Rheol Sefydlog Rhif 26.95 yn rhoi diffiniad manwl o'r hyn y gellir ac na ellir ei ystyried yn argyfwng. Fodd bynnag, credaf fod tòn hunan-ymwybodol annodweddiadol y Gweinidog efallai yn dangos nad yw hyn yn achos ar gyfer COBRA. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried y misoedd o ddatganiadau a dadleuon yr ydym wedi'u cael ar y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, ynghyd ag amharoddrwydd Llywodraeth Cymru i ystyried materion fel yr eira diweddar a digwyddiadau eraill fel argyfyngau, er gwaethaf y niwed sylweddol y maent yn ei achosi i'r diwydiant ffermio.

Rwyf yn arbennig o bryderus am y ffordd y mae'r defnydd o Fil brys ar yr amser hwn yn llwyr danseilio swyddogaethau democrataidd y Cynulliad. Fel Aelod o un o'r pwyllgorau sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith craffu ehangach ar y mater hwn, rwyf wedi fy mrawychu bod Llywodraeth Cymru yn dymuno, ar hyn o bryd, drwy'r llwybr hwn, osgoi swyddogaeth graffu gyfansoddiadol y pwyllgorau, gan y Pwyllgor Cyfansoddiadol a Materion Deddfwriaethol ac, yn wir, gan y pwyllgor yr wyf i'n aelod ohono, dan yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas.

Nid yw Siambr y Cyfarfod Llawn yn ein galluogi i gasglu tystiolaeth a chraffu i'r un lefel ag y byddai'r strwythur pwyllgorau. Rwyf hefyd yn siomedig gweld bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r Bil hwn cyn diwedd ei hymgynghoriad ar y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol. Fel eraill yn y Siambr, roeddwn yn ddigon cyflym i feirniadu Llywodraeth glymblaid y DU yn ôl yn 2011, pan weithredodd yn ystod y cyfnod ymgynghori i newid y tariffau cyflenwi trydan cyn diwedd yr ymgynghoriad. Byddai'n rhagrithiol ac yn anghyson ohonof yn awr i beidio â beirniadu Llywodraeth Cymru am wneud yn union yr un peth.

Yn olaf, mae llawer o drafodaeth i'w chael o ran cymhwysedd, yn enwedig o ystyried penderfyniad Llywodraeth Cymru tua thair blynedd yn ôl i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am swyddogaethau'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol pan gafodd ei gynnig, a'i gynnig mewn modd amserol. Mae camau o'r fath wedi troi rhywbeth a allai fod wedi bod yn fater o drafod pragmatig a chytundeb yn rhywbeth sy'n bwrw amheuaeth ar egwyddorion sylfaenol atebolrwydd democrataidd sydd wedi'u breinio yn y Siambr. Rwyf yn gresynu'n fawr iawn fod pethau wedi dod i hyn, ac rwyf yn annog Llywodraeth Cymru, hyd yn oed mor hwyr â hyn, i ymbwyllo.

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I also have to say that I regret that it has come to this, and that it has come to us having to use an emergency Bill to try to protect the rights of the 14,000 workers who are out there working in the fields. I also regret that the Tories usurped the Public Bodies Act 2011 and ignored the devolution settlement so that they could, quite clearly, carry out their ideological thinking that is putting those workers in a position where they are poorly paid. I regret that there are people here who represent rural areas, like I do, who will not support us today to make sure that we can get some legislation through that will protect the rights of those workers, because that is absolutely where we are at now.

I am not surprised that the Tories will not support us and I am hugely disappointed that the Liberals and Plaid will not support us. It is clear to anybody that Wales has been dealt somewhat of a blow here. It is also right to recognise what the Minister is trying to do to rectify that. I certainly will be supporting the Minister. I call on those who represent, or who say that they represent the interests of rural communities, to come along to support us as well. However, I would like to ask a question of the Minister. There will be an interim 18-month period between any Bill and where we are now, therefore is the Minister or his officials considering any interim arrangements that might cover that period?

Rhaid i mi ddweud ei bod yn flin gennyf innau hefyd fod pethau wedi dod i hyn, a'n bod wedi gorfod defnyddio Bil brys i geisio diogelu hawliau'r 14,000 o weithwyr sydd allan yno yn gweithio yn y caeau. Gresynaf hefyd fod y Toriaid wedi camfeddiannu Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 ac yn anwybyddu'r setliad datganoli er mwyn gallu cyflawni eu syniadau ideolegol, yn ddigon amlwg, sy'n rhoi'r gweithwyr hynny mewn sefyllfa lle maent yn cael eu talu'n wael. Rwyf yn gresynu bod pobl yma sy'n cynrychioli ardaloedd gwledig, fel yr wyf i'n ei wneud, na fyddant yn ein cefnogi ni heddiw i wneud yn siŵr ein bod yn gallu cael rhywfaint o ddeddfwriaeth drwodd a fydd yn amddiffyn hawliau'r gweithwyr hynny, oherwydd mai dyna'n union lle'r ydym ni yn awr.

Nid wyf yn synnu na fydd y Toriaid yn ein cefnogi ac rwyf yn siomedig iawn na fydd y Rhyddfrydwyr a Phlaid Cymru yn ein cefnogi. Mae'n amlwg i bawb fod Cymru wedi cael tipyn o ergyd yma. Mae hefyd yn iawn cydnabod yr hyn y mae'r Gweinidog yn ceisio ei wneud i unioni hynny. Byddaf i yn sicr yn cefnogi'r Gweinidog. Rwyf yn galw ar y rheini sy'n cynrychioli, neu sy'n dweud eu bod yn cynrychioli buddiannau cymunedau gwledig, i ddod draw i'n cefnogi hefyd. Fodd bynnag, hoffwn ofyn cwestiwn i'r Gweinidog. Fe fydd cyfnod interim 18 mis rhwng unrhyw Fil a lle'r ydym yn awr, felly, a yw'r Gweinidog neu ei swyddogion yn ystyried unrhyw drefniadau dros dro a allai gwmpasu'r cyfnod hwnnw?

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

To make it clear, it was in the absence of Assembly-specific guidelines, which would assist the Minister in making his case for the use of emergency legislation in this case, I tried to find some examples of the use of similar powers in other common law jurisdictions. That is why I circulated the House of Lords information, which I hoped would have helped in this debate, but apparently not.

While there are examples of the use of emergency legislation, they are far and away of the kind that Members might expect—not for COBRA, as William Powell put it. They are examples of national disasters, security contingencies in response to acts of terrorism, or, in the case of Australia, widespread child abuse, or hasty reversal of judge-made law, which interferes with habeas corpus, or issues that are directly contrary to the will of the legislature. I emphasise that I mean the legislature, not Government. Even then, certain safeguards such as sunset clauses or review dates are built in. Attempts to use such laws other than for their original intention, as Gordon Brown did with the anti-terrorism legislation, meet with widespread condemnation, not least because there tends to be opposition support, however hesitant, for the emergency legislation in the first place.

I'w gwneud yn glir, nid oes canllawiau penodol i'r Cynulliad, a fyddai'n cynorthwyo'r Gweinidog i bledio'i achos dros ddefnyddio deddfwriaeth frys yn yr achos hwn, a dyna pam y ceisiais ddod o hyd i rai enghreifftiau o'r defnydd o bwerau tebyg mewn awdurdodaethau cyfraith gyffredin eraill. Dyna pam y dosberthais wybodaeth Tŷ'r Arglwyddi, yn y gobaith y byddai wedi bod o gymorth yn y ddadl hon, ond ymddengys nad ydyw.

Er bod enghreifftiau o'r defnydd o ddeddfwriaeth argyfwng, maent yn hollol y math y gallai Aelodau ei ddisgwyl—nid ar gyfer COBRA, fel y mae William Powell yn ei roi. Maent yn enghreifftiau o drychinebau cenedlaethol, argyfyngau diogelwch mewn ymateb i weithredoedd o derfysgaeth, neu, yn achos Awstralia, achosion eang o gam-drin plant, neu wrthdroi cyfraith a wnaed gan farnwyr, mewn modd sy'n ymyrryd â habeas corpus, neu faterion sy'n uniongyrchol groes i ewyllys y ddeddfwrfa. Rwyf yn pwysleisio fy mod yn golygu deddfwrfa, nid Llywodraeth. Hyd yn oed wedyn, mae rhai mesurau diogelwch megis cymalau machlud neu ddyddiadau adolygu yn cael eu cynnwys. Mae ymdrechion i ddefnyddio deddfau o'r fath ac eithrio ar gyfer eu bwriad gwreiddiol, fel y gwnaeth Gordon Brown yn achos y ddeddfwriaeth gwrth-derfysgaeth, yn cael eu condemnio'n eang, yn un peth oherwydd bod y gwrthbleidiau'n tueddu i gefnogi'r ddeddfwriaeth frys yn y lle cyntaf, waeth pa mor betrusgar.

Perhaps the best-known recent use of emergency legislation in circumstances other than national disasters and security contingency situations is the widely discredited Dangerous Dogs Act 1991. Perhaps a better example would be the 2010 Bill that introduced academies in England. The fast-track system was invoked in July 2010 in order to empower those who wished to open or convert to academies in time for the following September. I am aware that that was a coalition Bill, but it was not an attempt to meet a genuine emergency; it was an attempt to overcome inconvenient timetabling of parliamentary business. It rightly met with condemnation from the Conservative chair on behalf of the education select committee, who said that he expected a Minister to make a pretty overwhelming argument for the use of emergency powers in a situation such as that. The Labour Party also condemned the Minister, reiterating that that type of power is usually reserved for anti-terrorism laws and constitutional matters. Ed Balls claimed that using the emergency process in those circumstances was a sure-fire way to get things wrong. I have no doubt that the Labour Party still thinks that.

I do not think that the coalition made appropriate use of the fast-track process on that occasion, but at least in the case of the academies Bill, it had already received 22 hours of debate and scrutiny, including nine hours of report debate with a further two days of committee debate scheduled on the floor of the House of Commons. There was a general agreement on the policy relating to academies, it having been introduced by the Labour Party when it was in power.

Here we have a situation where there is clearly a dispute between the Government and the official opposition about the policy intention behind the Bill; where a short committee inquiry on the general subject of the wages board was not asked to and could not produce an agreed report; and where there may remain a question about competence. Though I pay tribute to the Member for Pontypridd for bringing the issue of the wages board before the Chamber previously, there has been only limited debate about the necessity for such a board.

Efallai mai'r defnydd mwyaf adnabyddus yn ddiweddar o ddeddfwriaeth frys mewn amgylchiadau ar wahân i drychinebau cenedlaethol a sefyllfaoedd digwyddiadau diogelwch yw Deddf Cŵn Peryglus 1991, y dygwyd anfrï arni'n ddiweddarach. Gwell enghraifft efallai fyddai Bil 2010 a gyflwynodd academiâu yn Lloegr. Cafodd y system llwybr carlam ei galw i rym ym mis Gorffennaf 2010 er mwyn rhoi grym i'r rhai a oedd yn dymuno agor neu newid i academiâu mewn pryd ar gyfer y mis Medi canlynol. Rwyf yn ymwybodol mai Bil y glymblaid oedd hwnnw, ond nid oedd yn ymgais i ymateb i argyfwng gwirioneddol; roedd yn ymgais i oresgyn amserlen anghyfleus busnes seneddol. Cafodd ei gondemnio, yn briodol iawn, gan gadeirydd y Ceidwadwyr ar ran y pwyllgor dethol addysg, a ddywedodd ei fod yn disgwyl i Weinidog wneud dadl eithaf ysgubol dros ddefnyddio pwerau brys mewn sefyllfa o'r fath. Roedd y Blaid Lafur hefyd yn condemnio'r Gweinidog, gan ailadrodd fod y math hwnnw o bŵer fel arfer yn cael ei neilltuo ar gyfer deddfau gwrth-derfysgaeth a materion cyfansoddiadol. Honnodd Ed Balls fod defnyddio'r broses frys yn yr amgylchiadau hynny yn ffordd sicr o gael pethau'n anghywir. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth bod y Blaid Lafur yn dal i feddwl hynny.

Nid wyf yn credu bod y glymblaid wedi gwneud defnydd priodol o'r broses llwybr carlam ar yr achlysur hwnnw, ond o leiaf yn achos y Bil academiâu, roedd eisoes wedi cael 22 awr o drafod a chraffu, gan gynnwys naw awr o drafod adroddiad a dau ddiwrnod ychwanegol o ddadl pwyllgor a drefnwyd ar lawr Tŷ'r Cyffredin. Roedd cytundeb cyffredinol ar y polisi sy'n ymwneud ag academiâu, gan ei fod wedi ei gyflwyno gan y Blaid Lafur pan oedd mewn grym.

Yma, mae gennym sefyllfa lle mae'n amlwg bod anghydfod rhwng y Llywodraeth a'r gwrthbleidiau swyddogol ynglŷn â'r bwriad polisi y tu ôl i'r Bil; lle y cynhaliwyd ymchwiliad byr gan y pwyllgor ar bwnc cyffredinol y bwrdd cyflogau ond lle na ofynnwyd iddo, a lle na allai, baratoi adroddiad y cytunwyd arno; a lle y gallai cwestiwn fodoli o hyd ynglŷn â chymhwysedd. Er fy mod yn talu teyrnged i'r Aelod dros Bontypridd am ddod â mater y bwrdd cyflogau gerbron y Siambr o'r blaen, dim ond trafodaeth gyfyngedig a gafwyd ynglŷn â'r angen am fwrdd o'r fath.

16:47 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Do you not consider that the short inquiry that was carried out by the Environment and Sustainability Committee dealt quite deeply with not only the issues that would arise from abolition, but the issues that might relate to a future body, what future issues might be relating to the agricultural industry and what benefit there might be for Wales? Do you not think that that has contributed significantly to overcoming your concerns?

Onid ydych yn ystyried bod yr ymchwiliad byr a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi ymdrin yn eithaf dwfn â materion a fyddai'n deillio o ddiddymu'r bwrdd, ond hefyd â materion a allai fod yn berthnasol i gorff yn y dyfodol, pa faterion yn y dyfodol a allai fod yn berthnasol i'r diwydiant amaethyddol, a pha fuddion a allai fod i Gymru? Onid ydych yn credu bod hynny wedi cyfrannu'n sylweddol at oresgyn eich pryderon?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:47 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Unfortunately, Mick, I cannot say that because this particular Bill did not come for scrutiny before the committee and no report was produced by the committee that would reassure and inform Members who were not on that particular committee.

Yn anffodus, Mick, ni allaf ddweud hynny oherwydd na ddaeth y Bil penodol hwn o flaen y pwyllgor ar gyfer craffu ac ni pharatowyd adroddiad gan y pwyllgor a fyddai'n tawelu meddwl a hysbysu Aelodau nad oedd ar y pwyllgor arbennig hwnnw.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

The Government has already received a yellow card from the Assembly over its disregard for due scrutiny—secondary legislation on the natural resources body and on council tax benefit being the two most recent and controversial examples. We are also uneasy about primary legislation that presents as a framework to be elaborated upon by unscrutinised guidance or unamendable regulation. The Assembly should not overlook this trend. We are not here at the Government's disposal. It should not risk its own reputation further by allowing this Bill to progress, other than through the usual timetabling process with a completed consultation process, which is the normal way forward in the Assembly and is not quite what Mick Antoniw indicated in his contribution. There is no national emergency: existing employees already retain protection under existing contract law and other employment law, as Simon Thomas indicated. As we also found out through Antoinette's contribution, the Welsh Government has known about the UK Government's intention for many months and a draft Bill could have been brought before the Assembly several months ago.

Mae'r Llywodraeth eisoes wedi derbyn cerdyn melyn gan y Cynulliad oherwydd iddi ddiystyru'r drefn graffu ddyledus—is-ddeddfwriaeth ar y corff cyfoeth naturiol ac ar fudd-dal y dreth gyngor yw'r ddwy enghraifft fwyaf diweddar a dadleuol. Rydym hefyd yn anesmwyth am ddeddfwriaeth sylfaenol a gyflwynir fel fframwaith i ymhelaethu arno trwy ganllawiau na ellir craffu arnynt neu reoliadau na ellir eu diwygio. Ni ddylai'r Cynulliad anwybyddu'r duedd hon. Nid ydym yma i wasanaethu'r Llywodraeth. Ni ddylai beryglu ei henw da ei hun ymhellach drwy ganiatáu i'r Bil hwn fynd yn ei flaen, ac eithrio trwy'r broses amserlennu arferol gyda phroses ymgynghoriad wedi'i gwblhau, sef y ffordd arferol ymlaen yn y Cynulliad, ac nid yn hollol yr hyn a nododd Mick Antoniw yn ei gyfraniad. Nid oes unrhyw argyfwng cenedlaethol: mae gweithwyr presennol eisoes yn cael eu hamddiffyn dan gyfraith contract bresennol a chyfraith cyfogaeth arall, fel y nododd Simon Thomas. Fel y gwelsom hefyd drwy gyfraniad Antoinette, mae Llywodraeth Cymru wedi gwybod am fwriad Llywodraeth y DU am fisoedd lawer a gallai Bil drafft fod wedi cael ei ddwyn gerbron y Cynulliad rai misoedd yn ôl.

16:49

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

I am grateful to Suzy and I read the point that you circulated to Members earlier this morning. I thought that it was a useful contribution to a wider debate, rather than the debate that we are having this afternoon. As regards where we are now, we have discovered that Bill Powell has an opinion. We have been debating this matter for two years, in which he had failed to express an opinion. He has expressed one this afternoon but unfortunately it happens to be someone else's opinion. Nevertheless, he has discovered it and we are grateful to him for sharing that with us.

I will respond to some of the bizarre points that Antoinette Sandbach made. One of them was that the Bill was printed or written in April. She had seen the code 0413 written at the bottom of the page. Had she asked the question, she would have learned that that is the coding used by legislative counsel for the fourth session, and 13 is the year—so it is the fourth Assembly 2013, rather than April 2013. I would suggest—

Antoinette Sandbach a gododd—

Rwyf yn ddiolchgar i Suzy, a darllenais y pwynt a dosbarthoch chi i Aelodau yn gynharach fore heddiw. Roeddwn i'n meddwl ei fod yn gyfraniad defnyddiol at ddadl ehangach, yn hytrach na'r ddadl yr ydym yn ei chael y prynhawn yma. O ran lle'r ydym yn awr, rydym wedi darganfod bod gan Bill Powell farn. Rydym wedi bod yn trafod y mater hwn am ddwy flynedd, lle mae wedi methu â mynegi barn. Mae wedi mynegi un brynhawn heddiw ond yn anffodus mae'n digwydd bod yn farn i rywun arall. Serch hynny, mae wedi ei darganfod ac rydym yn ddiolchgar iddo am rannu hynny gyda ni.

Byddaf yn ymateb i rai o'r pwyntiau rhyfedd a wnaeth Antoinette Sandbach. Un ohonynt oedd bod y Bil wedi cael ei argraffu neu ei ysgrifennu ym mis Ebrill. Roedd hi wedi gweld y cod 0413 wedi'i ysgrifennu ar waelod y dudalen. Pe bai wedi gofyn y cwestiwn, byddai wedi dysgu mai dyna'r cod a ddefnyddir gan y cwnsler deddfwriaethol ar gyfer y bedwaredd sesiwn, a 13 yw'r flwyddyn—felly Pedwerydd Cynulliad 2013 ydyw, yn hytrach na mis Ebrill 2013. Byddwn yn awgrymu—

Antoinette Sandbach rose—

16:50

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will not take an intervention now. I would suggest that, sometimes, people can perhaps be a bit too smart. [Laughter.]

On other matters, referring to the points that Simon Thomas made, I agree very much with the thrust of his contribution and I would have liked to have had the opportunity for greater scrutiny. I will repeat an offer that I made previously, namely that I am prepared to attend any committee for scrutiny on this Bill, prior to our Plenary debates on it. It is an offer that I have made before, and it is an offer that I repeat on the record this afternoon. If committees ask me to appear in front of them in the time available to us, I am prepared to appear in front of any committee to give evidence on this matter.

Ni dderbyniaf ymyriad yn awr. Byddwn yn awgrymu y gall pobl weithiau, efallai, fod ychydig yn rhy glyfar. [Chwerthin.]

Ar faterion eraill, gan gyfeirio at y pwyntiau a wnaeth Simon Thomas, rwyf yn cytuno'n llwyr â byrdrwn ei gyfraniad a byddwn wedi hoffi cael y cyfle i graffu mwy. Ailadroddaf gynnig a wneuthum yn gynharach, sef fy mod yn barod i fynd i unrhyw bwyllgor er mwyn craffu ar y Bil hwn, cyn ein dadleuon Cyfarfod Llawn yn ei gylch. Mae'n gynnig yr wyf wedi'i wneud o'r blaen, ac mae'n gynnig yr wyf yn ei ailrodd ar gofnod y prynhawn yma. Os yw pwyllgorau yn gofyn i mi ymddangos o'u blaenau yn yr amser sydd ar gael inni, rwyf yn barod i ymddangos o flaen unrhyw bwyllgor i roi tystiolaeth ar y mater hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In addition, I sought advice, before asking the Assembly to use the emergency procedure, about whether there were alternatives available to us. It appeared, at the time, that there were no not. This is the procedure that is available to us to expedite legislation. It may well be, from listening to the points that Suzy made, that we may wish to consider at another time our Standing Orders in order to enable us to expedite legislation without necessarily using this procedure.

However, let us understand why we are here today. Over two years, I have had to deal with eight United Kingdom Government Ministers to reach a conclusion on this matter. This was something that was proposed by the UK Government as part of the Public Bodies Act 2011. That was the means and the vehicle used to abolish the AWB. The problem was that, to do so, it required the consent of this place and of Welsh Ministers. This place voted in January not to give that consent. I chose to not give my consent when it was sought.

The reason we are here today is because the United Kingdom Government has deliberately planned to undermine and to subvert the constitution of the United Kingdom on this matter. Members—and I am looking particularly at the Lib Dems and the Tories—talk to us about scrutiny, but let me tell them that no person in that House of Commons had the opportunity to vote on the amendment that was tabled in the House of Lords. No elected politician has had the opportunity to vote on the abolition of the AWB—none whatsoever. When that amendment was tabled, it was tabled on the last day before Christmas recess, without any explanation or notification to the Welsh Government—none whatsoever. After five weeks of consultation, when that consultation demonstrated that a clear majority of people were against what the Government was proposing, it was then whipped through the House of Lords and, when it came back to the House of Commons, no vote was taken. There was not even an opportunity to debate the abolition of the AWB. They talk to me about due process, scrutiny and the abuse of powers—

Yn ogystal, ceisiais gyngor, cyn gofyn i'r Cynulliad ddefnyddio'r weithdrefn frys, ynghylch a oedd dewisiadau eraill ar gael inni. Roedd yn ymddangos, ar y pryd, nad oedd. Dyma'r weithdrefn sydd ar gael i ni i gyflymu'r ddeddfwriaeth. Mae'n ddigon posibl, o wrando ar y pwyntiau a wnaeth Suzy, y byddwn am ystyried ein Rheolau Sefydlog ar adeg arall er mwyn ein galluogi i gyflymu'r ddeddfwriaeth heb ddefnyddio'r weithdrefn hon o reidrwydd.

Fodd bynnag, gadewch i ni ddeall pam yr ydym yma heddiw. Rwyf wedi gorfod delio ag wyth o Weinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddod i gasgliad ar y mater hwn dros gyfnod o ddwy flynedd. Roedd hyn yn rhywbeth a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU fel rhan o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Dyna oedd y ffordd a'r dull a ddefnyddiwyd i ddiddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol. Y broblem oedd bod angen caniatâd y lle hwn a Gweinidogion Cymru er mwyn gwneud hynny. Pleidleisioid y lle hwn ym mis Ionawr i beidio â rhoi'r caniatâd hwnnw. Dewisais i beidio â rhoi fy nghaniatâd pan gafodd ei geisio.

Y rheswm pam yr ydym yma heddiw yw oherwydd bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cynllunio'n fwriadol i danseilio ac i wyrdroi cyfansoddiad y Deyrnas Unedig ar y mater hwn. Mae Aelodau—ac rwyf yn edrych yn arbennig ar y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Toriaid—yn siarad â ni am graffu, ond gadewch i mi ddweud wrthynt nad oes yr un person yn Nhŷ'r Cyffredin wedi cael y cyfle i bleidleisio ar y gweliant a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Nid oes yr un gwleidydd etholedig wedi cael y cyfle i bleidleisio ar ddiddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol—dim un o gwbl. Pan gyflwynwyd y gweliant hwnnw, fe'i cyflwynwyd ar y diwrnod olaf cyn toriad y Nadolig, heb unrhyw esboniad na hysbysiad i Lywodraeth Cymru—dim un o gwbl. Ar ôl pum wythnos o ymgynghori, pan oedd yr ymgynghoriad hwnnw'n dangos fod mwyafrif clir o bobl yn erbyn yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei gynnig, cafodd ei chwipio drwy Dŷ'r Arglwyddi, a phan ddaeth yn ôl i Dŷ'r Cyffredin, ni chymerwyd pleidlais. Nid oedd hyd yn oed gyfle i drafod diddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol. Maent yn siarad â mi am broses briodol, craffu a chamddefnyddio pwerau—

16:53 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for giving way. However, whatever his criticisms of the UK Government, and he may well be right, does he not think that we should set a better example in the Welsh Assembly and make sure that our process is bang-on right?

Diolch i'r Gweinidog am ildio. Fodd bynnag, beth bynnag ei feirniadaeth o Lywodraeth y DU, a gall fod yn iawn, onid yw'n credu y dylem osod esiampl well yng Nghynulliad Cymru a gwneud yn siŵr bod ein proses yn hollol gywir?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:53 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We are, and that is why I have sought to elongate the emergency procedures available to us. It is why we are taking over four days, and not one day, as our procedure would entitle us to do. That is why I have made offers, which I have repeated this afternoon, that if any committee wishes me to appear in front of it to give evidence on why we are doing this, I am happy to do so. It is a matter for the committees and, perhaps, the presiding officer, as to whether that takes place, but, as a Minister, I am happy to face scrutiny on this Bill at any time.

Rydym ni yn gwneud hynny, a dyna pam yr wyf wedi ceisio ymestyn y gweithdrefnau brys sydd ar gael i ni. Dyna pam yr ydym yn cymryd dros bedwar diwrnod, ac nid un diwrnod, fel y byddai ein gweithdrefn yn rhoi hawl i ni ei wneud. Dyna pam yr wyf wedi gwneud cynigion, gan eu hailadrodd brynhawn heddiw, os bydd unrhyw bwyllgor yn dymuno i mi ymddangos o'i flaen i roi tystiolaeth ynglŷn â pham yr ydym yn gwneud hyn, rwyf yn hapus i wneud hynny. Mae'n fater i'r pwyllgorau ac, efallai, swyddfa'r llywydd, benderfynu a yw hynny'n digwydd, ond, fel Gweinidog, rwyf yn hapus i wynebu craffu ar y Bil hwn ar unrhyw adeg.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

We have been told that we had opportunities to do this through other means and mechanisms. I received a letter on 14 May, less than two months ago, from David Heath in DEFRA saying that it was going to move ahead with the abolition of the AWB on 25 June. That was the notification that we had. We were not given an opportunity, again, to comment on that or to seek alternatives to it.

I believe that the AWB is important for the future of agriculture in Wales and there is no appetite for its abolition anywhere in Wales. When DEFRA had its five-week consultation, of the 29 responses from Wales, four or five were in favour and the rest were opposed. One of those in favour, of course, was the Conservative spokesperson.

There is no appetite for the abolition of the AWB in Wales. There is recognition throughout Wales, as I think there is, frankly, in all parts of this Chamber, that the AWB plays an important role in the agricultural industry in Wales. We want to ensure that the agricultural industry in Wales is not adversely affected by this mistaken policy being pursued from Westminster, and that we support and sustain the growth of the agricultural industry in Wales. I will be making further statements next week on how the CAP reforms that we helped to negotiate last week will help to sustain and, I hope, support and enable the agricultural industry to flourish in future years. This tool, the AWB, is an essential part of that. I hope that Members will recognise the reasons why we are doing this today. I hope that Members will support this today during the vote and that they will take full advantage of the opportunities that they will have—and that I will ensure that they will have—to scrutinise me over the coming weeks. I also hope that we will be able to enact this legislation to preserve the status quo and to preserve the support currently being provided to the agricultural industry in Wales by the AWB.

Dywedwyd wrthym fod gennym gyfle i wneud hyn drwy ddulliau a mecanweithiau eraill. Cefais lythyr ar 14 Mai, llai na dau fis yn ôl, gan David Heath yn DEFRA yn dweud ei bod yn mynd i fwrw ymlaen i ddiddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ar 25 Mehefin. Dyna faint o rybudd a gawsom. Ni chawsom gyfle, eto, i wneud sylwadau ar hynny neu i chwilio am ddeisiadau eraill.

Rwyf yn credu bod y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn bwysig ar gyfer dyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru, ac nid oes awydd i'w ddiddymu yn unrhyw le yng Nghymru. Pan gafodd DEFRA ei ymgynghoriad pum wythnos, roedd pedwar neu bump o'r 29 o ymatebion o Gymru o blaid, a'r gweddill yn gwrthwynebu. Un o'r rhai o blaid, wrth gwrs, oedd llefarydd y Ceidwadwyr.

Nid oes unrhyw awydd i ddileu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru. Ceir cydnabyddiaeth ledled Cymru, a chredaf, a dweud y gwir, y ceir cydnabyddiaeth ym mhob rhan o'r Siambr hon, bod y Bwrdd yn chwarae rhan bwysig yn y diwydiant amaethyddol yng Nghymru. Rydym yn awyddus i sicrhau nad yw'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru yn cael ei effeithio'n andwyol gan y polisi anghywir sy'n cael ei ddilyn gan San Steffan, a'n bod yn cefnogi a chynnal twf y diwydiant amaethyddol yng Nghymru. Byddaf yn gwneud datganiadau pellach yr wythnos nesaf ar sut y bydd y diwygiadau i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin y gwnaethom helpu i'w trafod a chytuno arnynt yr wythnos diwethaf yn helpu i gynnal a gobeithio, cefnogi a galluogi'r diwydiant amaethyddol i ffynnu yn y dyfodol. Mae'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn rhan hanfodol o hynny. Rwyf yn gobeithio y bydd yr Aelodau'n cydnabod y rhesymau pam yr ydym yn gwneud hyn heddiw. Rwyf yn gobeithio y bydd yr Aelodau'n cefnogi hyn heddiw yn ystod y bleidlais ac y byddant yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd y maent yn eu cael—ac y byddaf yn sicrhau y byddant yn eu cael—i graffu arnaf dros yr wythnosau nesaf. Gobeithio hefyd y gallwn ddeddfu'r ddeddfwriaeth hon i warchod y status quo ac i warchod y cymorth a ddarperir ar hyn o bryd i'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru gan y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol.

16:56

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? As there is objection, I defer all voting under this item until voting time.

As we have not disposed of the votes under the first item, I will also defer votes under the second item until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Diwygio Deddf Addysg 1996) (Cymru) 2013

Cynnig NDM5277 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Y cynnig yw cytuno ar welliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gan y ceir gwrthwynebiad, gohiriaf yr holl bleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gan nad ydym wedi gwaredu'r pleidleisiau dan yr eitem gyntaf, byddaf hefyd yn gohirio pleidleisiau dan yr ail eitem tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

The Anti-Social Behaviour Act 2003 (Amendments to the Education Act 1996) (Wales) Order 2013

Motion NDM5277 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Orchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Diwygio Deddf Addysg 1996) (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mehefin 2013.

Approves that the draft Anti-Social Behaviour Act 2003 (Amendment to the Education Act 1996) (Wales) Order 2013 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 11 June 2013.

16:56

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

I welcome the opportunity to discuss this motion to approve the draft Anti-Social Behaviour Act 2003 (Amendment to the Education Act 1996) (Wales) Order 2013.

Croesawaf y cyfle i drafod y cynnig hwn i gymeradwyo drafft Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Diwygio Deddf Addysg 1996) (Cymru) 2013.

Daeth y Llywydd i'r Gadair am 4.57 p.m.

The Presiding Officer took the Chair at 4.57 p.m.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:57

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Order enables sections 444A and 444B of the Education Act 1996 to be amended so that the words 'in England' are removed in each place where they occur. Doing this means that sections 444A and 444B will apply to England and to Wales.

Mae'r Gorchymyn yn galluogi adrannau 444A a 444B o Ddeddf Addysg 1996 i gael eu diwygio i gael gwared ar y geiriau 'yn Lloegr' o bob man lle maent yn digwydd. Mae hyn yn golygu y bydd adrannau 444A a 444B yn gymwys i Gymru ac i Loegr.

The powers provided under sections 444A and 444B allow a police officer, a local authority officer or headteacher to issue, in accordance with regulations, penalty notices in respect of truancy in school and other places where education is provided, instead of prosecuting them for the same offence.

Mae'r pwerau a ddarperir o dan adrannau 444A a 444B yn caniatáu i swyddog yr heddlu, swyddog awdurdod lleol neu bennaeth ysgol gyhoeddi, yn unol â rheoliadau, hysbysadau cosb o ran triwantiaeth mewn ysgolion a manau eraill lle mae addysg yn cael ei darparu, yn hytrach na'u herlynnu ar gyfer yr un trosedd.

Making pupil attendance at school a key priority has raised its profile in schools and local authorities. In the past year, every authority in Wales has improved its primary school attendance rates, and every authority bar one—which stayed the same—has improved its secondary school attendance rates. While I am encouraged to see an upturn in attendance rates, I recognise that there is still work to be done. Penalty notices should be viewed as an additional option to current intervention measures already available to schools and local authorities. I believe that, where used appropriately and fairly, they have the potential to make a positive difference to levels of absenteeism in our schools. I commend the Order to the Assembly.

Codwyd proffil yr angen i wneud presenoldeb disgyblion yn yr ysgol yn flaenoriaeth allweddol mewn ysgolion ac awdurdodau lleol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae pob awdurdod yng Nghymru wedi gwella eu cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd, a phob awdurdod ond un—a arhosodd yr un fath—wedi gwella ei gyfraddau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd. Er ei bod yn galonogol gweld cynnydd yn y cyfraddau presenoldeb, rwyf yn cydnabod bod gwaith eto i'w wneud. Dylai hysbysadau cosb gael eu hystyried fel opsiwn ychwanegol at fesurau ymyrryd sydd eisoes ar gael i ysgolion ac awdurdodau lleol. Rwyf yn credu bod ganddynt y potensial, lle y cânt eu defnyddio'n briodol ac yn deg, i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i lefelau absenoldeb yn ein hysgolion. Cymeradwyaf y Gorchymyn i'r Cynulliad.

16:58

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We will not be supporting this motion this afternoon. Basically, we think that the Welsh Government needs to look at the experience in England as far as the issuing of fixed-penalty tickets are concerned where, actually, between 2005 and 2008, after their introduction, 35,000 parents were fined, 8,000 were prosecuted, and yet absenteeism increased by more than 2 million school days. Professor Reid's report and the evidence that he gave to the Children and Young People Committee show that he believes that the Welsh Government is going the wrong way. On that basis, we will not be supporting the draft Order this afternoon.

Ni fyddwn yn cefnogi'r cynnig hwn y prynhawn yma. Yn y bôn, rydym yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru edrych ar y profiad yn Lloegr o ran cyhoeddi tocynnau cosb benodedig lle y cafodd 35,000 o rieni eu dirwyo rhwng 2005 a 2008, ar ôl iddynt gael eu cyflwyno. Erlynwyd 8,000, ac eto cynyddodd absenoldeb gan fwy na 2 filiwn o ddyddiau ysgol. Mae adroddiad yr Athro Reid a'r dystiolaeth a roddodd i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn dangos ei fod yn credu bod Llywodraeth Cymru yn mynd y ffordd anghywir. Ar y sail honno, ni fyddwn yn cefnogi'r Gorchymyn drafft brynawn heddiw.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:59 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call on the Minister to reply. Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

16:59 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills
In response to Aled Roberts's points, statistics can always be disputed. Of course, I would dispute his grasp on these statistics. Statistical evidence of the effectiveness of these measures that England conducted in 2010 in these cases did show that there was a positive effect on attendance, particularly as regards the very issuing of a warning letter prior to any kind of fixed penalty being imposed. That effectiveness was significant. Mewn ymateb i bwyntiau Aled Roberts, gellir bob amser ddadlau ynglŷn ag ystadegau. Wrth gwrs, byddwn yn dadlau â'i afael ar yr ystadegau hyn. Roedd tystiolaeth ystadegol o effeithiolrwydd y mesurau hyn a gynhaliwyd yn Lloegr yn 2010 yn dangos y cafwyd effaith gadarnhaol ar bresenoldeb, yn enwedig yn sgil cyhoeddi llythyr rhybudd ynddo'i hun cyn gosod unrhyw fath o gosb benodedig. Roedd hwnnw'n hynod effeithiol.

16:59 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The proposal is to agree the motion. Does any Member object? As there is objection, I defer all voting on this item until voting time. Y cynnig yw cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gan y ceir gwrthwynebiad, gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.
Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio. *Voting deferred until voting time.*

Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog Rhif 26.44 ar y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)

Grŵp 1: Hyrwyddo Trawsblannu (Gwelliannau 1 a 66)

Stage 3 Standing Order No. 26.44 debate on the Human Transplantation (Wales) Bill

Group 1: Promotion of Transplantation (Amendments 1 and 66)

17:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The lead amendment in this group is amendment 1. I call on the Minister—[Interruption.] Sorry, this is going to be quite difficult, so can Members please pay attention? Thank you. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 1. Galwaf ar y Gweinidog—[Torri ar draws.] Mae'n ddrwg gennyf, mae hyn yn mynd i fod yn eithaf anodd, felly a wnaiff yr Aelodau ganolbwyntio? Diolch.
The lead amendment in this group is amendment 1, and I call on the Minister to move amendment 1 and to speak to it and to the other amendment in the group. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 1, ac yr wyf yn galw ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 1 ac i siarad amdano ac am y gwelliant arall yn y grŵp.

17:00 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services
I move amendment 1 in my name. Cynigaf welliant 1 yn fy enw i.
One of the core features of this Bill since it was first published has always been its duty on Welsh Ministers to promote transplantation and explain the deemed consent system to the public of Wales. Today, the Government brings forward an amendment to make our commitments on public communications stronger and clearer. In the Stage 1 debate here in the Chamber, I promised to review the funding to be made available in the coming years for the awareness campaign. Members will see in the revised explanatory memorandum that the budget over 10 years has been increased by 38%. This will enable us to extend the awareness campaign, especially as the implementation of deemed consent approaches. Un o nodweddion craidd y Bil hwn, ers iddo gael ei gyhoeddi am y tro cyntaf, yw'r ddyletswydd y mae'n ei osod ar Weinidogion Cymru i hybu trawsblannu ac esbonio'r system cydsyniad tybiedig i'r cyhoedd yng Nghymru. Heddiw, mae'r Llywodraeth yn cyflwyno gwelliant i wneud ein hymrwymiad i gyfathrebu â'r cyhoedd yn gryfach ac yn gliriach. Yn y drafodaeth Cyfnod 1 yma yn y Siambr, addewais adolygu'r cyllid a fydd ar gal yn y blynyddoedd i ddod ar gyfer yr ymgyrch ymwybyddiaeth. Bydd yr Aelodau'n gweld yn y memorandwm esboniadol diwygiedig y cynyddwyd 38% ar y gyllideb dros 10 mlynedd. Bydd hyn yn ein galluogi i ymestyn yr ymgyrch ymwybyddiaeth, yn enwedig wrth i weithrediad cydsyniad tybiedig agosáu.

Amendment 1 clarifies that commitment. It builds on a constructive amendment tabled by Darren Millar at Stage 2 proceedings, and I said in response to his amendments at that stage that I would adopt the principles and bring forward a Government amendment to give them effect. That is what I am doing this afternoon. The amendment places a requirement on Welsh Ministers to carry out a campaign of public awareness across Wales at least once every 12 months. That was always our intention and, indeed, something that will have to continue into the future so as to bring the law to the attention of people moving to Wales and turning 18 years of age. I am very happy to propose an amendment that makes this explicit.

In this group, I note Angela Burns's amendment 66, which seeks to place a further particular obligation on Welsh Ministers to provide information at least once every 12 months to young people between the ages of 15 and 17, and I understand entirely why she has brought it forward. Educating young people about the new law, given that some of them may not be receptive to messages from conventional sources, is a very important part of the communications campaign, and it is one that, as I have said, we intend to carry out over the long term. Our communications strategy already has plans to put this issue in the school curriculum, and I am pleased to say that I have already had discussions with the new Minister for education about ways in which we, together, can write to schools, to persuade them and further education colleges to make sure that information is actively provided to young people as they move through the stage that Angela Burns's amendment identifies. Beyond that, we will want to use the whole range of innovative communication methods that allow us to get this important message to young people.

While I am sympathetic to the intentions of Angela Burns's amendment, I do not think that there is a need to set that group apart from the many others that we will wish to communicate with about this Bill. My amendment is phrased generically and it provides for the need to communicate with the public annually. Inherent in that is the need to meet the needs of particular groups, be they young people, faith groups or people for whom English is not their first language. We will have a generic approach to this, which is why we will not be able to support Angela's amendment, despite the sympathy that I feel for its intentions.

The Government amendment places an obligation on Welsh Ministers, as well as carrying out an annual campaign, to report annually to the Assembly on that communications activity for the first five years after Royal Assent. By the time our awareness campaign has reached that point, the Bill really should be part of the fabric of Welsh life. After that, Assembly Members will still have every opportunity to question and challenge Ministers on the delivery of the requirements of the Bill if they need to do so. I hope that Members will see that amendment 1 provides an important improvement to the Bill and will be prepared to support it.

Mae gwelliant 1 yn egluro'r ymrwymiad hwnnw. Mae'n adeiladu ar welliant adeiladol a gyflwynwyd gan Darren Millar yn nhráfodion Cyfnod 2, a dywedais mewn ymateb i'w welliannau bryd hynny y byddwn yn mabwysiadu'r egwyddorion ac yn cyflwyno gwelliant gan y Llywodraeth i'w gwireddu. Dyna yr wyf yn ei wneud y prynhawn yma. Mae'r diwygiad yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd ledled Cymru o leiaf unwaith bob 12 mis. Dyna fu ein bwriad erioed ac, yn wir, mae'n rhywbeth y bydd yn rhaid i ni barhau i'w wneud yn y dyfodol er mwyn dod â'r gyfraith i sylw pobl sy'n symud i Gymru a phobl sy'n cyrraedd 18 mlwydd oed. Yr wyf yn falch iawn i gynnig gwelliant sy'n gwneud hyn yn eglur.

Yn y grŵp hwn, nodaf welliant 66 Angela Burns, sy'n ceisio gosod rhwymedigaeth benodol bellach ar Weinidogion Cymru i roi gwybodaeth o leiaf unwaith bob 12 mis i bobl ifanc rhwng 15 a 17, ac yr wyf yn deall yn llwyr pam mae hi wedi ei gyflwyno. Mae addysgu pobl ifanc am y gyfraith newydd, o gofio na fydd rhai ohonynt yn barod i dderbyn negeseuon o ffynonellau confensiynol, yn rhan bwysig iawn o'r ymgyrch gyfathrebu, ac fel yr wyf wedi ei ddweud, mae'n rhywbeth yr ydym yn bwriadu ei wneud yn yr hirdymor. Mae cynlluniau yn ein strategaeth gyfathrebu eisoes i roi'r mater hwn yn y cwricwlwm ysgol, ac yr wyf yn falch o ddweud fy mod eisoes wedi cael trafodaethau gyda'r Gweinidog addysg newydd am ffyrdd y gallwn, gyda'n gilydd, ysgrifennu at ysgolion, i'w darbwyllo nhw a cholegau addysg bellach i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu yn ymarferol i bobl ifanc wrth iddynt symud drwy'r cyfnod y mae gwelliant Angela Burns yn ei nodi. Y tu hwnt i hynny, byddwn yn awyddus i ddefnyddio'r ystod gyfan o ddulliau cyfathrebu arloesol a fydd yn ein galluogi i gyflwyno'r neges bwysig hon i bobl ifanc.

Er fy mod yn cydymdeimlo â bwriadau gwelliant Angela Burns, nid wyf yn credu bod angen gosod y grŵp hwnnw ar wahân i'r nifer o rai eraill y byddwn yn dymuno cyfathrebu â nhw ynglŷn â'r Bil hwn. Mae fy ngwelliant wedi ei eirio'n gyffredinol ac mae'n darparu ar gyfer yr angen i gyfathrebu â'r cyhoedd yn flynyddol. Mae'r angen i fodloni anghenion grwpiau penodol, boed hynny'n bobl ifanc, grwpiau ffydd neu bobl nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, yn rhan annatod o hyn. Bydd gennym ymagwedd gyffredinol at hyn, a dyna pam na fyddwn yn gallu cefnogi gwelliant Angela, er gwaethaf y cydymdeimlad yr wyf yn ei deimlo am ei fwriadau.

Mae gwelliant y Llywodraeth yn gosod rhwymedigaeth ar Weinidogion Cymru, yn ogystal â chynnal ymgyrch flynyddol, i adrodd yn flynyddol i'r Cynulliad ar y gweithgaredd cyfathrebu hwnnw am y pum mlynedd cyntaf ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. Erbyn i'n hymgyrch ymwybyddiaeth gyrraedd y pwynt hwnnw, dylai'r Bil fod yn rhan o wead bywyd Cymru, mewn gwirionedd. Ar ôl hynny, bydd Aelodau'r Cynulliad yn dal i gael pob cyfle i gwestiynu a herio Gweinidogion ar gyflawni gofynion y Bil os oes angen iddynt wneud hynny. Yr wyf yn gobeithio y bydd yr Aelodau'n gweld bod gwelliant 1 yn darparu gwelliant pwysig i'r Bil ac y byddant yn barod i'w gefnogi.

17:05

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In making my first contribution to this debate today, I want to confirm my personal support and that of the Welsh Conservatives for organ donation. The importance of the gift of donation cannot be underestimated. For the recipient of a donated organ, the impact of transplantation can truly be transformational: saving their life and improving the quality of their life. For the loved ones of someone who has died, donation can make a positive contribution to the grieving process, as something good comes from their personal tragedy. However, it is fair to say that there has been a wide range of views over how donation should be tackled, both among the people of Wales and within this National Assembly. The subject of organ donation can arouse powerful emotions, and personal attitudes towards it can vary significantly. We Welsh Conservatives believe that organ donation is, therefore, a matter of conscience and that changes in legislation affecting it ought not to be a matter for party politics or party whips. It is for these reasons that we, the Welsh Conservatives, will be having a free vote on this important issue today.

Wrth wneud fy nghyfraniad cyntaf i'r ddadl hon heddiw, yr wyf yn dymuno cadarnhau fy nghefnogaeth bersonol a chefnogaeth Ceidwadwyr Cymru i roi organau. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd rhoi organau fel anrheg. I'r sawl sy'n derbyn organ a roddwyd, gall effaith trawsblannu fod yn wirioneddol drawsnewidiol: gan achub eu bywydau a gwella ansawdd eu bywyd. I berthnasau rhywun sydd wedi marw, gall rhoi organau fod yn gyfraniad cadarnhaol i'r broses alaru, gan fod rhywbeth da yn dod o'u trasiedi bersonol. Fodd bynnag, mae'n deg dweud y bu ystod eang o safbwyntiau ynghylch sut y dylid mynd i'r afael â rhoi organau, ymhlith pobl Cymru ac o fewn y Cynulliad Cenedlaethol hwn. Gall y pwnc o roi organau ennyn emosiynau cryf, ac mae agweddau personol tuag ato yn gallu amrywio'n sylweddol. Rydym ni Geidwadwyr Cymru yn credu, felly, mai mater o gydwybod yw rhoi organau ac na ddylai newidiadau mewn deddfwriaeth sy'n effeithio arno fod yn fater i wleidyddiaeth bleidiol neu chwipiaid y pleidiau. Oherwydd y rhesymau hyn y byddwn ni, Ceidwadwyr Cymru, yn cael pleidlais rydd ar y mater pwysig hwn heddiw.

Personally, I do not support the introduction of a system of deemed consent. Simply put, I am opposed in principle to a system where organ transplantation becomes a passive act and consent for it is presumed, or as the Bill puts it, deemed, by the state. That is why I will be voting against the legislation before the Assembly today, regardless of the shape of the legislation that emerges as a result of the amendments before us.

Yn bersonol, nid wyf yn cefnogi cyflwyno system o gydsyniad tybiedig. Yn syml, yr wyf yn gwrthwynebu mewn egwyddor system lle mae trawsblannu organau yn dod yn weithred oddefol a chydsyniad yn cael ei gymryd yn ganiataol, neu fel y mae'r Bil yn nodi, yn cael ei ragdybio, gan y wladwriaeth. Dyna pam y byddaf yn pleidleisio yn erbyn y ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad heddiw, waeth beth yw ffurf y ddeddfwriaeth sy'n ymddangos o ganlyniad i'r diwygiadau ger ein bron.

17:06

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have heard this said before in this debate, even from the Archbishop of Wales, with people saying that 'by supporting this legislation'—which I strongly do—'I am giving my body to the state'. Let us get through this argument. Wales is not a state. This is a devolved Assembly with limited powers, which we are using to share the gift of life with others.

Yr wyf wedi clywed pobl yn dweud hyn o'r blaen yn y ddadl hon, hyd yn oed gan Archesgob Cymru, a phobl yn dweud 'trwy gefnogi'r ddeddfwriaeth'—ac rwyf yn ei chefnogi'n gryf—'yr wyf yn rhoi fy nghorff i'r wladwriaeth'. Gadewch i ni fynd drwy'r ddadl hon. Nid yw Cymru yn wladwriaeth. Cynulliad datganoledig yw hwn gyda phwerau cyfyngedig, yr ydym yn ei ddefnyddio i rannu y rhodd o fywyd gydag eraill.

17:07

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am not here to speak on behalf of the Archbishop of Wales or anybody else. I am giving my personal view on this matter. As a matter of principle, I disagree with the deemed consent system.

Nid wyf yma i siarad ar ran Archesgob Cymru nac unrhyw un arall. Yr wyf yn rhoi fy marn bersonol ar y mater hwn. Fel mater o egwyddor, yr wyf yn anghytuno â'r system cydsyniad tybiedig.

That said, if the Bill is successful in gaining the approval of Assembly Members, I want it to be in better shape than it currently is. I want a greater role for family members when their loved ones die without expressing a view on the subject of organ donation, with safeguards in place to ensure that the donation does not proceed where family members are distressed if consent is to be assumed by the state—I will continue to use that word—and with unnecessary barriers to organ donation being removed. That is why I have tabled amendments to this Bill and why I intend to speak on all aspects of it.

Wedi dweud hynny, os bydd y Bil yn llwyddo i gael cymeradwyaeth Aelodau'r Cynulliad, yr wyf am iddo fod mewn gwell cyflwr nag y mae ar hyn o bryd. Yr wyf eisiau gweld mwy o swyddogaeth i aelodau o'r teulu pan fydd eu hanwyliaid yn marw heb fynegi barn ar y pwnc o roi organau, gyda mesurau diogelu ar waith i sicrhau nad yw'r rhoi organau yn mynd yn ei flaen os yw aelodau o'r teulu yn ofidus bod y wladwriaeth yn cymryd cydsyniad yn ganiataol—byddaf yn parhau i ddefnyddio'r geiriau hwnnw—'a'r rhwystrau diangen i roi organau yn cael ei dileu. Dyna pam yr wyf wedi cyflwyno gwelliannau i'r Bil hwn a dyna pam yr wyf yn bwriadu siarad ar bob agwedd ohono.

The international evidence on whether presumed consent delivers an increase in organ donation is unclear. When it comes to voting on this today, we need to consider, as Assembly Members, whether the proposed anticipated increase of 25% that the Welsh Government has put forward in its explanatory memorandum—just 15 new donors per year—is realistic, and whether the efforts of the Welsh Government would be better focused, and the millions of pounds that it has allocated to the roll-out of this new system would be better spent, making the current system more efficient and effective. I will not talk about the specifics of how I feel the current system could be more efficient and effective until later on.

I want to turn now to the amendments that are in group 1 before us. The proposed system makes huge changes to the way in which organs are treated upon death. Its success will depend on whether the system is perceived as ethical and legitimate by members of the public. We need to ensure and inspire public confidence in whatever system we have. The previous Minister for health told the Health and Social Services Committee that, in order for deemed consent to be valid, people in Wales must be 'fully aware' of the new system that may emerge. We were also told by the Minister's legal adviser that

'consent could not be valid if people did not understand the system; it would be a breach of human rights'.

This, of course, raised significant concerns because it seemed to set a very high threshold among the public regarding awareness and understanding of the new deemed consent system.

At Stage 2, the new Minister clarified these comments to suggest that there simply needed to be evidence that a reasonable person would conclude that the deceased had been aware of the system and made a conscious decision not to opt-out of it prior to their death. During the committee stage of the Bill, many witnesses raised concerns that the budget for and the planned promotional activities may not be sufficient to raise awareness of the new system. I am pleased that the Minister listened to those concerns, and that additional resources have, indeed, been allocated to promotion as a result. At Stage 2, I also tabled amendments seeking to place duties on Welsh Ministers to promote donation through annual campaigns. I withdrew it on the basis of the commitment that was given by the Minister at that time to bring forward his own amendment, and I am pleased to see that he has done that today.

The Minister's amendment also seeks to deal with another issue that I had sought to address at Stage 2: to seek annual reports to this National Assembly, post the implementation of the new system of consent, on the impact of those promotional campaigns. Given that these issues are addressed, I will be supporting amendment 1 in the Minister's name.

Mae'r dystiolaeth ryngwladol ynghylch pa un a yw cydsyniad tybiedig yn creu cynnydd mewn rhoi organau yn aneglur. Pan ddaw i bleidleisio ar hyn heddiw, mae angen i ni ystyried, fel Aelodau'r Cynulliad, a yw'r cynnydd a ragwelir o 25% y mae Llywodraeth Cymru wedi ei nodi yn ei memorandwm esboniadol—dim ond 15 o roddwyr newydd y flwyddyn—yn realistig, ac a fyddai'n well i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio, a gwario'r miliynau o bunnoedd y mae wedi ei neilltuo i gyflwyno'r system newydd hon, ar wneud y system bresennol yn fwy effeithiol ac effeithlon. Nid wyf am siarad am y manylion o sut yr wyf yn teimlo y gallai'r system gyfredol fod yn fwy effeithiol ac effeithlon tan yn nes ymlaen.

Yr wyf am droi yn awr at y gwelliannau yn grŵp 1 sydd ger ein bron. Mae'r system arfaethedig yn gwneud newidiadau anferth i'r ffordd y caiff organau eu trin yn dilyn marwolaeth. Bydd ei lwyddiant yn dibynnu ar ba un a yw'r system yn cael ei hystyried yn foesegol a chyfreithlon gan aelodau o'r cyhoedd. Mae angen i ni sicrhau ac ennyn hyder y cyhoedd ym mha bynnag system sydd gennym. Dywedodd y Gweinidog Iechyd blaenorol wrth y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, bod yn rhaid i bobl yng Nghymru fod yn 'hollol ymwybodol' o'r system newydd a allai ddod i'r amlwg, er mwyn i ganiatâd tybiedig fod yn ddilys,. Dywedwyd wrthym hefyd gan gynghorydd cyfreithiol y Gweinidog

'na allai cydsyniad fod yn ddilys pe na byddai pobl yn deall y system; byddai hynny'n torri hawliau dynol'.

Mae hyn, wrth gwrs, yn codi pryderon sylweddol am ei fod yn gosod trothwy uchel iawn ymhlith y cyhoedd ynghylch ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r system cydsyniad tybiedig newydd.

Yn ystod Cyfnod 2, eglurodd y Gweinidog newydd y sylwadau hyn gan awgrymu bod angen tystiolaeth y byddai person rhesymol yn dod i'r casgliad bod yr ymadawedig wedi bod yn ymwybodol o'r system ac wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i beidio ag optio allan ohono cyn eu marwolaeth. Yn ystod cyfnod pwyllgor y Bil, cododd nifer o dystion bryderon na fyddai'r gyllideb na'r gweithgareddau hyrwyddo a gynlluniwyd yn ddigon i godi ymwybyddiaeth o'r system newydd. Yr wyf yn falch bod y Gweinidog wedi gwrandao ar y pryderon hynny, a bod adnoddau ychwanegol wedi eu neilltuo ar gyfer hyrwyddo o ganlyniad i hynny. Yng Nghyfnod 2, cyflwynais welliannau hefyd i osod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo rhoi organau trwy ymgyrchoedd blynyddol. Tynnais y gwelliannau hynny yn ôl oherwydd i'r Gweinidog ymrwymo ar y pryd i gyflwyno ei welliant ei hun, ac yr wyf yn falch o weld ei fod wedi gwneud hynny heddiw.

Mae gwelliant y Gweinidog hefyd yn ceisio ymdrin â mater arall yr oeddwn wedi ceisio mynd i'r afael ag ef yn ystod Cyfnod 2: i ofyn am adroddiadau blynyddol i'r Cynulliad Cenedlaethol hwn, yn dilyn gweithredu'r system newydd o gydsyniad, ar effaith yr ymgyrchoedd hyrwyddo hynny. Cyn belled â bod y materion hyn yn derbyn sylw, byddaf yn cefnogi gwelliant 1 yn enw'r Gweinidog.

Turning briefly to amendment 66 in the name of Angela Burns, seeking to extend the duty of Ministers, to raise awareness of the new system to those aged between 15 and 17, while this was not an issue of concern raised directly in evidence to the Health and Social Care Committee, I can see the value of engaging young people below the age at which consent can be deemed in order to prepare them to make an informed choice when they reach 18. For this reason, I urge Members to support Angela's amendment.

Gan droi yn fyr at welliant 66 yn enw Angela Burns, sy'n ceisio ymestyn dyletswydd Gweinidogion, i godi ymwybyddiaeth o'r system newydd i'r rhai hynny sydd rhwng 15 a 17 oed, er nad oedd hyn yn fater o bryder a godwyd yn uniongyrchol mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gallaf weld y gwerth mewn cynnwys pobl ifanc sydd o dan yr oedran y gellir rhagdybio cydsyniad er mwyn eu paratoi i wneud dewis gwybodus pan fyddant yn cyrraedd 18 oed. Am y rheswm hwn, yr wyf yn annog yr Aelodau i gefnogi gwelliant Angela.

17:11

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n codi i siarad i gefnogi gwelliant 1 yn enw'r Llywodraeth heddiw. Mae'n bwysig nad deddfwriaeth yn unig sy'n hyrwyddo rhoi organau. Mae gwir angen rhaglen gyhoeddusrwydd lawn i redeg law yn llaw â'r ddeddfwriaeth newydd sy'n cael ei chyflwyno yn dilyn pleidlais heddiw. Nid drwy basio deddfwriaeth yn unig mae cynyddu nifer yr organau a fydd ar gael yng Nghymru. Dyna pam mae'n bwysig gosod ar wyneb y ddeddfwriaeth y rheidrwydd ar Lywodraeth i redeg rhaglen gyhoeddusrwydd lawn ar y gyfundrefn rhoi organau. Mae'n bwysig bod y rhaglen gyhoeddusrwydd hon yn cynnwys hawl yr unigolyn i optio allan ac i gofnodi gwrthwynebiad i roi organau, a hefyd bwysigrwydd parhau i optio mewn i'r gyfundrefn newydd a fydd yn deillio o'r ddeddfwriaeth hon, ac i gofrestru dymuniad i roi organau. Bydd hynny'n parhau i fod yn bwysig iawn, a bydd yn bwysig bod y Llywodraeth yn rhoi'r neges hon yn glir i'r genedl yn dilyn y ddeddfwriaeth hon. Mae'n bwysig i'r rhaglen gyhoeddusrwydd roi'r anogaeth honno i bob unigolyn yng Nghymru i drafod eu dymuniadau ynglŷn â rhoi organau gyda'u teulu a'u ffrindiau, ac i drafod hynny yn agored, yn y gobaith na fyddant yn wynebu'r sefyllfa honno, wrth gwrs.

Gyda phwysigrwydd y ddeddfwriaeth hon heddiw, a'i harloesedd, mae hefyd yn bwysig bod adroddiad blynyddol ar effaith y ddeddfwriaeth yn cael ei osod o flaen y Cynulliad. Rydym wedi trafod craffu yn barod, a bydd craffu ar effeithiau'r ddeddf hon yn bwysig i'w gyflawni yn flynyddol.

Ar welliant Angela Burns, sef gwelliant 66, roeddwn yn gwrandao ar yr hyn oedd gan y Gweinidog i ddweud ynglŷn â'r rheidrwydd i roi cyhoeddusrwydd i bob agwedd ac i bob grŵp mewn cymdeithas ar y ddeddfwriaeth newydd hon. Credaf y bydd grŵp penodol o bobl bob blwyddyn yn dod ar draws yr opsiynau hyn wrth iddynt droi'n 18 oed, felly mae angen targedu gwybodaeth a rhaglen gyhoeddusrwydd yn benodol ar y bobl ifanc hynny. Dylai'r opsiynau sydd ar gael iddynt am y tro cyntaf gael eu cyflwyno'n glir iddynt. Felly byddaf yn cefnogi gwelliant Angela Burns hefyd.

I rise to speak in support of amendment 1 in the name of the Government today. It is important that organ donation is not only driven by legislation. There is a real need for a full publicity campaign to run hand in hand with the legislation that will be introduced following today's vote. Increasing the number of organs available in Wales will not be done through legislation alone. That is why it is important to put on the face of the Bill the need for the Government to run a full publicity campaign on the organ donation system. It is important that such a publicity campaign includes the rights of individuals to opt out and to record their opposition to organ donation, and the importance of continuing to opt in to the new system that will emerge from this legislation and to register their wish to donate. That will continue to be very important, and it will be important for the Government to make that clear to the nation following this legislation. It is important that the publicity campaign encourages everyone in Wales to discuss their wishes in respect of organ donation with their family and friends, and to do so openly, in the hope that they will never be in such a situation, of course.

Given the importance of this legislation today, and its innovative nature, it is also important that an annual report on the impact of the legislation is laid before the Assembly. We have already discussed scrutiny, and it will be important to scrutinise the impact of this legislation on an annual basis.

Turning to Angela Burns's amendment, amendment 66, I listened to what the Minister had to say about the necessity to publicise all aspects of this legislation to all groups in society. I believe that a specific group of people every year will come face to face with these options as they turn 18, so information and publicity need to be targeted at those young people. The options that they have for the first time must be made clear to them. Therefore, I will be supporting Angela Burns's amendment as well.

17:14

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will outline the approach that Welsh Liberal Democrat Members will take on the principle of the Bill at Stage 4, and use this opportunity to address the amendments that are before us.

Byddaf yn amlinellu ymagwedd Aelodau Democratiaid Rhyddfrydol Cymru tuag at egwyddor y Bil yng Nghyfnod 4, ac yn defnyddio'r cyfle hwn i roi sylw i'r gwelliannau sydd ger ein bron.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I welcome very much the decision of the Minister for Health and Social Services to bring forward the amendment that appears on the agenda. This does indeed strengthen what is already on the face of the Bill. It is important for two points that have partly been rehearsed here this afternoon by previous speakers. Throughout the scrutiny of the Bill, we have been repeatedly told that changing the legislation alone will not be enough to achieve the stated goals of all of us in this Chamber and those outside this Chamber, with views on both sides of the argument, and that goal is to increase the number of people's lives that we can save as a result of transplantation. Legislation alone will not be enough to do it. Therefore, the publicity campaign is important so that we carry on having conversations and urging others to have conversations about this important subject. Talking about these things does not come easily. As a society, I think that we are incredibly superstitious: it almost seems sometimes that the very suggestion of a discussion about these things might in some way make it more likely to happen to you or one of your loved ones. However, those discussions must happen. We need to be very clear about what our views, and our families' views, are on this subject. It is only by having those discussions, and having this publicity about what donation can do, that we will ultimately drive up the donation rates.

It is also important, because, in some areas, this Bill does not deem consent for a variety of types of donation. There are novel donations that sit outside this Bill and that are not covered, and it is important that we have discussions about the ethical issues surrounding some of those donations. However, for me and for my group, most importantly, the publicity campaign is important for establishing the principle of consent. What has been at the forefront of my mind, throughout this discussion, has been the question of at what point a state, or a devolved administration with reasonable powers, trying to save lives, can adequately say that it has the consent of its citizens to act in a certain way. Darren Millar is right: the discussion around consent and what constitutes consent was not helped by the somewhat chaotic evidence that was sometimes produced to the committee by the former Minister for health. However, those issues were provided with clarity by the new Minister for health during Stage 2.

Yr wyf yn croesawu'n fawr iawn y penderfyniad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflwyno'r gwelliant sy'n ymddangos ar yr agenda. Mae hyn yn sicr yn cryfhau'r hyn sydd eisoes ar wyneb y Bil. Mae'n bwysig oherwydd dau bwynt sydd wedi eu hailadrodd yn rhannol yma y prynhawn hwn gan siaradwyr blaenorol. Trwy gydol cyfnod y craffu ar y Bil, dywedwyd wrthym dro ar ôl tro na fyddai newid y ddeddfwriaeth yn unig yn ddigon i gyflawni nodau datganedig pob un ohonom yn y Siambr hon a'r rhai y tu allan i'r Siambr hon, sydd â safbwyntiau ar ddwy ochr y ddadl, a'r nod hwnnw yw cynyddu nifer y bywydau y gallwn eu hachub o ganlyniad i drawsblannu. Ni fydd deddfwriaeth yn unig yn ddigon i wneud hynny. Felly, mae'r ymgyrch gyhoeddusrwydd yn bwysig fel ein bod yn parhau i gael sgysiau ac annog eraill i gael sgysiau am y pwnc pwysig hwn. Nid yw siarad am y pethau hyn yn hawdd. Fel cymdeithas, rwyf yn meddwl ein bod yn hynod ofergoelus: mae'n ymddangos weithiau y gallai dim ond awgrymu trafodaeth am y pethau hyn, mewn rhyw ffordd, wneud hynny'n fwy tebygol o ddigwydd i chi neu un o'ch anwyliad. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r trafodaethau hynny ddigwydd. Mae angen i ni fod yn glir iawn am ein barn ni, a barn ein teuluoedd, ar y pwnc hwn. Dim ond trwy gael y trafodaethau hynny, a chael y cyhoeddusrwydd hwn am yr hyn y gall rhoi organau ei wneud, y byddwn yn y pen draw yn cynyddu'r cyfraddau rhoi organau.

Mae hefyd yn bwysig, oherwydd, mewn rhai ardaloedd, nid yw'r Bil hwn yn rhagdybio cydsyniad ar gyfer amrywiol fathau o roi organau. Ceir mathau gwahanol o roi organau, sy'n gorwedd y tu allan i'r Bil hwn, ac nad ydynt wedi eu cynnwys, ac mae'n bwysig ein bod yn cael trafodaethau am y materion moesegol sy'n ymwneud â rhai o'r mathau hynny o roi organau rhoddion hynny. Fodd bynnag, i mi ac i fy ngrŵp, yn bwysicaf oll, mae'r ymgyrch gyhoeddusrwydd yn bwysig ar gyfer sefydlu'r egwyddor o gydsyniad. Yr hyn sydd wedi bod fwyaf blaenllaw yn fy meddwl, drwy gydol y drafodaeth hon, yw'r cwestiwn o ar ba bwynt y gall gwladwriaeth, neu weinyddiaeth ddatganoledig â phwerau rhesymol, sy'n ceisio achub bywydau, ddweud yn ddigonol bod ganddi ganiatâd ei dinasyddion i weithredu mewn modd arbennig. Mae Darren Millar yn iawn: ni fu'r dystiolaeth braidd yn ddryslyd a gyflwynwyd weithiau i'r pwyllgor gan y cyn Weinidog Iechyd o gymorth i'r drafodaeth ynghylch cydsyniad a'r hyn a olygir gan gydsyniad. Fodd bynnag, cafwyd eglurder ar y materion hynny gan y Gweinidog Iechyd newydd yn ystod Cyfnod 2.

For us to establish consent, the Government needs to have made every effort to ensure that its citizens are aware of the regime in which it operates. I believe that the strengthened amendment put before us allows the Government to proceed in that way. We need to ensure that our citizens have had access, whoever they are, however old they are and whichever community they live in, to an opportunity to engage in this debate and to understand the consequences of their action. I do not perceive consent, or not registering, to be a passive act: by not registering, that is consent. I know that we will go on to debate what constitutes poor man's consent, as the amendments go forward today, but, without this amendment brought forward by the Government, I would have had concerns about the adequacy of the provisions for publicity as they were currently drafted. I am further reassured by the Minister's intention to bring forward additional resources to fund that campaign. For those reasons, the Welsh Liberal Democrats will support amendment 1 this afternoon.

Turning to amendment 66 in the name of Angela Burns, I think that Angela is right to draw our attention to the particular needs of this section of our society. These are young people who will find themselves moving from a position where the law does not affect them to a position where the law does affect them. They need to be in a position to make a decision about what actions they choose to pursue. However, I have listened carefully to the Minister and I agree that, while there is great merit in singling out this particular group, there are challenges for other groups as well. For instance, we need to ensure that the publicity campaign communicates with people through a variety of languages—the official languages of Wales, but also minority ethnic languages. We received a great deal of evidence about the particular issues of communicating around organ donation with those particular communities in Wales. We also need to look at a particular issue around people moving into Wales. Is there a way we can identify people as they register to vote, for instance, or for council tax purposes, to inform them that they have moved into a jurisdiction with different issues? I know, from discussions with the Minister, that his publicity campaign will take account of these issues and, therefore, I will not support amendment 66 this afternoon.

Er mwyn i ni sefydlu cydsyniad, mae angen i'r Llywodraeth fod wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod ei dinasyddion yn ymwybodol o'r drefn y mae'n gweithredu oddi mewn iddi. Rwyf yn credu bod y gwelliant cryfach sydd wedi'i gyflwyno ger ein bron yn caniatáu i'r Llywodraeth fwrw ymlaen yn y ffordd honno. Mae angen i ni sicrhau bod ein dinasyddion, pwy bynnag yr ydynt, pa mor hen bynnag yr ydynt a pha gymuned y maent yn byw ynddi, wedi cael cyfle i gymryd rhan yn y drafodaeth hon ac i ddeall canlyniadau eu gweithredoedd. Nid wyf yn ystyried bod cydsyniad, neu beidio â chofrestru, yn weithred oddefol: trwy beidio â chofrestru, dyna yw rhoi cydsyniad. Gwn y byddwn yn mynd ymlaen i drafod yr hyn a olygir gan gydsyniad ail ddosbarth, wrth i'r gwelliannau fynd yn eu blaenau heddiw, ond, heb y gwelliant hwn a gyflwynwyd gan y Llywodraeth, byddai gennyf bryderon am ddigonolrwydd y darpariaethau ar gyfer cyhoeddusrwydd fel y meint wedi eu drafftio ar hyn o bryd. Mae bwriad y Gweinidog i roi mwy o adnoddau i ariannu'r ymgyrch honno yn rhoi mwy fyth o sicrwydd i mi. Am y rhesymau hynny, bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi gwelliant 1 y prynhawn yma.

Gan droi at welliant 66 yn enw Angela Burns, rwyf yn meddwl bod Angela yn iawn i dynnu ein sylw at anghenion penodol y rhan hon o'n cymdeithas. Mae'r rhain yn bobl ifanc a fydd yn symud o sefyllfa lle nad yw'r gyfraith yn effeithio arnynt i sefyllfa lle y bydd y gyfraith yn effeithio arnynt. Mae angen iddynt fod mewn sefyllfa i wneud penderfyniad ynghylch pa gamau y maent am ddewis eu dilyn. Fodd bynnag, yr wyf wedi gwrandao'n ofalus ar y Gweinidog ac yr wyf yn cytuno, er bod cryn rinwedd mewn rhoi sylw penodol i'r grŵp arbennig hwn, y ceir heriau i grwpiau eraill yn ogystal. Er enghraifft, mae angen i ni sicrhau bod yr ymgyrch gyhoeddusrwydd yn cyfathrebu â phobl drwy amrywiaeth o ieithoedd—ieithoedd swyddogol Cymru, ond hefyd drwy ieithoedd lleiafrifoedd ethnig. Cawsom lawer iawn o dystiolaeth am y materion penodol o gyfathrebu ynglŷn â rhoi organau gyda'r cymunedau penodol hynny yng Nghymru. Mae angen i ni edrych hefyd ar y mater penodol o bobl sy'n symud i mewn i Gymru. A oes ffordd i ni allu nodi pobl wrth iddynt gofrestru i bleidleisio, er enghraifft, neu at ddibenion y dreth gyngor, i'w hysbysu eu bod wedi symud i awdurdodaeth lle y ceir materion gwahanol? Yr wyf yn gwybod, o drafodaethau â'r Gweinidog, y bydd ei ymgyrch gyhoeddusrwydd yn ystyried y materion hyn ac, felly, ni fyddaf yn cefnogi gwelliant 66 y prynhawn yma.

I preface my remarks by saying that I have tabled all of my amendments in my personal capacity as an Assembly Member. We are not whipped in this group at all on this. My intention with this Bill was to try to add to it, rather than to take away. I can honestly tell you, Minister, that I still do not know which way I am going to vote in two hours' time. Last week, I was going to vote for it; a couple of days later, I was going to vote against it, and then for it again. In my time as an Assembly Member and, if I am honest, in my adult life, I have never had to make a decision that has weighed so heavily upon my heart and my soul, because I am making it not just for me or for my family, but for my country. It is incredibly important. So, I will be listening very clearly and keenly to everything that you and other Members say.

I would like to speak to amendment 66 particularly, because, Minister, I am fully cognisant of the fact that section 2 of the Bill requires this and any subsequent Government to promote transplantation. I understand that, if it is tested in a court of law, the Government would have to be able to prove beyond all doubt that it had done just that: that it had attempted to communicate the information to a degree that the court would recognise as 'reasonable'. However, I suggest that you have another look at my amendment, because, while I am aware, as Kirsty Williams has already said, that information on and the promotion of transplantation should reach all sectors, I feel that the young are incredibly hard to reach and to engage with. Many young people do not feel at all connected with politics, with the state, with 'them'—them over there, who have to run things—and they also use communication methodology that is extremely difficult. You try tweeting this Bill in 140 characters in a dispassionate, illuminating and engaging way that provides balance: it is very difficult. However, we have them in schools and we have the opportunity to talk to them—to talk to them at a time in their lives when they are going through enormous transitions.

Cyn dod at fy sylwadau rwyf am ddweud fy mod wedi cyflwyno fy holl welliannau yn fy rhinwedd bersonol fel Aelod Cynulliad. Nid ydym yn cael ein chwipio yn y grŵp hwn o gwbl ar hyn. Fy mwriad gyda'r Bil hwn oedd ceisio ychwanegu ato, yn hytrach na thynnu i ffwrdd. Gallaf ddweud yn onest wrthy, Weinidog, fy mod yn dal heb fod yn gwybod pa ffordd yr wyf yn mynd i bleidleisio ymhen dwy awr. Yr wythnos diwethaf, yr oeddwn yn mynd i bleidleisio o blaid hyn; diwrnod neu ddau yn ddiweddarach, roeddwn yn mynd i bleidleisio yn ei erbyn, ac yna o'i blaid eto. Yn ystod fy nghyfnod fel Aelod o'r Cynulliad ac, os wyf yn onest, yn fy mywyd fel oedolyn, nid wyf erioed wedi gorfod gwneud penderfyniad sydd wedi pwyso mor drwm ar fy nghalon a'm henaid, oherwydd yr wyf yn gwneud hyn nid yn unig i mi neu fy nheulu, ond dros fy ngwlad hefyd. Mae'n eithriadol o bwysig. Felly, byddaf yn gwrandao'n eiddgar ac yn astud iawn ar bopeth y byddwch chi ac Aelodau eraill yn ei ddweud.

Hoffwn siarad am welliant 66 yn benodol, oherwydd, Weinidog, yr wyf yn llwyr ymwybodol o'r ffaith bod adran 2 y Bil yn gofyn i'r Llywodraeth hon ac unrhyw Lywodraeth ddilynol hyrwyddo trawsblannu. Deallaf, pe byddai'n cael ei brofi mewn llys barn, y byddai'n rhaid i'r Llywodraeth fod yn gallu profi y tu hwnt i bob amheuaeth ei bod wedi gwneud yn union hynny: ei bod wedi ceisio cyfleu'r wybodaeth i'r graddau y byddai'r llys yn ei gydnabod yn 'rhesymol'. Fodd bynnag, awgrymaf eich bod yn cael golwg arall ar fy ngwelliant, oherwydd, er fy mod yn ymwybodol, fel y mae Kirsty Williams eisoes wedi ei ddweud, y dylai gwybodaeth am hyrwyddo trawsblannu gyrraedd pob sector, rwyf o'r farn ei bod yn hynod o anodd cyrraedd ac ymgysylltu â phobl ifanc. Mae llawer o bobl ifanc nad ydynt yn teimlo cysylltiad â gwleidyddiaeth, â'r wladwriaeth, â 'nhw'—nhw fan draw, sy'n gorfod rhedeg pethau—ac maent hefyd yn defnyddio dull anodd dros ben ar gyfer cyfathrebu. Ceisiwch chi drydaru'r Bil hwn mewn 140 o nodau mewn modd diduedd, dadlennol a diddorol sy'n cynnig cydbwysedd: mae'n anodd iawn. Fodd bynnag, maent mewn ysgolion ac mae gennym y cyfle i siarad â nhw—i siarad â nhw ar adeg yn eu bywydau pan fyddant yn mynd trwy gyfnodau o newid enfawr.

There are two important things about this Bill. It is not just about trying to get more organs available to transplant. If this Bill is successful, over the next two years and into the future, it will have raised the level of debate in this country about transplantation. It will have made more and more people think about it and, hopefully, opt in, either completely or partially, or it will have made people maybe say, 'Actually, it is not for me' and opt out. However, the point is that, what we really want, in 20 or 10 years' time, is to have a nation and a culture in which the concept of transplantation is not a taboo subject, and we are prepared to think about whether we would donate our child's organs, those of our husband or wife, or our parents' organs, because those are the really difficult things to do. You are absolutely right, Kirsty Williams, to say that we are very superstitious. I carry an organ donation card, but, I will tell you now, if I were asked whether I could sign one on behalf of my small child, I could not do that just yet; I am not there. I am only human and I am a mum first. I am a person who is trying to make a very difficult decision. I think, if we can talk to our 16, 17 and 18-year-olds, they will have a much more mature outlook on this than I currently have, because it will become part of a healthy debate.

I appreciate your comments that you have talked to the Minister for Education and Skills about putting this whole thing into the curriculum, but there are too many ifs and buts. What if, in five years' time, the funding for this moves on and councils just have to find it themselves? What if the curriculum changes? I would like to see it on the face of the Bill, because that ensures that tomorrow and the day after, and in the years to come, we in Wales will be helping our young people to reach, at a critical time in their lives, a very mature decision that will enhance the whole of our cultural identity as a nation. Boy oh boy, when you have the kids in front of you, talk to them: it is a good time to do it. Do not try to do it afterwards, because it is very difficult. So, I would ask all Members to consider my amendment.

17:24 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have added my name in support for Angela Burns's amendment, and I have done so specifically. I welcome the amendment brought forward by the Minister for health, Mark Drakeford, because the simple reality is that, if you do not know about your rights or options, you cannot exercise them. That is why the education programme is so key. For me, it is a great shame that the Welsh Government has not advised people of their opportunity to join the organ donation register prior to this.

17:25 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Actually, whatever my criticisms of the Government are, and they are many, as you know, the Government in successive incarnations has put a lot of publicity into organ donation. One thing that Wales can be really proud of is that we have one of the best rates of people signing up to the organ donation register. I would not want people to think that we have not tried this approach collectively as an institution. We have done so with a great deal of success.

Mae dau beth pwysig am y Bil hwn. Nid dim ond ceisio cael mwy o organau ar gael i'w trawsblannu yw'r nod. Pe byddai'r Bil hwn yn llwyddiannus, dros y ddwy flynedd nesaf ac yn y dyfodol, bydd wedi codi lefel y drafodaeth ynglŷn â thrawsblannu yn y wlad hon. Bydd wedi gwneud i fwy a mwy o bobl ystyried y peth a, gobeithio, byddant yn dewis optio i mewn, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, neu efallai y bydd wedi gwneud i bobl ddweud, 'A dweud y gwir, nid yw hyn yn iawn i mi' ac optio allan. Fodd bynnag, y pwynt yw mai'r hyn yr ydym wir ei eisiau, ymhen 20 neu 10 mlynedd, yw cael cenedl a diwylliant lle nad yw'r cysyniad o drawsblannu yn bwnc tabŵ, a'n bod yn barod i ystyried pa un a fyddem yn rhoi organau ein plentyn, rhai ein gwŷr neu wraig, neu organau ein rhieni', oherwydd dyna'r pethau sy'n anodd iawn eu gwneud. Yr ydych yn hollol iawn, Kirsty Williams, i ddweud ein bod yn ofergoelus iawn. Rwyf i'n cario cerdyn rhoi organau, ond pe gofynnid i mi lofnodi un ar ran fy mhentyn bach, ni allwn wneud hynny eto, nid wyf wedi cyrraedd y pwynt hwnnw. Nid wyf ond meidrol ac yr wyf yn fam yn gyntaf. Rwyf yn berson sy'n ceisio gwneud penderfyniad anodd iawn. Mi gredaf, os gallwn ni siarad â'n plant 16, 17 a 18 mlwydd oed, bydd ganddynt agwedd llawer mwy aeddfed ar hyn nag sydd gennyf fi ar hyn o bryd, oherwydd y bydd yn dod yn rhan o ddadl iach.

Yr wyf yn gwerthfawrogi eich sylwadau i nodi eich bod wedi siarad â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ynglŷn â chynnwys yr holl beth yn y cwricwlwm, ond mae gormod o os ac oni bai. Beth petai, ymhen pum mlynedd, y cyllid ar gyfer hyn yn symud yn ei flaen a bod angen i gynghorau ddod o hyd i'r arian eu hunain? Beth petai'r cwricwlwm yn newid? Hoffwn ei weld ar wyneb y Bil, oherwydd mae hynny'n sicrhau y byddwn ni yng Nghymru, yfory a'r diwrnod wedyn, ac yn y blynyddoedd i ddod, yn helpu ein pobl ifanc, ar adeg dyngedfennol yn eu bywydau, i wneud penderfyniad aeddfed iawn a fydd yn gwella ein hunaniaeth ddiwylliannol gyfan fel cenedl. Cofiwch, pan fydd gennych y plant o'ch blaen, siaradwch â nhw: mae'n amser da i wneud hynny. Peidiwch â cheisio gwneud hynny wedyn, oherwydd mae'n anodd iawn. Felly, gofynnaf i bob Aelod ystyried fy ngwelliant.

Rwyf wedi ychwanegu fy enw i gefnogi gwelliant Angela Burns, ac yr wyf wedi gwneud hynny yn benodol. Rwyf yn croesawu'r gwelliant a gyflwynwyd gan y Gweinidog Iechyd, Mark Drakeford, oherwydd y gwirionedd syml yw, os nad ydych yn gwybod am eich hawliau neu pa ddewisiadau sydd gennych, nid ydych yn gallu eu defnyddio. Dyna pam y mae'r rhaglen addysg mor allweddol. Yn fy marn i, mae'n drueni mawr nad yw Llywodraeth Cymru wedi cynghori pobl o'u cyfle i ymuno â'r gofrestr rhoi organau cyn hyn.

A dweud y gwir, beth bynnag yw fy meirniadaeth o'r Llywodraeth, ac maent yn niferus, fel y gwyddoch, mae'r Llywodraeth, ar ffurfiau gwahanol dros gyfnod, wedi rhoi llawer o gyhoeddusrwydd i roi organau. Un peth y gall Cymru fod yn wirioneddol falch ohono yw bod gennym un o'r cyfraddau gorau o bobl sy'n ymuno â'r gofrestr rhoi organau. Ni fyddwn am i bobl feddwl nad ydym wedi rhoi cynnig ar y dull hwn ar y cyd fel sefydliad. Rydym wedi gwneud hynny gyda llawer iawn o lwyddiant.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:25

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to hear that, but, in the last five years, I have not received any information on organ donation and I think that a lot of additional steps could have been taken. I agree with Darren Millar that there is a concern when the state deems consent, and that is why education is so crucial.

One of the reasons why I support Angela Burns's amendment is because it embeds this into the education agenda, particularly if it is done at the age of 15, when it is a legal requirement for people to be at school. It is then embedded into agenda and it has to be dealt with at that stage.

A series of amendments have been tabled to later parts of the Bill that deal with such things as Gillick competence, and I think it is really important that there is that embedding into the school curriculum, particularly where information is provided in an impartial way that truly informs people of their ability to consent. So, I urge Assembly Members to support Angela Burns's amendment 66, and I will also be supporting the Minister's amendment 1.

Rwyf yn falch o glywed hynny, ond, yn ystod y pum mlynedd diwethaf, nid wyf wedi derbyn unrhyw wybodaeth am roi organau ac yr wyf o'r farn y gellid bod wedi cymryd llawer o gamau ychwanegol. Yr wyf yn cytuno â Darren Millar bod pryder pan fydd y wladwriaeth yn rhagdybio cydsyniad, a dyna pam y mae addysg mor hanfodol.

Un o'r rhesymau pam yr wyf yn cefnogi gwelliant Angela Burns yw oherwydd ei fod yn ymsefydlu hyn yn yr agenda addysg, yn enwedig os caiff ei wneud yn 15 oed, pan ei fod yn ofyniad cyfreithiol i bobl fod yn yr ysgol. Mae wedyn yn cael ei ymsefydlu yn yr agenda ac mae'n rhaid ymdrin â'r mater ar yr adeg honno.

Mae cyfres o welliannau wedi eu cyflwyno i rannau diweddarach y Bil sy'n ymdrin â phethau fel cymhwysedd Gillick, ac yr wyf yn credu ei bod yn bwysig iawn eu bod yn cael eu hymsefydlu yn y cwricwlwm ysgol, yn enwedig pan roddir gwybodaeth mewn modd diduedd sy'n hysbysu pobl mewn gwirionedd am eu gallu i roi eu cydsyniad. Felly, yr wyf yn annog Aelodau'r Cynulliad i gefnogi gwelliant 66 Angela Burns, a byddaf hefyd yn cefnogi gwelliant 1 y Gweinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:27

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:27

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I express my gratitude for the support around the Chamber for the Government's amendment. As I said, the amendment is the result of discussion in the Health and Social Care Committee, and I am glad of the chance to bring it forward. A number of Members made some very important points about the reasons for the need for such an education campaign. From the beginning, when my predecessor, Lesley Griffiths, introduced the Bill, it was clear that that campaign was not simply about the practical nature of the new system, but about the fundamentals of the system in the way that Kirsty Williams explained. It was about making sure that people in Wales understood that deemed consent is active consent, and, if you choose to do it that way, you are making an active choice in doing so. That is what that campaign is for, and I am very grateful for the support around the Chamber.

I will be listening carefully to what Angela Burns has to say throughout the debate. I understand from the outset that the amendments in her name this afternoon are all there because of her wish to make the Bill a better Bill. However, I still have to say, having heard what she said, that there is a judgment to be made as to how much detail we feel we must pile into the Bill because we feel that we cannot trust the future and because we cannot be sure that things will always be done exactly in the way that we want them to be done.

Mynegaf fy niolch am y gefnogaeth o gwmpas y Siambr ar gyfer gwelliant y Llywodraeth. Fel y dywedais, mae'r gwelliant o ganlyniad i drafodaeth yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac yr wyf yn falch o gael y cyfle i'w gyflwyno. Mae nifer o Aelodau wedi gwneud rhai pwyntiau pwysig iawn am y rhesymau dros yr angen am ymgyrch addysg o'r fath. O'r dechrau, pan gyflwynodd fy rhagflaenydd, Lesley Griffiths, y Bil, roedd yn amlwg nad oedd yr ymgyrch honno am natur ymarferol y system newydd yn unig, ond am hanfodion y system yn y ffordd yr eglurodd Kirsty Williams. Roedd yn ymwneud â sicrhau bod pobl yng Nghymru yn deall bod cydsyniad tybiedig yn gydsyniad ymarferol, ac, os byddwch yn dewis gwneud felly, rydych yn gwneud dewis ymarferol wrth wneud hynny. Dyna bwrpas yr ymgyrch hon, ac yr wyf yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth o gwmpas y Siambr.

Byddaf yn gwrando'n ofalus ar yr hyn sydd gan Angela Burns i'w ddweud trwy gydol y ddatl. Yr wyf yn deall o'r cychwyn bod y diwygiadau yn ei henw y prynhawn yma i gyd yno oherwydd ei dymuniad i wneud y Bil yn un gwell. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi ddweud, ar ôl clywed yr hyn a ddywedodd, bod rhaid gwneud penderfyniad ynghylch faint o fanylion yr ydym yn credu y mae'n rhaid i ni bentyrru i mewn i'r Bil oherwydd ein bod yn teimlo na allwn ymddiried yn y dyfodol, ac oherwydd na allwn fod yn sicr y bydd pethau bob amser yn cael eu gwneud yn union yn y ffordd yr ydym yn dymuno iddynt gael eu gwneud.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am very pleased to restate some of the things that I said in opening this part of this afternoon's debate. We understand the need to make sure that our education system—our schools and further education colleges that have the privilege of working with young people at this part of their lives—

Yr wyf yn falch iawn o aildatgan rhai o'r pethau a ddywedais wrth agor y rhan hon o ddafl y prynhawn yma. Rydym yn deall yr angen i wneud yn siŵr bod ein system addysg—ein hysgolion a'n colegau addysg bellach sy'n cael y fraint o weithio gyda phobl ifanc yn ystod y cyfnod hwn o'u bywydau—

17:29 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for giving way. I understand what you are saying about you can pile too much into a Bill and you have to have a certain trust in the future, but Angela Burns's amendment relates to a specific age group—15 to 17—which many people in this Chamber, including you, say should be targeted. Surely, it is a detail that would add to the Bill.

Diolch am ildio. Rwyf yn deall yr hyn yr ydych yn ei ddweud am bentyrru gormod i mewn i Fil ac mae'n rhaid i chi gael rhywfaint o ffydd yn y dyfodol, ond mae gwelliant Angela Burns yn ymwneud â grŵp oedran penodol—15 i 17—y mae llawer o bobl yn y Siambr hon, gan eich cynnwys chi, yn dweud y dylent gael eu targedu. Onid yw'n amlwg ei fod yn fanylyn a fyddai'n gwella'r Bil.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:29 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that the only difference between me, Nick and Angela Burns on this is not about the end—it is simply about the means. I am making a series of commitments on the record here this afternoon about what we as a Government will do, working through the services over which we have control in education and health. We make one further specific commitment that, using GP records, which are one of the few things through which almost every person in the country is contactable, we will write, individually and explicitly, to every young person, as they move from 17 to 18 years of age, giving them information about this Bill and what it will mean for them. I give you that commitment without the need for an amendment. I give you the commitment that we will work through the schools and further education colleges without the need for an amendment. I give you a commitment that our communication plan already has new funds set out in it to make a special effort to ensure that young people, for all of the reasons that Angela set out, will have the information that they need. We will do that; we do not need the amendment to do it, but we will do it nevertheless.

Rwyf yn meddwl mai'r unig wahaniaeth rhyngof i, Nick ac Angela Burns ynglyn â hyn, yn syml, yw'r modd o'i wneud—nid y canlyniad. Rwyf yn gwneud cyfres o ymrwymadau ar y cofnod yma y prynhawn yma am yr hyn y byddwn ni fel Llywodraeth yn ei wneud, gan weithio drwy'r gwasanaethau y mae gennym reolaeth drostynt ym meysydd addysg ac iechyd. Rydym yn gwneud un ymrwymiad penodol arall, gan ddefnyddio cofnodion meddygon teulu, sy'n un o'r ychydig ffyrdd o allu cysylltu â bron bob person yn y wlad, y byddwn yn ysgrifennu, yn unigol ac yn benodol, at bob person ifanc, wrth iddynt symud o fod yn 17 i fod yn 18 mlwydd oed, i roi gwybodaeth iddynt am y Bil hwn a'r hyn y bydd yn ei olygu iddyn nhw. Rwyf yn rhoi'r ymrwymiad hwnnw i chi heb fod angen am welliant. Rwyf yn rhoi ymrwymiad i chi y byddwn yn gweithio trwy'r ysgolion a'r colegau addysg bellach heb fod angen am welliant. Rwyf yn rhoi ymrwymiad chi fod cronfeydd newydd wedi eu nodi yn ein cynllun cyfathrebu eisoes i wneud ymdrech arbennig i sicrhau bod pobl ifanc, am yr holl resymau y nododd Angela, yn derbyn y wybodaeth y maent ei hangen. Byddwn yn gwneud hynny, nid oes angen y gwelliant i wneud hynny, ond byddwn yn ei wneud beth bynnag.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 1 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 1 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 1.

Amendment 1 agreed.

Grŵp 2: Adnoddau i Fyrddau Iechyd Lleol (Gwelliant 40)

Group 2: Resources for Local Health Boards (Amendment 40)

17:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The only amendment in this group is amendment 40. I call on Elin Jones to move amendment 40 and to speak to the amendment.

Yr unig welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 40. Galwaf ar Elin Jones i gyflwyno gwelliant 40 ac i siarad am y gwelliant.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:31 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cynigiai welliant 40 yn fy enw i.

I move amendment 40 in my name.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cawsom lot o dystiolaeth yn ystod y cyfnod craffu yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ond efallai mai'r darn o dystiolaeth a wnaeth yr argraff fwyaf arnaf oedd y dystiolaeth gan Phil Walton, nyrs arbenigol ar roi organau o Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Eglurodd y dystiolaeth hon i ni, fel aelodau'r pwyllgor, sensitifwydd y gwaith y mae'r staff arbenigol nyrsio a chlinigol yn ymdrin ag ef wrth drafod rhoi organau gyda theulu a chyda ffrindiau wrth erchwyn gwely angau yr unigolyn yn yr ysbty.

Fodd bynnag, yr hyn a oedd, o bosibl, fwyaf trawiadol am y dystiolaeth honno oedd bod Phil Walton yn medru rhoi i ni ffigurau penodol a oedd yn nodi bod presenoldeb nyrs arbenigol yn yr ysbty ar y pryd yn codi canran cytuno i roi organau i tua 75%, pan yn absenoldeb nyrs arbenigol mae'r ganran ond tua 50%. Pwrpas y gwelliant o'ch blaenau heddiw, felly, yw ymrwymo'r Llywodraeth ar wyneb y ddeddfwriaeth i sicrhau bod gan y byrddau iechyd lleol y cymwyseddau a'r sgiliau arbenigol sy'n ofynnol at ddibenion y ddeddfwriaeth hon.

Roedd Phil Walton, y nyrs arbenigol, yn gefnogol o'r angen am ddeddfwriaeth i gefnogi ei waith. Fodd bynnag, mae gwir lwyddiant y ddeddfwriaeth hon yn mynd i ddibynnu ar Phil Walton a'i debyg fel nyrsys arbenigol i gyflawni eu gwaith o dan amgylchiadau sensitif ac o dan gyfundrefn ddeddfwriaethol newydd y byddwn yn ei chymeradwyo heddiw. Nid oedd yn bosibl i mi gyflwyno gwelliant a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysbty yng Nghymru gael Phil Walton ar eu staff, ond o'ch blaen y prynhawn yma—ac rwy'n gobeithio cael eich cefnogaeth—y mae'r gofyniad i'w gwneud yn ofynnol ar wyneb y ddeddfwriaeth i'r Llywodraeth sicrhau bod y sgiliau a'r cymwyseddau ar gael ymhob bwrdd iechyd i wneud y ddeddfwriaeth hon yn llwyddiannus ac i gynyddu nifer yr organau a fydd ar gael yn dilyn y ddeddfwriaeth hon yng Nghymru.

In the Health and Social Care Committee, we took a great deal of evidence during the scrutiny period, but perhaps the piece of evidence that made most of an impression on me was the evidence from Phil Walton, a specialist nurse specialising in organ donation from Hywel Dda Local Health Board. This evidence explained to us, as committee members, the sensitivity of the work that the specialist nursing and clinical staff do in discussing organ donation with family and friends on the individual's deathbed at hospital.

However, what was most striking, perhaps, about that evidence was that Phil Walton could give us specific figures that noted that the attendance of a specialist nurse at hospital at that time increased the percentage of consent to around 75%, when in the absence of a specialist nurse the percentage is only around 50%. The purpose of the amendment before you today, therefore, is to commit the Government on the face of the legislation to ensure that local health boards have the skills and competencies required for the purposes of this legislation.

Phil Walton, the specialist nurse, was very supportive of the need for legislation to support his work. However, the real success of this legislation will depend on Phil Walton and his like as specialist nurses to carry out their work under sensitive circumstances and under a new legislative regime that we will be approving today. It was not possible for me to introduce an amendment that would make it a requirement for every hospital in Wales to have Phil Walton on their staff, but before you today—and I hope that you will support this—is a requirement on the face of the legislation to require the Government to ensure that the skills and competencies are in place in each and every health board to make this legislation a success and to increase the number of organs that will be available as a result of this legislation introduced in Wales.

17:33

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I rise to speak in support of amendment 40 in the name of Elin Jones. In the words of the Royal College of Nursing,

'identifying larger numbers of willing donors is only valuable if the supporting infrastructure is able to cope'.

We, as a committee, we found that there were concerns raised throughout the committee stage about whether the existing system had the capacity to cope with an increase in organ donation.

Codaf i siarad o blaid gwelliant 40 yn enw Elin Jones. Yng ngeiriau'r Coleg Nyrsio Brenhinol:

Nid yw nodi mwy o bobl sy'n barod i roi organau yn werthfawr heblaw bod y seilwaith sy'n cefnogi hynny'n gallu ymdopi'.

Gwelsom ni, fel pwyllgor, bod pryderon yn cael eu codi drwy gydol y cyfnod pwyllgor yn ymwneud â pha un a oedd y gallu gan y system bresennol i ymdopi â chynnydd mewn rhoi organau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The biggest area of concern was around critical care capacity, an issue that Kirsty Williams quite rightly raised during First Minister's questions. We were told that there were individuals who were being turned down for transplantation activity, even though they were in a state that was appropriate for transplantation activity to take place, because of a shortage of critical care beds. We know, to be fair to the Minister, that he has instigated a review of critical care capacity in Wales, and I have no doubt that there are inefficiencies in the current critical care system that may lead to improvements being made after the review, which may expand that provision. However, it is a matter of deep regret that we do not have any assurances on critical care capacity at this late stage in the day, when we are having such an important debate here in the Assembly.

Of course, it is not the critical care capacity that Elin Jones's amendment seeks to address, but the issue of specialist skills and competencies that might be needed by individual members of staff across health boards in Wales to make sure that the system is able to cope and is able to promote organ donation effectively. I was struck by the comments of the British Heart Foundation representatives at the committee stage, who told us that the system needed investment in ongoing training to implement and operate in a soft opt-out system for healthcare professionals. We know that as a result of some of the investment that has already gone into training, we have seen a 50% increase in organ donation across the United Kingdom since 2008. This has largely been down to specialist nurses such as Phil Walton, to whom Elin referred in her contribution—a specialist nurse embedded within the NHS making himself available to ask those very difficult questions in a timely way, when a transplantation opportunity arrives.

It is absolutely right to draw attention to the success rate when a specialist nurse who has been properly trained asks the question about organ donation to the family of someone who has died without making their wishes known. Seventy-five per cent of those families will give consent for a transplantation activity to take place. When it is a clinician who has not received specialist training, and who does not have the competencies that those specialist nurses have, asks the question, that figure falls to one in two refusals to consent. So, it is very important that the Minister has a clear duty in law to make sure that those skills are available throughout the NHS and that there is a proper, adequately resourced training programme in place to make sure that those transplantation opportunities are not missed in the future. That is why I would urge Members to support Elin Jones's amendment in the Chamber today.

Y maes a oedd yn achosi'r pryder mwyaf oedd y gallu o ran gofal critigol, mater a godwyd yn gwbl briodol gan Kirsty Williams yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog. Dywedwyd wrthym fod unigolion yn cael eu gwrthod ar gyfer gweithgaredd trawsblannu, er eu bod mewn cyflwr a oedd yn briodol i'r gweithgaredd trawsblannu hwnnw ddigwydd, oherwydd prinder gwelyau gofal critigol. Rydym yn gwybod, i fod yn deg â'r Gweinidog, ei fod wedi cychwyn adolygiad o'r gallu o ran gofal critigol yng Nghymru, ac nid oes gennyf unrhyw amheuaeth bod aneffeithiolrwydd yn y system gofal critigol gyfredol a allai arwain at welliannau'n cael eu gwneud ar ôl yr adolygiad, a gallai hynny ehangu'r ddarpariaeth honno. Fodd bynnag, mae'n destun gofid mawr nad oes gennym unrhyw sicrwydd ynghylch y gallu o ran gofal critigol a hithau mor hwyr, pan ein bod yn cael dadl mor bwysig yma yn y Cynulliad.

Wrth gwrs, nid y gallu o ran gofal critigol y mae gwelliant Elin Jones yn ceisio mynd i'r afael ag ef, ond y mater o sgiliau a chymwyseddau arbenigol y gallai fod eu hangen gan aelodau unigol o staff ar draws byrddau iechyd yng Nghymru i sicrhau bod y system yn gallu ymdopi ac yn gallu hyrwyddo rhoi organau yn effeithiol. Gwnaed argraff arnaf gan sylwadau'r cynrychiolwyr o Sefydliad Prydeinig y Galon yn ystod y cyfnod pwyllgor, a ddywedodd wrthym fod y system angen buddsoddiad mewn hyfforddiant parhaus i weithredu a chynnal system optio allan meddal ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Rydym yn gwybod ein bod wedi gweld cynnydd o 50% mewn rhoi organau ledled y Deyrnas Unedig ers 2008, o ganlyniad i ran o'r buddsoddiad sydd eisoes wedi mynd i mewn i hyfforddiant. Mae hyn wedi digwydd yn bennaf oherwydd nyrsys arbenigol megis Phil Walton, y cyfeiriodd Elin ato yn ei chyfraniad—nyrs arbenigol yn y GIG sy'n sicrhau ei fod ar gael i ofyn y cwestiynau anodd iawn hynny mewn ffordd amserol, pan fydd cyfle ar gyfer trawsblannu yn codi.

Mae'n hollol iawn i dynnu sylw at y gyfradd llwyddiant pan fo nyrs arbenigol sydd wedi ei hyfforddi'n briodol yn gofyn y cwestiwn am roi organau i deulu rhywun sydd wedi marw heb nodi ei ddymuniadau. Bydd saith deg pump y cant o'r teuluoedd hynny yn rhoi eu cydsyniad i weithgaredd trawsblannu ddigwydd. Pan fydd clinigydd nad yw wedi derbyn hyfforddiant arbenigol, ac nad oes ganddo/ganddi'r cymwyseddau sydd gan y nyrsys arbenigol hynny, yn gofyn y cwestiwn, mae'r ffigur yn disgyn i un gwrthodiad ar gyfer pob dau gais am gydsyniad. Felly, mae'n bwysig iawn fod gan y Gweinidog ddyletswydd eglur yn y gyfraith i wneud yn siŵr bod y sgiliau hynny ar gael ar draws y GIG a bod rhaglen hyfforddi briodol ar waith, gydag adnoddau digonol, i wneud yn siŵr nad yw'r cyfleoedd trawsblannu hynny yn cael eu colli yn y dyfodol. Dyna pam y byddwn yn annog yr Aelodau i gefnogi gwelliant Elin Jones yn y Siambur heddiw.

The Welsh Liberal Democrats will support this amendment tabled by Elin Jones in group 2, and, in doing so, we would like to repeat the importance of the role of specialist nurses in this area. As Elin referred, there is a stark difference in terms of successfully obtaining a transplant if the question and the approach is made by a specialist nurse. It drops substantially when that permission is sought by another healthcare professional. There have been occasions in the past where potential organ donors have been lost to the system, because of the lack of a specialist nurse. It is clear that there is a direct correlation between the skills and competencies of those individuals and the successful agreement for organ transplantation.

However, the amendment is drawn more broadly than that. While we did not hear direct evidence during the committee stage on the issue of intensivists, those of us who were at the launch of the report into intensive care capacity know that, in the same way as we are having debates about the reconfiguration of paediatrics, A&E and obstetrics because of staff issues, the debate about where our intensive care and critical care beds go is not too far down the line, because of similar issues in ensuring that we can recruit, train and retain the very best intensivists in Wales. Therefore, I am grateful that the amendment is drawn more broadly, so that it covers the skills and competencies of other healthcare professionals, as well as specialist nurses.

I want to say a few words on other resources and the issue of critical care beds. I appreciate that the First Minister was under pressure during First Minister's questions this afternoon, but I raised the issue of the number of critical care beds, not as an excuse to vote against this Bill, because I and my Welsh Liberal Democrat colleagues will vote for this Bill; I did so, because I sat there and listened to the evidence of some of our most eminent clinicians—the First Minister is very keen on telling his colleagues to listen to the advice and evidence of Wales's clinicians—who told us quite clearly that the lack of investment in critical care beds could undermine the policy objectives that the First Minister and his Government seek to achieve. We were given evidence by some specialists of the inability to take advantage of an altruistic offer of donation because of a lack of a critical care bed. Clinicians also spoke of a situation where, in order to take advantage of an altruistic act of donation, other patients might have their operations cancelled because they cannot get into a critical care bed. It is not used as an excuse to vote against the Bill; it is a genuine concern that I believe the Welsh Government needs to address if it is to achieve its policy goals of an increase in transplantation.

Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r gwelliant hwn a gyflwynwyd gan Elin Jones yn grŵp 2, ac wrth wneud hynny, hoffem ailadrodd pwysigrwydd swyddogaeth nyrsys arbenigol yn y maes hwn. Fel y nododd Elin, ceir gwahaniaeth dybryd o ran cael trawsblaniad yn llwyddiannus os mai nyrs arbenigol sy'n gofyn y cwestiwn ac yn mynd at y teulu. Mae'n gostwng yn sylweddol pan geisir cydsyniad gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall. Bu achlysuron yn y gorffennol lle collwyd organau posibl o'r system oherwydd diffyg nyrs arbenigol. Mae'n amlwg bod cydberthynas uniongyrchol rhwng sgiliau a chymwyseddau yr unigolion hynny a chael cytundeb llwyddiannus ar gyfer trawsblannu organau.

Fodd bynnag, mae'r gwelliant yn fwy eang na hynny. Er na chlywsom dystiolaeth uniongyrchol yn ystod y cyfnod pwyllgor ar y mater o ddwysegwyr, mae'r rhai hynny ohonom a oedd yn lansiad yr adroddiad ar y gallu o ran gofal dwys yn gwybod, yn yr un modd ag yr ydym yn cael trafodaethau am ad-drefnu pediatreg, adrannau damweiniau ac achosion brys ac obstetreg oherwydd problemau staff, mae'r ddadl ynghylch ble y bydd ein gwelyau gofal dwys a gofal critigol yn mynd, yn un a fydd yn digwydd yn fuan, oherwydd materion tebyg o ran sicrhau ein bod yn gallu recriwtio, hyfforddi a chadw'r dwysegwyr gorau un yng Nghymru. Felly, yr wyf yn ddiolchgar bod y gwelliant yn fwy eang, sy'n golygu ei fod yn cwmpasu sgiliau a chymwyseddau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, yn ogystal â nyrsys arbenigol.

Hoffwn ddweud ychydig eiriau ar adnoddau eraill a'r mater gwelyau gofal critigol. Yr wyf yn sylweddoli bod y Prif Weinidog o dan bwysau yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog y prynhawn yma, ond codais y mater am nifer y gwelyau gofal critigol, nid fel esgus i bleidleisio yn erbyn y Bil hwn, oherwydd byddaf i a fy nghydweithwyr o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru yn pleidleisio o blaid y Bil hwn; ond oherwydd fy mod wedi eistedd yna yn gwrandao ar dystiolaeth rhai o'n clinigwyr mwyaf blaenllaw—mae'r Prif Weinidog yn awyddus iawn i ddweud wrth ei gydweithwyr i wrando ar gyngor a thystiolaeth clinigwyr Cymru—a ddywedodd wrthym yn eithaf clir y gallai diffyg buddsoddiad mewn gwelyau gofal critigol danseilio amcanion y polisi y mae'r Prif Weinidog a'i Lywodraeth yn ceisio eu cyflawni. Cawsom dystiolaeth gan rai arbenigwyr am yr anallu i gymryd mantais o gynnis anhumanol i roi organau oherwydd nad oedd gwely gofal critigol ar gael. Soniodd y clinigwyr hefyd am sefyllfa lle, er mwyn cymryd mantais o weithred anhumanol o roi organau, y gallai fod angen gohirio llawdriniaethau cleifion eraill oherwydd nad oes gwely gofal critigol ar gael ar eu cyfer. Nid yw'n cael ei ddefnyddio fel esgus i bleidleisio yn erbyn y Bil; mae'n bryder gwirioneddol yr wyf o'r farn bod angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael ag ef os yw am gyflawni ei nodau polisi o gynyddu'r cyfraddau trawsblannu.

I am grateful to Elin Jones for bringing this amendment before the Assembly today, focusing as it does on the need to have staff who have the specialist skills and competencies that will be required to enable this legislation to be a success. It is very similar in spirit to the amendment that she brought forward at Stage 2. Having reflected on what she said on that occasion and hearing the debate this afternoon, I am pleased to say that the Government will accept that amendment. In doing so, I need to place on record what I understand the amendment to mean, and therefore the terms on which the Government acceptance is based. I have interpreted Elin's amendment specifically in terms of the skills and competencies required to deliver in this very specific and sensitive field. Many of those skills are in fact provided to local health boards by NHS Blood and Transplant, which we direct.

I hear what both Darren Millar and Kirsty Williams have said about the specialist area of critical care. Members will be aware that we recently laid out our plans in a delivery plan for the critically ill: a plan drawn up directly on the basis of the advice of those most closely involved in providing critical care services here in Wales. We will spend the next two years making sure that we are making the maximum use of the facilities and the investment that we currently make in critical care facilities. It is clear to anyone reading that plan, as Members in this room will have done, that we do not currently get the maximum value for the investment and facilities that we have. The next two years will be devoted to making sure that we do. We recognise, however, as the First Minister said in answering during the First Minister's questions, that when we have done that, further investment is still likely to be needed. The critical care delivery plan recognises that very specifically. We will not be able to be certain about what level of investment will be needed until the next two years' work is concluded, but we recognise the basic argument that more investment is likely to be required. As we recognise that, I recognise that this Bill will require a specialist set of skills and competencies in staff engaged in all parts of the organ donation system. Without that, the new law would not be effective. In saying that, I have to be absolutely clear that this is not a hypothecating amendment as far as the Government is concerned. Indeed, I heard nothing in Elin Jones's introduction of her amendment that suggests that she regards the amendment in that light.

As far as funding is concerned, Members will be aware that we passed a financial resolution with regard to the Bill, therefore agreeing that resources from the Welsh consolidated fund should be spent on its implementation of the Bill. Assembly Members will have every opportunity in the future to question Ministers on their delivery of the requirements of the Bill in that regard if they need to do so. The regulatory impact assessment also sets out in considerable detail the level of resources to be devoted to the implementation of the legislation.

Yr wyf yn ddiolchgar i Elin Jones am ddod â'r gwelliant hwn gerbron y Cynulliad heddiw, gan ei fod yn canolbwyntio ar yr angen i gael staff sy'n meddu ar y sgiliau a'r cymwyseddau arbenigol a fydd yn ofynnol er mwyn galluogi'r ddeddfwriaeth hon i fod yn llwyddiant. Mae'n debyg iawn o ran ei naws i'r gwelliant a gyflwynodd hi yng Nghyfnod 2. Ar ôl myfrio ar yr hyn a ddywedodd ar yr achlysur hwnnw a chlywed y ddadl y prynhawn yma, rwyf yn falch o ddweud y bydd y Llywodraeth yn derbyn y gwelliant hwnnw. Wrth wneud hynny, y mae angen i mi gofnodi'r hyn yr wyf i yn ei gredu y mae'r gwelliant yn ei olygu, ac felly y telerau y mae derbyniad y Llywodraeth wedi eu seilio arnynt. Rwyf wedi dehongli gwelliant Elin yn benodol yn nhermau'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen i gyflawni yn y maes penodol a sensitif iawn hwn. Mae llawer o'r sgiliau hynny mewn gwirionedd yn cael eu darparu i fyrdau iechyd lleol gan Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, a gyfarwyddir gennym.

Rwyf wedi clywed yr hyn y mae Darren Millar a Kirsty Williams wedi ei ddweud am y maes arbenigol o ofal critigol. Bydd yr Aelodau yn ymwybodol ein bod yn ddiweddar wedi nodi ein cynlluniau mewn cynllun cyflawni ar gyfer y rhai sy'n ddifrifol wael: cynllun a luniwyd yn uniongyrchol ar sail y cyngor a gafwyd gan y rhai hynny sy'n ymwneud agosaf â darparu gwasanaethau gofal critigol yma yng Nghymru. Byddwn yn treulio'r ddwy flynedd nesaf yn gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud y defnydd mwyaf posibl o'r cyfleusterau a'r buddsoddiad yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd mewn cyfleusterau gofal critigol. Mae'n amlwg i unrhyw un sy'n darllen y cynllun hwnnw, fel y bydd yr Aelodau yn yr ystafell hon wedi ei wneud, nad ydym yn cael y gwerth gorau am y buddsoddiad a'r cyfleusterau sydd gennym ar hyn o bryd. Bydd y ddwy flynedd nesaf yn cael eu neilltuo i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud hynny. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, fel y dywedodd y Prif Weinidog wrth ateb yn ystod cwestiynau'r Prif Weinidog, pan fyddwn wedi gwneud hynny, y bydd mwy o fuddsoddiad yn debygol o fod yn angenrheidiol. Mae'r cynllun cyflenwi gofal critigol yn cydnabod hynny yn benodol iawn. Ni fyddwn yn gallu bod yn bendant ynghylch y lefel o fuddsoddiad y bydd ei angen hyd nes bod gwaith y ddwy flynedd nesaf wedi ei gwblhau, ond yr ydym yn cydnabod y ddadl sylfaenol y bydd mwy o fuddsoddiad yn debygol o fod yn angenrheidiol. Gan ein bod yn cydnabod hynny, yr wyf yn cydnabod y bydd y Bil hwn yn gofyn am gyfres arbenigol o sgiliau a galluoedd o ran staff sy'n ymwneud â phob rhan o'r system rhoi organau. Heb hynny, ni fyddai'r ddeddf newydd yn effeithiol. Wrth ddweud hynny, mae'n rhaid i mi fod yn gwbl glir nad gwelliant i neilltuo cyllid o safbwynt y Llywodraeth yw hwn. Mewn gwirionedd, ni chlywais unrhyw beth yng nghyflwyniad Elin Jones i'w gwelliant a oedd yn awgrymu ei bod yn ystyried y gwelliant yn y modd hwnnw.

Cyn belled ag y mae ariannu yn y cwestiwn, bydd yr Aelodau yn ymwybodol ein bod wedi pasio cynnig ariannol o ran y Bil, gan gytuno felly y dylai adnoddau o gronfa gyfunol Cymru gael eu gwario ar weithredu'r Bil. Bydd Aelodau'r Cynulliad yn cael pob cyfle yn y dyfodol i holi Gweinidogion ynglyn â'u darpariaeth o ofynion y Bil yn hynny o beth pe byddent angen gwneud hynny. Mae'r asesiad o effaith rheoleiddio hefyd yn nodi'n fanwl iawn lefel yr adnoddau sydd i'w neilltuo i weithredu'r ddeddfwriaeth.

In concluding, I can assure Members that we will continue to work with NHS Blood and Transplant and the health boards in Wales to ensure that we make best use of the skills of specialist nurses and other members of the wider transplant teams to make organ donation a success. This amendment reinforces the skills and competencies that underpin that work and I am pleased that we are able to accept it on that basis.

I gloi, gallaf sicrhau'r Aelodau y byddwn yn parhau i weithio gyda Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG a'r byrddau iechyd yng Nghymru i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o sgiliau nyrsys arbenigol ac aelodau eraill o'r timau trawsblannu ehangach er mwyn sicrhau bod rhoi organau yn llwyddiant. Mae'r gwelliant hwn yn atgyfnerthu'r sgiliau a'r cymwyseddau sy'n rhoi sylfaen i'r gwaith hwnnw ac rwyf yn falch ein bod yn gallu ei dderbyn ar y sail honno.

17:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 40 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 40 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly derbyniwyd gwelliant 40 yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 40.

Amendment 40 agreed.

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We will now dispose of the next amendment on the marshalled list. I call on Angela Burns to move amendment 66.

Rydym nawr am benderfynu ar y gwelliant nesaf ar y rhestr o welliannau wedi'u gosod mewn trefn. Galwaf ar Angela Burns i gynnig gwelliant 66.

17:45 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 66 in my name and with the name of Antoinette Sandbach in support. I would like to test the Assembly on this.

Cynigaf welliant 66 yn fy enw i a chydag enw Antoinette Sandbach yn ei gefnogi. Hoffwn brofi'r Cynulliad ar hyn.

17:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 66 be agreed to. Does any Member object? There is objection. In that case, we will move straight to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 66. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad. Felly, byddwn yn symud yn syth i bleidlais electronig.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 66.](#)

[Result of the vote on amendment 66.](#)

Gwrthodwyd gwelliant 66: O blaid 20, Yn erbyn 35, Ymatal 0.

Amendment 66 not agreed: For 20, Against 35, Abstain 0.

Grŵp 3: Adolygu'r System Gydsynio (Gwelliant 67)

Group 3: Review of System of Consent (Amendment 67)

17:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I call on Angela Burns to move amendment 67 and to speak to the amendment.

Galwaf ar Angela Burns i gynnig gwelliant 67 ac i siarad am y gwelliant.

17:46 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 67 in my name and with the name of Antoinette Sandbach in support.

Cynigaf welliant 67 yn fy enw i gydag enw Antoinette Sandbach yn ei gefnogi.

The amendment that I have put forward, amendment 67, is a simple little amendment. It merely asks to put on the face of the Bill a duty on the Welsh Ministers to review the system of consent within a period of five years of the commencement of the Act—not five years from today, but after it is started, Welsh Ministers must review the system of consent. You might think, 'Why would you need that?' I am very aware that, in Stage 2, a not dissimilar amendment fell by the wayside, which is why I have put the time period as five years.

I do not intend for this amendment to be a rallying call for those who are opposed the Bill, but I want it to be an appropriate mechanism to allow and to ensure that there is both quantitative and qualitative analysis of how the process is working. I think that this is incredibly important. I have had a number of e-mails in my inbox on this, both for and against, but an awful lot of it is about trust. People do not really trust politicians, and people do not really trust the health service a huge amount. We all love and trust our individual doctors and nurses, but you pick up the papers and you read about Stafford hospital. You picked up the papers a few years ago and you read about Alder Hey. We have looked at the report on Betsi Cadwaladr—people need reassurance and if we are to win the hearts and minds of the people of Wales, which is what we want to do with this, we have to say to them, 'We promise you that when we have built up a big enough data set—this is why I have increased the years, Minister, because I understood that the previous amendment fell because the data set might not have been significant enough—we can really look at it.' I do not mean doing some desk research where you add up how many organs were donated, how many people were deceased and how many people have now got—I am talking about qualitative research that asks, 'What was the experience like for all 50 transplants that happened in those five years? How were people approached? What did the doctors and nurses say to them?' It was interesting that in the previous group that we debated, group 2 and amendment 40, tabled in the name of Elin Jones, the speakers talked about how, if a trained professional talks to you about presumed consent or consent of any sort, you get a much higher take-up than when you are approached by a clinician who has not had any of that training, and when half of them do not get a 'yes'. It is about ensuring that we have a system where we go out and look at how it is being done.

I think that this is important, because it could be a government of any hue. The law of unintended consequences runs rife. You set out with the best of intentions that something is going to work, it is going to work well and it is going to work in this way, and then something else comes along. We are asking for an awful lot of trust to be put into a process, and I fail to see why it is so difficult for us to say to the people of Wales, 'You're going to trust us on something that is fundamentally important to you, but we promise you that we won't do just a quick bit of looking at it in five years' time, but it will be root and branch'. I would be very grateful to hear the Minister's view on that.

Mae'r gwelliant yr wyf wedi'i gyflwyno, gwelliant 67, yn welliant bach syml. Mae'n gofyn inni roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru ar wyneb y Bil i adolygu'r system gydsynio o fewn cyfnod o bum mlynedd ar ôl cychwyn y Ddeddf—nid pum mlynedd o heddiw, ond ar ôl ei chychwyn, rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r system gydsynio. Efallai y byddwch yn meddwl, 'Pam y byddai angen hynny?' Rwyf yn ymwybodol iawn fod gwelliant digon tebyg wedi methu yng Nghyfnod 2, a dyna pam yr wyf wedi pennu cyfnod o bum mlynedd.

Nid yw'n fwiad gennyf i'r gwelliant hwn fod yn alwad ar i'r rheini sy'n gwrthwynebu'r Bil uno; rwyf am iddo fod yn fecanwaith priodol i alluogi ac i sicrhau y ceir dadansoddiad meintiol ac ansoddol o'r ffordd y mae'r broses yn gweithio. Credaf fod hyn yn hynod bwysig. Rwyf wedi cael nifer o negeseuon e-bost yn fy mlwch derbyn am hyn, o blaid ac yn erbyn, ond mater o ymddiriedaeth yw hyn i raddau helaeth. Nid yw pobl mewn gwirionedd yn ymddiried mewn gwleidyddion, ac nid yw pobl mewn gwirionedd yn ymddiried rhyw lawer yn y gwasanaeth iechyd. Rydym i gyd yn meddwl y byd o'n meddygon a'n nyrsys unigol, ac yn ymddiried ynddynt, ond rydych yn codi'r papurau ac yn darllen am ysbyty Stafford. Roeddech yn codi'r papurau rai blynyddoedd yn ôl ac yn darllen am Alder Hey. Rydym wedi edrych ar yr adroddiad am Betsi Cadwaladr—mae angen sicrwydd ar bobl, ac os ydym am ennill calonau a meddyliau pobl Cymru, sef yr hyn yr ydym yn gobeithio ei wneud gyda hyn, rhaid inni ddweud wrthynt, 'Rydym yn addo ichi pan fydd gennym set ddata ddigon mawr'—dyma pam yr wyf wedi cynyddu nifer y blynyddoedd, Weinidog, oherwydd rwyf yn deall bod y gwelliant blaenorol wedi methu oherwydd efallai na fyddai'r set ddata wedi bod yn ddigon mawr—'gallwn ni edrych ar hyn mewn gwirionedd.' Nid wyf yn sôn am wneud rhywfaint o ymchwil desg lle byddwch yn cyfrif faint o organau a gafodd eu rhoi, faint o bobl a fu farw a faint o bobl sydd nawr wedi cael—rwyf yn sôn am ymchwil ansoddol sy'n gofyn, 'Sut brofiad oedd pob un o'r 50 o drawsblaniadau a ddigwyddodd yn y pum mlynedd hynny? Sut oeddem ni'n mynd at bobl? Beth oedd y meddygon a'r nyrsys yn ei ddweud wrthynt?' Roedd yn ddiddorol, yn y grŵp blaenorol y buom yn ei drafod, grŵp 2 a gwelliant 40, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones, fod siaradwyr wedi dweud y bydd sgwrs â gweithiwr proffesiynol hyfforddedig am gydsyniad tybiedig neu gydsyniad o unrhyw fath yn peri i fwy o bobl o lawer gytuno na sgwrs â chlinigwr sydd heb gael yr hyfforddiant hwnnw, pan fydd hanner y bobl yn gwrthod. Mae'n fater o sicrhau bod gennym system lle rydym yn mynd allan ac yn edrych ar sut y mae'n cael ei wneud.

Credaf fod hyn yn bwysig, oherwydd gallai fod yn llywodraeth o unrhyw liw. Mae cyfraith canlyniadau anfwriadol yn rhemp. Rydych yn dechrau arni â'r bwriadau gorau fod rhywbeth yn mynd i weithio, yn mynd i weithio'n dda ac yn mynd i weithio fel hyn, ac yna bydd rhywbeth arall yn dod i'r amlwg. Rydym yn gofyn am lawer iawn o ymddiriedaeth mewn proses, ac ni allaf weld pam ei bod mor anodd inni ddweud wrth bobl Cymru, 'Rydych yn mynd i ymddiried yn ymddiried ynghylch rhywbeth sy'n sylfaenol bwysig ichi, ond rydym yn addo, ymhen pum mlynedd, nad dim ond cael golwg gyflym arno a wnawn; bydd yn broses drwyadl'. Byddwn yn ddiolchgar iawn o glywed barn y Gweinidog am hynny.

Byddaf yn pleidleisio yn erbyn y gwelliant hwn y prynhawn yma. Rwy'n deall yr angen, wrth gwrs, i werthuso unrhyw ddeddfwriaeth, a chawsom dystiolaeth glir iawn yn y pwyllgor am yr angen i osod fframwaith gwerthuso a'r angen i'r Llywodraeth wneud hynny. Mae'r Llywodraeth wedi gwneud hynny, a bod yn deg i'r Gweinidog, ac rwy'n credu bod yr hyn rwyf wedi'i weld yn ddigonol fel gwaith gwerthuso yn ystod y cyfnod cychwynnol o gyflwyno'r ddeddfwriaeth. Rydym eisoes wedi pasio gwelliant y prynhawn yma i sicrhau adroddiad blynyddol gan y Llywodraeth. Bydd hi'n ddisgwyliedig yn fy marn i fod y gwaith gwerthuso yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol hwnnw a bod hynny'n agored i 'scrutiny'. Nid wyf wedi fy argyhoeddi, felly, fod angen y gofyniad hwn ar wyneb y Bil, a buaswn yn dweud bod disgwyl i unrhyw lywodraeth, o unrhyw liw gwleidyddol ac ar unrhyw adeg, i adolygu'r ddeddfwriaeth y mae'n gyfrifol am ei gweithredu er mwyn sicrhau ei bod yn ddigonol ac yn briodol, gan adolygu hynny mewn ffordd lle gellid newid a gwella unrhyw ddeddfwriaeth neu gyfundrefn sydd ar waith. Felly, nid wyf yn credu bod angen gosod cyfnod penodol ar gyfer gwerthuso ar wyneb y Bil. Bydd rhaglen werthuso wrth law, a bydd disgwyl i unrhyw lywodraeth adolygu yn barhaol y ddeddfwriaeth newydd hon.

I will be voting against this amendment this afternoon. I understand the need, of course, to evaluate any new legislation, and we received very clear evidence in the committee on the need to set out an evaluation framework and for the Government to do that. To be fair to the Minister, the Government has done that, and I believe that what I have seen is adequate in terms of evaluation during the initial period of introducing this legislation. We have already passed an amendment earlier this afternoon to ensure that there will be an annual report from the Government. There will be an expectation, in my opinion, for the evaluation work to be reported upon in the annual report and be open to scrutiny. Therefore, I remain unconvinced that this requirement is necessary on the face of the Bill, and I would say that any government, of whatever political hue and at any time, would be expected to review whether the legislation that it is responsible for implementing is adequate and appropriate, and to conduct the review in a way where one could amend or improve any legislation or regime that is in place. Therefore, I do not think that we need to set out a particular period for evaluation on the face of the Bill. There will be an evaluation programme in place, and any government will be expected to continue to review this new legislation.

I believe that Angela Burns is correct to identify that the key issue in this legislation is the ability to have confidence within the system. We heard time and again that, in many ways, this is a high-risk strategy going forward and that a single mistake could fundamentally undermine people's confidence in the system, which would have a negative effect on the number of transplantations.

Credaf fod Angela Burns yn gywir i nodi mai'r hyn sy'n allweddol yn y ddeddfwriaeth hon yw'r gallu i fod â ffydd yn y system. Clywsom dro ar ôl tro fod hon, mewn llawer ffordd, yn strategaeth risg uchel at y dyfodol ac y gallai un camgymeriad danseilio hyder sylfaenol pobl yn y system, a fyddai'n cael effaith anffafriol ar nifer y trawsblaniadau.

Angela is also right to draw our attention to the need for a review. Those of us on the committee would have heard the words of Professor Saunders from Nevill Hall Hospital. I had the benefit of being looked after by Professor Saunders when I was a patient at that hospital, and I have a great deal of esteem for him. However, he reminded us that just because a politician thinks that an idea is a good one, and just because a politician thinks that an idea might be one that is liked by the public, it is not a good enough reason to proceed alone. The idea has to be one that works and delivers. That is why I am glad that the Welsh Government has taken the opportunity to set out clearly its desire and the method by which it will review the effectiveness of this policy.

Mae Angela hefyd yn iawn i dynnu ein sylw at yr angen am adolygiad. Bydd y rhai ohonom sydd ar y pwyllgor wedi clywed geiriau'r Athro Saunders o Ysbyty Nevill Hall. Cefais ofal gan yr Athro Saunders pan oeddwn yn glaf yn yr ysbyty hwnnw, ac mae gennyf lawer iawn o barch tuag ato. Fodd bynnag, fe'n hatgoffodd, nad yw'r ffaith bod gwleidydd yn credu bod syniad yn un da, a bod gwleidydd yn credu y gallai syniad fod yn un y bydd y cyhoedd yn ei hoffi, yn rheswm digon da ar ei ben ei hun dros fwrw ymlaen. Rhaid i'r syniad fod yn un sy'n gweithio ac yn cyflawni. Dyna pam yr wyf yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi manteisio ar y cyfle i nodi'n glir ei hawydd a'r dull y bydd yn ei ddefnyddio i adolygu effeithiolrwydd y polisi hwn.

Angela is right in saying that, at Stage 2 in committee, a similar amendment was brought forward with a review period of three years, but, as outlined by the Minister, the first couple of years, following the passing of this legislation, will all be about awareness-raising. So, even with a five-year window, there will be a limited amount of time for having the law in operation. What we do know from looking at past trends around organ donation is that, year on year, you can have quite arbitrary fluctuations in the number of people donating, quite simply because the availability of potential donors fluctuates in any one given year. It is not an exact science. Thank goodness; we cannot predict how many potential donors we will have. So, even a five-year period, I believe, does not give us the time that we would need to adequately review the success or otherwise of this particular system.

Mae Angela'n iawn i ddweud bod gwelliant tebyg wedi'i gyflwyno yng Nghyfnod 2 y pwyllgor, gyda chyfnod adolygu o dair blynedd, ond, fel yr amlinellodd y Gweinidog, bydd y ddwy flynedd gyntaf ar ôl pasio'r ddeddfwriaeth hon yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth. Felly, hyd yn oed â ffenestr o bum mlynedd, dim ond am gyfnod penodol y bydd y gyfraith ar waith. Yr hyn a wyddom o edrych ar dueddiadau'r gorffennol ym maes rhoi organau yw bod amrywiadau eithaf mympwyol yn gallu digwydd o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y bobl sy'n cyfrannu, oherwydd bod nifer y rhoddwyr posibl sydd ar gael yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Nid yw'n wyddor fanwl. Diolch byth, ni allwn ragweld faint o roddwyr posibl fydd gennym. Felly, hyd yn oed mewn cyfnod o bum mlynedd, nid wyf yn credu y bydd digon o amser i adolygu llwyddiant neu fethiant y system benodol hon yn ddigonol.

The Minister has previously outlined his desire to carry out this review. I believe that the intentions behind that are the right ones. The review will be adequate, quantitative and qualitative, and therefore we will not support this amendment today.

Mae'r Gweinidog eisoes wedi amlinellu ei awydd i gynnal yr adolygiad hwn. Rwyf yn credu bod y bwriadau y tu ôl i hynny'n rhai cywir. Bydd yr adolygiad yn ddigonol, yn feintiol ac yn ansoddol, ac felly ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliant hwn heddiw.

17:54

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased that the Minister has today accepted an amendment that will require an annual report on the promotional activities that he will undertake to fulfil his duty, and that of the Welsh Government, to promote the new organ donation system. That is a very positive development. However, I do think that there needs to be something on the face of the Bill to inspire public confidence that this whole system will be properly evaluated at a fixed period in time. I did present an amendment, as Angela Burns quite rightly pointed out, at Stage 2, requiring a review after three years. Upon reflection, that was too short a timescale, and there was a suggestion that if it was five years, people might vote for it. Well, people are not voting for it today, it seems, even though they said they might had it been five years at Stage 2.

Rwyf yn falch bod y Gweinidog heddiw wedi derbyn gwelliant a fydd yn mynnu adroddiad blynyddol ar y gweithgareddau hyrwyddo y bydd yn ymgymryd â hwy i gyflawni ei ddyletswydd, a dyletswydd Llywodraeth Cymru, i hyrwyddo'r system newydd ar gyfer rhoi organau. Mae hwnnw'n ddatblygiad cadarnhaol iawn. Fodd bynnag, rwyf yn credu bod angen rhywbeth ar wyneb y Bil i ennyn hyder y cyhoedd y caiff yr holl system ei gwerthuso'n briodol ar adeg benodol. Cyflwynais welliant, fel y dywedodd Angela Burns, yn ystod Cyfnod 2, i ofyn am adolygiad ar ôl tair blynedd. Wedi meddwl, roedd hwnnw'n gyfnod rhy fyr, a chafwyd awgrym efallai y byddai pobl yn pleidleisio o'i blaid pe bai'n bum mlynedd. Wel, mae'n ymddangos nad yw pobl yn pleidleisio o'i blaid heddiw, er eu bod wedi dweud efallai y byddent yn gwneud hynny pe bai'n bum mlynedd yng Nghyfnod 2.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I think that Angela Burns hit the thing right on the head when she said that this is about making sure that we deal with any intended consequences that arise as a result of the Bill. We know that the purpose of the Bill is to drive up organ donation rates, and we know that organ donation fluctuates from year to year, especially when you are talking about small numbers—in fact, we saw a pretty significant dip last year in organ donation rates in Wales. Whether that is related to this Bill making its passage through the Assembly, we do not know; it is very difficult to establish what the reasons are. What if rates go on a persistent downward trend over the five-year period? What if the awareness campaigns are unsuccessful? What if there is a challenge in the European Court of Human Rights? What if this system does not deliver the platinum system that everybody seems to suggest it might—that is, the panacea we are all looking for to improve donation rates? What if the number of people giving express consent begins to fall? It is interesting that the latest published evidence from Chile, where they introduced a system of presumed consent a number of years ago, shows that the donation rates have fallen 17%, family refusal rates have increased to an all-time high of 50%, and 37% of those renewing their ID cards and driving licences have decided to opt out, having previously opted in to a system in which they gave their express consent for organ donation. Even in the committee, the Welsh Government, to be fair to it, gave evidence that demonstrated that some people had indicated that they would come off the donation list and refuse to give consent for their organs to be donated if this new system were to be introduced. I have been copied into e-mails—even today, as a result of this debate this afternoon—that had been sent to the Minister, saying, 'I've always wanted to be able to give my organs, if they are suitable to be donated and I am in a suitable condition to donate them at the time of my death, but if you pass this law, I will remove myself from the system'. They represent the sort of unintended consequences that could result in the policy objectives of the Government not being achieved.

That is why I think it is really important, Minister, that you give a verbal commitment to undertake an independent evaluation. You may not be the Minister in the future, and that thing may not be fulfilled unless it is on the face of the legislation. That is why I think it is very important to ensure that we have this requirement on the face of the legislation. I speak in support of Angela Burns's amendment, and I encourage everybody else to support it as well.

17:58

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae gennym ni ar y meinciau hyn bleidlais rydd ar y Bil. I brofi hynny, rwy'n mynd i gefnogi gwelliant Angela Burns, yn wahanol i'm llfarydd iechyd, â phob parch iddi. Rwyf am ei wneud am sawl rheswm. Yn gyntaf oll, rwyf am ddatgan yn glir imi atal fy mhleidlais y tro cyntaf y buom yn trafod y mater hwn yn y 'Plenary' achos yr oeddwn yn pryderu ynglŷn â rhai agweddau ar y Bil, yn enwedig trawsblaniadau o fathau newydd a chydysniad y teulu ac ati.

Credaf fod Angela Burns wedi taro'r hoelen ar ei phen pan ddywedodd fod hyn yn fater o sicrhau ein bod yn ymdrin ag unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n deillio o'r Bil. Rydym yn gwybod mai diben y Bil yw gwella cyfraddau rhoi organau, a gwyddom fod rhoi organau'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn, yn enwedig pan fyddwch yn sôn am niferoedd bach—yn wir, gwelsom ostyngiad eithaf sylweddol y llynedd yng nghyfraddau rhoi organau yng Nghymru. P'un a yw hynny'n gysylltiedig â thait y Bil hwn drwy'r Cynulliad, nid ydym yn gwybod; mae'n anodd iawn cael gwybod beth yw'r rhesymau. Beth os bydd tuedd y cyfraddau ar i lawr yn barhaus dros y pum mlynedd? Beth os bydd yr ymgyrchoedd ymwybyddiaeth yn aflwyddiannus? Beth os ceir her yn Llys Hawliau Dynol Ewrop? Beth os nad yw'r system hon yn cyflwyno'r system blatinwm y mae pawb fel petaent yn awgrymu y gallai ei chyflwyno—hynny yw, yr ateb mawr yr ydym i gyd yn chwilio amdano i wella cyfraddau rhoi? Beth os bydd nifer y bobl sy'n rhoi cydsyniad datganedig yn dechrau gostwng? Mae'n ddiddorol bod y dystiolaeth ddiweddaraf a gyhoeddwyd o Chile, lle cyflwynwyd system o gydsyniad tybiedig nifer o flynyddoedd yn ôl, yn dangos bod cyfraddau rhoi organau wedi gostwng 17%, bod cyfraddau gwrthod gan deuluoedd wedi cynyddu i 50%, y lefel uchaf erioed, a bod 37% o bobl sy'n adnewyddu eu cardiau adnabod a'u trwyddedau gyrru wedi penderfynu optio allan, ar ôl dewis optio i mewn o'r blaen i system lle'r oeddent yn rhoi eu cydsyniad datganedig i roi eu horganau. Hyd yn oed yn y pwyllgor, rhoddodd Llywodraeth Cymru, a bod yn deg â hi, dystiolaeth a oedd yn dangos bod rhai pobl wedi dweud y byddent yn dod oddi ar y rhestr roddi ac yn gwrthod rhoi cydsyniad i'w horganau gael eu rhoi pe câi'r system newydd ei chyflwyno. Rwyf wedi cael fy nghopio i mewn i negeseuon e-bost—hyd yn oed heddiw, o ganlyniad i'r ddatl hon y prynhawn yma—a anfonwyd at y Gweinidog, yn dweud, 'Rydw i bob amser wedi bod eisiau gallu rhoi fy organau, os ydynt yn addas i gael eu rhoi a'm bod mewn cyflwr addas i'w rhoi ar adeg fy marwolaeth, ond os pasiwh y gyfraith hon, byddaf yn tynnu fy enw oddi ar y system'. Dyma'r math o ganlyniadau anfwriadol a allai beri na chyflawnir amcanion polisi'r Llywodraeth.

Dyna pam yr wyf yn credu ei bod yn wirioneddol bwysig, Weindog, eich bod yn rhoi ymrwymiad llafar i gynnal gwerthusiad annibynnol. Efallai nad chi fydd y Gweinidog yn y dyfodol, ac efallai na chaiff hyn ei gyflawni oni fydd ar wyneb y ddeddfwriaeth. Dyna pam yr wyf yn credu ei bod yn bwysig iawn sicrhau bod y gofyniad hwn gennym ar wyneb y ddeddfwriaeth. Rwyf yn siarad o blaid gwelliant Angela Burns, ac rwyf yn annog pawb arall i'w gefnogi hefyd.

We on these benches have a free vote on the Bill today. To prove that, I will be supporting Angela Burns's amendment, unlike my health spokesperson, with all due respect to her. I will be giving my support for a number of reasons. First, I want to state clearly that I abstained the first time we discussed this issue in Plenary because I was concerned about certain aspects of the Bill, particularly in relation to novel transplantation and the consent of the family and so on.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwyf wedi dod i'r casgliad erbyn hyn fy mod am gefnogi'r Bil. Rwyf am ei gefnogi am fy mod yn meddwl ein bod wedi dod i sefyllfa lle nad ydym yn pasio mesur sy'n rhoi hawl i'r wladwriaeth dros ein cyrff ni, na dim byd twp fel hynny, ond sefyllfa yn ein cymdeithas lle mae digon o dystiolaeth ein bod yn rhannu'r un math o werthoedd a math o gydhaelioni, os caf ei roi fel hynny, i gymryd yn ganiataol, i dybio, bod mwyafrif y bobl yng Nghymru am rannu yn y system honno. Felly, mae'n briodol ein bod yn gosod deddfwriaeth i ddarparu ar gyfer hynny. Am y rheswm hwnnw, rwyf am gefnogi'r Bil heddiw.

Rwy'n derbyn, wrth wneud hynny, fod nifer o bobl a fydd yn anghytuno'n ffyrnig, a nifer a fydd yn anghytuno ar sail egwyddor. Cefais innau sawl e-bost heddiw a ddoe gan unigolion yn dweud y gwnânt dynnu allan o'r system lle maent wedi datgan cefnogaeth, yn gwmwys fel y dywedodd yr Aelod ynghynt, oherwydd eu bod yn anghytuno â'r natur wladwriaethol hon. Fel y dywedais, rwy'n anghytuno â hynny, ac er nad wyf yn meddwl y bydd honno'n farn gyffredin, mae perygl yn hynny o beth.

Mae perygl hefyd y bydd y fath system nad ydym yn gallu ei rhagweld yn awr—rydym newydd fod yn trafod yr angen am gefnogaeth arbenigol ac rwy'n falch bod y Gweinidog wedi derbyn y gwelliant hwnnw—yn golygu y bydd canlyniadau anffodus i'r newid hwn, sef bod gostyngiad yn yr organau sydd ar gael neu yn nifer y trawsblaniadau. Nid ydym yn rhagweld hynny, ond ni allwn fod yn siŵr. Felly, rwy'n credu ei bod yn rhesymol, fel mae'r Aelod wedi'i ddweud, i ofyn am adolygiad ym mhen pum neu saith mlynedd. Mae pum mlynedd yn y gwelliant ac rwy'n ddigon hapus i gefnogi hynny. Rwy'n derbyn bod y Gweinidog yn mynd i adolygu'n flynyddol neu, yn benodol, yn mynd i adrodd i ni yn flynyddol, ond rwy'n meddwl bod hynny'n wahanol, Lywydd, i adolygiad cynhwysfawr o bwrpas ac effaith y ddeddfwriaeth ac unrhyw ganlyniadau annisgwyl sydd wedi deillio yn sgîl hynny.

Rwy'n dod yn y pen draw i'r casgliad ein bod yn gwneud penderfyniad heddiw sy'n eithaf Benthamite, sef gofyn beth sydd er lles y mwyafrif am y gost leiaf i unigolion. Rwy'n barod i fentro heddiw i basio'r Bil hwn a'i gefnogi, ond rwyf hefyd eisiau gweld ein bod, fel corff, Cynulliad a Llywodraeth, yn barod i'w adolygu i wneud yn siŵr nad yw'r pris rydym wedi'i dalu, os mai dyna'r ffordd o'i ddisgrifio, neu'r sgîl-ffeithiau mor andwyol ag y mae rhai yn tybio. Wrth gwrs, nid oes dim i'w ofni o welliant o'r fath, oherwydd os yw adolygiad yn dangos bod y system yn gweithio, ein bod yn dal i rannu'r un gwerthoedd, bod yr haelioni hwnnw yn cael ei rannu yn ein plith fel cymuned sy'n byw yng Nghymru, nid oes dim i'w ofni o adolygiad o'r fath. Felly, rwy'n cefnogi'r gwelliant ac yn gobeithio y bydd modd ei dderbyn.

I have now come to the conclusion that I want to support the Bill, and I want to do that because I think that we have come to a position of passing legislation that does not give the state a right over our bodies, or any such nonsense, but a position in society where there is adequate evidence that we share the same value and a collective generosity, if I can put it in that way, so that we can presume, or deem, that the majority of people in Wales want to participate in this system. Therefore, it is appropriate that we put in place legislation to provide for that. For that reason, I will be supporting the Bill today.

I accept that, in doing so, many people will disagree fiercely, and many who will disagree on the basis of principle. I have received a number of e-mails, both today and yesterday, from individuals who say that they will withdraw from a system that they have in the past supported, just as the Member said earlier, because they disagree with the state nature of the Bill. As I have said, I disagree with that position and, even though I do not believe that it will be a commonly held view, it is a risk

There is also a risk that a system that we cannot anticipate—we have just been discussing the need for specialist support, and I am pleased that the Minister accepted that amendment—will lead to unfortunate consequences from this change, and that there may be a reduction in the number of organs available or in the number of transplants. We do not expect that, but we cannot be sure. Therefore, I think that it is reasonable, as the Member stated, to ask for a review in five or seven years. It is five years in the amendment, and I am happy to support that. I accept that the Minister will review this annually or, specifically, he will report to us annually, but I think that that is different to a comprehensive review of the purpose and impact of the legislation and any unexpected consequences that may emerge from that.

I come to the conclusion that we are making a decision today that is quite Benthamite, in that we are asking what is of benefit to the majority at the least cost to the individual. I am willing to support this Bill today, but I also want to see that we, as a body, as an Assembly and as a Government, are willing to review that to ensure that the price that we have paid, if that is the correct way of putting it, or the impact is not as detrimental as some have anticipated. Of course, there is nothing to fear from such an amendment, because if a review demonstrates that the system is working, that we still share those values and generosity among us as a community living in Wales, there is nothing to fear from such a review. Therefore, I support the amendment and hope that it will be adopted.

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Let me begin by setting out some common ground between, I think, the Government's position, the position of the mover of this amendment and other things that we have heard around the Chamber this afternoon. I think that we are all agreed that there should be a review of this Bill five years after it becomes law, should that be the case at the end of this afternoon's proceedings. That is a commitment that the Government has already set out. It is a commitment that we have made through the evaluation strategy. That evaluation strategy is not my strategy. It is the Government's strategy. It is not a verbal commitment. It is set out in writing and has been published. A copy of it was provided to all members of the Health and Social Care Committee on 1 May. It is a detailed strategy. It has six separate strands of evaluation in it. It includes qualitative and quantitative research conducted among members of the public and NHS staff. It will report specifically on the new system of consent. It will track, particularly, the numbers, to see if there is, in an unintended way, a diminution in the number of people who are prepared to put themselves on the register positively as organ donors. It will do almost all the things that I have heard around the Chamber this afternoon and, because we have heard what Professor Saunders has said, it will make recommendations for future research beyond that five-year period and set out a strategy for long-term monitoring of the data.

Our evaluation strategy is over and above all the data collection and analysis that goes on all the time in this field. NHS Blood and Transplant records and analyses now every single organ donation that is made, not just in Wales, but across the United Kingdom. Of course, reviewing and learning is important in this area. The question is: does it need to be a commitment on the face of the Bill? I think that the commitments that we have already made demonstrate the Government's commitment to exactly what this amendment requires.

However, there is another reason—it is a minor reason, but it is one that I have to set out this afternoon—why I think this amendment ought not to be supported. At Stage 2, both Elin Jones and Kirsty Williams expressed the fear that such a requirement on the face of the Bill might be subversive, by raising an expectation that the policy might be dropped. They were talking in the context of an amendment that asked for a review after three years, and I understand that with a five-year horizon—[Interruption.]

Yes, of course I will take your intervention.

Gadewch imi ddechrau drwy nodi rhywfaint o dir cyffredin, rwyf yn meddwl, rhwng safbwynt y Llywodraeth, safbwynt cynigydd y gwelliant hwn a phethau eraill yr ydym wedi eu clywed yn y Siambr y prynhawn yma. Credaf ein bod i gyd yn cytuno y dylid adolygu'r Bil hwn bum mlynedd ar ôl iddo ddod yn ddeddf, pe bai hynny'n digwydd ar ddiwedd trafodion y prynhawn yma. Mae hynny'n ymrwymiad y mae'r Llywodraeth eisoes wedi'i amlinellu. Mae'n ymrwymiad yr ydym wedi'i wneud drwy'r strategaeth werthuso. Nid fy strategaeth i yw'r strategaeth werthuso. Strategaeth y Llywodraeth ydyw. Nid ymrwymiad ar lafar mohono. Mae wedi ei ysgrifennu ac wedi ei gyhoeddi. Darparwyd copi i bob aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 1 Mai. Mae'n strategaeth fanwl. Mae'n cynnwys chwe llinyn gwerthuso gwahanol. Mae'n cynnwys ymchwil ansoddol a meintiol a gynhaliwyd ymhlith aelodau'r cyhoedd a staff y GIG. Bydd yn adrodd yn benodol am y system gydsyniad newydd. Bydd yn olrhain, yn arbennig, y niferoedd, i weld a oes gostyngiad, mewn ffordd anfwriadol, yn nifer y bobl sy'n barod i roi eu henwau'n gadarnhaol ar y gofrestr fel rhoddwyr organau. Bydd yn gwneud bron bob un o'r pethau yr wyf wedi'u clywed o amgylch y Siambr y prynhawn yma ac, oherwydd ein bod wedi clywed yr hyn a ddywedodd yr Athro Saunders, bydd yn gwneud argymhellion ar gyfer ymchwil yn y dyfodol y tu hwnt i'r cyfnod pum mlynedd ac yn amlinellu strategaeth ar gyfer monitro'r data yn y tymor hir.

Mae ein strategaeth werthuso y tu hwnt i'r holl waith casglu a dadansoddi data sy'n digwydd drwy'r amser yn y maes hwn. Mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG bellach yn cofnodi ac yn dadansoddi pob organ sy'n cael ei roi, nid yn unig yng Nghymru, ond ledled y Deyrnas Unedig. Wrth gwrs, mae adolygu a dysgu'n bwysig yn y maes hwn. Y cwestiwn yw: a oes angen iddo fod yn ymrwymiad ar wyneb y Bil? Rwyf yn meddwl bod yr ymrwymadau yr ydym eisoes wedi'u gwneud yn dangos ymrwymiad y Llywodraeth i'r union beth y mae'r gwelliant hwn yn gofyn amdano.

Fodd bynnag, mae rheswm arall—mân reswm, ond rheswm y credaf fod yn rhaid imi ei nodi y prynhawn yma—pam nad wyf yn credu y dylid cefnogi'r gwelliant hwn. Yng Nghyfnod 2, mynegodd Elin Jones a Kirsty Williams ill dwy ofn y gallai gofyniad o'r fath ar wyneb y Bil fod yn danseiliol, drwy awgrymu disgwyliad y gallai'r polisi gael ei ollwng. Roeddent yn siarad yng nghyd-destun gwelliant a oedd yn gofyn am adolygiad ar ôl tair blynedd, ac rwyf yn deall, gyda gorwel o bum mlynedd—[Torri ar draws.]

Gwnaf, wrth gwrs, cymeraf eich ymyriad.

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That was an amendment that I made at Stage 2, which also had some additional text on considering whether the new system should continue to operate. That is not part of this particular amendment, and it is rather unattractive of you to draw attention to quite a different set of words rather than the amendment before us.

Gwelliant oedd hwnnw a wneuthum yng Nghyfnod 2, a oedd hefyd yn cynnwys rhywfaint o destun ychwanegol ynglŷn ag ystyried a ddylai'r system newydd barhau i weithredu. Nid yw hynny'n rhan o'r gwelliant penodol hwn, ac nid yw'n ddymunol iawn eich bod yn tynnu sylw at set dra gwahanol o eiriau yn hytrach na'r gwelliant sydd ger ein bron.

18:05	Mark Drakeford Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I am always glad of an opportunity to remind the Chamber of the contributions that the Member made at earlier stages. He is quite right, and I accept absolutely the point that he made. There were differences between the wording of the previous amendment and what is in front of us this afternoon. There is still an underlying point there: putting that on the face of the Bill may attract those people who are against the Bill, not for the practical reasons that we have been concerned with, but because they have a very different idea of how donation should proceed. It could be a rallying point for them in believing that, at a five-year horizon, they could yet defeat the Bill. However, that is not my main objection to this amendment. My main objection is that it requires, on the face of the Bill, a commitment that the Government has already made, set out in detail, and will deliver on. For those reasons and others that you have heard in the Chamber this afternoon, we will oppose this amendment.</p>	<p>Rwyf bob amser yn falch o gael cyfle i atgoffa'r Siambr o'r cyfraniadau a wnaeth yr Aelod yn gynharach. Mae'n hollol gywir, ac rwyf yn derbyn yn llwyr y pwynt a wnaeth. Roedd gwahaniaethau rhwng geiriad y gwelliant blaenorol a'r hyn sydd ger ein bron y prynhawn yma. Mae pwynt sylfaenol i'r bobl hynny sydd yn erbyn y Bil, ac nid am y rhesymau ymarferol yr ydym wedi bod yn ymwneud â hwy, ond oherwydd bod ganddynt syniad gwahanol iawn o sut y dylid symud ymlaen â rhoi organau. Gallai roi gobaith iddynt y gallent, ar ôl pum mlynedd, drechu'r Bil. Fodd bynnag, nid dyna fy mhrif wrthwynebiad i'r gwelliant hwn. Fy mhrif wrthwynebiad yw ei fod yn gofyn i'r Llywodraeth wneud ymrwymiad, ar wyneb y Bil, y mae eisoes wedi'i wneud, wedi'i nodi'n fanwl, ac y bydd yn ei gyflawni. Am y rhesymau hynny, ac eraill yr ydych wedi'u clywed yn y Siambr y prynhawn yma, byddwn yn gwrthwynebu'r gwelliant hwn.</p>
18:06	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I call on Angela Burns to reply to the debate.</p>	<p>Galwaf ar Angela Burns i ymateb i'r ddadl.</p>
18:06	Angela Burns Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>First of all, I would like to thank everyone who made a contribution to the debate on this group. We simply cannot operate in a vacuum here. It is all about trust. Funnily enough, at 3.36 p.m. today an e-mail popped into my inbox from somebody who says that they have been a donor for some time but, if this goes through, will rip up their card—I will not tell you what they will do with it. They also say—and this is the really sad bit—</p>	<p>Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl ar y grŵp hwn. Ni allwn weithredu mewn gwactod yma. Mae'n fater o ymddiriedaeth. Yn rhyfedd ddigon, am 3:36 p.m. heddiw, cefais e-bost gan rywun yn dweud ei fod wedi bod yn rhoddwr ers peth amser, ond, os caiff hyn ei basio, y bydd yn rhwygo ei gerdyn—ni ddywedaf beth yr oedd am ei wneud ag ef. Mae hefyd yn dweud—a dyma'r darn gwirioneddol drist—</p>
	<p>'PS—no reply necessary as it will no doubt be full of assurances that cannot be kept'.</p>	<p>'ON—does dim angen ymateb gan y bydd yn sicr o fod yn llawn addewidion na ellir mo'u cadw'.</p>
	<p>For me, the law of unintended consequences is a real issue. We need to persuade people that, if we pass what is for many a radical Bill, they can have absolute assurance that we will look at it in a proper, root-and-branch way. I entirely take your point, Minister, that you have an enormous review process in place, you will be coming back to the Chamber once a year to update us on that, and it will continue to be monitored. However, monitoring is a tough one. Let us be honest—[Interruption.] Yes, of course I will take your intervention, Nick.</p>	<p>I mi, mae cyfraith canlyniadau anfwriadol yn broblem go iawn. Mae angen inni ddwyn perswâd ar bobl, os byddwn yn pasio Bil a fydd yn un radical i lawer o bobl, y gallant fod yn gwbl dawel eu meddyliau y byddwn yn edrych arno'n gwbl drwyadl a phriodol. Rwyf yn derbyn eich pwynt yn llwyr, Weinidog, fod gennych broses adolygu enfawr ar waith, y byddwch yn dod yn ôl i'r Siambr unwaith y flwyddyn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am hynny, ac y bydd yn parhau i gael ei fonitro. Fodd bynnag, mae monitro'n beth anodd. Gadewch inni fod yn onest—[Torri ar draws.] Gwnaf, wrth gwrs, cymeraf eich ymyriad, Nick.</p>
18:08	Nick Ramsay Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I am going to support this amendment in the spirit that you have tabled it. Do you share my concern that, in the Minister's last answer to Darren Millar and other Members, he suggested that, five years down the line, this may somehow be used to reverse the procedure? Is not the point that, five years down the line, if this Bill is not working, then the people of Wales will need to know what will be done about it? That is the point of this amendment.</p>	<p>Rwyf yn bwriadu cefnogi'r gwelliant hwn yn yr ysbryd yr ydych wedi'i gyflwyno. A ydych yn rhannu fy mhryder, yn ateb diwethaf y Gweinidog i Darren Millar ac Aelodau eraill, ei fod wedi awgrymu y gellid, ymhen pum mlynedd, defnyddio hyn rywsut i wrthdroi'r drefn? Onid yr hyn sy'n bwysig yw, ymhen pum mlynedd, os nad yw'r Bil hwn yn gweithio, y bydd angen i bobl Cymru wybod beth gaiff ei wneud am y peth? Dyna bwynt y gwelliant hwn.</p>

18:08

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I agree with you entirely. It is difficult to say that everything will always be monitored and reviewed properly. I am picking my words carefully, and I will tell you why: I do not want this to turn into some kind of tribal debate, with that lot versus this lot, and everyone against each other. It is very simple: Governments of all hues put into place all kinds of policies; some are brilliant, some do not work, and an awful lot of them do not get monitored very well. We are asking people to trust us with something very important, and while I listen to what the Minister said, and I understand the concern over this being a rallying point, I think that Nick Ramsay has made an excellent point: if this works, in five years' time we will have a group of people in Wales who will be so comfortable with this that it will carry on, and we will just make it better and better. But my goodness, what if there is malpractice in some health board or other about how this is done? What if somebody has been put under duress to consent when, in fact, they felt that it was not the right thing to do for the person they loved who had died? What if we had an instance where there was the possibility of transplantation but we did not have the right people in place to maximise that? That is the whole point of this kind of review. We need to say to the people of Wales, 'You are trusting us with something very important, to not get it wrong and to make sure that this is right'. Our answer to you is that we will show you, in five years' time, warts and all, an analysis of how it is working—not just the numbers, but qualitative evidence. I ask Members to seriously consider passing this amendment.

Cytunaf yn llwyr â chi. Mae'n anodd dweud y bydd popeth bob amser yn cael ei fonitro a'i adolygu'n briodol. Rwyf yn dewis fy ngeiriau'n ofalus, a dywedaf wrthyfych pam: nid wyf am i hyn droi'n rhyw fath o drafodaeth lwythol, gyda'r criw hwnnw yn erbyn y criw hwn, a phawb yn erbyn ei gilydd. Mae'n syml iawn: mae Llywodraethau o bob lliw'n rhoi pob math o bolisiau ar waith; mae rhai'n wych, nid yw rhai yn gweithio, ac mae llawer iawn ohonynt nad ydynt yn cael eu monitro'n dda iawn. Rydym yn gofyn i bobl ymddiried ynom ynghylch rhywbeth pwysig iawn, ac er fy mod yn gwranddo ar yr hyn a ddywedodd y Gweinidog, ac yn deall y pryder y gallai hyn fod yn alwad i uno, credaf fod Nick Ramsay wedi gwneud pwynt ardderchog: os yw hyn yn gweithio, ymhen pum mlynedd bydd gennym grŵp o bobl yng Nghymru a fydd mor gyfforddus â hyn fel y bydd yn parhau, a byddwn yn ei wella a'i wella. Ond mawredd, beth os bydd camymddwyn mewn rhyw fwrdd iechyd neu'i gilydd o ran sut y caiff hyn ei wneud? Beth os bydd rhywun wedi cael ei roi dan bwysau i gydsynio ac yn teimlo, mewn gwirionedd, nad dyna oedd y peth iawn i'w wneud i'r unigolyn yr oedd yn ei garu ac a fu farw? Beth pe bai achos lle roedd trawsblannu'n bosibl, ond nad oedd gennym y bobl gywir ar gael i wneud hynny? Dyna holl bwyt y math hwn o adolygiad. Mae angen inni ddweud wrth bobl Cymru, 'Rydych yn ymddiried ynom â rhywbeth pwysig iawn, i beidio â'i wneud yn anghywir ac i wneud yn siŵr bod hyn yn iawn'. Ein hateb ichi yw y byddwn yn dangos ichi, ymhen pum mlynedd, ddadansoddiad cwbl glir o sut y mae'n gweithio—nid dim ond y rhifau, ond tystiolaeth ansoddol. Gofynnaf i'r Aelodau ystyried o ddirif pasio'r gwelliant hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:10

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 67 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will move straight to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 67. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn yn syth at bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 67.

Amendment 67 not agreed: For 18, Against 37, Abstain 0.

[Gwrthodwyd gwelliant 67: O blaid 18, Yn erbyn 37, Ymatal 0.](#)

[Amendment 67 not agreed: For 18, Against 37, Abstain 0.](#)

Grŵp 4: Cydsynio i Roi Organau: Deunydd a Eithrir (Gwelliannau 2, 7, 8, 17, 29I, 29B, 29C, 29D, 29A, 29E, 29F, 29G, 29H, 29, 33, 34, 35, 36 a 38)

Group 4: Consent to Donation: Excluded Material (Amendments 2, 7, 8, 17, 29I, 29B, 29C, 29D, 29A, 29E, 29F, 29G, 29H, 29, 33, 34, 35, 36 and 38)

18:10

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The lead amendment in this group is amendment 2. I call on Mark Drakeford to move amendment 2 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 2. Galwaf ar Mark Drakeford i gynnig gwelliant 2 ac i siarad am y gwelliant hwnnw ac am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:11

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 2 in my name.

Cynigiai welliant 2 yn fy enw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

This is the third occasion during the passage of this Bill on which we will have had a chance to discuss the issues that lie behind this amendment. The first time that concerns about novel forms of transplantation were raised, my predecessor, Lesley Griffiths, immediately offered to come forward with directions that would make clear that they were not to be covered by deemed consent.

The Health and Social Care Committee, in its recommendations at the end of its Stage 1 consideration, suggested that, rather than directions, they should be strengthened by regulations that could be debated on the floor of the Assembly, and I was pleased to accept that recommendation during the Stage 1 debate. However, we returned to it at Stage 2 with further discussion, and having reflected on what Members, particularly in some parts of the Chamber, have had to say on this issue, I have decided to return to it and to make it clear on the face of the Bill that novel forms of transplantation will not be covered by deemed consent.

A lot of our discussions this afternoon really are about matters of judgment and about which issues are so important that they really ought to be on the face of the Bill and which are matters that can be left to assurances that Governments have provided or other procedures that we have in place. We have had differences of view on some of those already this afternoon. Here is an area on which the Government, having listened carefully to what people have had to say, has been convinced that it is sufficiently serious that it ought to be reflected on the face of the Bill. Amendment 29—

Dyma'r trydydd tro yn ystod hyn y Bil hwn y byddwn wedi cael cyfle i drafod y materion sydd wrth wraidd y gwelliant hwn. Y tro cyntaf y codwyd pryderon am fathau newydd o drawsblannu, cynigiodd fy rhagflaenydd, Lesley Griffiths, ar unwaith gyflwyno cyfarwyddiadau a fyddai'n ei gwneud yn glir na fyddai cydsyniad tybiedig yn cynnwys y mathau hynny o drawsblannu.

Awgrymodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn ei argymhellion ar ddiwedd ei ystyriaeth Cyfnod 1, y dylid eu cryfhau drwy reoliadau y gellid eu trafod ar lawr y Cynulliad, yn hytrach na thrwy gyfarwyddiadau, ac roeddwn yn falch o dderbyn yr argymhelliad hwnnw yn ystod y ddadl Cyfnod 1. Fodd bynnag, daethom yn ôl at hynny yng Nghyfnod 2 â thrafodaeth bellach, ac ar ôl pwyso a mesur yr hyn y mae Aelodau, yn enwedig mewn rhai rhannau o'r Siambr, wedi'i ddweud am y mater hwn, rwyf wedi penderfynu dychwelyd ato a'i gwneud yn glir ar wyneb y Bil na fydd cydsyniad tybiedig yn cynnwys ffurfiau newydd o drawsblannu.

Mae llawer o'n trafodaethau y prynhawn yma'n ymwneud mewn gwirionedd â materion o farn a pha faterion sydd mor bwysig fel y dylent fod ar wyneb y Bil, a pha rai sy'n faterion y gellir eu gadael i sicrwydd a ddarparwyd gan Lywodraethau neu i weithdrefnau eraill sydd ar waith gennym. Rydym wedi clywed gwahanol safbwyntiau ar rai o'r rheini eisoes y prynhawn yma. Mae hwn yn faes y mae'r Llywodraeth, ar ôl gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud, wedi ei hargyhoeddi ei fod yn ddigon difrifol i'w adlewyrchu ar wyneb y Bil. Mae gwelliant 29—

18:12 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for giving way. I appreciate what the Government has done on this, and amendment 7 in particular. I think that it has helped to build up a wider consensus on the Bill. I certainly feel happier in supporting the Bill, knowing that we have tested that generosity that we share as a nation and have not pushed it excessively, if you see what I mean. I think that it is important that people realise that, in this regard, this place has worked as a good debating chamber to improve the Bill as much as possible.

Diolch i'r Gweinidog am ildio. Rwyf yn gwerthfawrogi'r hyn y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud ar hyn, a gwelliant 7 yn enwedig. Credaf ei fod wedi helpu i feithrin consensws ehangach ar y Bil. Rwyf fi'n sicr yn teimlo'n hapusach wrth gefnogi'r Bil, o wybod ein bod wedi rhoi prawf ar yr haelion hwnnw yr ydym yn ei rannu fel cenedl ac nad ydym wedi'i wthio'n ormodol, fel petai. Credaf ei bod yn bwysig bod pobl yn sylweddoli, yn hyn o beth, fod y lle hwn wedi bod yn siambr ddadlau dda i wella'r Bil cymaint ag y bo modd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

18:13 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Simon Thomas very much for that. I was very heartened to hear what he said in the last contribution about his support now for the Bill overall. I hope that the process that we have gone through has helped to allay some of the concerns that people had and have allowed people, such as Simon Thomas, to offer their support to the Bill in its final form.

Diolch yn fawr iawn i Simon Thomas am hynny. Roedd yn galonogol iawn clywed yr hyn a ddywedodd yn y cyfraniad diwethaf am ei gefnogaeth yn awr i'r Bil yn gyffredinol. Rwyf yn gobeithio bod y broses yr ydym wedi ei dilyn wedi helpu i leddfu rhai o'r pryderon a oedd gan bobl ac wedi caniatáu i bobl, fel Simon Thomas, roi eu cefnogaeth i'r Bil yn ei ffurf derfynol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Amendment 29 inserts a new section dealing with novel forms of transplantation together with its consequential amendments, in particular amendment 8. The Bill is now clear that unusual or contentious transplantation procedures are not included within the deemed consent arrangements.

Mae gwelliant 29 yn mewnosod adran newydd yn ymdrin â mathau newydd o drawsblannu ynghyd â'i welliannau canlyniadol, yn benodol gwelliant 8. Mae'r Bil bellach yn glir nad yw gweithdrefnau trawsblannu anarferol neu ddadleuol yn rhan o'r trefniadau cydsyniad tybiedig.

The list of organs and tissues to be excluded from deemed consent will be defined in regulations, which will be debated here on the floor of the Assembly. In addition, amendment 29 makes an explicit requirement that, for this type of donation, express consent will always be required.

The new section also gives an example of the sorts of excluded relevant material that may be specified in regulations. I hope that that will also go some way to reassuring Members that procedures that are very rarely undertaken in the UK at present, such as limb or face transplants, cannot fall within the deemed consent arrangements. If the Assembly accepts the Government's amendments in group 3, Welsh Ministers will be required to consult upon the draft regulations, they will be subject to the affirmative procedure and, thus, they are an example of the superaffirmative procedure that the Constitutional and Legislative Affairs Committee recommended in its earlier consideration of the Bill.

I will turn, for a moment, to Angela Burns's amendment 29I, which seeks to include reproductive organs and tissue as an example of relevant material that may be excluded from deemed consent in the regulations. I fully understand the intention that underlies that amendment. However, I hope that I can reassure her and other Members that the amendment is not required, because the Bill already excludes, at section 16, the use of gametes and embryos. The procurement and use of this material, which includes eggs and sperm, falls within the legal framework of the Human Fertilisation and Embryology Act 1990, as amended, and is regulated by the Human Fertilisation and Embryology Authority. The Assembly cannot legislate in this area, since it is one in which powers have not been devolved and, therefore, the assurance that Angela was seeking is there in that regard.

I want specifically to turn to the issue of uterine transplantation, which is also covered by Angela Burns's amendment, and to make it clear to her that I intend to include this within the type of activities that are to be considered as novel, since there have been very few transplants of this type worldwide and none at all in the United Kingdom. We will therefore address this issue in the regulations to be brought forward by Ministers under the Bill.

There is one further area that falls within Angela's amendment that I want to deal with. There is a developing area of treatment in the donation and transplantation of ovarian tissue. This is in part covered by the Human Fertilisation and Embryology Authority and in part by the Human Tissue Act 2004. I now intend that we will work with those authorities and, if it is necessary, as a result of further consultation with them, I give an undertaking that we will make regulations to exclude ovarian tissue from deemed consent if it is necessary for the Assembly to make that regulation.

Bydd y rhestr o organau a meinweoedd i'w heithrio o gydsyniad tybiedig yn cael ei diffinio mewn rheoliadau, a gaiff eu trafod yma ar lawr y Cynulliad. Hefyd, mae gwelliant 29 yn ei gwneud yn ofyniad penodol y bydd angen cydsyniad datganedig bob amser ar gyfer y math hwn o rodd.

Mae'r adran newydd hefyd yn rhoi enghraifft o'r mathau o ddeunydd perthnasol wedi'i eithrio y gellir eu pennu mewn rheoliadau. Rwyf yn gobeithio y bydd hynny hefyd yn gwneud rhyw dipyn i roi sicrwydd i Aelodau nad yw gweithdrefnau sydd ond yn digwydd yn anaml iawn yn y DU ar hyn o bryd, fel trawsblannu aelod o'r corff neu wyneb, wedi'u cynnwys yn y trefniadau cydsyniad tybiedig. Os bydd y Cynulliad yn derbyn gwelliannau'r Llywodraeth yn grŵp 3, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar y rheoliadau drafft, byddant yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, a thrwy hynny, maent yn enghraifft o'r weithdrefn uwchgadarnhaol a argymhellwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wrth ystyried y Bil yn gynharach.

Trof, am funud, at welliant 29I Angela Burns, sy'n ceisio cynnwys organau atgenhedlu a meinweoedd fel enghraifft o ddeunydd perthnasol y gellid ei eithrio o gydsyniad tybiedig yn y rheoliadau. Rwyf yn deall yn llwyr y bwriad sydd wrth wraidd y gwelliant hwnnw. Fodd bynnag, rwyf yn gobeithio y gallaf dawelu ei meddwl hi ac Aelodau eraill nad oes angen y gwelliant, oherwydd mae'r Bil eisoes yn eithrio, yn adran 16, defnyddio gametau ac embryonau. Mae caffael a defnyddio'r deunydd hwn, sy'n cynnwys wyau a sberm, yn dod o dan fframwaith cyfreithiol Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 1990, fel y'i diwygiwyd, ac yn cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg. Ni all y Cynulliad ddeddfu yn y maes hwn, gan ei fod yn faes lle nad yw pwerau wedi eu datganoli ac, felly, mae'r sicrwydd yr oedd Angela yn gofyn amdano ar gael yn hynny o beth.

Rwyf am droi'n benodol at fater trawsblaniadau'r groth, sydd hefyd yn rhan o welliant Angela Burns, a'i gwneud yn glir iddi fy mod yn bwriadu cynnwys hyn yn y math o weithgareddau yr ystyrir eu bod yn newydd, gan mai ychydig iawn o drawsblaniadau o'r math hwn sydd wedi'u cyflawni ledled y byd ac nid oes yr un wedi digwydd yn y Deyrnas Unedig. Felly, rhoddwn sylw i'r mater hwn yn y rheoliadau a gyflwynir gan Weinidogion Cymru o dan y Bil.

Mae un maes arall sy'n dod o dan welliant Angela yr hoffwn ymdrin ag ef. Mae rhoi a thrawsblannu meinweoedd ofariaidd yn faes triniaeth sy'n datblygu. Mae hyn yn dod yn rhannol o dan yr Awdurdod Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg ac yn rhannol o dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004. Fy mwriad yn awr yw y byddwn yn cydweithio â'r awdurdodau hynny ac, os bydd angen, ar ôl ymgynghori ymhellach â hwy, rhoddaf addewid y byddwn yn gwneud rheoliadau i eithrio meinweoedd ofariaidd o gydsyniad tybiedig os bydd angen i'r Cynulliad wneud y rheoliadau hynny.

Darren Millar's amendments in this group are consequential amendments relating to the separate issue of appointed representatives, which we will be debating in detail in group 6. I hope that the amendments that I have brought forward in relation to the substantive issues of novel forms of transplantation will meet with Members' approval and particularly the approval of those Members who have assiduously pursued this matter throughout the whole of the scrutiny process.

Mae gwelliannau Darren Millar yn y grŵp hwn yn welliannau canlyniadol sy'n ymwneud â mater ar wahân, sef cynrychiolwyr penodedig; byddwn yn trafod hynny'n fanwl yn grŵp 6. Rwyf yn gobeithio y bydd y gwelliannau yr wyf wedi'u cyflwyno o ran y prif faterion yn ymwneud â mathau newydd o drawsblannu'n cael cymeradwyaeth yr Aelodau ac yn enwedig yr Aelodau hynny sydd wedi dilyn y mater hwn yn ddyfal trwy gydol y broses graffu.

18:18

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to speak to amendment 21 tabled in my name. Forgive me, as I am going to read a lot of this, because it is complicated. The point of this amendment is to ensure that not only can composite material, such as hands or faces, not be deemed for consent for transplantation, but also reproductive organs. I have noted that section 16 of the Bill defines excepted material. I note that there are references to embryos and gametes, with a statement that these terms are to be defined in accordance with the Human Fertilisation and Embryology Act 1990. I also note that the Bill follows the Human Tissue Act 2004 in excepting embryos outside the human body and gametes from its scope. The Bill also defines 'relevant material' as

'material, other than gametes, which consists of or includes human cells'.

This is very pedantic, but it is the way that the Bill has been written and the bracketing that is used. However, the view that I have, which I have tested with other legal types, is that the definition in section 16 of the Bill is predicated on the notion that it and the Human Tissue Act 2004 are not intended to apply to activities that lead to the creation of an embryo outside of the human body. Basically, it does not deal with in vitro fertilisation, which is separately regulated by the 1990 Act. In which case, Minister, it could be argued that only the actual gametes themselves are excluded material for the purposes of the Bill as, arguably, gametes are material that consists of or includes human cells, which is why they are mentioned specifically and are excluded from the definition of 'relevant material'. Minister, what I think is not clear is whether an ovary, which is clearly material that consists of or includes human cells—because it could include gametes as part of its make-up—is excluded by virtue of the inclusion of gametes.

This is an area on which we should have absolute clarity. There are already significant ethical debates over the three-parent baby in terms of sperm, egg and nuclei. This whole area needs to be handled with great sensitivity and, I believe, further public debate. It is also incredibly important that we think of the child who might result, and any effects that it would have on them.

Hoffwn siarad am welliant 21 a gyflwynwyd yn fy enw i. Maddeuwch imi: rwyf yn mynd i ddarllen llawer o hyn, gan ei fod yn gymhleth. Diben y gwelliant hwn yw sicrhau nid yn unig na fydd modd tybio cydsyniad i drawsblannu ar gyfer deunydd cyfansawdd, megis dwylo neu wynebaw, ond organau atgenhedlu hefyd. Rwyf wedi nodi bod adran 16 y Bil yn diffinio deunydd eithriedig. Nodaf ei bod yn cyfeirio at embryonau a gametau, a dywedir y caiff y termau hyn eu diffinio'n unol â Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 1990. Nodaf hefyd fod y Bil yn dilyn Deddf Meinweoedd Dynol 2004 ac yn eithrio o'i gwmpas embryonau y tu allan i'r corff dynol a gametau. Mae'r Bil hefyd yn diffinio 'deunydd perthnasol' fel

'deunydd, nad yw'n gametau, ac sydd wedi ei gyfansoddi o gelloedd dynol neu'n eu cynnwys'.

Mae hyn yn bedantig iawn, ond dyna sut y mae'r Bil wedi'i ysgrifennu a'r dosbarthiad sy'n cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, yn fy marn i—ac rwyf wedi ei phrofi â phobl eraill gyfreithiol eu haniau—mae'r diffiniad yn adran 16 y Bil yn seiliedig ar y syniad nad oes bwriad i'r Bil a Deddf Meinweoedd Dynol 2004 fod yn berthnasol i weithgareddau sy'n arwain at greu embryo y tu allan i'r corff dynol. Yn y bôn, nid yw'n ymdrin â ffrwythloni in vitro, sy'n cael ei reoleiddio ar wahân gan Ddeddf 1990. Os felly, Weinidog, gellid dadlau mai dim ond y gametau eu hunain sy'n ddeunydd eithriedig at ddibenion y Bil, oherwydd gellid dadlau bod gametau'n ddeunydd sydd wedi ei gyfansoddi o gelloedd dynol neu'n eu cynnwys, a dyna pam eu bod yn cael eu crybwyll yn benodol ac yn cael eu heithrio o'r diffiniad o 'ddeunydd perthnasol'. Weinidog, yr hyn nad wyf yn meddwl ei fod yn glir yw a yw ofari, sy'n amlwg yn ddeunydd sydd wedi ei gyfansoddi o gelloedd dynol neu'n eu cynnwys—oherwydd y gallai gynnwys gametau fel rhan o'i gyfansoddiad—wedi'i eithrio yn rhinwedd y ffaith ei fod yn cynnwys gametau.

Mae hwn yn faes lle y dylem sicrhau eglurder llwyr. Mae dadleuon moesegol arwyddocaol eisoes ynglŷn â'r baban tri rhiant o ran sberm, wyau a chnewyll yn barod. Mae angen ymdrin â'r holl faes hwn yn sensitif iawn ac, yn fy marn i, mae angen trafodaeth gyhoeddus bellach. Mae hefyd yn hynod bwysig ein bod yn meddwl am y plentyn y gellid ei greu, ac unrhyw effeithiau posibl ar y plentyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I am grateful for the letter that you sent me today, Minister, which I have received. I have read it, and I think that I understood most of what you said. I have also heard very clearly what you have just said here. However, I am still not convinced that this has been tested either scientifically or legally. I understand that there are issues regarding where devolved powers might sit in this. However, I have concerns that medical technology has moved on considerably since the Human Fertilisation and Embryology Act 1990. With the greatest respect, Minister, if you do not feel that you have had enough time to consider this amendment, given that it was tabled only a few days ago, and given the complexities involved and the legal and scientific testing that the argument would require from both the inclusive and exclusive view on organ donation, I would ask that, under Standing Order No. 26.39, you consider further Stage 3 proceedings or the Report Stage, both of which are still available to you. I think this has an ethical dimension that we should explore and test.

Rwyf yn ddiolchgar am y llythyr a anfonasoch ataf heddiw, Weinidog; rwyf wedi ei gael. Rwyf wedi ei ddarllen, ac rwyf yn meddwl fy mod yn deall y rhan fwyaf o'r hyn a ddywedwch. Rwyf hefyd wedi clywed yn glir iawn yr hyn yr ydych newydd ei ddweud yma. Fodd bynnag, rwyf yn dal i fod heb fy argyhoeddi bod hyn wedi ei brofi'n wyddonol nac yn gyfreithiol. Rwyf yn deall bod materion yn ymwneud â sut y mae pwerau datganoledig yn berthnasol i hyn. Fodd bynnag, mae gennyf bryderon bod technoleg feddygol wedi datblygu'n sylweddol ers Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 1990. Gyda phob parch, Weinidog, os nad ydych yn teimlo eich bod wedi cael digon o amser i ystyried y gwelliant hwn, o ystyried mai dim ond ychydig ddyddiau'n ôl y cafodd ei gyflwyno, ac o ystyried y cymhlethdodau a'r profion cyfreithiol a gwyddonol y byddai'r ddadl yn eu mynnu o'r naill safbwynt a'r llall ar roi organau, byddwn yn gofyn, o dan Reol Sefydlog Rhif 26.39, ichi ystyried trafodion Cyfnod 3 pellach neu'r Cyfnod Adrodd; mae'r naill a'r llall yn dal i fod ar gael ichi. Rwyf yn credu bod dimensiwn moesegol i hyn ac y dylem ei archwilio a'i brofi.

18:22

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Members of the Health and Social Care Committee will know that, during the scrutiny of this legislation, I was one of those Members who 'assiduously pursued', in the words of the Minister, the fact that this legislation should not deem consent for all possible forms of transplantation from day one, especially novel forms of transplantation.

We know that the science and surgery of transplantation moves apace, and that transplantation of face, limbs, hands and feet are now undertaken successfully. I do not oppose the transplantation of face, hands and limbs in principle, but I do not believe that the public is in any way informed at this point in time that their consent could be deemed for the transplantation of their limbs. All publicity, including Government publicity, on this legislation, including Government consultation, has focused on deeming consent for life-saving internal organs.

I initially favoured excluding novel transplantation from the face of the Bill. However, I am content with the Minister's amendments today—outlined mainly in amendment 29—in providing regulation-making powers to Welsh Ministers to specifically exclude composite tissues that are considered to be novel. I am grateful, therefore, that the Government has been convinced, in the process of scrutiny of this legislation, to exclude novel transplantation. I believe that that is best done by the use of superaffirmative regulation-making powers. I am grateful to the Minister for bringing this amendment forward today.

Bydd aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gwybod fy mod yn un o'r Aelodau hynny, yn ystod gwaith craffu ar y ddeddfwriaeth hon, a ddilynodd yn ddyfal, yng ngeiriau'r Gweinidog, y ffaith na ddylai'r ddeddfwriaeth hon dybio cydsyniad i bob math posibl o drawsblannu o'r diwrnod cyntaf, yn enwedig mathau newydd o drawsblannu.

Rydym yn gwybod bod gwyddoniaeth a llawfeddygaeth trawsblannu'n symud yn gyflym, a bod trawsblannu wyneb, aelodau'r corff, dwylo a thraed bellach yn digwydd yn llwyddiannus. Nid wyf yn gwrthwynebu trawsblannu wyneb, dwylo ac aelodau'r corff mewn egwyddor, ond nid wyf yn credu bod y cyhoedd yn gwybod mewn unrhyw ffordd ar hyn o bryd y gellid ystyried eu bod wedi rhoi cydsyniad i drawsblannu aelodau o'r corff. Mae pob cyhoeddusrwydd, gan gynnwys cyhoeddusrwydd y Llywodraeth, ar y ddeddfwriaeth hon, gan gynnwys ymgynghoriadau'r Llywodraeth, wedi canolbwyntio ar dybio cydsyniad ar gyfer organau mewnol a fyddai'n achub bywydau.

I ddechrau, roeddwn o blaid eithrio mathau newydd o drawsblannu oddi ar wyneb y Bil. Fodd bynnag, rwyf yn fodlon â gwelliannau'r Gweinidog heddiw—a amlinellir yn bennaf yng ngwelliant 29—o ran rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i eithrio'n benodol unrhyw feinweoedd cyfansawdd yr ystyrir eu bod yn fathau newydd. Rwyf yn ddiolchgar, felly, fod y Llywodraeth wedi ei hargyhoeddi, wrth graffu ar y ddeddfwriaeth hon, y dylai eithrio trawsblaniadau newydd. Credaf mai'r ffordd orau o wneud hyn yw drwy ddefnyddio pwerau uwchgadarnhaol i lunio rheoliadau. Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am gyflwyno'r gwelliant hwn heddiw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The discussion around novel transplantation again focused our attention on the somewhat strange attitudes that we have when discussing organs. There is a significant fall-off rate when one looks at issues of consent to which organs should already be donated. One would have thought that, if you are willing to donate one organ, it would apply to everything. However, even under the current system, kidneys are given in large numbers, but the numbers of hearts drops. When it comes to retinas and eyes, there is an even lower level of donation. There is something in us as human beings, I think, that finds it particularly difficult to grasp these concepts around hearts and eyes; again, there is something of those old superstitions in how we feel about those particular organs. Taking that further, we can say that people are particularly conscious of issues around faces and the prospect of maybe seeing the face of your loved one in the face of another, as well as issues around limbs. There is then the even more emotive issue, I believe, to do with reproductive organs, which takes us on to a further level of human anxiety and ethical consideration.

It is quite clear that the Minister has listened to those arguments, and I believe that what is before us today provides us with an opportunity to put those safeguards in place. It also provides us with the flexibility to allow legislation to move alongside medical technology. When the first heart and lung transplants were carried out, they, too, were novel, and now they are seen as commonplace procedures. So, the ability to have in regulation what constitutes novel transplantation is, I think, an appropriate balance. I am particularly glad that the Minister has given his commitment today to consult on those regulations: not simply to put before the Assembly a take-it-or-leave-it set of regulations, but to consult widely on what they will contain and then bring that here for a vote.

I listened very carefully to what Angela said, and I think that there is an issue and a potential lack of clarity around ovarian tissue and the interaction between this piece of legislation, human tissue legislation and issues around embryology and where competence lies. I listened carefully when the Minister said that there will be ongoing work in this area, and that, should it be necessary to ensure that these issues are covered, his intention would be to bring forward regulations that would explicitly exclude ovarian tissue. Given the complex nature of this issue, and that there is obviously still work to be done, I think that that is the appropriate way to proceed. If the Minister deemed it necessary, and if it was not covered by existing legislation and we were found to have competency in this area, I would support those regulations to specifically exclude that particular issue with regard to human tissue.

Roedd y drafodaeth am drawsblaniadau newydd eto'n tynnu ein sylw at yr agweddau braidd yn rhyfedd sydd gennym wrth drafod organau. Mae cyfraddau'n gostwng yn sylweddol o edrych ar faterion yn ymwneud â chydysynio o ran pa organau ddylai gael eu rhoi eisoes. Byddai rhywun yn meddwl, os ydych yn barod i roi un organ, y byddai'r un peth yn wir am bopeth. Fodd bynnag, hyd yn oed o dan y system bresennol, mae nifer mawr o arennau'n cael eu rhoi, ond nifer llai o galonnau. O ran retinau a llygaid, mae'r niferoedd yn is eto. Credaf fod rhywbeth ynom ni fel bodau dynol sy'n ei chael yn arbennig o anodd deall y cysyniadau hyn o ran calonnau a llygaid; unwaith eto, mae rhywfaint o'r hen ofergoelion hynny'n gysylltiedig â'r ffordd yr ydym yn teimlo am yr organau penodol hynny. O fynd â hynny gam ymhellach, gallwn ddweud bod pobl yn arbennig o ymwybodol o faterion yn ymwneud â wynebau a'r posibilrwydd o weld wyneb un o'ch anwyliaid yn wyneb rhywun arall, yn ogystal â materion yn ymwneud ag aelodau'r corff. Yna, ceir mater hyd yn oed yn fwy emosïynol, yn fy marn i, yn ymwneud ag organau atgenhedlu, sy'n mynd â ni i lefel uwch o bryder dynol ac ystyriaeth foesebol.

Mae'n amlwg iawn fod y Gweinidog wedi gwrandao ar y dadleuon hynny, ac rwyf yn credu bod yr hyn sydd ger ein bron heddiw yn rhoi cyfle inni i roi'r mesurau diogelu hynny yn eu lle. Mae hefyd yn rhoi inni hyblygrwydd i ganiatáu i ddeddfwriaeth symud law yn llaw â thechnoleg feddygol. Pan gafodd y trawsblaniadau cyntaf eu gwneud ar y galon a'r ysgyfaint, roeddent hwythau, hefyd, yn newydd, ac erbyn hyn maent yn cael eu hystyried yn llawdriniaethau cyffredin. Felly, mae'r gallu i nodi mewn rheoliadau beth yw trawsblaniadau newydd, yn fy marn i, yn rhoi cydbwysedd priodol. Rwyf yn arbennig o falch bod y Gweinidog wedi ymrwymo heddiw i ymgynghori ynghylch y rheoliadau hynny: nid dim ond i gyflwyno set o reoliadau i'r Cynulliad ei derbyn neu ei gwrthod, ond i ymgynghori'n eang am yr hyn y byddant yn ei gynnwys a dod â hynny yma er mwyn cynnal pleidlais.

Gwrandewais yn astud iawn ar yr hyn a ddywedodd Angela, a chredaf fod lle i drafod a diffyg eglurder posibl ynghylch meinweoedd ofariaidd a'r rhyngweithio rhwng y darn hwn o ddeddfwriaeth, deddfwriaeth meinweoedd dynol a materion yn ymwneud ag embryoleg a phwy sydd â chymhwysedd. Gwrandewais yn astud pan ddywedodd y Gweinidog y bydd gwaith yn parhau yn y maes hwn, a, phe bai angen er mwyn sicrhau bod y materion hyn yn cael sylw, y byddai'n ceisio cyflwyno rheoliadau a fyddai'n eithrio meinweoedd yr ofari'n benodol. Ac ystyried natur gymhleth y mater hwn, a'i bod yn amlwg fod llawer o waith i'w wneud o hyd, rwyf yn credu mai dyna'r ffordd briodol o symud ymlaen. Pe bai'r Gweinidog o'r farn ei bod yn angenrheidiol, a phe na bai deddfwriaeth bresennol yn berthnasol a'n bod yn gweld bod gennym gymhwysedd yn y maes hwn, byddwn yn cefnogi'r rheoliadau hynny i eithrio'n benodol y mater penodol hwn o ran meinweoedd dynol.

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I want to speak to my amendments in this group, as well as the amendments of the Minister and Angela Burns. This group relates to novel transplantation, but it also introduces some other issues that are matters of significant concern to me.

Rwyf am siarad am fy ngwelliannau yn y grŵp hwn, ac am welliannau'r Gweinidog ac Angela Burns. Mae'r grŵp hwn yn ymwneud â thrawsblaniadau newydd, ond mae hefyd yn cyflwyno rhai materion eraill sy'n peri cryn dipyn o bryder imi.

I support the Minister in his view that regulations are the best place to deal with the issue of novel transplantations, notwithstanding some of the confusion that might surround how those are defined. I am, therefore, content with the Minister's suggestion that he will be able to bring forward regulations, which can be a matter of debate in the Assembly and the subject of discussion with stakeholders before being amended, if necessary, for the Assembly to approve. For that reason, I will not be supporting the amendment that has been tabled in the name of Angela Burns, although I recognise the need to exclude reproductive organs, to which she has referred.

It is absolutely right that the novel transplantations that we have been discussing—all of them, including hands and face in particular—should require express consent before a donation can take place, rather than consent simply being deemed under the new system. That is why, when this issue was discussed in committee, I made my views on that quite clear.

I would, therefore, be supporting amendment 29 if that is all that that particular amendment was seeking to do. However, it also introduces a completely new area that has not been the subject of debate, either in committee or with any stakeholders previously. That area is the consent that children—those under the age of 18—can give to transplantation activity. Frankly, I am rather surprised to see references, in this late stage in the debate on human transplantation, to extending provisions relating to children in amendment 29 and other amendments that have been tabled to the Bill, especially given that not a single witness at the committee stage of the Bill requested this, and that the Minister had not mentioned this matter at all until his amendments were tabled. It does seem rather strange to lob a grenade about children's consent into this debate at such a late stage, without any proper consultation or discussion with stakeholders, who might well hold some very strong views on this subject. Due to the sensitive and complex nature of these transplantations, I am very uncomfortable with the idea of children giving express consent for the transplantation of their faces, hands, or other novel transplantations. While there might well be children who are perfectly capable of making a mature decision, and being mature enough to display Gillick competence, I simply do not accept that there is the time, or that there are the resources, to test Gillick competency issues, particularly in situations where a sick child might be confined to a hospital bed, unconscious at the end of their life.

Gillick competency is an issue that is tested in law. It is not enough, as Lord Scarman said in 1985 of the individual in this particular case,

'that she should understand the nature of the advice which is being given: she must also have a sufficient maturity to understand what is involved.'

Lord Scarman also commented more generally, at the judgment in the Gillick case, on parents versus children's rights. He said this:

Rwyf yn cefnogi barn y Gweinidog mai rheoliadau yw'r ffordd orau o ymdrin â thrawsbhaniadau newydd, er y gall fod rhywfaint o ddrwsych ynglŷn â sut y caiff y rheini eu diffinio. Rwyf, felly, yn fodlon ag awgrym y Gweinidog y bydd yn gallu cyflwyno rheoliadau a all fod yn destun dadl yn y Cynulliad ac yn destun trafod â rhanddeiliaid cyn eu diwygio, pe bai angen, er mwyn i'r Cynulliad eu cymeradwyo. Am y rheswm hwnnw, ni fyddaf yn cefnogi'r gwelliant a gyflwynwyd yn enw Angela Burns, er fy mod yn cydnabod bod angen eithrio organau atgenhedlu, y cyfeiriodd hi ato.

Mae'n hollol iawn y dylai fod angen cydsyniad datganedig ar gyfer y trawsblaniadau newydd yr ydym wedi bod yn eu trafod—pob un ohonynt, gan gynnwys dwylo a wynebau yn enwedig—cyn y gellir rhoi'r organau, yn hytrach na bod cydsyniad yn cael ei dybio dan y system newydd. Dyna pam, pan drafodwyd y mater hwn yn y pwyllgor, y gwnes fy marn am hynny'n glir iawn.

Byddwn, felly, yn cefnogi gwelliant 29, pe bai'r gwelliant penodol hwnnw'n ceisio gwneud dim ond hynny. Fodd bynnag, mae hefyd yn cyflwyno maes hollol newydd nad yw wedi bod yn destun dadl eisoes, yn y pwyllgor nac ag unrhyw rhanddeiliaid. Y maes hwnnw yw'r cydsyniad y gall plant—rhai dan 18 oed—ei roi i weithgarwch trawsblannu. A dweud y gwir, rwyf yn synnu braid o weld cyfeiriadau, mor hwyr â hyn yn y ddafl am drawsblannu dynol, at ymestyn darpariaethau sy'n ymwneud â phlant yng ngwelliant 29 a gwelliannau eraill sydd wedi'u cyflwyno i'r Bil, yn enwedig ac ystyried na ofynnodd yr un tyst yng nghyfnod pwyllgor y Bil am hyn, ac nad oedd y Gweinidog wedi crybwyll y mater hwn o gwbl nes i'w welliannau gael eu cyflwyno. Mae'n ymddangos braidd yn rhyfedd i dafu grenâd ynglŷn â chydsyniad plant i mewn i'r ddafl hon mor hwyr â hyn, heb ymgynghori priodol na thrafod â rhanddeiliaid; mae'n ddigon posibl y byddai ganddynt safbwyntiau cryf iawn am y pwnc hwn. Oherwydd natur sensitif a chymhleth y trawsblaniadau hyn, rwyf yn anghyfforddus iawn â'r syniad y gallai plant roi cydsyniad datganedig i drawsblannu eu hwynebau, eu dwylo, neu drawsblaniadau newydd eraill. Efallai'n wir fod rhai plant yn berffaith abl i wneud penderfyniad aeddfed, ac i fod yn ddigon aeddfed i arfer cymhwysedd Gillick, ond nid wyf yn derbyn bod digon o amser, nac adnoddau, i brofi materion yn ymwneud â chymhwysedd Gillick, yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle y gallai plentyn sâl fod yn gaeth i wely yn yr ystyby, yn anymwybodol ar ddiwedd ei oes.

Mae cymhwysedd Gillick yn fater sydd wedi'i brofi yn y gyfraith. Nid yw'n ddigon, fel y dywedodd yr Arglwydd Scarman yn 1985 am yr unigolyn yn yr achos penodol hwn,

ei bod yn deall natur y cyngor sy'n cael ei roi: rhaid iddi hefyd fod yn ddigon aeddfed i ddeall yr hyn sydd dan sylw.

Gwnaeth yr Arglwydd Scarman sylwadau mwy cyffredinol hefyd, yn y dyfarniad yn achos Gillick, am hawliau rhieni yn erbyn hawliau plant. Dywedodd:

'Parental right yields to the child's right to make his own decisions when he reaches a sufficient understanding and intelligence to be capable of making up his own mind on the matter requiring decision.'

Minister, you will have to explain this to me, because I do not understand. You have not given any information in the explanatory memorandum, or any other information to members of the health committee or anybody else in this Assembly. How can this Gillick competency test be applied without a proper full assessment of the maturity and understanding levels of a child, when they are nominating a representative in respect of making novel transplantations okay? I just cannot see how, on a practical basis, the test can be properly applied when a child seeks to register their express consent for novel transplantation, or prior to being in a situation where they could be a donor.

So, my amendment 29A seeks to remove the provisions in amendment 29 that apply to children. I can confirm that I will only be able to support the Minister's amendments in this group if I am successful in removing the issues in relation to children's consent. I am very disappointed, Minister, that you did not outline this issue when you stood to your feet to speak to your amendments.

The other amendments in this group that I have tabled, relate to having one nominated representative, rather than one or more, which is currently the case. I will take the opportunity to speak to these at this moment, even though a similar discussion might take place later on in the debate.

I support the principle of a person nominating a representative to make a decision on their behalf regarding organ donation in the event that they have passed away without making their views known. That is entirely appropriate. The current transplantation law provides for an individual to appoint one or more representatives on the basis that the transplantation activity can only go ahead with their consent, if the individual who nominated them has passed away. The reason a person can nominate more than one representative is that, under the current system, if one nominated representative cannot be contacted, another can be sought. If neither can be contacted, then transplantation activity cannot proceed. The Minister sought to resolve this issue at Stage 2 of the legislative process, by allowing people in a qualifying relationship to make a decision in the absence of a nominated representative, if that representative could not be found or located. These were welcome improvements to the Bill, but the Minister failed to address the potential for a transplantation activity to not proceed as a result of a disagreement between two or more nominated representatives. My amendments 29B, 29C, 29D, 29E, 29F and 29G seek to address this potential barrier to transplantation activity by restricting the number of nominated representatives to one only in the future. Existing nominations would still stand.

Mae hawl rhieni'n ildio i hawl y plentyn i wneud ei benderfyniadau ei hun pan fydd ganddo ddigon o ddealltwriaeth a deallusrwydd i'w alluogi i wneud ei benderfyniad ei hun am y mater dan sylw.

Weinidog, bydd yn rhaid ichi esbonio hyn imi, oherwydd nid wyf yn deall. Nid ydych wedi rhoi dim gwybodaeth yn y memorandwm esboniadol, nac unrhyw wybodaeth arall i aelodau'r pwyllgor iechyd nac unrhyw un arall yn y Cynulliad hwn. Sut y gellir defnyddio'r prawf cymhwysedd Gillick hwn heb asesiad priodol llawn o lefelau aeddfedrwydd a dealltwriaeth y plentyn, pan fydd yn enwebu cynrychiolydd er mwyn caniatáu trawsblaniadau newydd? Nid allaf weld sut, yn ymarferol, y gellir defnyddio'r prawf yn briodol pan fo plentyn yn ceisio cofrestru cydsyniad datganedig i wneud trawsblaniad newydd, neu cyn i'r plentyn fod mewn sefyllfa lle y gallai fod yn rhoddwr.

Felly, mae fy ngwelliant 29A yn ceisio cael gwared ar y darpariaethau yng ngwelliant 29 sy'n berthnasol i blant. Gallaf gadarnhau mai dim ond os llwyddaf i gael gwared ar y materion sy'n gysylltiedig â chydsyniad plant y byddaf yn gallu cefnogi gwelliannau'r Gweinidog yn y grŵp hwn. Rwyf yn siomedig iawn, Weinidog, na wnaethoch amlinellu'r mater hwn pan godasoch i siarad am eich gwelliannau.

Mae'r gwelliannau eraill yn y grŵp hwn yr wyf wedi'u cyflwyno'n ymwneud â chael un cynrychiolydd enwebedig, yn hytrach nag un neu fwy, sef y sefyllfa ar hyn o bryd. Rwyf am fanteisio ar y cyfle i siarad am hyn nawr, er efallai y cawn drafodaeth debyg yn nes ymlaen yn y ddadl.

Rwyf yn cefnogi'r egwyddor bod unigolyn yn enwebu cynrychiolydd i wneud penderfyniad ar ei ran am roi organau pe bai'n marw heb wneud ei farn yn hysbys. Mae hynny'n gwbl briodol. Mae'r gyfraith drawsblannu bresennol yn darparu y gall unigolyn benodi un neu ragor o gynrychiolwyr ar y sail bod angen eu cydsyniad er mwyn cynnal y gweithgaredd trawsblannu, os yw'r unigolyn sy'n eu henwebu'n marw. Y rheswm y gall unigolyn enwebu mwy nag un cynrychiolydd yw, o dan y system bresennol, y gellir, os na ellir cysylltu ag un cynrychiolydd enwebedig, geisio cysylltu ag un arall. Os na ellir cysylltu â'r naill na'r llall, ni ellir cynnal y gweithgarwch trawsblannu. Ceisiodd y Gweinidog ddatrys y mater hwn yng Nghyfnod 2 y broses ddeddfwriaethol, drwy ganiatáu i bobl mewn perthynas gymwys wneud penderfyniad yn absenoldeb cynrychiolydd enwebedig, os na ellid dod o hyd i'r cynrychiolydd. Croesawyd y gwelliannau hyn i'r Bil, ond methodd y Gweinidog â rhoi sylw i'r posibilrwydd y gallai gweithgaredd trawsblannu beidio â mynd rhagddo pe byddai anghytuno rhwng dau neu fwy o gynrychiolwyr enwebedig. Mae fy ngwelliannau 29B, 29C, 29D, 29E, 29F a 29G yn ceisio goresgyn y rhwystr posibl hwn i weithgarwch trawsblannu drwy gyfyngu nifer y cynrychiolwyr enwebedig i un yn unig yn y dyfodol. Byddai enwebiadau sy'n bodoli eisoes yn dal i gyfrif.

At Stage 2, the Minister said that he would look into the issue in relation to the Human Tissue Act 2004, and, to my knowledge, there has been no persuasive evidence as to why amendments in this area should not be accepted. Therefore, I ask the Minister to address the issue of Gillick competence in his response to this part of the debate and to address the issue of having a single, rather than multiple, nominated representatives. I am grateful for the support around the Chamber, or at least in some parts of the Chamber, for the Government's amendments that make it clear on the face of the Bill that novel forms of transplantation will not be covered by express consent. I listened very carefully to what Angela Burns had to say. She is absolutely right: there is real complexity here in the interplay between the Bill before the Assembly and existing legislation in both devolved and non-devolved areas. Where we have complete common ground is on the things that she would wish to see excluded from deemed consent; we would wish to see them excluded from deemed consent as well. I have thought about the point that she made about a further Stage 3 or report stage for the Bill and, on the whole, I do not think that that is the best way of doing things. That is because I do not want to hold up the whole Bill and also because, even within that span of time, these are complex issues to resolve. What I can say to her is that today is not the end of the consideration of the issues that she has raised.

Yng Nghyfnod 2, dywedodd y Gweinidog y byddai'n edrych ar y mater mewn cysylltiad â Deddf Meinweoedd Dynol 2004, a hyd y gwn, ni chafwyd dim tystiolaeth argyhoeddiadol pam na ddylid derbyn gwelliannau yn y maes hwn. Felly, gofynnaf i'r Gweinidog roi sylw i gymhwysedd Gillick yn ei ymateb i'r rhan hon o'r ddadl a rhoi sylw i gael un, yn hytrach na mwy nag un, cynrychiolydd enwebedig. Rwyf yn ddiolchgar am y gefnogaeth o gwmpas y Siambwr, neu o leiaf mewn rhai rhannau o'r Siambwr, i welliannau'r Llywodraeth sy'n ei gwneud yn glir ar wyneb y Bil na fydd mathau newydd o drawsblannu wedi'u cynnwys o dan gydsyniad datganedig. Gwrandawais yn astud iawn ar yr hyn a ddywedodd Angela Burns. Mae hi yn llygad ei lle: mae cymhlethdod go iawn yma yn y cydadweithio rhwng y Bil sydd gerbron y Cynulliad a deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes mewn meysydd sydd wedi'u datganoli a heb eu datganoli. Mae gennym dir cyffredin llwyr ar y pethau y byddai'n dymuno eu gweld wedi'u heithrio o gydsyniad tybiedig; byddem ni'n dymuno gweld eu heithrio o gydsyniad tybiedig hefyd. Rwyf wedi meddwl am y pwynt a wnaeth am Gyfnod 3 pellach neu gyfnod adrodd ar gyfer y Bil ac, ar y cyfan, nid wyf yn credu mai dyna'r ffordd orau o symud ymlaen, oherwydd nad wyf am arafu'r Bil cyfan a hefyd oherwydd, hyd yn oed o fewn y cyfnod hwnnw, fod y rhain yn faterion cymhleth i'w datrys. Yr hyn y gallaf ei ddweud wrthi yw nad heddiw yw diwedd yr ystyriaeth i'r materion a godwyd ganddi.

18:36 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that. I absolutely accept your commitment to ensuring that reproductive organs will be dealt with in regulations. I would still ask that we vote on this simply to ensure that we go ahead with the debate about resolving the complexity, but I entirely accept your point that it is such a complex area that you could not do it in a further Stage 3 or report stage. Thank you very much for your response.

Diolch am hynny. Rwyf yn derbyn yn llwyr eich ymrwymiad i sicrhau y bydd organau atgennedlu'n cael sylw mewn rheoliadau. Byddaf yn dal i ofyn inni bleidleisio ar hyn, a hynny er mwyn sicrhau ein bod yn bwrw ymlaen â'r ddadl ynghylch datrys y cymhlethdod, ond rwyf yn derbyn yn llwyr eich pwynt ei fod yn faes mor gymhleth na allech wneud hynny mewn Cyfnod 3 pellach neu gyfnod adrodd. Diolch yn fawr iawn am eich ymateb.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:36 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that last point in particular. What I am saying to the Assembly is this: we will have further discussions with non-devolved bodies so that we have a clear understanding of where the line lies in terms of those things over which we have no competence and therefore could not be brought within a deemed consent regime. If there are areas that fall to this Assembly, we will bring them forward through regulations so that the Assembly can be confident that they are being taken outwith the deemed consent arrangements.

Diolch am y pwynt olaf yn arbennig. Dyma'r hyn yr wyf yn ei ddweud wrth y Cynulliad: byddwn yn cael trafodaethau pellach â chyrff nad ydynt wedi'u datganoli er mwyn inni ddeall yn iawn ble mae'r ffin o ran y pethau hynny lle nad oes gennym gymhwysedd ac felly na ellid eu cynnwys mewn trefn cydsyniad tybiedig. Os oes meysydd y mae'r Cynulliad hwn yn gyfrifol amdanynt, byddwn yn eu cyflwyno drwy reoliadau fel y gall y Cynulliad fod yn hyderus eu bod yn cael eu heithrio o'r trefniadau cydsyniad tybiedig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I listened to what Darren Millar had to say. There is a whole group—group 6—that deals with the matter of a representative or representatives. There is a whole group—group 10—that deals with the issue of Gillick competence. I understand why he wanted to raise his points because of amendments here. I will deal with those matters in full when we come to them in the substantive order. Let me make just one point in reply to him in relation to Gillick competence, which I will make again when we come to that part of the agenda. The issue for me is a simple one: the Assembly is committed, in a way that very few other legislative assemblies have been committed, to the rights of the child. We have the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011. The Gillick competence issue is important. Where a child is competent to make these decisions for themselves, they should be allowed to make them for themselves. People who have a distrust of that basic proposition are often attracted to ask how you could make that principle work in this or that set of circumstances. It is a distrust of the basic proposition. I will come back to that in more detail at the group 10 stage.

Gwrandewais ar yr hyn a ddywedodd Darren Millar. Mae grŵp cyfan—grŵp 6—sy'n ymdrin â chael cynrychiolydd neu gynrychiolwyr. Mae grŵp cyfan—grŵp 10—sy'n ymdrin â chymhwysedd Gillick. Rwyf yn deall pam y mae'n awyddus i godi ei bwyntiau oherwydd y gwelliannau yma. Byddaf yn ymdrin â'r materion hynny'n llawn pan ddown atynt yn y prif orchymyn. Gadewch imi ymateb iddo ag un pwynt o ran cymhwysedd Gillick, a gwnaf y pwynt eto pan gyrhaeddwn y rhan honno o'r agenda. I mi, mae'n fater syml: mae'r Cynulliad wedi ymrwymo, mewn modd nad oes rhyw lawer o gynulliadau deddfwriaethol eraill wedi ymrwymo, i hawliau'r plentyn. Mae gennym Fesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae mater cymhwysedd Gillick yn bwysig. Os yw plentyn yn gymwys i wneud y penderfyniadau hyn drosto'i hun, dylai gael yr hawl i'w gwneud drosto'i hun. Mae pobl nad ydynt yn credu yn y cysyniad sylfaenol hwnnw'n aml yn cael eu temptio i ofyn sut y gallech wneud i'r egwyddor honno weithio dan y set hon neu'r set arall o amgylchiadau. Mae hynny'n ymwneud â pheidio â chredu yn y cysyniad sylfaenol. Dof yn ôl at hynny'n fanylach yng nghyfnod grŵp 10.

18:38 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is not a matter of distrusting the ability of a mature child to make a decision for themselves; it is a question of how you will test and why you have introduced these additional parts of the Bill with no discussion with any individuals in the Chamber or, more appropriately, outside of the Chamber with key stakeholders. Have you, for example, had a discussion with the Children's Commissioner for Wales? Perhaps you could you tell us that.

Nid mater o beidio ag ymddiried yng ngallu plentyn aeddfed i wneud penderfyniad drosto'i hun yw hyn, ond mater o ofyn sut y byddwch yn profi hyn a pham yr ydych wedi cyflwyno'r rhannau ychwanegol hyn o'r Bil heb drafod ag unrhyw unigolion yn y Siambr neu, yn fwy priodol, â rhanddeiliaid allweddol y tu allan i'r Siambr. A ydych, er enghraifft, wedi trafod â Chomisiynydd Plant Cymru? Efallai y gallech ddweud hynny wrthym.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:39 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am happy to do that. I would have done all of that at the stage that this is on the agenda. Yes, of course we have had a discussion with the Children's Commissioner for Wales. He has confirmed in the last few days that he is very content with the amendments that we are bringing forward on this issue because they are entirely consistent with the evidence that his office provided on the Bill at an earlier stage.

Rwyf yn fwy na bodlon gwneud hynny. Byddwn wedi gwneud hynny i gyd yn y cyfnod lle mae hyn ar yr agenda. Ydym, wrth gwrs ein bod wedi trafod â Chomisiynydd Plant Cymru. Mae ef wedi cadarnhau yn ystod y dyddiau diwethaf ei fod yn fodlon iawn â'r newidiadau yr ydym yn eu cyflwyno ynglŷn â'r mater hwn oherwydd eu bod yn gwbl gyson â'r dystiolaeth a ddarparwyd gan ei swyddfa ar y Bil yn gynharach.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 2 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 2 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly, mae gwelliant 2 wedi'i dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 2.

Amendment 2 agreed.

Grŵp 5: Cydsynio i Roi Organau: Cydsyniad Tybiedig (Gwelliannau 41, 47, 48, 49, 50, 69, 63 a 64)

Group 5: Consent to Donation: Deemed Consent (Amendments 41, 47, 48, 49, 50, 69, 63 and 64)

18:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The lead amendment in this group is amendment 41. I call on Darren Millar to move amendment 41 and to speak to it and to the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 41. Galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliant 41 ac i siarad amdano ac am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:39 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 41 in my name.

Cynigiaf welliant 41 yn fy enw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

My amendments in this group aim to strengthen the role of the family in decision making around transplantation activities. A recent ComRes poll by the charity Care found that 94% of people want the family to decide what happens or have the right to object when the deceased has not given express consent. When I say 'have the right to object', I mean that they should have the right to object on the basis of their own views and prevent a transplantation activity from proceeding, not the right to object on the basis of the views of the deceased only. A multifaith statement has been signed, including by the Archbishop of Wales, the Catholic Archbishop of Cardiff and the Muslim Council of Wales, calling on the Welsh Government to increase the role of the family in decision making and consent around transplantation activity. My amendments in this group will seek to do this while maintaining the primacy of the views of the deceased and, in doing so, keep to the spirit of the deemed consent system before us.

Assembly Members and stakeholders were led to believe that the new system of deemed consent would be a soft opt-out system. The First Minister, quoted in 'The Observer' before the last Assembly elections, said this:

'We have decided on soft presumed consent, where relatives can veto organ donation, because we want to make it as easy as possible.'

He went on to say:

'At the moment, if people are not carrying donor cards then it is presumed they didn't want to be a donor. If we presume everyone does—unless certain conditions are met—we don't want to be in a position where we are taking organs against the wishes of the family. There is no question of that.'

That was the basis of the election commitment made to the people of Wales on which this Government was elected. It is that principle of the ability of families to veto a transplantation activity, which this Government and the other parties that made similar commitments in their manifestos made to soft opt-out systems, that has led the public to believe that it would be voting for if it voted in a Government of those particular political colours.

The previous Minister for health, in introducing the Bill in the National Assembly, made it quite clear in the interviews that she gave to the media that there was an intention to give family members a 'veto in practice'. Regrettably, the system that this Government has developed does not reflect those commitments.

On 16 April, in the Stage 1 debate on this Bill, the Minister for health said,

'deemed consent donation will not go ahead in the absence of any family member.'

Nod fy ngwelliannau yn y grŵp hwn yw cryfhau swyddogaeth y teulu wrth wneud penderfyniadau am weithgareddau trawsblannu. Canfu arolwg ComRes diweddar gan yr elusen Care fod 94% o bobl yn dymuno i'r teulu benderfynu beth sy'n digwydd neu gael yr hawl i wrthwynebu pan nad yw'r ymadawedig wedi rhoi cydsyniad datganedig. Wrth ddweud 'yr hawl i wrthwynebu', rwyf yn golygu y dylent gael yr hawl i wrthwynebu ar sail eu safbwyntiau eu hunain ac atal gweithgarwch trawsblannu rhag digwydd, nid yr hawl i wrthwynebu ar sail safbwyntiau'r ymadawedig yn unig. Mae datganiad aml-ffydd wedi ei lofnodi, gan bobl sy'n cynnwys Archesgob Cymru, Archesgob Catholig Caerdydd a Chyngor Mwslimiaid Cymru, yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu rhan y teulu yn y broses o wneud penderfyniadau a rhoi cydsyniad ynghylch gweithgarwch trawsblannu. Bydd fy ngwelliannau yn y grŵp hwn yn ymuno gyda hyn ond yn parhau i roi'r brif flaenoriaeth i safbwyntiau'r ymadawedig a chadw, ar yr un pryd, at ysbryd y system cydsyniad tybiedig sydd ger ein bron.

Arweiniwyd Aelodau'r Cynulliad a rhanddeiliaid i gredu y byddai'r system newydd o gydsyniad tybiedig yn system optio allan meddal. Dyfynnwyd y Prif Weinidog yn 'The Observer' cyn etholiadau diwethaf y Cynulliad yn dweud:

Rydym ni wedi penderfynu ar gydsyniad tybiedig meddal, lle y gall perthnasau roi fetu ar roi organau, gan ein bod ni am ei gwneud mor hawdd â phosibl.

Aeth yn ei flaen i ddweud:

Ar hyn o bryd, os nad yw pobl yn cario cardiau rhoddwr, yna tybir nad oeddent eisiau bod yn rhoddwr. Os tybiwn fod pawb eisiau—oni bai y bodlonir amodau penodol—nid ydym eisiau bod mewn sefyllfa lle'r ydym yn cymryd organau yn groes i ddymuniadau'r teulu. Nid oes unrhyw gwestiwn o hynny.

Dyna oedd sail yr ymrwymiad etholiad a wnaed i bobl Cymru ac yr etholwyd y Llywodraeth hon ar ei sail. Yr egwyddor honno o allu teuluoedd i roi fetu ar weithgarwch trawsblannu, a gyflwynwyd gan y Llywodraeth hon a'r pleidiau eraill a wnaeth ymrwymadau tebyg yn eu manifestos i systemau optio allan meddal, sydd wedi peri i'r cyhoedd gredu mai dyna y byddent yn pleidleisio amdano wrth bleidleisio dros Lywodraeth o'r lliwiau gwleidyddol penodol hynny.

Wrth gyflwyno'r Bil yn y Cynulliad Cenedlaethol, dywedodd y Gweinidog iechyd blaenorol yn gwbl eglur yn y cyfweiliadau a roddodd i'r cyfryngau fod bwriad i roi 'feto ymarferol' i aelodau'r teulu. Yn anffodus, nid yw'r system y mae'r Llywodraeth hon wedi ei datblygu yn adlewyrchu'r ymrwymadau hynny.

Ar 16 Ebrill, yn y drafodaeth Cyfnod 1 ar y Bil hwn, dywedodd y Gweinidog iechyd,

'na fydd rhoi organau drwy ganiatâd tybiedig yn mynd yn ei flaen yn absenoldeb unrhyw aelod o'r teulu.'

That statement gave significant reassurance to those listening to the debate. Amendment 41 merely seeks to align the Bill with the Minister's commitment. I must say that I was rather disappointed that the Minister failed either to bring forward his own amendment in this area, or to reinforce this commitment in the draft code of practice that emanates from the Bill, which he circulated prior to today's debate. I believe that the presence of a family member is essential to ensuring the integrity of the new consent system and to safeguard and minimise the possibility that donation goes ahead against the wishes of the deceased. This amendment will give peace of mind to families who are concerned that donation activity could go ahead without their involvement at all. Furthermore, it will reaffirm the role of the family ahead of the perceived ability of the state to use organs for transplantation without their involvement.

I now turn to my amendments 47, 48, 49 and 50. The Bill, as currently drafted, would allow the state to presume the consent of an individual to organ donation in situations in which their views have not been expressed prior to their death. I firmly believe that the family members of the deceased are in a better place to presume the views of their loved ones than the state and, on that basis, even if they have no specific knowledge of their loved ones' views, family members ought to be able to provide information on the likely views of their loved ones in a situation in which an organ donation opportunity might arise. They are better equipped than the state, with an intricate knowledge of that person's values and beliefs. If the family's view is that, based on its knowledge of their loved one, they would not have consented to organ donation, then that should be a trigger to prevent a transplantation activity from proceeding. Those in a qualifying relationship are by far the best placed to relay the views or the likely views, of the deceased and to presume them. The state is not. As I introduced amendments to use the phrase 'qualifying relationship' in section 4 instead of 'relative or friend of long standing' to create some consistency across the Bill— [Interruption.] I appreciate that I am taking some time over this, Presiding Officer, but I think that it is really important that I do so.

Rhoddodd y datganiad hwnnw sicrwydd sylweddol i'r rhai a oedd yn gwranddo ar y ddadl. Y cwbl y mae gwelliant 41 yn ceisio ei wneud yw sicrhau bod y Bil yn cyd-fynd ag ymrwymiad y Gweinidog. Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod braidd yn siomedig gweld bod y Gweinidog wedi methu â chyflwyno ei welliant ei hun yn y maes hwn, neu atgyfnerthu'r ymrwymiad hwn yn y cod ymarfer drafft sy'n deillio o'r Bil, ac a ddosbarthwyd ganddo cyn y ddadl heddiw. Rwyf yn credu bod presenoldeb aelod o'r teulu yn hanfodol er mwyn sicrhau uniondeb y system gydsyniad newydd ac i ddiogelu a lleihau'r posibilrwydd y bydd y rhodd yn digwydd yn groes i ddyuniadau'r ymadawedig. Bydd y gwelliant hwn yn rhoi tawelwch meddwl i deuluoedd sy'n poeni y gallai gweithgarwch rhoi organau ddigwydd heb eu cynnwys hwy o gwbl. Hefyd, bydd yn ailgadarnhau swyddogaeth y teulu cyn gallu tybiedig y wladwriaeth i ddefnyddio organau i'w trawsblannu heb gynnwys y teulu.

Rwyf yn troi nawr at fy ngwelliannau 47, 48, 49 a 50. Mae'r Bil, fel y mae wedi ei ddrafftio ar hyn o bryd, yn caniatáu i'r wladwriaeth ragdybio cydsyniad unigolyn i roi organau mewn sefyllfaoedd lle na fynegwyd ei farn cyn iddo farw. Rwyf yn credu'n gryf bod aelodau teulu'r ymadawedig mewn sefyllfa well na'r wladwriaeth i dybio barn eu hanwyliaid ac, ar sail hynny, hyd yn oed os nad oes ganddynt wybodaeth benodol am safbwyntiau eu hanwyliaid, dylai aelodau'r teulu allu darparu gwybodaeth am farn debygol eu hanwyliaid mewn sefyllfa lle y gallai cyfle godi i roi organau. Maent mewn sefyllfa well na'r wladwriaeth, â gwybodaeth drylwyr am werthoedd a chredoau'r unigolyn hwnnw. Os yw'r teulu o'r farn, yn seiliedig ar wybodaeth am eu hanwyliaid, na fyddent wedi cytuno i roi organau, yna dylai hynny fod yn sbardun i atal gweithgarwch trawsblannu rhag digwydd. Y rhai sydd mewn perthynas gymhwysol sydd yn y sefyllfa orau o bell ffordd i gyfleu barn neu farn debygol, yr ymadawedig ac i'w thybio. Nid yw'r wladwriaeth yn y sefyllfa honno. Gan fy mod wedi cyflwyno gwelliannau i ddefnyddio'r ymadrodd 'perthynas gymhwysol' yn adran 4 yn hytrach na 'perthynas neu gyfaill ers amser maith' i greu rhywfaint o gysondeb ar draws y Bil—[Torri ar draws.] Rwyf yn gwerthfawrogi fy mod i'n cymryd cryn amser dros hyn, Lywydd, ond rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig iawn fy mod i'n gwneud hynny.

- 18:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I am not disagreeing with you. Carry on, please. Nid wyf yn anghytuno â chi. Parhewch, os gwelwch yn dda.
- 18:45 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you. Despite the objections of some Members in this Chamber to thoroughly scrutinising this Bill and the piece of legislation before us, I think that it is important to take our time, thank you very much. Therefore, Members speaking from a sedentary position who have said very little during this debate do irritate me. Diolch. Er gwaethaf gwrthwynebiadau rhai Aelodau yn y Siambur hon i graffu'n drylwyr ar y Bil hwn a'r darn o ddeddfwriaeth ger ein bron, rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig cymryd ein hamser, diolch yn fawr iawn. Felly, mae Aelodau sy'n siarad ar eu heistedd ac sydd wedi dweud ychydig iawn yn ystod y ddadl hon yn fy nghythraddo.
- 18:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Order. Darren Millar, I am also speaking from a sedentary position: will you please address your amendments? Trefn. Darren Millar, rwyf innau'n siarad ar fy eistedd hefyd: a wnech chi gyfeirio at eich gwelliannau?
- 18:45 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I am. Rwyf yn gwneud hynny.

18:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you very much.

Diolch yn fawr iawn.

18:45 **Darren Millar** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Amendment 63 deals with the issue of family distress. We are aware from the clinicians who gave evidence to the committee that the nature of organ donation evokes strong feelings among family members and that, sometimes, a discussion about proceeding with transplantation activity can result in significant distress for family members with strong objections. I believe that, in such circumstances, where the view of a loved one is unknown and being presumed by the state, it would be cruel to proceed with organ retrieval if significant distress was going to be caused. On that basis, this amendment seeks to require clear guidance to be developed and made available to clinicians and families where such distress occurs.

Mae gwelliant 63 yn ymdrin â'r mater o ofid teuluol. Fe'm hysbyswyd gan y clinigwyr a gyflwynodd dystiolaeth i'r pwyllgor bod natur rhoi organau yn arwain at deimladau cryf ymhlith aelodau'r teulu ac y gall trafodaeth am fwrw ymlaen â gweithgarwch trawsblannu weithiau arwain at ofid sylweddol i aelodau'r teulu sydd â gwrthwynebiadau cryf. Rwyf yn credu, dan amgylchiadau o'r fath, lle nad yw barn rhywun annwyl yn hysbys a lle y caiff ei thybio gan y wladwriaeth, y byddai'n greulon bwrw ymlaen a chasglu organau pe byddai'n achosi gofid sylweddol. Ar y sail honno, nod y gwelliant hwn yw ei gwneud yn ofynnol datblygu canllawiau eglur a sicrhau eu bod ar gael i glinigwyr a theuluoedd lle y mae gofid o'r fath yn digwydd.

I tabled an amendment at Stage 2 that would have prevented transplantation activity from proceeding in situations of undue distress, but the committee felt that the phrase was too difficult to define and indicated a preference to see the matter referred to in a code of practice. The Minister agreed with that position. However, unfortunately, this issue has not been addressed in the draft code that has been distributed by the Minister, and I therefore, in proposing guidance to be issued on this issue and in tabling this amendment, am seeking to move the committee's preference forward.

Cyflwynais welliant yn ystod Cyfnod 2 a fyddai wedi atal gweithgarwch trawsblannu rhag digwydd mewn sefyllfaoedd o ofid gormodol, ond roedd y pwyllgor yn teimlo fod yr ymadrodd yn rhy anodd ei ddiffinio ac yn dynodi y byddai'n well ganddo weld cyfeiriad at y mater mewn cod ymarfer. Roedd y Gweinidog yn cytuno â'r safbwynt hwnnw. Fodd bynnag, yn anffodus, ni chyfeiriwyd at y mater hwn yn y cod drafft a ddosbarthwyd gan y Gweinidog, ac rwyf i felly, wrth gynnig y dylid cyflwyno canllawiau ar y mater hwn ac wrth gyflwyno'r gwelliant hwn, yn ceisio symud dewis y pwyllgor yn ei flaen.

Moving on to amendment 64, I believe that it is practical to include a ranked order of qualifying relationships to support the resolution of any disputes that may arise between family members regarding the views of their loved one. The Human Tissue Authority commented that the absence of a hierarchy in the Bill had

Gan symud ymlaen at welliant 64, credaf ei bod yn ymarferol cynnwys trefn ar gyfer perthnasau cymhwysol er mwyn cynorthwyo i ddatrys unrhyw anghydfod a allai godi rhwng aelodau'r teulu ynglŷn â barn eu hanwyl. Dywedodd yr Awdurdod Meinweoedd Dynol fod gan y diffyg hierarchaeth yn y Bil

'the potential to create more confusion and more difficulty'.

y potensial i greu mwy o ddryswch a mwy o anhawster.

Dr Matthews from the Academy of Medical Royal Colleges Wales supported this view and said that qualifying relationships should be ranked in order to provide clear guidance for what happens if a family disagrees and to avoid confusion for clinicians. The clinical ethics committee from Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board stated in its written evidence:

Cefnogwyd y farn hon gan y Dr Matthews o Academi Colegau Meddygol Brenhinol Cymru, a dywedodd y dylid rhoi perthnasau cymhwysol yn eu trefn er mwyn cynnig canllawiau eglur ar gyfer yr hyn sy'n digwydd os yw teulu'n anghytuno ac i osgoi dryswch i glinigwyr. Nododd y pwyllgor moeseg glinigol o Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

'it is not clear what should be done in the likely event of disagreement between people with qualifying relationships. Such disagreements are common and there is often uncertainty about who knows best...A formal hierarchy or ranking of kinds of qualifying relationship might make things clearer.'

nad yw'n eglur beth y dylid ei wneud yn yr achos tebygol y bydd anghytuno rhwng pobl sydd â pherthynas gymhwysol. Mae anghytuno o'r fath yn gyffredin a cheir ansicrwydd ynghylch pwy a w'yr orau yn aml...Gallai hierarchaeth ffurfiol neu drefn ar gyfer mathau o berthynas gymhwysol wneud pethau'n fwy eglur.

The British Transplantation Society said that a hierarchy would help so that specialist nurses, or the intensive care unit doctors who talk to the relatives, can identify the individual person to whom they need to be speaking who carries the opinion of the deceased. The Health and Social Care Committee concluded in its report that, should the Minister confirm what the role of the family is in decision making, then we consider that a hierarchical system of qualifying relationships must accompany this in order for the Bill to be workable. My amendment 64 would establish a ranking system for those in a qualifying relationship to the deceased in order to support the resolution of any disputes that may arise as a result of their involvement in the deemed consent system. The Minister has already introduced a ranking system for those in a qualifying relationship involved in the decision-making process around transplantation where a nominated representative cannot be found. My amendment seeks to extend that principle to deemed consent.

Dyweddodd Cymdeithas Trawsblannu Prydain y byddai hierarchaeth o gymorth fel y gall nyrsys arbenigol, neu feddygon yr uned gofal dwys sy'n siarad â'r perthnasau, wybod â pha unigolion y mae angen iddynt siarad a hwy i gynrychioli barn yr ymadawedig. Daeth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r casgliad yn ei adroddiad ein bod o'r farn, pe bai'r Gweinidog yn cadarnhau beth yw swyddogaeth y teulu wrth wneud penderfyniadau, bod yn rhaid i system hierarchaidd o berthnasau gymhwysol ategu hynny er mwyn i'r Bil weithio'n ymarferol. Byddai fy ngwelliant 64 yn sefydlu trefn ar gyfer y rhai sydd mewn perthynas gymhwysol â'r ymadawedig, er mwyn cynorthwyo i ddatrys unrhyw anghydfod a allai godi o ganlyniad i'w rhan yn y system cydsyniad tybiedig. Mae'r Gweinidog eisoes wedi cyflwyno trefn ar gyfer y rhai sydd mewn perthynas gymhwysol ac sy'n rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am drawsblannu, pan na ellir dod o hyd i gynrychiolydd enwebedig. Nod fy ngwelliant yw ymestyn yr egwyddor honno i gydsyniad tybiedig.

Briefly, in terms of the amendment—

Yn gryno, o ran y gwelliant—

- 18:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Order. I did indicate to Members that I would not limit the time to five minutes, but I did say that I would not expect anyone to speak for longer than 10 minutes. You are at nine minutes and 20 seconds. Trefn. Dywedais wrth yr Aelodau na fyddwn yn cyfyngu'r amser i bum munud, ond dywedais na fyddwn yn disgwyl i neb siarad am fwy na 10 munud. Rydych chi wedi cyrraedd naw munud ac 20 eiliad.
- 18:49 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I appreciate that. Rwyf yn gwerthfawrogi hynny.
- 18:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Will you move on to the other amendments and move on? A wnewch chi symud ymlaen at y gwelliannau eraill a symud ymlaen?
- 18:49 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Finally, I am pleased to see amendment 69 in the name of Angela Burns on parental responsibility. I have strong objections to one arm of the state giving consent to another arm of the state for a child's organs to be donated upon their death. Parental responsibility for the purposes of consent for donation should apply only to birth or adoptive parents and, for that reason, I will be supporting her amendment. Yn olaf, rwyf yn falch o weld gwelliant 69 yn enw Angela Burns ar gyfrifoldeb rhieni. Mae gennyf wrthwynebiad cryf i weld un rhan o'r wladwriaeth yn rhoi caniatâd i ran arall o'r wladwriaeth i organau plentyn gael eu rhoi pan fydd yn marw. Rhieni biolegol neu fabwysiadol yn unig ddylai fod â chyfrifoldeb rhiant at ddibenion caniatâd i roi organau ac, am y rheswm hwnnw, byddaf yn cefnogi ei gwelliant.
- 18:50 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Byddaf yn gwrthwynebu'r holl welliannau yn y grŵp hwn. Mae'n wir i ddweud bod rhai o'r gwelliannau yn y grŵp hwn yn newid bwriad a chyfeiriad y ddeddfwriaeth hon yn llwyr. Cyfeirïaf at rai ohonynt yn benodol. Dechreuaf gyda gwelliant 41. Mae'r gwelliant hwn yn gwahardd cydsyniad tybiedig os nad yw aelod o deulu yn bresennol yn yr ysbyty yn ystod y farwolaeth. Mae unigolion yn ein cymdeithas sy'n marw ar eu pennau eu hunain a dylid, yn fy marn i, ganiatáu i gydsyniad gael ei dybio yn achos unigolion felly. I will not be supporting any of the amendments in this group. It is true to say that some of the amendments in this group change the intention and direction of the legislation entirely. I will refer to some of them specifically. I will start with amendment 41. This amendment prohibits presumed consent unless a member of a family is present in the hospital at the time of death. There are individuals in our society who die alone and it should be possible for consent to be deemed for individuals in such circumstances.

Ar welliant 47 yn enw Darren Millar, yn fy marn i, barn yr unigolyn sydd oruchaf. Os nad oes gwybodaeth na thystiolaeth benodol i'r gwrthwyneb gan aelod o'r teulu neu ffrind agos, dylid tybio o blaid cydsyniad. Nid rôl y ddeddfwriaeth hon yw caniatáu aelodau o'r teulu i ddyfalu barn yr unigolyn neu i osod eu barn nhw eu hunain gerbron yn yr achosion hyn, fel yr amlinellir yn y gwelliant. Mae'r gwelliant a chynnwys y gwelliant hwn yn perthyn i'r gyfundrefn bresennol a sefyllfaoedd sy'n codi o dan y gyfundrefn bresennol. Byddai'r gwelliant hwn, gwelliant 47, yn glastwreiddio'r ddeddfwriaeth yn sylweddol yn fy marn i.

Yn olaf, cyfeiriaf at welliant 64 yn enw Darren Millar. Hwn yw'r gwelliant sydd am osod trefn ar aelodau'r teulu. Gan mai rôl y teulu yn y ddeddfwriaeth hon fydd cyflwyno gwybodaeth neu dystiolaeth ar ddymuniaid yr unigolyn, nid oes pwrpas rancio gan fod y wybodaeth a'r dystiolaeth yr un mor bwysig a pherthnasol yn dod o'r chwaer neu ffrind agos ag ydyw yn dod o'r fam neu'r wraig. Mae'r wybodaeth a'r dystiolaeth yn gyfartal a llawn mor bwysig beth bynnag yw'r ffynhonnell. Rydym i gyd yn adnabod digon o unigolion sy'n fwy parod i drafod eu dymuniad yn y maes hwn gyda chwaer neu gyda ffrind agos yn hytrach na gydag, o bosibl, yr aelod agosaf o'u teulu. Felly, byddaf i hefyd yn gwrthwynebu'r gwelliant hwn.

On amendment 47 in the name of Darren Millar, in my opinion, the view of the individual should be paramount. Unless there is specific information or evidence to the contrary from a member of the family or a close friend, then consent should be deemed to have been given. It is not the role of this legislation to allow family members to guess the views of the individual or to put their own views forward in these cases, as is outlined in the amendment. The amendment and the content of this amendment relate to the current regime and situations that arise under that regime. This amendment, amendment 47, would dilute the legislation significantly in my opinion.

Finally, I will refer to amendment 64 in the name of Darren Millar. This is the amendment that seeks to rank qualifying family members. As the role of the family in this legislation would be to provide information or evidence on the wishes of the individual, there is no purpose in ranking in this way, as the information and evidence is as important and relevant coming from a sister or a long-standing friend as it would be coming from a mother or a wife. The information and evidence is of equal validity from whichever source it comes. We all know plenty of individuals who are more willing to discuss their views on this matter with their sister or a close friend than with the closest member of their family, perhaps. Therefore, I will also be opposing this amendment.

18:52

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The amendments put forward by Darren Millar today are ones that I know he moves out of a heartfelt and personal view that he holds with regard to presumed consent and the role of the family, and he has been explicit, clear and consistent throughout the whole of the consideration of this Bill in putting those views forward. That does not mean that they are not worthy of respect. However, what he seeks to achieve is simply not the objective that is set out in the legislation here today.

There is a fundamental disagreement with those of us who perceive not actively putting your name on the list as a poor man's consent. He says that, in those cases, the family should be able to have a veto because you do not know what the person's view is. That is, the family should be able to say if they do not know what the view is. However, the fact that you are not on the list is a view. That person could have very proactively decided to express their consent by not putting their name on the list. This is a fundamental disagreement about the way in which people express their consent. We heard evidence from Britain's leading medical ethicists in this area that presumed consent is not a poor man's consent and that it is as good as actively putting your name on the list. This is exactly the same in law and it is exactly the same kind of consent.

That brings us on to the issue of the family and the role of the family in this procedure.

Mae'r gwelliannau a gynigwyd gan Darren Millar heddiw yn rhai y gwn ei fod yn eu cynnig oherwydd ei farn bersonol ac o'r galon am gydsyniad tybiedig a swyddogaeth y teulu, ac mae wedi bod yn bendant, yn eglur ac yn gyson wrth fynegi'r farn honno trwy gydol y broses o ystyried y Bil hwn. Nid yw hynny'n golygu nad ydynt yn haeddu parch. Fodd bynnag, yn syml, nid yw'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni yr un fath â'r amcan sydd wedi ei nodi yn y ddeddfwriaeth hon heddiw.

Ceir anghytundeb sylfaenol â'r rhai ohonom sydd o'r farn bod peidio â mynd ati'n benodol i roi eich enw ar y rhestr yn gydsyniad ail ddsbarth. Yn yr achosion hynny, mae'n dweud y dylai'r teulu allu cael feto gan nad ydych chi'n gwybod beth yw barn yr unigolyn. Hynny yw, dylai'r teulu allu dweud os nad ydynt yn gwybod beth yw'r farn. Fodd bynnag, mae'r ffaith nad ydych ar y rhestr yn farn. Gallai'r unigolyn hwnnw fod wedi gwneud penderfyniad rhagweithiol iawn i roi ei gydsyniad trwy beidio â rhoi ei enw ar y rhestr. Mae hwn yn achos sylfaenol o anghytuno ynglŷn â'r ffordd y mae pobl yn datgan eu cydsyniad. Clywsom dystiolaeth gan foesegwyr meddygol mwyaf blaenllaw Prydain yn y maes hwn nad yw cydsyniad tybiedig yn gydsyniad ail ddsbarth a'i fod cystal â mynd ati i roi eich enw ar y rhestr. Mae yn union yr un fath yn y gyfraith ac yn union yr un math o gydsyniad.

Daw hynny â ni at fater y teulu a swyddogaeth y teulu yn y weithdrefn hon.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:54

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

On that point, while I agree with you that, in law, there probably is parity between presumed consent, or a soft opt-out, and consent that is given, in that we still want to encourage people to sign up to a register—the donor card system—if possible so that we are absolutely sure of what their view will be, surely we should not be giving out the message that they are exactly the same. We still want people to express their view where that is possible. Therefore, they are not the same.

Ar y pwynt hwnnw, rwyf yn cytuno â chi bod cydsyniad tybiedig, neu optio allan meddal, a chydsyniad a roddir yn gydradd yn y gyfraith, mae'n debyg, o'r safbwynt ein bod dal eisiau annog pobl i ymuno â'r gofrestr—y system cerdyn rhoddwr—os yn bosibl. Er hynny, fel ein bod yn hollol sicr beth fydd eu barn, does bosibl na ddylem ni fod yn cyfleu'r neges eu bod yn union yr un fath. Rydym ni eisiau i bobl fynegi eu barn o hyd, pan fo hynny'n bosibl. Felly, nid ydynt yr un fath.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

18:55

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

They are, they are just different expressions of that consent. They are the same; they are consent. It is not a poor man's consent.

Ydynt, maent yn wahanol ffordd o fynegi'r cydsyniad hwnnw, dyna'r cwbl. Maent yr un fath; maent yn gydsyniad. Nid yw'n gydsyniad ail ddsbarth.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

What is important here, and what the Government has sought to clarify, is the role of the family if those people's views are known. I give the example of my husband, who has an ethical objection to organ donation. He makes that view quite clear. We are aware, as a family, of his objections. I do not necessarily understand them, but there we are. The chances of him getting around to putting his name on the list to opt out are slim. Like many things in his life, unless I do it for him, I suspect that it will not happen. [Laughter.] However, the Welsh Government has provided an opportunity for me and our family—God forbid we should ever be in that situation—to allow us to express those views that, even though he has never got around to being on that list for opting out, we know exactly how he feels about this. The Government's amendments, the changes that the Government has made, and what the Government has outlined now have provided an opportunity for family members to say, 'He would not have wanted this. We know what his views were. He might not have got around to putting his name on the list to object, but we know what his views were'. That is safeguarded in this particular way.

Yr hyn sy'n bwysig yma, a'r hyn y mae'r Llywodraeth wedi ceisio ei egluro, yw swyddogaeth y teulu os yw barn y bobl hynny'n hysbys. Cynigiau enghraifft fy ngŵr i chi, sy'n gwrthwynebu i roi organau ar sail foesegol. Mae'n gwneud y farn honno'n gwbl eglur. Rydym yn ymwybodol, fel teulu, o'i wrthwynebiad. Nid wyf o reidrydd yn ei ddeall, ond dyna ni. Mae'r siawns o'i weld ef yn mynd ati i roi ei enw ar y rhestr i optio allan yn isel. Fel llawer o bethau yn ei fywyd, oni bai fy mod i'n ei wneud ar ei ran, rwyf yn amau na fydd yn digwydd. [Chwerthin.] Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfle i mi a'n teulu—Duw a'n gwaredo na fyddwn ni fyth yn y sefyllfa honno—i'n galluogi i fynegi'r farn honno, er nad yw wedi rhoi ei enw ar y rhestr i optio allan, rydym ni'n gwybod yn union sut y mae'n teimlo am hyn. Mae gwelliannau'r Llywodraeth, y newidiadau y mae'r Llywodraeth wedi eu gwneud, a'r hyn y mae'r Llywodraeth wedi ei amlinellu nawr wedi cynnig cyfle i aelodau'r teulu ddweud, 'Ni fyddai wedi dymuno hyn. Rydym yn gwybod beth oedd ei farn. Efallai nad oedd wedi llwyddo i roi ei enw ar y rhestr i wrthwynebu, ond rydym yn gwybod beth oedd ei farn'. Diogelir hynny yn y ffordd benodol hon.

The issue of the ranked list, I think, is dependent on the kind of system that you are operating in. Here, we are looking for quality of information. As Elin Jones quite rightly pointed out, if the role of the family and friends is to provide quality of information, the ranked list is of little use. You could find yourself in a situation with family members who are long estranged or perhaps do not have regular contact with the potential donor, who might never have had a conversation about this subject, versus the close friend that that person might have had a conversation with in the pub on Friday night. Lindsay might not have had a conversation with some of his family members, but all of us in the committee are left in no doubt about Lindsay's positive enthusiasm for organ donation, should he find himself in that situation. Therefore, anyone on the committee would have more relevant and more up-to-date information than perhaps some of Lindsay's family who may present themselves to give a view. I give way to Darren.

Mae mater rhestr yn ei threfn, rwyf yn meddwl, yn dibynnu ar y math o system yr ydych yn gweithredu ynddi. Rydym ni'n chwilio am wybodaeth o ansawdd yma. Fel y dywedodd Elin Jones yn ddigon cywir, os mai swyddogaeth y teulu a ffrindiau yw darparu gwybodaeth o ansawdd, ni fydd trefn y rhestr o fawr o ddefnydd. Gallech eich cael eich hun mewn sefyllfa lle y ceir aelodau o'r teulu sydd wedi hen ddiethrio neu efallai nad ydynt mewn cysylltiad rheolaidd â'r darpar roddwr, efallai nad ydynt erioed wedi cael sgwrs am y pwnc hwn, o'i gymharu â ffrind agos y gallai'r unigolyn hwnnw fod wedi sgwrsio ag ef yn y dafarn ar nos Wener. Efallai nad yw Lindsay wedi cael sgwrs gyda rhai o aelodau ei deulu, ond nid oes gan yr un oonom ar y pwyllgor unrhyw amheuaeth ynglŷn â brwdfrydedd cadarnhaol Lindsay at roi organau, pe bai'n cael ei hun yn y sefyllfa honno. Felly, byddai'n gan unrhyw un ar y pwyllgor wybodaeth fwy perthnasol a chyfredol na rhai o deulu Lindsay a allai gynnig eu hunain i fynegi barn. Ildiaf i Darren.

18:57

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We are his family.

Ni yw ei deulu.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

18:57	Darren Millar Bywgraffiad Biography	I am grateful to you for taking an intervention.	Rwyf yn ddiolchgar i chi am dderbyn ymyriad.	Senedd.tv Fideo Video
18:57	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	You are winding up later.	Rydych chi'n dirwyn i ben yn ddiweddarach.	Senedd.tv Fideo Video
18:57	Darren Millar Bywgraffiad Biography	I appreciate that, Llywydd, but I wish to ask Kirsty, why then, given the complexities and the issues that you have raised regarding a ranked list, do you support a ranked list for family members or those in qualifying relationships when the nominated representative cannot be found?	Rwyf yn gwerthfawrogi hynny, Lywydd, ond hoffwn ofyn i Kirsty, pam felly, o ystyried y cymhlethdodau a'r materion rydych chi wedi eu codi ynglŷn â rhestr yn ei threfn, a ydych chi'n cefnogi cael rhestr yn ei threfn o aelodau'r teulu neu'r rhai sydd mewn perthynas gymhwysol pan na ellir dod o hyd i'r cynrychiolydd enwebedig?	Senedd.tv Fideo Video
18:58	Kirsty Williams Bywgraffiad Biography	In those circumstances, there may be value in having that ranked list if the representative cannot be found to make that decision. The reality is that, in this situation, we are looking for the quality of the information. If the family was to have a veto, which it does not, that is when there is value in the ranked list.	Dan yr amgylchiadau hynny, efallai y byddai rhywfaint o werth mewn cael rhestr yn ei threfn os na ellir dod o hyd i'r cynrychiolydd i wneud y penderfyniad hwnnw. Y gwir amdani yw, yn y sefyllfa hon, ein bod yn chwilio am wybodaeth o ansawdd. Pe bai gan y teulu fetu, ac nid oes ganddo un, dyna pryd y byddai gwerth i restr yn ei threfn.	Senedd.tv Fideo Video
		Your point about disagreements is an important one, as is the point of distress. Let us make it quite clear: all of the evidence that we have received from clinicians has acknowledged their duty of care not just to the potential donor, but to the wider family. They have been quite clear about that. They have also been quite clear that, in those situations, donation would not proceed in the face of strong objections from a family. That is quite right. I do not believe that it is possible or effective to put that on the face of the Bill. In those situations, that advice and guidance to clinicians is best achieved through the code of practice. Let us remember that clinicians are not going to operate in a vacuum or simply within this legislation. Clinicians will operate within the bounds of their own clinical practice and their own clinical codes to do no harm. That is an important point to make. A ranked list might have importance in a veto situation, but we are looking for quality of information.	Mae eich pwynt am achosion o anghytuno yn un pwysig, fel y mae'r pwynt am ofid. Gadewch i ni ei gwneud yn gwbl eglur: mae'r holl dystiolaeth yr ydym ni wedi ei derbyn gan glinigwyr wedi cydnabod eu dyletswydd gofal nid yn unig i'r darpar roddwr, ond i'r teulu ehangach. Maent wedi bod yn gwbl eglur am hynny. Maent hefyd wedi bod yn gwbl eglur, yn y sefyllfaoedd hynny, na fyddai organau'n cael eu rhoi pe bai gwrthwynebiad cryf gan deulu. Mae hynny'n hollol gywir. Nid wyf yn credu ei bod yn bosibl nac yn effeithiol rhoi hynny ar wyneb y Bil. Yn y sefyllfaoedd hynny, y ffordd orau o ddarparu'r cyngor a'r canllawiau hynny i glinigwyr yw drwy'r cod ymarfer. Gadewch i ni gofio nad yw clinigwyr yn mynd i weithredu mewn gwactod neu'n unol â'r ddeddfwriaeth hon yn unig. Bydd clinigwyr yn gweithredu yn unol â ffiniau eu harfer clinigol eu hunain a'u codau clinigol eu hunain i achosi dim niwed. Mae hwnnw'n bwynt pwysig i'w wneud. Gallai rhestr yn ei threfn fod yn bwysig mewn sefyllfa o fetu, ond rydym yn chwilio am wybodaeth o ansawdd.	
		The points that Angela Burns raised about parental responsibility are important ones. My understanding is that there is no difference between this Bill and definitions of parental responsibility already in existing legislation on human tissue and also in the Children Act, and this in no way presents a situation whereby we would move away from the long-established principles of who has parental responsibility, even in the case of looked-after children.	Mae'r pwyntiau a godwyd gan Angela Burns am gyfrifoldeb rhiant yn rhai pwysig. Fy nealltwriaeth i yw nad oes unrhyw wahaniaeth rhwng y Bil hwn a diffiniadau o gyfrifoldeb rhiant sydd eisoes yn bodoli yn y ddeddfwriaeth bresennol ar feinwe dynol a hefyd yn y Ddeddf Plant. Nid yw hyn mewn unrhyw ffordd yn cyflwyno sefyllfa lle y byddem yn symud i ffordd oddi wrth egwyddorion sydd wedi eu hen sefydlu o bwy sydd â chyfrifoldeb rhiant, hyd yn oed yn achos plant sy'n derbyn gofal.	

I am delighted to have the opportunity to support amendments 47 to 50 tabled by Darren Millar. The irony of this debate is that the majority of Members are probably committed to human transplantation. However, the way in which that is achieved is the subject of our debate. Clearly, all of us want to achieve the greatest number possible. The Minister previously indicated that, if there was an increase of 15, he would be particularly happy, and, no doubt, that will match the resources presently available. Obviously, where the views of the deceased are known, because they signed the organ donation register, or because they told a family member, there is no presuming of consent, because consent has been given. In this context, therefore, the soft opt-out, by definition, does not apply. Its role is in relation to where the views of the deceased are unknown, and here, the seeking of the views of family members, as the living representatives of the deceased, becomes vital.

We all acknowledge that organ transplantation surgery is one of the most clinically effective forms of modern medical treatment and that it saves the lives of patients with failure of organs such as the heart, kidneys, lungs, pancreas and liver. Historically, much of the focus has been on transplantation to save lives, but recent years have also seen the transplantation of tissue, aimed not just at saving lives, but at improving the quality of life. The idea of deemed or presumed consent is certainly the most contentious issue surrounding this Bill. The most important committee recommendation surely pertains to the role of the family, which has, of course, been the subject of the greatest public concern.

From the outset, the Welsh Government has gone out of its way to reassure people and is proposing a soft, rather than a hard, opt-out Bill. Central to the idea of any soft opt-out Bill is the role of the surviving family. The difference between a hard and soft opt-out system depends on how the family are treated. It is absolutely essential that there is a requisite amendment to the Bill to clarify the role of the family and to make it plain that, where someone dies without expressly electing whether or not to donate, doctors can only take the organs if the surviving family, as representatives of the deceased, agree. I believe that more robust outlines, as shown in the amendments tabled today, are required specifically to define the rights and responsibilities of members of the deceased person's family.

Rwyf wrth fy modd yn cael y cyfle i gefnogi gwelliannau 47 i 50 a gyflwynwyd gan Darren Millar. Eironi'r drafodaeth hon yw bod mwyafrif yr Aelodau wedi ymrwymo i drawsblannu dynol, yn ôl pob tebyg. Fodd bynnag, testun ein dadl yw sut y dylid cyflawni hynny. Yn amlwg, mae pob un ohonom eisiau cyflawni'r nifer fwyaf bosibl o drawsblaniadau. Yn flaenorol, dywedodd y Gweinidog y byddai'n arbennig o hapus pe bai cynnydd o 15, ac, yn ddiau, bydd hynny'n cyd-fynd â'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd. Yn amlwg, lle mae barn yr ymadawedig yn hysbys, gan ei fod wedi llofnodi'r gofrestr rhoi organau, neu gan ei fod wedi dweud wrth aelod o'r teulu, ni chaiff cydsyniad ei dybio, gan fod cydsyniad wedi ei roi. Yn y cyddestun hwn, felly, nid yw'r optio allan meddal, trwy ddiffiniad, yn berthnasol. Daw'n berthnasol mewn achosion lle nad yw barn yr ymadawedig yn hysbys, ac yma, mae'n hanfodol gofyn am farn aelodau'r teulu, fel cynrychiolwyr byw yr ymadawedig.

Rydym ni oll yn cydnabod mai llawdriniaeth i drawsblannu organau yw un o'r mathau mwyaf effeithiol o driniaeth feddygol fodern o safbwynt clinigol a'i bod yn achub bywydau cleifion pan fo organau fel y galon, yr arennau, yr ysgyfaint, y pancreas a'r afu wedi methu. Yn hanesyddol, mae'r pwyslais i raddau helaeth wedi bod ar drawsblannu i achub bywydau, ond trawsblannwyd meinwe yn ystod y blynyddoedd diwethaf hefyd, gyda'r nod o wella ansawdd bywyd ac nid dim ond achub bywydau. Mae'n sicr mai'r syniad o gydsyniad tybiedig yw'r mater mwyaf dadleuol yn ymwneud â'r Bil hwn. Does bosibl bod argymheliad pwysicaf y pwyllgor yn ymwneud â swyddogaeth y teulu, a dyna, wrth gwrs, fu testun y pryder mwyaf i'r cyhoedd.

O'r cychwyn cyntaf, mae Llywodraeth Cymru wedi mynd o'i ffordd i dawelu meddyliau pobl ac mae'n cynnig Bil optio allan meddal, yn hytrach na chaled. Mae swyddogaeth y teulu yn ganolog i'r syniad o unrhyw Fil optio allan meddal. Mae'r gwahaniaeth rhwng system optio allan caled a meddal yn dibynnu ar sut y mae'r teulu'n cael eu trin. Mae'n gwbl hanfodol gwneud gwelliant angenrheidiol i'r Bil i egluro swyddogaeth y teulu ac i'w gwneud yn eglur, pan fydd rhywun yn marw heb nodi'n bendant a yw am roi organau ai peidio, na all meddygon gymryd yr organau oni bai bod y teulu, fel cynrychiolwyr yr ymadawedig, yn cytuno. Credaf fod angen canllawiau mwy cadarn, fel y gwelir yn y gwelliannau a gyflwynwyd heddiw, yn benodol i ddiffinio hawliau a chyfrifoldebau aelodau teulu'r ymadawedig.

If there was any doubt about the need for these guidelines, it was certainly swept away by recent organ donation figures. While donation rates soared across the United Kingdom by 50%, they fell by 22% in the last 12 months in Wales. This is quite extraordinary. In the past 12 months, there can be no other part of the United Kingdom where there has been such an awareness of the need for organ donation as Wales. We have had major public consultation, the launch of the Bill and huge press coverage. I fully expected the national rates to have risen in that context. The fact that they had fallen proves nothing of itself—correlation does not necessarily mean causation. However, when dealing with something as important as organ donation and people's lives, we must operate on the basis of the precautionary principle.

It is considered better to respect people's consent and to appeal to their altruism than to effectively bypass it by introducing elements of presumption. The faith group that gave evidence to the committee stated that it considered organ donation as a gift freely given and that deemed consent appeared to take away the personal offering of a gift. I do not believe that the Welsh Government should determine what happens to a person's body after their death.

On 30 January, Dr Peter Matthews, an intensive care specialist, who also represented the Academy of Medical Royal Colleges in Wales, in his evidence to the committee, gave us an early warning signal. He said:

'My own experience is that the British psyche has a particular view that what it should do is donate organs as an altruistic gift, and if it is felt that the state is going to take over the organs, then there is the potential that people who may have been willing to become a donor will not do so. We have seen two cases in Morriston where patients who were on the organ donation register, on hearing about this, said to their families that if the state was going to take their organs, they were no longer willing to give them. We lost two donations because of that. So, there is a potential backlash.'

A poll commissioned by the charity Care yesterday found that 94% of people questioned said that, when someone dies without expressly deciding to donate or not to donate, the family should either decide what happens with respect to donation or have the right to object to organs being taken. This demonstrates the importance of the family to Welsh culture. If we pass this Bill, it blatantly disrespects this principle. It has been amended to achieve this end, but the arrangement could so easily backfire. My greatest fear is that the introduction of this legislation would cause existing donors to remove themselves from this list and cause future or potential donors to reconsider. Happily, amendments 47 to 50 provide a resolution. If embraced, they would have the effect of making this the soft opt-out Bill we were always promised. Crucially, they provide for the family to be involved in the decision-making process when the views of the deceased are not known. That is the only way that this can be made a soft opt-out Bill.

Os oedd unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r angen am y canllawiau hyn, mae'n sicr iddi gael ei hysgubo ymaith gan ffigurau diweddar ar roi organau. Er bod cyfraddau rhoi organau wedi cynyddu 50% ledled y Deyrnas Unedig, gostyngodd y gyfradd yng Nghymru 22% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn anhygoel. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ni all fod unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig lle bu cymaint o ymwybyddiaeth o'r angen i roi organau â Chymru. Rydym ni wedi cael ymgynghoriad cyhoeddus mawr, lansiad y Bil a llawer iawn o sylw yn y wasg. Roeddwn i'n llawn ddisgwyl y byddai'r cyfraddau cenedlaethol wedi codi yn y cyd-destun hwnnw. Nid yw'r ffaith eu bod wedi gostwng yn profi dim ynddo'i hun—nid yw cydberthynas yn golygu o reidrwydd bod y naill wedi achosi'r llall. Fodd bynnag, wrth ymdrin â rhywbeth mor bwysig â rhoi organau a bywydau pobl, mae'n rhaid inni weithredu ar sail yr egwyddor ragofalus.

Ystyrir ei bod yn well parchu cydsyniad pobl ac apelio i'w hanhunanoldeb na'i osgoi i bob pwrpas trwy gyflwyno elfennau o ragdybiaeth. Dywedodd y grŵp ffydd a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor ei fod yn ystyried rhoi organau fel rhodd hael, a bod cydsyniad tybiedig fel pe bai'n cael gwared ar y cynnig personol o rodd. Nid wyf yn credu y dylai Llywodraeth Cymru benderfynu beth sy'n digwydd i gorff rhywun ar ôl iddo farw.

Ar 30 Ionawr, rhoddwyd rhybudd cynnar inni, yn ei dystiolaeth i'r pwyllgor, gan y Dr Peter Matthews, arbenigwr gofal dwys a oedd hefyd yn cynrychioli Academi Colegau Meddygol Brenhinol Cymru. Meddai:

Fy mhrofiad fy hun yw bod gan y meddylfryd Prydeinig farn benodol mai'r hyn y dylid ei wneud yw rhoi organau fel rhodd anhunanol, ac os teimlir bod y wladwriaeth yn mynd i gymryd yr organau, yna ceir posibilrwydd na fydd pobl a allai fod wedi bod yn barod i roi organau yn gwneud hynny. Rydym ni wedi gweld dau achos yn Nhreforys pryd y dywedodd cleifion a oedd ar y gofrestr rhoi organau wrth eu teuluoedd, wrth glywed am hyn, nad oeddent yn fodlon rhoi eu horganau bellach os oedd y wladwriaeth yn mynd i'w cymryd. Collwyd dau rodd oherwydd hynny. Felly, mae ymateb negyddol yn bosibl.

Canfu arolwg a gomisiynwyd gan yr elusen Care ddoe fod 94% o'r rhai a holwyd yn dweud y dylai'r teulu naill ai benderfynu beth sy'n digwydd o ran rhoi organau neu gael yr hawl i wrthwynebu i organau gael eu cymryd, pan fydd rhywun yn marw heb benderfynu'n benodol a yw am roi organau neu beidio. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd y teulu i ddiwylliant Cymru. Os byddwn yn pasio'r Bil hwn, mae'n dangos diffyg parch amlwg at yr egwyddor hon. Mae wedi cael ei wella i gyflawni'r diben hwn, ond gallai'r drefn fynd o'i lle mor hawdd. Fy mhryder mwyaf yw y byddem, trwy gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon, yn achosi i roddwyr presennol dynnu eu hunain oddi ar y rhestr hon ac achosi i roddwyr yn y dyfodol neu ddarparu roddwyr ailystyried. Yn ffodus, mae gwelliannau 47 i 50 yn cynnig ateb. Pe baent yn cael eu derbyn, byddent yn cael yr effaith o sicrhau mai hwn yw'r Bil optio allan meddal a addawyd i ni erioed. Yn hollbwysig, maent yn darparu i'r teulu fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau pan nad yw barn yr ymadawedig yn hysbys. Dyna'r unig ffordd y gellir gwneud hwn yn Fil optio allan meddal.

19:05

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn inni ddod yn ôl at y peth sylfaenol yn y ddaol hon, sef beth rydym yn ceisio ei ddatblygu drwy'r rhan hon o'r drafodaeth ar y Cyfnod hwn: Bil sy'n weithiadwy ac yn eglur. Mae'n rhaid imi ddweud fy mod yn meddwl bod y gwelliannau hyn yn tansellio agweddau ymarferol pwysig ar y Bil, a hefyd yn dod i mewn â dadl ideolegol roeddwn yn credu iddi ddiffannu o'r tir, a dweud y gwir, ers blynyddoedd. Rydym wedi cael ymgais gan Darren Millar yn y gwelliannau hyn i atgyfodi'r teulu hierarchaidd Fictoriaidd yn ei holl ogoniant, lle mae gwahanol aelodau o deulu yn cael mwy o lais na'i gilydd ynglŷn â honiad tybiedig am farn y dinesydd unigol. Yr hwn mae'r Bil hwn yn ceisio ei wneud, fodd bynnag, yw sicrhau bod cydbwysedd rhwng hawliau unigol, yn ôl y ddealltwriaeth o safbwynt y dinesydd, a'r egwyddor o rodd, sy'n rhodd dybiedig o fywyd drwy'r ddeddfwriaeth hon.

I think that it is very important that we should return to a fundamental aspect of this debate, namely what we are endeavouring to develop through this part of this discussion at this Stage: a Bill that is clear and implementable. I must say that I think that these amendments undermine practical, important aspects of the Bill, and also bring in an ideological argument that I thought had disappeared, to be honest, many years ago. Darren Millar has attempted, in these amendments, to resurrect the hierarchical Victorian family in all its glory, where some family members have a greater voice than others in terms of a presumed stance on the views of an individual citizen. However, what this Bill endeavours to achieve is to attempt to ensure that there is a balance between the rights of individuals, according to the understanding of the point of view of the citizen, and the principle of a gift, which is a presumed gift of life through this legislation.

Felly, rwy'n gobeithio y gallwn ddod â'r dadl yn ôl i'r cwestiwn: sut rydym yn cynorthwyo'r dinesydd unigol sy'n ymadael â'r fuchedd hon, y teulu mewn galar, a'r bobl broffesiynol fendigedig hyn—y staff dinigol a'r meddygon—sy'n delio â'r sefyllfaoedd dwys rydym yn sôn amdanynt? Sut mae gwneud y penderfyniad hwn o'r defnydd mwyaf posibl i bawb yr effeithir arnynt gan yr amgylchiadau? Dyna pam mae'n rhaid imi ddweud nad wyf yn fodlon gwrandao ar agweddau afresymegol ynglŷn â sôn am wladwriaeth Gymreig yn dwyn cyrff, fel pe baem yn rhyw ladron cyrff o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. [Torri ar draws.]

Therefore, I hope that we can bring this debate back to the question: how can we assist the individual citizen who is departing this life, the family that is in grief, and the wonderful professionals—the clinical staff and doctors—who are dealing with these very complex situations that we are discussing? How do we make the best decision for all affected? That is why I have to say that I am not willing to listen to the irrational aspects of talk about a Welsh state snatching bodies, as if we were some body-snatchers from the nineteenth century. [Interruption.]

Wel, mae—

Well, it—

19:08

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Please do not listen to any Members speaking from a sedentary position.

Peidiwch â gwrandao ar unrhyw Aelod sy'n siarad ar ei eistedd os gwelwch yn dda.

19:08

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I will say it in English, as they say sometimes. Wales is not a state. It has a democratically devolved Assembly, and therefore the idea that, by giving my body to Wales, I am giving it to the United Kingdom, or to the European Union, is totally ridiculous. I am giving my organs to save other people, who happen to live in this part of the world. The great thing about this debate is that it is being conducted in that democratic manner, whereas to bring in— [Interruption.] I will take Nick Ramsay's intervention. You are part of another state, of course, which is Monmouthshire. [Laughter.]

Fe'i dywedaf yn Saesneg, fel mae pobl yn dweud weithiau. Nid yw Cymru yn wladwriaeth. Mae ganddi Gynulliad sydd wedi ei ddatganoli'n ddemocrataidd, ac felly mae'r syniad fy mod, trwy roi fy nghorff i Gymru, yn ei roi i'r Deyrnas Unedig, neu i'r Undeb Ewropeaidd, yn hollol chwerthinlyd. Rwyf yn rhoi fy organau i achub pobl eraill, sy'n digwydd byw yn y rhan hon o'r byd. Y peth gwyb am y drafodaeth hon yw ei bod yn cael ei chynnal yn y ffordd ddemocrataidd honno, tra byddai cyflwyno—[Torri ar draws.] Derbyniaf ymyriad Nick Ramsay. Rydych chi'n rhan o wladwriaeth arall, wrth gwrs, sef Sir Fynwy. [Chwerthin.]

19:09

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am grateful. I am not going to talk about the Monmouthshire state. What you have just said I agree with in the main, but of course this Bill will allow your body to go to other parts of the UK. It will not just be used in this corner of the world, will it?

Rwyf yn ddiolchgar. Nid wyf yn mynd i siarad am wladwriaeth Sir Fynwy. Rwyf yn cytuno â'r hyn rydych chi newydd ei ddweud ar y cyfan, ond wrth gwrs bydd y Bil hwn yn caniatáu i'ch corff fynd i rannau eraill o'r DU. Ni fydd yn cael ei ddefnyddio yn y gornel hon o'r byd yn unig, na fydd?

19:09

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yes, of course, but I hope to expire here, if I can manage it. What I am asking you to do is to bring this debate back to rational practicalities while respecting people's sensitivities. The family is not an ideological construct. The family is a means of interpersonal relations, and you do not want to exacerbate conflicts within family by setting them up in some sort of hierarchy as if they were living in Colwyn Bay in the nineteenth century.

Wrth gwrs, ond rwyf yn gobeithio marw yma, os gallaf lwyddo i wneud hynny. Yr hyn yr wyf yn gofyn ichi ei wneud yw dod â'r ddadl hon yn ôl at agweddau ymarferol rhesymegol gan barchu teimladau pobl. Nid yw'r teulu'n lluniad ideolegol. Cysylltiadau rhyngpersonol yw'r teulu, ac nid ydych chi eisiau gwaethygu gwrthdaro mewn teulu trwy eu trefnu mewn rhyw fath o hierarchaeth fel pe baent yn byw ym Mae Colwyn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

19:10

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am pleased to speak in the debate today in support of amendments 47 to 50. I believe that the Welsh Government has made life difficult for itself by, first, emphasising so strongly that it would be a soft opt-out Bill and then by amending it at Stage 2 to make it clear that there is no role for the family where the views of the deceased are unknown, which is the very context that the soft opt-out approach is supposed to address. Rather than amending the Bill at Stage 2 to narrow the role of the family to communicating express consent, the Minister should have used Stage 2 to bring amendments that clearly resolved it in a soft opt-out Bill.

Rwyf yn falch o siarad yn y drafodaeth heddiw i gefnogi gwelliannau 47 i 50. Rwyf yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud pethau'n anodd iddi ei hun trwy bwysleisio mor gryf, yn gyntaf, y byddai'n Fil optio allan meddal ac yna ei ddiwygio yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn eglur nad oes swyddogaeth i'r teulu lle nad yw barn yr ymadawedig yn hysbys, sef yr union gyd-destun y mae'r dull optio allan meddal i fod i fynd i'r afael ag ef. Yn hytrach na newid y Bil yng Nghyfnod 2 i gyfyngu swyddogaeth y teulu i gyfleu cydsyniad datganedig, dylai'r Gweinidog fod wedi defnyddio Cyfnod 2 i gyflwyno gwelliannau a oedd yn ei wneud yn benodol yn Fil optio allan meddal.

Some have said that the Government has made an ingenuous argument for why it cannot provide a soft opt-out Bill after all. This rests on the legal fiction that people apparently make as much of a decision to have their consent deemed as they do when they give specific consent in the usual way. The Government believes, therefore, that it would not be appropriate to give the family any kind of role that might result in overturning the decision of the deceased to have his or her consent deemed. That is clever, but it clearly will not work. The notion that everyone who does nothing actually does something—namely, deliberately choosing to donate their organs—is absolutely absurd. Of course, there will be some who will think that, because consent is deemed, they will consent by doing nothing, but to suggest that this is true of all, or even most, is to make a ridiculous assumption. The letters that I have had in my post bag are testament to that.

Mae rhai wedi dweud bod y Llywodraeth wedi gwneud dadl gelfydd i egluro pam na all ddarparu Bil optio allan meddal wedi'r cyfan. Mae hyn yn dibynnu ar y ffuglen gyfreithiol bod pobl, yn ôl pob golwg, yn gwneud cymaint o benderfyniad i gael tybio eu cydsyniad ag y maent wrth roi cydsyniad penodol yn y ffordd arferol. Mae'r Llywodraeth yn credu, felly, na fyddai'n briodol rhoi unrhyw fath o swyddogaeth i'r teulu a allai arwain at newid penderfyniad yr ymadawedig i gael tybio ei gydsyniad. Mae hynny'n glyfar, ond mae'n amlwg na fydd yn gweithio. Mae'r syniad bod pawb sy'n gwneud dim byd mewn gwirionedd yn gwneud rhywbeth—sef gwneud dewis gwriadol i roi eu horganau—yn gwbl hurt. Wrth gwrs, bydd rhai a fydd yn meddwl y byddant yn rhoi cydsyniad trwy wneud dim byd oherwydd bod cydsyniad yn cael ei dybio, ond mae awgrymu bod hyn yn wir am bawb, neu hyd yn oed y mwyafrif, yn rhagdybiaeth chwerthinllyd. Mae'r llythyrau yr wyf wedi eu derbyn yn fy mag post yn dyst i hynny.

I will also make two further points. First, Slovakia and Latvia are both signatories to the European convention on human rights, yet neither has been taken to the European Court of Human Rights for setting out their soft opt-out regard for the views of the family of the deceased on the face of their legislation. I wonder whether the Minister thinks that Slovenia or Latvia should be taken to court. Secondly, people will be made to feel pressurised or threatened, and that is another point that is highlighted by constituents who have written to me about this legislation. To this extent, the statement by Dr Peter Matthews about patients withdrawing from the organ donation register because they feel outraged that the state would deem their consent, is particularly worthy of careful consideration. I also suggest that the fall in our donation rate in 2012-13—a time when donations should have been rising, given the increased coverage of this issue during the passage of this Bill, I would have thought—is also worthy of more careful consideration.

Hoffwn wneud dau bwynt arall hefyd. Yn gyntaf, mae Slofacia a Latfia wedi llofnodi'r confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol, ac eto nid yw'r naill na'r llall wedi cael ei ddwyn gerbron Llys Hawliau Dynol Ewrop am gyflwyno ei ystyriaeth optio allan meddal ar gyfer barn teulu'r ymadawedig ar wyneb ei ddeddfwriaeth. Tybed a yw'r Gweinidog yn credu y dylai Slofenia neu Latfia fynd gerbron llys. Yn ail, gwneir i bobl deimlo dan bwysau neu dan fygythiad, ac mae hwnnw'n bwynt arall sy'n cael ei amlygu gan etholwyr sydd wedi ysgrifennu ataf am y ddeddfwriaeth hon. I'r perwyl hwn, mae'r datganiad gan y Dr Peter Matthews am gleifion yn tynnu'n ôl o'r gofrestr rhoi organau gan eu bod yn teimlo'n ddig y byddai'r wladwriaeth yn tybio eu cydsyniad, yn benodol, yn haeddu ystyriaeth ofalus. Rwyf hefyd yn awgrymu bod y gostyngiad i gyfradd yr organau a roddwyd yma yn 2012-13—adeg pan ddylai rhoddion fod wedi cynyddu, o ystyried y sylw cynyddol i'r mater yn ystod hynt y Bil hwn, byddwn wedi meddwl—hefyd yn haeddu ystyriaeth fwy ofalus.

I note that, during the Stage 1 Plenary debate, the Minister was most insistent that this had nothing to do with deemed consent, and I was not convinced by that argument. In this context, where support for deemed consent is in a weak position, going down from 63%, in a March 2012 poll, to under 50% in October—I appreciate that Darren Millar has said that these polls fluctuate—if we do not prioritise reassuring people through the provision of a credible soft opt-out Bill, we could go down the way of Chile. According to recent research by a number of academics, rather than causing a rise in organ donation, the introduction of an opt-out law in 2010 led to a fall in the number of donations. I am informed that the legislation introduced in Chile was of similar character to that proposed by the Welsh Government.

In the context of the urgent need to reassure people and to demonstrate real enthusiasm for having a soft opt-out Bill, the way forward is to set this commitment out on the face of the Bill. To this extent, amendments 47 to 50 are of huge importance. They are the only amendments that have been tabled to make provision for the family in decision making where the views of the deceased are unknown. In setting this out on the face of the Bill, these amendments will make this Bill the soft opt-out Bill that was originally proposed and promised, and will help to prevent this Bill from backfiring, prompting withdrawal from donation. I really hope that Members can support those amendments.

19:15

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful for the opportunity to speak in support of amendments 47 to 50, which have been tabled by Darren Millar. When the Welsh Government started down this path, it rightly recognised that the public was concerned about talk of presuming consent and the Government made a great deal of the fact that it was introducing a soft opt-out system. This was reassuring to people, because a soft opt-out system means, as defined by NHS Blood and Transplant, a system in which relatives' views are sought. People found it reassuring to know that, if they were to die without getting around to making an express decision, their families, as their living representatives, would have a say in the deeming of their consent. They knew that, if their family felt that the deeming of consent for them was inappropriate, they would be able to say so and to stop organs from being taken.

Sylwaf fod y Gweinidog, yn ystod Cyfnod 1 yn y Cyfarfod Llawn, yn mynnu nad oedd gan hyn ddim i'w wneud â chydysyniad tybiedig, ac ni chefais fy argyhoeddi gan y ddatl honno. Yn y cyd-destun hwn, lle mae cefnogaeth i gydsyniad tybiedig mewn sefyllfa wan, ar ôl gostwng o 63%, mewn arolwg ym mis Mawrth 2012, i lai na 50% ym mis Hydref—rwyf yn gwerthfawrogi bod Darren Millar wedi dweud bod yr arolygon hyn yn amrywio—os nad ydym yn rhoi blaenoriaeth i dawelu meddyliau pobl trwy ddarparu bil optio allan meddal credadwy, gallem fynd yr un ffordd â Chile. Yn ôl gwaith ymchwil diweddar gan nifer o academyddion, gwelwyd gostyngiad, yn hytrach na chynnydd, yn nifer yr organau a roddwyd yn sgil cyflwyno cyfraith optio allan yn 2010. Fe'm hysbysir bod y ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn Chile yn debyg i'r hyn a gynigir gan Lywodraeth Cymru.

Yng nghyd-destun yr angen brys i dawelu meddyliau pobl a dangos brwdfrydedd go iawn dros Fil o optio allan meddal, y dewis gorau yw cyflwyno'r ymrwymiad hwn ar wyneb y Bil. I'r perwyl hwn, mae gwelliannau 47 i 50 yn eithriadol o bwysig. Dyma'r unig welliannau sydd wedi eu cyflwyno i wneud darpariaeth ar gyfer y teulu wrth wneud penderfyniad pan nad yw barn yr ymadawedig yn hysbys. Trwy eu cyflwyno ar wyneb y Bil, bydd y gwelliannau hyn yn sicrhau mai hwn yw'r Bil optio allan meddal a gynigwyd ac a addawyd yn wreiddiol, a bydd yn helpu i atal y Bil hwn rhag cael effaith negyddol, gan annog pobl i dynnu'n ôl o roi organau. Rwyf wir yn gobeithio y gall yr Aelodau gefnogi'r gwelliannau hynny.

Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i siarad o blaid gwelliannau 47 i 50, a gyflwynwyd gan Darren Millar. Pan ddechreuodd Llywodraeth Cymru ar hyd y llwybr hwn, cydnabuwyd yn gywir ganddi bod y cyhoedd yn pryderu am y sôn am gydsyniad tybiedig, a gwnaeth y Llywodraeth lawer iawn o'r ffaith ei bod yn cyflwyno system optio allan meddal. Roedd hyn yn galonogol i bobl, gan fod system optio allan meddal, fel y'i diffinnir gan Gwaed a Thrawsbaniadau'r GIG, yn golygu system lle y gofynnir am farn perthnasau. Roedd yn gysur i bobl wybod, pe baent yn marw heb wneud penderfyniad pendant, y byddai eu teuluoedd, fel eu cynrychiolwyr byw, yn cael llais yn y broses o dybio eu cydsyniad. Roeddent yn gwybod, pe bai eu teulu yn teimlo'i bod yn amhriodol tybio eu cydsyniad, y byddent yn gallu dweud hynny ac atal organau rhag cael eu cymryd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

On that basis, I find the Minister's promised Stage 2 family amendment quite extraordinary. Some of us hoped that it might make the soft opt-out nature of the Bill clearer, but what it does make apparent is that there is now no role for the views of the family at all when the views of the deceased are not known. In short, it makes it clear that this is no longer a soft opt-out Bill. I anticipate a counter argument from the Minister, and I suspect that he will tell us that this Bill is a soft opt-out Bill because it makes provision for the family to report the known views of the deceased. I am glad that it does; it would be surprising if it did not. However, providing a means whereby the family can tell the authorities that, while the deceased has not signed the organ donation register, they had made their wishes clear to family members, does not make this soft opt-out legislation, it simply provides another mechanism beyond the organ donation register for communicating what is, effectively, express consent.

If we return to the NHS Blood and Transplant definition of soft opt-out, which is seeking the views of the family, this Bill now does absolutely nothing to seek the views of the family, it just allows the family to be a messenger of the views of the deceased, where those views are clearly known. The whole point of the soft opt-out option, however, is to seek the views of the family when the deceased's views are unknown. To suggest that a Bill that has been amended to make it crystal clear that the family will play no role in the decision-making process when the views of the deceased are unknown constitutes a soft opt-out Bill is nonsensical.

As a matter of law, then, it is transparently not a soft opt-out Bill. What the people of Wales were promised has not been delivered. I suspect that the Minister might want to say, 'Don't worry, no clinician will take organs in practice'. That fact, however, does not make this a soft opt-out Bill. As others have said, in Austria, where there is a hard opt-out system, in practice, doctors do not take organs from the deceased where the family is distressed. I also anticipate a mention of the draft code. Well, if the Welsh Government is so serious about introducing a soft opt-out system, why the interest in hiding this central commitment in the code? Why the need to go to great lengths to amend the primary legislation just to make it absolutely clear that it contains no respect for the views of the families of the deceased when the views of the deceased are not known? Moreover, if you look at the draft code, you will see that there is no direct statement stating that, where someone dies without expressly electing to donate or to withhold donation, they should be treated as if they had donated, subject to the family not objecting. There is just an inference that the family gets a say.

Ar y sail honno, rwyf o'r farn bod gwelliant teuluol Cyfnod 2 y Gweinidog yn gwbl anhygoel. Roedd rhai ohonom yn gobeithio y gallai wneud natur optio allan meddal y Bil yn fwy eglur, ond yr hyn y mae'n ei nodi'n amlwg yw nad oes lle i farn y teulu o gwbl bellach pan nad yw barn yr ymadawedig yn hysbys. Yn gryno, mae'n ei gwneud yn eglur nad yw hwn yn Fil optio allan meddal bellach. Rwyf yn rhagweld dadl groes gan y Gweinidog, ac rwyf yn amau y bydd yn dweud wrthym fod y Bil yn Fil optio allan meddal gan ei fod yn gwneud darpariaeth i'r teulu roi gwybod am farn hysbys yr ymadawedig. Rwyf yn falch ei fod yn gwneud hynny; byddai'n syndod pe na bai'n gwneud hynny. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith y darperir ffordd lle gall y teulu ddweud wrth yr awdurdodau nad oedd yr ymadawedig wedi llofnodi'r gofrestr rhoi organau, ond ei fod wedi datgan ei ddymuniadau'n eglur i aelodau'r teulu, yn gwneud hon yn ddeddfwriaeth optio allan meddal. Y cwbl mae'n ei wneud yw cynnig dull arall y tu hwnt i'r gofrestr rhoi organau i gyfathrebu'r hyn sydd, i bob pwrpas, yn gydsyniad datganedig.

Os dychwelwn at ddiffiniad Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG o optio allan meddal, sef gofyn am farn y teulu, nid yw'r Bil hwn yn gwneud dim o gwbl bellach i ofyn am farn y teulu. Y cwbl y mae'n ei wneud yw caniatáu i'r teulu gyfluo safbwyntiau'r ymadawedig, lle y mae'r farn honno'n gwbl hysbys. Holl bwynt y dewis optio allan meddal, fodd bynnag, yw gofyn am farn y teulu pan na fydd barn yr ymadawedig yn hysbys. Mae'n hurt awgrymu bod Bil yn Fil optio allan meddal, a hwnnw wedi'i ddiwygio i'w gwneud yn hollol eglur na fydd y teulu'n cyfrannu o gwbl at y broses o wneud penderfyniadau pan na fydd barn yr ymadawedig yn hysbys.

Fel mater o gyfraith, felly, mae'n amlwg nad yw'n Fil optio allan meddal. Ni ddarparwyd yr hyn a addawyd i bobl Cymru. Rwyf yn amau efallai yr hoffai'r Gweinidog ddweud, 'Peidiwch â phoeni, ni fydd unrhyw glinigwr yn cymryd organau yn ymarferol'. Nid yw'r ffaith honno, fodd bynnag, yn gwneud hwn yn Fil optio allan meddal. Fel y mae eraill wedi dweud, yn Awstria, lle ceir system optio allan caled, yn ymarferol, nid yw meddygon yn cymryd organau o'r ymadawedig pan fydd y teulu mewn gofid. Rwyf hefyd yn rhagweld sôn am y cod drafft. Wel, os yw Llywodraeth Cymru gymaint o ddifrif am gyflwyno system optio allan meddal, pam y diddordeb mewn cuddio'r ymrwymiad canolog hwn yn y cod? Pam mae angen mynd i drafferth fawr i newid y ddeddfwriaeth sylfaenol dim ond i'w gwneud yn gwbl eglur nad yw'n cynnwys unrhyw barch at farn teuluoedd y rhai ymadawedig pan nad yw barn yr ymadawedig yn hysbys? Hefyd, os edrychwch ar y cod drafft, fe welwch nad oes unrhyw ddatganiad uniongyrchol yn datgan y dylid trin rhywun fel pe bai wedi rhoi oni bai bod y teulu'n gwrthwynebu, pan fydd yn marw heb ddewis yn benodol a yw am roi organau neu wrthod eu rhoi. Dim ond awgrym sydd fod y teulu'n cael mynegi barn.

When the best that the Welsh Government can do to honour a headline soft opt-out commitment is to expunge any sense of it from the primary legislation and then simply hide an inference in a code, I worry. It is almost as if it is embarrassed about the thought of presenting genuine soft opt-out legislation. I believe that this shying away from a soft opt-out is a very dangerous move, because the truth is that, since the Government set off down this road, the public has become more, not less, concerned about presumed consent. The BBC poll in March 2012 showed 63% support, while, by October, following the Welsh Government's publication of the analysis of the draft Bill, support had, according to its own poll, fallen to below 50%. Then, we had yesterday's Care poll, which shows that a massive 94% think that, when someone dies without expressly making a donation decision, their family should either make the decision or should have the right to object and stop donation.

On top of that, we also have the really disturbing Stage 1 evidence from Dr Peter Matthews, which that has already been referred to, that people are already removing their names from the organ donor register because they are so outraged by the prospect of the state deeming consent. In this context, rather than demonstrating less respect for the principle of consent of people and their families, the Welsh Government should have been taking steps to demonstrate more respect. If we do not, this legislation could backfire, as it has in other countries.

In this context, amendments 47 to 50 are of seminal importance because they provide a means by which this Bill can be made a soft opt-out Bill, by involving families in deciding what happens when the views of the deceased are unknown. It is only right, if there is to be a presumption of consent, that our families, who know us much better than the state, should be able to intervene and prevent donation if they do not believe that that is what we would have wanted.

In saying this, I again anticipate that the Minister will point out that, if you know the views of the deceased, you can stop donation. However, I am not talking about knowing in the sense of being able to vouch for having had a direct or explicit conversation with the deceased. In that context, the views of the deceased are known, and there is no question of presuming consent. What I refer to is a different kind of knowledge, when one is speaking not on the basis of a direct conversation, but on the basis of knowing the deceased, his or her interests, inclinations and the kind of person who they were, so that you can say, 'I believe that they would'—or would not—'have wanted to donate'.

Amendments 47 to 50 get to the heart of this, and make proper space for the family on the face of the Bill. They make it the soft-opt out Bill that we were promised, and I warmly commend them.

Pan mai'r gorau y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gydnabod prif ymrwymiad optio allan meddal yw dileu unrhyw synnwyr ohono o'r ddeddfwriaeth sylfaenol ac yna cuddio awgrym mewn cod, rwy'n poeni. Mae bron fel pe byddai ganddi gywilydd o'r syniad o gyflwyno deddfwriaeth optio allan meddal wirioneddol. Credaf fod osgoi optio allan meddal fel hyn yn gam peryglus iawn, gan mai'r gwir amdani yw bod y cyhoedd, ers i'r Llywodraeth ddechrau dilyn y trywydd hwn, wedi dechrau poeni mwy am gydsyniad tybiedig, nid llai. Dangosodd arolwg y BBC ym mis Mawrth 2012 gefnogaeth o 63%, ond, erbyn mis Hydref, ar ôl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r dadansoddiad o'r Bil drafft, roedd cefnogaeth, yn ôl ei arolwg ei hun, wedi gostwng i lai na 50%. Yna, cawsom arolwg Care ddoe, sy'n dangos bod canran enfawr o 94% yn credu, pan fydd rhywun yn marw heb wneud penderfyniad penodol am roi organau, y dylai ei deulu naill ai wneud y penderfyniad neu gael yr hawl i wrthwynebu ac atal rhoi organau.

Yn ogystal â hynny, mae gennym hefyd dystiolaeth sydd wir yn peri pryder gan Dr Peter Matthews yng Nghyfnod 1, ac y cyfeiriwyd ati eisoes, sef bod pobl eisoes yn tynnu eu henwau oddi ar y gofrestr rhoi organau oherwydd bod y syniad o'r wladwriaeth yn tybio cydsyniad yn eu cythruddo gymaint. Yn y cyd-destun hwn, yn hytrach na dangos llai o barch at yr egwyddor o gydsyniad pobl a'u teuluoedd, dylai Llywodraeth Cymru fod wedi bod yn cymryd camau i ddangos mwy o barch. Os na wnawn ni hynny, gallai'r ddeddfwriaeth hon gael yr effaith groes, fel y mae wedi mewn gwledydd eraill.

Yn y cyd-destun hwn, mae gwelliannau 47 i 50 o bwysigrwydd arloesol gan eu bod yn cynnig ffordd y gellir gwneud y Bil hwn yn Fil optio allan meddal, trwy gynnwys teuluoedd wrth benderfynu beth sy'n digwydd pan nad yw barn yr ymadawedig yn hysbys. Dydy hi ddim ond yn iawn, os yw cydsyniad am gael ei dybio, bod ein teuluoedd, sy'n ein hadnabod yn llawer gwell na'r wladwriaeth, yn gallu ymyrryd ac atal rhoi organau os nad ydynt yn credu mai dyna y byddem ni wedi ei ddmuno.

Wrth ddweud hyn, rwy'n rhagweld unwaith eto y bydd y Gweinidog yn tynnu sylw at y ffaith, os ydych yn ymwybodol o farn yr ymadawedig, y gallwch chi atal rhoi organau. Fodd bynnag, nid wyf yn sôn am wybod yn yr ystyr o allu tystio i gael sgwrs uniongyrchol neu eglur gyda'r ymadawedig. Yn y cyd-destun hwnnw, mae barn yr ymadawedig yn hysbys, ac nid oes unrhyw gwestiwn o dybio cydsyniad. Mae'r hyn yr wyf i'n cyfeirio ato yn wahanol fath o wybodaeth, pan nad yw rhywun yn siarad ar sail sgwrs uniongyrchol, ond ar y sail o adnabod yr ymadawedig, ei ddiddordebau/diddordebau, ei ddymuniadau/dymuniadau, a'r math o unigolyn oedd ef/hi, fel eich bod yn gallu dweud, 'rwy'n credu y byddai'—neu na fyddai—'wedi bod yn awyddus i roi ei organau'.

Mae gwelliannau 47 i 50 yn mynd at wraidd hyn, ac yn gwneud lle priodol i'r teulu ar wyneb y Bil. Maen nhw'n ei wneud yn Fil optio allan meddal a addawyd i ni, ac rwy'n eu cymeradwyo'n gryf.

There are some amendments in this grouping that I am happy with, others less so. To pick amendment 63 first of all, tabled by Darren Millar, which deals with issues of distress and which calls for clear guidance to be developed for those counselling and dealing with families of potential donors in hospital, I warmly support this amendment, and, looking around the Chamber, there are probably just three of us left from the health committee in the last Assembly. I think Ann Jones was on it—yes, she is indicating she was—at that time in 2008, when it looked at this issue. You are here and I am here, and Dai Lloyd is as well, although he is up in the gallery. Aside from us, the other committee members have gone.

We looked at this issue of presumed context, particularly in the Spanish context. We looked in some depth at that. An issue that I remember from our inquiry into presumed consent in Spain arose when I posed the question to an official from a Madrid hospital, 'How many families refuse consent?' He said: 'None do, because we keep calling them back every five minutes until they agree and say yes', which certainly concerned me and other members of the committee. I am not saying that we would pursue that model in Wales—we would not want to, I would hope—but the point is that there has to be a balance in the Welsh context towards the family. You cannot have a family member in complete distress being hounded like that every few minutes until they give the answer that someone wants, so I warmly support that amendment.

I am also happy to support amendment 64 on ranking the family members.

However, on amendment 41, had I spoken to you before about it, Darren, I would probably have told you that I had issues with the wording. I agree with the principle of what you are trying to say—that a family member should always be involved—but I am a little bit uneasy about the idea of a family member being present. If you want to make it futureproof, then, as far as I am concerned, as long as you can have contact with a family member in some form or other, and that family contact is reliable, that would be sufficient. Looking 10, 15 and 20 years ahead, if you can get the family member on Skype, for instance, then I think that gives that contact. So, the wording there would affect the Minister's ability to futureproof it.

Mae rhai gwelliannau yn y grŵp hwn yr wyf yn hapus â nhw, ond eraill, yn llai felly. I ddevis gwelliant 63 yn gyntaf oll, a gyflwynwyd gan Darren Millar, sy'n ymdrin â materion o ofid ac yn galw am ganllawiau eglur i gael eu datblygu ar gyfer y rhai sy'n rhoi cyngor personol ac yn ymdrin â theuluoedd darpar roddwyr organau yn yr ysbyty, rwy'n cefnogi'r gwelliant hwn yn gryf, ac, wrth edrych o amgylch y Siambr, mae'n debyg mai dim ond tri ohonom sy'n weddill o'r pwyllgor iechyd yn y Cynulliad diwethaf. Rwy'n meddwl bod Ann Jones yn aelod ohono—oedd, mae'n dynodi ei bod—ar yr adeg honno yn 2008, pan roedd yn ystyried y mater hwn. Rydych chi yma ac rwyf i yma, ac mae Dai Lloyd yma hefyd, er ei fod i fyny yn yr oriel. Ar wahân i ni, mae aelodau eraill y pwyllgor wedi mynd.

Ystyriwyd y mater hwn o gydsyniad tybiedig gennym, yng nghyd-destun Sbaen yn arbennig. Ystyriwyd hynny gennym yn fanwl. Cododd un mater rwy'n ei gofio o'n hymchwiliad i gydsyniad tybiedig yn Sbaen pan ofynnais y cwestiwn i swyddog o ysbyty ym Madrid, 'Faint o deuluoedd sy'n gwrthod cydsynio?' Meddai ef: 'Does neb yn gwneud, gan ein bod ni'n eu galw nhw yn ôl bob pum munud tan iddyn nhw gytuno a dweud iawn', a oedd sicr yn peri pryder i mi ac aelodau eraill y pwyllgor. Nid wyf yn dweud y byddem yn dilyn y model hwnnw yng Nghymru—ni fyddem ni eisiau, rwy'n gobeithio—ond y pwynt yw bod yn rhaid cael cydbwysedd tuag at y teulu yng nghyd-destun Cymru. Ni allwch gael aelod o'r teulu mewn gofid llwyr yn cael ei erlid fel yna bob ychydig funudau tan eu bod yn rhoi'r ateb y mae rhywun ei eisiau, felly rwy'n cefnogi'r gwelliant hwnnw yn gryf.

Rwyf hefyd yn hapus i gefnogi gwelliant 64 ar roi aelodau'r teulu yn eu trefn o ran hawl benderfynu.

Fodd bynnag, o ran gwelliant 41, pe bawn i wedi siarad â chi amdano o'r blaen, Darren, mae'n debyg y byddwn i wedi dweud wrthyfch fod gen i broblemau gyda'r geiriad. Rwy'n cytuno ag egwyddor yr hyn yr ydych chi'n ceisio ei ddweud—y dylid cynnwys aelod o'r teulu bob amser—ond rwyf braidd yn anghyfforddus â'r syniad y byddai aelod o'r teulu yn bresennol. Os ydych chi eisiau i sicrhau ei fod yn rhagweld sefyllfaoedd yn y dyfodol, yna, yn fy nhyb i, cyn belled ag y gallwch chi gael cysylltiad ag aelod o'r teulu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, a bod y cyswllt teuluol hwnnw'n ddibynadwy, byddai hynny'n ddigonol. O edrych 10, 15 a 20 mlynedd i'r dyfodol, os gallwch chi gael yr aelod o'r teulu ar Skype, er enghraifft, yna rwy'n meddwl bod hynny'n rhoi'r cyswllt hwnnw. Felly, byddai'r geiriad yna yn effeithio ar allu'r Gweinidog i sicrhau ei fod yn rhagweld sefyllfaoedd yn y dyfodol.

Turning to Angela Burns's amendment 69, I agree that the current remit of this part of the Bill is too wide. I do not want to be called a 'Victorian Tory mill owner' by Dafydd Elis-Thomas over there, so maybe I say that with a caveat. However, while, yes, we are in a different world now from that of the 1950s, and there are all sorts of alternative views about what families are, and you cannot really accuse me of being an extreme right-winger—Dafydd Elis-Thomas would be the last person to accuse me of that; I am probably more liberal than most, certainly, in terms of Assembly Members for Monmouthshire, so you cannot make those accusations—but, having said all of those things, I still think that there is great value in putting family and parentage on the face of this Bill. You may shake your head, Dafydd, but if you lose that—. I think that a number of people from my part of the world and across Wales would believe this as well. I think that there is merit in having a parental responsibility commitment and family members included on the face of the Bill; that adds something to it. I understand that that is not the view across the Chamber—you have your view—but I think that gives it some additional support and balance. So, I am pleased to support Angela Burns's amendment.

Gan droi at welliant 69 Angela Burns, rwy'n cytuno bod cylch gwaith presennol y rhan hon o'r Bil yn rhy eang. Nid wyf yn dymuno cael fy ngalw'n 'berchennog melin Fictoriaidd Toriaidd' gan Dafydd Elis-Thomas yn y fan yna, felly efallai fy mod i'n dweud hynny gyda chafeat. Fodd bynnag, er ei bod yn wir ein bod mewn byd gwahanol nawr i fyf y 1950au, a cheir pob math o wahanol safbwyntiau am yr hyn yw teuluoedd, ac ni allwch fy nghyhuddo o fod yn asgell dde eithafol—Dafydd Elis-Thomas fyddai'r olaf i'm cyhuddo o hynny; mae'n debyg fy mod i'n fwy eangfydric na'r rhelyw yn ôl bob tebyg, yn sicr, o ran Aelodau'r Cynulliad dros Sir Fynwy, felly ni allwch wneud y cyhuddiadau hynny—ond, wedi dweud yr holl bethau hynny, rwy'n dal i gredu bod gwerth mawr mewn rhoi teulu a rhieni ar wyneb y Bil hwn. Efallai y byddwch yn ysgwyd eich pen, Dafydd, ond os byddwch yn colli hynny—. Rwy'n credu y byddai nifer o bobl o'm rhan i o'r byd a ledled Cymru yn credu hyn hefyd. Rwy'n credu bod rhinwedd mewn cynnwys ymrwymiad cyfrifoldeb riant ac aelodau'r teulu ar wyneb y Bil; mae hynny'n ychwanegu rhywbeth ato. Rwy'n deall mai nad dyna'r farn ar draws y Siambr—mae gennych chi eich barn—ond rwyf yn meddwl bod hynny'n rhoi rhywfaint o gefnogaeth a chydbwysedd ychwanegol iddo. Felly, rwy'n falch o gefnogi gwelliant Angela Burns.

19:25

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is right that we have had a lengthy debate on this group, because these amendments, in some ways, go to the very centre of what this Bill is about. With regard to a lot of the discussion that we have had around the Bill, I have said, 'Well, we agree about the ends, but we may disagree here about the means'. These amendments are not in that category. They simply portray a completely different view of what this Bill should be about. If we were to accept these amendments that have been suggested this afternoon, the Bill would not be the Bill that we want it to be.

Let me deal with three things in turn. First, how will consent in this Bill be navigated? People in Wales in the future will have three choices: they will be able to opt in and put their names on the register for that purpose, they will be able to opt out and make it clear on the register that they do not wish to be donors, or they can choose to do nothing and have their consent deemed. All those three are equally valid choices. Russell George said that that was very clever, but, actually, it seems to me to be rather clear. You have three choices and all are equally valid. However, this is not accepted by many of the people behind me in the Chamber who have spoken in this debate. It is perfectly right, as Kirsty Williams said, to respect that point of view, but underlying a great deal of what they say is the belief that deemed consent is not really consent at all: 'It is second class' or 'It is a poor person's consent'. They are wrong. We do not agree—

Mae'n iawn ein bod wedi cael trafodaeth faith ar y grŵp hwn, gan fod y gwelliannau hyn, mewn rhai ffyrdd, yn mynd yn syth at wraidd yr hyn y mae'r Bil hwn yn ymwneud ag ef. O ran llawer o'r drafodaeth yr ydym ni wedi ei chael am y Bil, rwyf i wedi dweud, 'Wel, rydym ni'n cytuno am y diben, ond efallai ein bod yn anghytuno yma am y modd'. Nid yw'r gwelliannau hyn yn y categori hwnnw. Y cwbl maen nhw'n ei wneud yw cyfleu darlun hollol wahanol i'r hyn y dylai'r Bil hwn ymwneud ag ef. Pe byddem ni'n derbyn y gwelliannau hyn sydd wedi cael eu hawgrymu y prynhawn yma, ni fyddai'r Bil hwn y Bil yr ydym yn dymuno iddo fod.

Gadewch i mi ymdrin â thri pheth yn eu tro. Yn gyntaf, sut fydd cydsyniad yn cael ei lywio yn y Bil hwn? Bydd gan bobl yng Nghymru dri dewis yn y dyfodol: byddant yn gallu optio i mewn a rhoi eu henwau ar y gofrestr ar gyfer y diben hwnnw, byddant yn gallu optio allan a'i gwneud yn eglur ar y gofrestr nad ydynt yn dymuno rhoi organau, neu gallant ddewis gwneud dim byd sy'n golygu y byddai eu cydsyniad yn cael ei dybio. Mae pob un o'r tri dewis hynny yn ddewisiadau yr un mor ddilys â'i gilydd. Dywedodd Russell George fod hynny'n glyfar iawn, ond, mewn gwirionedd, mae'n ymddangos yn ddigon eglur i mi. Mae gennych chi dri dewis ac maen nhw i gyd yr un mor ddilys. Fodd bynnag, ni dderbynnir hyn gan lawer o'r bobl y tu ôl i mi yn y Siambr sydd wedi siarad yn y ddatl hon. Mae'n berffaith iawn, fel y dywedodd Kirsty Williams, i barchu'r safbwynt hwnnw, ond yn sail i lawer o'r hyn maen nhw'n ei ddweud y mae'r gred nad yw cydsyniad tybiedig yn gydsyniad o gwbl mewn gwirionedd: 'Mae'n ail ddosbarth' neu 'Mae'n gydsyniad eilradd. Maen nhw'n anghywir. Nid ydym ni'n cytuno—

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

19:27

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention on that point?

A wnewch chi dderbyn ymyriad ar y pwynt yna?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

19:27 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I will.

Gwnaf, mi wnaaf.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

19:27 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deemed consent will only operate in the way that you are proposing on the basis of a full, complete and consistent public education campaign. I support your amendment 1, but, if that campaign is not sustained, I would say that that proposition falls apart, Minister; that is where people are concerned.

Bydd cydsyniad tybiedig ddim ond yn gweithredu yn y modd yr ydych chi'n ei gynnis ar sail ymgyrch addysg gyhoeddus lawn, cyflawn a chyson. Rwy'n cefnogi eich gwelliant 1, ond, os na fydd yr ymgyrch honno'n cael ei chynnal, byddwn i'n dweud bod y cynnis yna'n chwlu, Weinidog; dyna lle mae pobl yn pryderu.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

19:27 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is for those very reasons that the Government brought forward that amendment, having heard the points that have just been made and were made by Darren Millar at Stage 2. However, we believe that, with those things in place, deemed consent is every bit as good a consent as any other.

Am yr union resymau hynny y cyflwynwyd y gwelliant gan y Llywodraeth, ar ôl clywed y pwyntiau sydd newydd gael eu gwneud ac a wnaed gan Darren Millar yng Nghyfnod 2. Fodd bynnag, rydym yn credu bod cydsyniad tybiedig, â'r pethau hynny wedi'u sefydlu, yn gydsyniad cystal ag unrhyw un arall.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Let me talk about the family next. A great deal of mischief is being made about the family in some parts of this debate. The Government's proposal is a soft opt-out proposal. If there is no role for the family at all, that is a hard opt-out system. We have put on the face of the Bill a very clear and purposeful role for the family. Donation cannot go ahead without the involvement of the family. Where the family is involved, if they are able to say that they know that their family member would not have wanted donation to happen, it will not happen. However, it is on the basis of the known views of the individual. It is not a situation where someone can turn up as a family member who may have had very little at all to do with that individual and say, 'I know that they wanted to be a donor, I know how keen they were on donation, but I'm not keen and therefore it isn't going to happen'. That is not the sort of family involvement that we are prepared to put into this Bill, but it is the sort of family involvement that has been advocated here this afternoon.

Gadewch i mi siarad am y teulu nesaf. Mae llawer iawn o ddrygioni'n cael ei wneud o ran y teulu mewn rhai rhannau o'r ddafl hon. Cynnig optio allan meddal yw cynnis y Llywodraeth. Os nad oes swyddogaeth i'r teulu o gwbl, yna mae'n system optio allan caled. Rydym ni wedi rhoi swyddogaeth eglur a bwriadol iawn i'r teulu ar wyneb y Bil. Ni all rhoi organau fynd yn ei flaen heb gynnwys y teulu. Pan fydd y teulu yn cymryd rhan, os ydynt yn gallu dweud eu bod yn gwybod na fyddai'r aelod o'u teulu wedi dymuno rhoi organau, ni fydd yn digwydd. Fodd bynnag, mae hynny ar sail barn hysbys yr unigolyn. Nid yw'n sefyllfa lle y gallai aelod o'r teulu nad yw efallai wedi cael llawer iawn o gwbl i'w wneud â'r unigolyn hwnnw gyrraedd a dweud, 'Rwy'n gwybod ei fod eisiau rhoi organau, rwy'n gwybod pa mor gefnogol i roi organau yr oedd, ond nid wyf i'n awyddus, ac felly nid yw'n mynd i ddigwydd'. Nid dyna'r math o gynnwys y teulu yr ydym ni'n barod i'w gynnwys yn y Bil hwn, ond dyma'r math o gynnwys y teulu sydd wedi cael ei argymhell yma y prynhawn yma.

Let me turn now to the ranked list. This really is a very simple matter indeed. Where someone is being asked to make a decision, we have a ranked list. Where they are being asked to contribute information, we do not have a ranked list, because, in that case, information should be given by the person who has the best information. Where a person is being asked not to contribute information, but to make a decision, then, of course, you need a ranked list, so that the decision-making process is clear. I do not think that there is anything in those amendments that cover those issues that we would want to support here this afternoon.

Gadewch i mi droi yn awr at y rhestr o'r teulu yn ôl eu trefn. Mae hwn yn fater syml iawn yn wir. Pan ofynnir i rywun wneud penderfyniad, mae gennym restr o drefn. Pan ofynnir iddyn nhw gyfrannu gwybodaeth, nid oes gennym restr o drefn, oherwydd, yn yr achos hwnnw, dylai gwybodaeth gael ei rhoi gan yr unigolyn sydd â'r wybodaeth orau. Pan ofynnir i unigolyn beidio â chyfrannu gwybodaeth, ond i wneud penderfyniad, yna, wrth gwrs, mae angen rhestr o drefn arnoch, fel bod y broses o wneud penderfyniad yn eglur. Nid wyf yn credu bod unrhyw beth yn y gwelliannau hynny sy'n cwmpasu'r materion hynny y byddem yn awyddus i'w cefnogi yma y prynhawn yma.

In this group, there are two different amendments of a different sort. I want to say something rather different about those. Darren Millar's amendment 63 is one that I think has some merit. Of course, we want to make sure that there is guidance for clinicians when dealing with families in this very difficult set of circumstances. The reason why I will not support Darren's amendment this afternoon is because that guidance will be available. It is already available in many different places. Guidance on that exact issue appears in NICE clinical guidance note 135; it is in the NHS Blood and Transplant toolkit on approaching families of potential organ donors; it is in the General Medical Council's 'Good Medical Practice' document for this year; and it is in the Human Tissue Authority's code of practice on the donation of solid organs for transplantation. I hear Darren saying that it is not in the draft code of practice that we have published. What I will do is give an undertaking that I will draw all those pieces of guidance together for those who are still involved in drafting the code and that I will ask them to revisit that part of the code and take that guidance into account.

I was perplexed by Byron Davies's contribution. Here is a code that is a public document, that is going to be published in draft and consulted on publicly, that is going to return here to the floor of the Assembly for a debate and a vote, and he described it as a secret. If that is a secret, no wonder the CIA is in the trouble that it is in. Let me just turn, finally, to Angela Burns—

Yn y grŵp hwn, ceir dau welliant gwahanol o fath gwahanol. Hoffwn ddweud rhywbeth tra gwahanol am y rheini. Mae gwelliant 63 Darren Millar yn un rwy'n credu bod rhywfaint o rinwedd iddo. Wrth gwrs, rydym ni eisiau sicrhau bod canllawiau i glinigwyr wrth ymdrin â theuluoedd dan yr amgylchiadau anodd iawn hyn. Y rheswm pam na fyddaf yn cefnogi gwelliant Darren y prynhawn yma yw oherwydd y bydd y canllawiau hynny ar gael. Maen nhw ar gael eisoes mewn nifer o wahanol leoedd. Mae canllawiau ar yr union fater hwnnw'n ymddangos yng nghanllaw clinigol 135 NICE; maen nhw ym mhecyn cymorth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG ar fynd at deuluoedd darpar roddwyr organau; maen nhw yn nogfen 'Arfer Meddygol Da' y Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gyfer eleni; ac maen nhw yng nghod ymarfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol ar roi organau solid ar gyfer trawsblaniadau. Rwy'n clywed Darren yn dweud nad ydynt yn y cod ymarfer drafft yr ydym ni wedi ei gyhoeddi. Yr hyn yr wyf yn fodlon ei wneud yw tynnu'r holl ganllawiau hynny at ei gilydd ar gyfer y rhai sy'n dal i ymwneud â drafftio'r cod a gofyn iddyn nhw ailystyried y rhan honno o'r cod a chymryd y canllawiau hynny i ystyriaeth.

Achosodd cyfraniad Byron Davies gryn benbleth i mi. Dyma god sy'n ddogfen gyhoeddus, sy'n mynd i gael ei gyhoeddi ar ffurf drafft ac y bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar ei gyfer, sy'n mynd i ddychwelyd yma i lawr y Cynulliad ar gyfer dadl a phleidlais, ac fe'i disgrifiodd fel cyfrinach. Os yw hynny'n gyfrinach, nid oes rhyfedd fod y CIA yn cael y trafferthion mae'n eu cael. Gadewch i mi droi, yn olaf, at Angela Burns—

19:31

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, may I just make a point? I did not call Angela Burns to speak on her amendment, but she wishes to do so. Therefore, if you would like to speak to that amendment afterwards, that will be fine.

Weinidog, a gaf fi wneud pwynt? Ni alwais ar Angela Burns i siarad ar ei gwelliant, ond mae hi'n dymuno gwneud hynny. Felly, os hoffech chi siarad am y gwelliant hwnnw wedyn, bydd hynny'n iawn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

19:32

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am really grateful to you for doing that. I am going to be as quick as I can. The reason why I wanted to speak to amendment 69, tabled in my name, is because the Bill says that if a child has died and there was no decision to consent or not to consent active just before death or if a child is not competent to deal with the issue, express consent can be given by the person who had parental responsibility for that child immediately before the child died. Therefore, if a local authority or a court had parental responsibility for that child, that organisation could give consent for transplantation if the wishes of that child were not known. That would apply, for example, to looked-after children. The reason why I think that that is important—and I do not want to annoy Dafydd Elis-Thomas too much by referring to the state, but for me it is about the state—is that the state is looking after and has responsibility for that child because they are a looked-after child. It decides what school the child goes to, whether they can go on a school trip and whether it gives its consent for the child to have an operation—it makes all those decisions, which are all positive and constructive. However, the state is also able to receive express consent from the state if that child were to die. That is very important in the case of looked-after children because children move in and out of care. The state sometimes has parental responsibility, then gives it back, then takes it on again. It is a very fluid situation.

Weinidog, rwy'n ddiolchgar iawn i chi am wneud hynna. Rwy'n mynd i fod mor gyflym ag y gallaf. Y rheswm pam roeddwn i am siarad am welliant 69, a gyflwynwyd yn fy enw, yw oherwydd bod y Bil yn dweud os bydd plentyn wedi marw ac nad oedd unrhyw benderfyniad i gydsynio neu i beidio â chydsynio wedi'i wneud yn union cyn marwolaeth, neu os nad yw plentyn yn gymwys i ymddrin â'r mater, gallai cydsyniad penodol gael ei roi gan yr unigolyn a oedd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn hwnnw yn union cyn i'r plentyn farw. Felly, pe byddai gan awdurdod lleol neu lys gyfrifoldeb rhiant am y plentyn hwnnw, gallai'r sefydliad hwnnw gydsynio i drawsblannu pe na byddai dymuniadau'r plentyn hwnnw yn hysbys. Byddai hynny'n berthnasol, er enghraifft, i blant sy'n derbyn gofal. Y rheswm pam fy mod yn credu bod hynny'n bwysig—ac nid wyf yn dymuno cythruddo Dafydd Elis-Thomas yn ormodol trwy gyfeirio at y wladwriaeth—yw bod y wladwriaeth yn gofalu am y plentyn hwnnw ac yn gyfrifol amdano gan ei fod yn blentyn sy'n derbyn gofal. Mae'n penderfynu pa ysgol y mae'r plentyn yn mynd iddi, pa un a yw'n cael mynd ar daith ysgol a pha un a yw'n rhoi ei ganiatâd i'r plentyn gael llawdriniaeth—mae'n gwneud yr holl benderfyniadau hynny, sydd oll yn gadarnhaol ac adeiladol. Fodd bynnag, gall y wladwriaeth hefyd dderbyn cydsyniad penodol gan y wladwriaeth pe byddai'r plentyn hwnnw'n marw. Mae hynny'n bwysig iawn yn achos plant sy'n derbyn gofal gan fod plant yn symud i mewn ac allan o ofal. Mae gan y wladwriaeth gyfrifoldeb rhiant weithiau, ac yna mae'n ei roi yn ôl, ac yna'n ei gymryd eto. Mae'n sefyllfa sy'n newid yn gyflym.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

19:33

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for taking the intervention. If there is a situation where parental responsibility is shared between a local authority and parents—which is most often the case—and then you have conflicting views, do you have any views on how that conflict should be resolved?

Diolch i chi am dderbyn yr ymyriad. Os ceir sefyllfa lle rhennir cyfrifoldeb rhiant rhwng awdurdod lleol a rhieni—a dyna'r achos gan amlaf—ac yna bod gennych safbwyntiau sy'n gwrthdaro, a oes gennych chi unrhyw farn ar sut y dylid datrys y gwrthdaro hwnnw?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

19:33

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that it is about ensuring that the parent's views are primary in a situation where the child has not given consent. I do not think that it is okay for the organs of the state to make those decisions because of those reasons: because of the fluidity, because if the child is a ward of court, there could be a dispute over the parents because the children move in and out of parental responsibility. Thank you, Minister, for the note in your letter. I realise that, in my drafting, I probably omitted other people, such as grandparents, who might be legitimately and rightly so looking after that child. Maybe that is something else that you can consider. I will make a final point: although this reflects the Human Tissue Act 2004, just because parental responsibility is deemed throughout the statute book in a certain way, for this particular Bill, I would have thought that we could have looked at it in a different way because we have an awful lot of children here in Wales who are in a situation where parental responsibility lies with an organ of the state, and I think that it is vital that we review this.

Rwy'n meddwl ei fod yn ymwneud â sicrhau mai barn y rhieni sydd bwysicaf mewn sefyllfa lle nad yw'r plentyn wedi cydsynio. Nid wyf yn credu ei bod yn iawn i organau'r wladwriaeth wneud y penderfyniadau hynny am y rhesymau hynny: oherwydd y newid cyflym i'r sefyllfa, oherwydd os bydd y plentyn yn ward y llys, y gallai fod anghydfod ynghylch y rhieni gan fod y plant yn symud i mewn ac allan o gyfrifoldeb rhiant. Diolch i chi, Weinidog, am y nodyn yn eich llythyr. Rwy'n sylweddoli, wrth ddrafftio, fy mod wedi hepgor pobl eraill yn ôl pob tebyg, fel neiniau a theidiau, a allai fod yn gofalu am y plentyn hwnnw, a hynny'n gyfreithlon ac yn briodol. Efallai fod hynny'n rhywbeth arall y gallwch ei ystyried. Hoffwn wneud un pwynt olaf: er bod hyn yn adlewyrchu Deddf Meinweoedd Dynol 2004, nid yn unig oherwydd bod cyfrifoldeb rhieni yn cael ei dybio mewn ffordd benodol drwy'r llyfr statud, ar gyfer y Bil penodol hwn, byddwn yn meddwl y gallem ni fod wedi ei ystyried mewn ffordd wahanol oherwydd bod gennym ni lawer iawn o blant yma yng Nghymru sydd mewn sefyllfa lle mae cyfrifoldeb y rhiant gan organ o'r wladwriaeth, ac rwy'n credu ei bod yn hanfodol bwysig ein bod yn adolygu hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 19:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Minister, do you want to reply to that? Weinidog, a hoffech chi ymateb i hynna?
- 19:35 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Briefly, to reply to Angela Burns's amendment, amendment 69, we are unable to support it. The definition that we use in section 6 of this Bill restates, as she said, the provisions set out in section 2 of the Human Tissue Act 2004 in relation to children, and it is not an area that we have sought to change. Where the state or a local authority has parental rights in relation to a child, that local authority is very often involved in making very sensitive decisions with that child about that child's future and there is a body of case law, built up over many years, to make sure that the local authority discharges those responsibilities in a sensitive and proper way.

The other reason why we are unable to support the amendment is that, as Angela referred to, if you read it carefully, you see that it says that parental responsibility lies only with someone who is the birth or adoptive parent of a child. What about children who are being looked after by grandparents? They would be cut out of this completely. What about families where someone is being looked after by an uncle or an aunt? I understand the point that the amendment is about, but it is defective in drafting and probably unnecessary in intent.

Yn gryno, i ymateb i welliant Angela Burns, gwelliant 69, ni allwn ei gefnogi. Mae'r diffiniad a ddefnyddir gennym yn adran 6 y Bil hwn yn ailddatgan, fel y dywedodd hi, y darpariaethau a nodir yn adran 2 Deddf Meinweoedd Dynol 2004 o ran plant, ac nid yw'n faes yr ydym ni wedi ceisio ei newid. Pan fo gan y wladwriaeth neu awdurdod lleol hawliau rhieni ar gyfer plentyn, mae'r awdurdod lleol hwnnw'n aml iawn yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau sensitif iawn gyda'r plentyn hwnnw am ddyfodol y plentyn hwnnw a cheir corff o gyfraith achosion, sydd wedi datblygu dros flynyddoedd lawer, i wneud yn siŵr bod yr awdurdod lleol yn cyflawni'r cyfrifoldebau hynny mewn ffordd sensitif a phriodol.

Y rheswm arall pam na allwn ni gefnogi'r gwelliant yw, fel y cyfeiriodd Angela ato, pe byddech yn ei ddarllen yn ofalus, byddwch yn gweld mai dim ond rhywun sy'n rhiant genedigol neu'n rhiant mabwysiadol i'r plentyn gaiff gyfrifoldeb rhiant. Beth am blant sy'n derbyn gofal gan neiniau a theidiau? Byddent hwy'n cael eu torri allan o hyn yn gyfan gwbl. Beth am deuluoedd lle mae rhywun yn derbyn gofal gan ewythr neu fodryb? Rwy'n deall y pwynt y mae'r gwelliant yn ymwneud ag ef, ond mae wedi ei ddrafftio'n ddiffygiol ac mae'n debyg ei fod yn ddiangen o ran ei fwriad.
- 19:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call Darren Millar to reply to the debate. Galwaf ar Darren Millar i ymateb i'r ddadl.
- 19:36 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
It has been interesting to listen to the contributions that have been made. I was interested particularly in Dafydd Elis-Thomas's contribution. It was clear that he was unprepared for making a contribution today, and while he may not value the family and the role of the family in decision making, I can tell him that people in Colwyn Bay do, as they do in Cardigan bay and Cardiff bay as well. That is why these amendments have been tabled by me: to seek to ensure that the family role is strengthened, not in decision making, but in providing information to the people who will make a decision about whether transplantation activity ought to proceed.

It has been quite right for individual Members to talk about the NHS Blood and Transplant definition of what constitutes a soft opt-out system. Let us remember that it was a soft opt-out system that the Government went to consult on and trumpeted in its consultation programme. This is what the NHS Blood and Transplant service says that a soft opt-out system is—they are the people who will be the custodians of this system, operating it in Wales, transferring the organs about and participating in running it. Let us make this clear. NHS Blood and Transplant defines a soft opt-out system as 'where relatives' views are sought' and a hard opt-out system as,

Mae wedi bod yn ddiddorol gwranddo ar y cyfraniadau a wnaed. Roedd gen i ddiddordeb penodol yng nghyfraniad Dafydd Elis-Thomas. Roedd yn amlwg nad oedd wedi paratoi ar gyfer gwneud cyfraniad heddiw, ac er efallai nad yw'n gwerthfawrogi'r teulu a swyddogaeth y teulu wrth wneud penderfyniadau, gallaf ddweud wrtho fod pobl ym Mae Colwyn yn ei werthfawrogi, fel y maen nhw ym mae Ceredigion ac ym mae Caerdydd hefyd. Dyna pam rwyf i wedi cyflwyno'r gwelliannau hyn: i geisio sicrhau bod swyddogaeth y teulu yn cael ei chryfhau, nid o ran gwneud penderfyniadau, ond o ran darparu gwybodaeth i'r bobl a fydd yn gwneud penderfyniad ynghylch pa un a ddylai gweithgarwch trawsblannu ddigwydd.

Mae wedi bod yn hollol gywir i Aelodau unigol siarad am ddiffiniad Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG o beth yw system optio allan meddal. Gadewch i ni gofio mai system optio allan meddal yr aeth y Llywodraeth i ymgynghori am ac a amlygwyd yn ei rhaglen ymgynghori. Dyma beth mae'r Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn ei ddweud yw system optio allan meddal—nhw yw'r bobl a fydd yn geidwaid y system hon, yn ei gweithredu yng Nghymru, yn trosglwyddo'r organau o gwmpas ac yn cymryd rhan yn y gwaith o'i redeg. Gadewch i ni wneud hyn yn eglur. Mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn diffinio system optio allan meddal fel 'lle gofynnir am farn perthnasau' a system optio allan caled fel,

'where the views of close relatives are not taken into account'.

I ask anybody in the Chamber to tell me which of those systems we have before us for consideration today. Is it a hard opt-out system, according to the definition of the NHS Blood and Transplant service, or is it a soft opt-out system? I can tell you that, as far as its definition is concerned, it is a hard opt-out system, not the system that the First Minister indicated before the last elections would be introduced and which three parties gave a commitment to before the last elections. It is also not the system that was described in the consultation on the Bill. That read,

'The Welsh Government is consulting on a draft Bill which will introduce a softopt-out system for consent to deceased organ and tissue donation in Wales.'

It patently is not the case that this is a soft opt-out system.

Reference has been made to my amendment 41, in terms of having a family member present in order for transplantation activity to proceed. I fully take on board the point that was made by Nick Ramsay about innovations in technology et cetera perhaps being able to overcome the necessity for a family member to be present for a transplantation activity to proceed in the future. However, let me remind everybody of what the Minister said at the Stage 1 debate in Plenary,

'deemed consent donation will not go ahead in the absence of any family member',

That is what you said, Minister. Do you accept that that is what you said? I can see you indicating that you want to make an intervention.

'lle nad yw barn perthnasau agos yn cael eu cymryd i ystyriaeth'.

Rwy'n gofyn i unrhyw un yn y Siambr ddweud wrthyf pa un o'r systemau hynny sydd gennym ger ein bron i'w hystyried heddiw. A yw'n system optio allan caled, yn ôl diffiniad Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, neu a yw'n system optio allan meddal? Gallaf ddweud wrthyf, cyn belled ag y mae ei diffiniad yn y cwestiwn, ei bod yn system optio allan caled, nid y system y dynodwyd y byddai'n cael ei chyflwyno gan y Prif Weinidog cyn yr etholiadau diwethaf ac yr ymrwymodd tair plaid iddi cyn yr etholiadau diwethaf. Nid hon yw'r system a ddisgrifiwyd yn yr ymgynghoriad ar y Bil ychwaith. Roedd hwnnw'n dweud,

'Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar Fil drafft a fydd yn cyflwyno system feddal o optio allan ar gyfer cydsynio i roi organau a meinweoedd pobl a fu farw yng Nghymru.'

Mae'n amlwg nad yw'n wir mai system optio allan meddal yw hon.

Cyfeiriwyd at fy ngwelliant 41, o ran cael aelod o'r teulu'n bresennol er mwyn bwrw ymlaen â gweithgarwch trawsblannu. Rwy'n derbyn yn llwyr y pwynt a wnaed gan Nick Ramsay efallai y gallai arloesiadau ym maes technoleg ac ati oresgyn yr angen i aelod o'r teulu fod yn bresennol i weithgarwch trawsblannu ddigwydd yn y dyfodol. Fodd bynnag, gadewch i mi atgoffa pawb o'r hyn a ddywedodd y Gweinidog yn nadl Cyfnod 1 yn y Cyfarfod Llawn,

'na fydd rhoi organau drwy ganiatâd tybiedig yn mynd yn ei flaen yn absenoldeb unrhyw aelod o'r teulu.'

Dyna'r hyn a ddywedasoch, Weinidog. A ydych chi'n derbyn mai dyna a ddywedasoch chi? Gallaf eich gweld yn nodi eich bod yn dymuno gwneud ymyriad.

19:39 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I absolutely confirm that it will not go ahead in the absence of a family member. That does not mean the physical presence of somebody in the room, necessarily. We discussed at length in the committee the student from Aberystwyth whose family is in Malaysia. The family would be involved in the decision, but they may not be involved by being physically present in the room. They will be at the end of a phone, or they will be in the situation that Nick Ramsay outlined.

Rwy'n cadarnhau'n bendant na fydd yn mynd yn ei flaen yn absenoldeb unrhyw aelod o'r teulu. Nid yw hynny'n golygu presenoldeb corfforol rhywun yn yr ystafell, o reidrydd. Buom yn trafod y myfyriwr o Aberystwyth, y mae ei deulu ym Malaysia, yn helaeth yn y pwyllgor. Byddai'r teulu yn cael eu cynnwys yn y penderfyniad, ond efallai na fyddent yn cymryd rhan trwy fod yn bresennol yn gorfforol yn yr ystafell. Byddant ar ben arall y ffôn neu byddant yn y sefyllfa a amlinellwyd gan Nick Ramsay.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

19:40 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I can tell you that in the context of the discussion that we had at that time, in that debate at Stage 1, it was quite clear that you were talking about the physical presence of a member of the family, and not the involvement of the family at the end of a telephone, or otherwise.

Gallaf eich hysbysu, yng nghyd-destun y drafodaeth a gawsom ar yr adeg honno, yn y ddadl honno yng Nghyfnod 1, ei bod yn hollol eglur eich bod yn sôn am bresenoldeb corfforol aelod o'r teulu, ac nid cynnwys y teulu ar ben arall y ffôn, na dim byd arall.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In terms of the ranking, I find it absolutely bizarre that individual Members in the Chamber speak in support of having a ranked system for decision making in the absence of a nominated representative. They talk about the potential for conflict between individuals, and that that is why we have to have a ranked system. However, there is still the potential for conflict in information provision under the context of the Bill as it currently stands. What happens if two close individuals—two siblings, for example—come forward, and one says that the deceased definitely wanted their organs to be donated, and the other says that the deceased definitely did not? What happens then? It is going to prevent a transplantation opportunity from being undertaken. The whole point of this Bill is to increase the opportunity for transplants to take place, and, therefore, you need to resolve the potential—

O ran trefn y teulu, rwy'n ei gweld yn rhyfedd iawn fod Aelodau unigol yn y Siambr yn siarad o blaid cael system o drefn ar gyfer gwneud penderfyniad os na fydd cynrychiolydd enwebedig. Mae'n nhw'n siarad am y posibilrwydd o wrthdaro rhwng unigolion, ac mai dyna pam mae'n rhaid i ni gael system o drefn. Fodd bynnag, erys y posibilrwydd o wrthdaro wrth ddarparu gwybodaeth yng nghyd-destun y Bil fel ag y mae ar hyn o bryd. Beth sy'n digwydd os bydd dau unigolyn agos—dau o frodyr neu chwiorydd, er enghraifft—yn dod ymlaen, a bod un yn dweud bod yr ymadawedig yn bendant am i'w horganau gael eu defnyddio, a'r llall yn dweud nad oedd yr ymadawedig yn bendant yn dymuno hynny? Beth sy'n digwydd wedyn? Mae'n mynd i olygu bod cyfle i drawsblannu yn cael ei gollu. Holl bwynt y Bil hwn yw cynyddu'r cyfle i drawsblaniadau ddigwydd, ac, felly, mae angen i chi ddatrys y posibilrwydd—

- 19:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Are you taking an intervention? A ydych chi'n derbyn ymyriad?
- 19:41 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Therefore, you need to resolve the potential for those sorts of conflicts. Felly, mae angen i chi ddatrys y posibilrwydd ar gyfer y mathau hynny o wrthdaro.
- 19:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Are you going to take an intervention? A ydych chi'n mynd i dderbyn ymyriad?
- 19:41 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I will take an intervention in a second. I am simply making the point that there is a potential for conflict in the information provision, as there is in the decision under the nominated representative. Derbyniaf ymyriad mewn eiliad. Y cwbl yr wyf yn ei wneud yw gwneud y pwynt bod posibilrwydd y bydd gwrthdaro wrth ddarparu gwybodaeth, fel sydd o ran y penderfyniad dan y cynrychiolydd enwebedig.
- 19:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call Peter Black. Galwaf ar Peter Black.
- 19:41 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The conflict that you have just described happens now. Mae'r gwrthdaro yr ydych chi newydd ei ddisgrifio yn digwydd nawr.
- 19:41 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Yes, of course it does, so I am saying, let us resolve it. It happens now with nominated representatives, when they are not present. That is why the Minister has sought to address it by introducing a ranked system. Therefore, let us introduce it in the same way for family information being provided, so that we can promote transplantation activity, and not put a barrier in the way to it being delivered. Ydy, wrth gwrs ei fod e, ac felly rwy'n dweud, gadewch i ni ei ddatrys. Mae'n digwydd nawr gyda chynrychiolwyr a enwebwyd, pan nad ydynt yn bresennol. Dyna pam mae'r Gweinidog wedi ceisio mynd i'r afael â hyn trwy gyflwyno system o drefn y teulu. Felly, gadewch i ni ei chyflwyno yn yr un ffordd ar gyfer darparu gwybodaeth gan deuluoedd, fel y gallwn hyrwyddo gweithgarwch trawsblannu, ac nid ei rwystro rhag cael ei gyflawni.
- 19:42 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Will you take an intervention? A wnewch chi dderbyn ymyriad?
- 19:42 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I am sorry, I do not have time; if I have time, I will return to you. Mae'n ddrwg gennyf, nid oes gennyf amser; os bydd gennyf amser, byddaf yn dod yn ôl atoch chi.

Therefore, we do not have a soft opt-out system, the Government has no mandate to introduce one, and support for the presumed consent system, which the Government has put forward, has been falling in the polls that have been developed in recent times. In fact, we know that support has plummeted from 63% in 2012, when the Government was talking about a soft opt-out system, to less than 50% in the most recent Government survey, which it commissioned. We know that, in the most recent survey, which was published only this week, 94% want the family's views to be considered, and want a greater role for the family.

Nick Ramsay made reference to Spain. The Government made a great beef about the example that Spain could provide in terms of its system of presumed consent, and said how wonderful it was that the law change there had delivered significant improvements in organ donation rates in that country. However, what we know from the head of the transplant service in Spain is that that is not the case—the law change made diddly-squat of a difference in terms of organ donation rates. It was actually the infrastructure around the system of organ donation, and the introduction of improvements to that, that made the improvements happen in terms of the organ donation rates.

I will take an intervention from Nick Ramsay.

Felly, nid oes gennym ni system optio allan meddal, nid oes gan y Llywodraeth fandad i gyflwyno un, ac mae cefnogaeth i'r system cydsyniad tybiedig, y mae'r Llywodraeth wedi ei chyflwyno, wedi bod yn gostwng yn yr arolygon a ddatblygwyd yn ddiweddar. A dweud y gwir, rydym yn gwybod bod y gefnogaeth wedi gostwng yn sylweddol o 63% yn 2012, pan roedd y Llywodraeth yn sôn am system optio allan meddal, i lai na 50% yn arolwg diweddaraf y Llywodraeth, a gomisiynwyd ganddi. Rydym yn gwybod, yn yr arolwg diweddaraf, a gyhoeddwyd mor ddiweddar â'r wythnos hon, bod 94% eisiau i farn y teulu gael ei hystyried, ac yn dymuno cael swyddogaeth gryfach i'r teulu.

Cyfeiriodd Nick Ramsay at Sbaen. Gwnaeth y Llywodraeth fôr a mynydd o'r esiampyl y gallai Sbaen ei chynig o ran ei system o gydsyniad tybiedig, gan ddweud pa mor wych oedd hi fod y newid yn y gyfraith yno wedi cyflawni gwelliannau sylweddol i'r cyfraddau rhoi organau yn y wlad honno. Fodd bynnag, yr ydym yn ei wybod, yn ôl pennaeth y gwasanaeth trawsblannu yn Sbaen yw nad yw hynny'n wir—ni wnaeth y newid i'r gyfraith unrhyw wahaniaeth o gwbl o ran cyfraddau rhoi organau. Y seilwaith o amgylch y system o roi organau, a chyflwyno gwelliannau i hynny, a arweiniodd at y gwelliannau i'r cyfraddau rhoi organau mewn gwirionedd.

Derbyniaf ymyriad gan Nick Ramsay.

19:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Nick Ramsay. Do not take any more interventions after this one.

Galwaf ar Nick Ramsay. Peidiwch â derbyn dim mwy o ymyriadau ar ôl hwn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

19:43 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It took 10 years for that change to happen—it was a very slow process. I wish to go back to this issue of presence, and what 'presence' means. I really do think that we need some clarification from the Government about what is meant in this Bill, because I think that this has been sloppy drafting, and we have all been sucked into this problem.

Cymerodd 10 mlynedd i'r newid hwnnw ddigwydd—roedd yn broses araf iawn. Hoffwn ddychwelyd at y mater o bresenoldeb, a beth yw ystyr 'presenoldeb'. Rwyf wir yn meddwl bod arnom angen rhywfaint o eglurhad gan y Llywodraeth ynglŷn â'r hyn a olygir yn y Bil hwn, gan fy mod i'n credu mai drafftio blêr yw hyn, ac ein bod i gyd wedi cael ein sugno i mewn i'r broblem hon.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

19:43 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I also wish to turn briefly to this issue of distress. Kirsty Williams quite rightly pointed out that the issue of distress is a difficult one to be able to describe on the face of the Bill. That is why I took on board the comments of committee members at Stage 2, and that is why I have tabled an amendment, simply to ensure that there is adequate guidance to guide clinicians on what to do when family members are distressed in the code of practice. That is what the Minister said would be in the code of practice; unfortunately, it was not. I am very much reassured by the Minister's comments in respect of that issue, and I look forward to seeing a revised code of practice, with some detail in it, about undue distress.

Hoffwn droi'n fyr hefyd at y mater yma o ofid. Dywedodd Kirsty Williams yn gwbl gywir fod mater o ofid yn un anodd ei ddisgrifio ar wyneb y Bil. Dyna pam y gwrandewais ar sylwadau aelodau'r pwyllgor yng Nghyfnod 2, a dyna pam yr wyf wedi cyflwyno gwelliant, dim ond er mwyn sicrhau canllawiau digonol i arwain clinigwyr ar beth i'w wneud pan fydd aelodau'r teulu yn ofidus yn y cod ymarfer. Dyna ddywedodd y Gweinidog fyddai yn y cod ymarfer; yn anffodus, nid oedd ynnddo. Mae sylwadau'r Gweinidog am y mater hwn yn rhoi cysur mawr i mi, ac edrychaf ymlaen at weld cod ymarfer diwygiedig, gyda rhywfaint o fanylion ynnddo, am ofid gormodol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I recognise that there are a plethora of other sources that describe the distress situation. Therefore, what I am seeking to do here is to increase the role of the family in the decision-making process—not to make the decisions, but simply to ensure that their information is used in the process, which would be a soft opt-out process, as the Government committed to introduce at the time of the last elections. We do not have that at the moment, and I believe that it questions the whole validity, frankly, of the consultation process that has taken place. I am sure that people will be concerned about the basis on which the consultation took place, because we do not have the sort of system that was being described in the public statements and pronouncements that were being made by the Minister at the time of the introduction of the Bill, nor by the First Minister prior to the introduction of the Bill.

Both of my amendments in relation to family involvement, particularly the one on the likely views of the deceased, help to provide a double lock, if you like. The information can be provided as to whether a person wanted to give consent. If they do not know that, they should be able to give information in relation to the character of the person and their beliefs, which might help somebody to make a reasonably informed choice about whether somebody would have granted consent if they had been asked a specific question on the subject. So, I urge Members to support the amendments.

Rwy'n cydnabod bod yna lu o ffynonellau eraill sy'n disgrifio'r sefyllfa gofid. Felly, yr hyn rwy'n ceisio ei wneud yma yw cynyddu swyddogaeth y teulu yn y broses o wneud penderfyniadau—nid i wneud y penderfyniadau, ond dim ond i sicrhau y defnyddir eu gwybodaeth yn y broses, a fyddai'n broses o optio allan meddal, fel yr ymrwymodd y Llywodraeth i'w chyflwyno ar adeg yr etholiadau diwethaf. Nid yw hynny gennym ar hyn o bryd, ac rwy'n credu ei fod yn cwestiynu holl ddilysrwydd y broses ymgynghori a gynhaliwyd, a dweud y gwir. Rwy'n siŵr y bydd pobl yn poeni am y sail y cynhaliwyd yr ymgynghoriad arni, gan nad yw'r math o system gennym a oedd yn cael ei disgrifio yn y datganiadau cyhoeddus a'r cyhoeddiadau a oedd yn cael eu gwneud gan y Gweinidog ar adeg cyflwyno'r Bil, nac yn natganiadau'r Prif Weinidog cyn cyflwyno'r Bil.

Mae fy nau welliant sy'n ymwneud â chynnwys y teulu, yn enwedig yr un ar farn debygol yr ymadawedig, yn helpu i ddarparu clo dwbl, fel petai. Gellir darparu'r wybodaeth o ran pa un a oedd yr unigolyn eisiau cydsynio. Os nad ydynt yn gwybod hynny, dylent allu rhoi gwybodaeth am gymeriad yr unigolyn a'i gredoau, a allai helpu rhywun i wneud dewis rhesymol gytbwys o ba un a fyddai rhywun wedi cydsynio pe byddai cwestiwn penodol wedi ei ofyn iddo/iddi ar y pwnc. Felly, rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi'r gwelliannau.

19:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 41 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will proceed to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 41. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly awn ymlaen i bleidlais electronig.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 41.](#)

[Result of the vote on amendment 41.](#)

Gwrthodwyd gwelliant 41: O blaid 6, Yn erbyn 45, Ymatal 1.

Amendment 41 not agreed: For 6, Against 45, Abstain 1.

19:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In accordance with Standing Order No. 12.18, I intend to suspend the sitting for 10 minutes.

Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.18, rwy'n bwriadu gohirio'r sesiwn am 10 munud.

Ataliwyd y Cyfarfod Llawn am 7.46 p.m.

Plenary was suspended at 7.46 p.m.

Ailymgynullodd y Cynulliad am 7.56 p.m.

The Assembly reconvened at 7.56 p.m.

19:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. The Assembly is now in session again.

Trefn. Dyma ailgychwyn trafodion y Cynulliad.

Grŵp 6: Cynrychiolwyr Penodedig (Gwelliannau 3A, 3, 42, 4, 43, 44, 45, 46, 52, 11A, 11, 12, 56, 57, 58, 59, 60, 61 a 62)

Group 6: Appointed Representatives (Amendments 3A, 3, 42, 4, 43, 44, 45, 46, 52, 11A, 11, 12, 56, 57, 58, 59, 60, 61 and 62)

19:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The lead amendment in this group is amendment 3. I call on the Minister to move amendment 3 and to speak to that amendment and other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 3. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 3 ac i siarad am y gwelliant hwnnw a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Mark Drakeford [Bywgraffiad Biography](#)

I move amendment 3 in my name.

Cynigiau welliant 3 yn fy enw.

The Government amendments 3, 4, 11 and 12 are technical changes to ensure that there is absolute clarity about who should give consent when appointees are able to act or are not able to do so. Darren Millar's amendments echo those he tabled at Stage 2 and would mean that individuals would be able to appoint only a single representative. I indicated at Stage 2 that I could see the sense of some of the arguments that he was making and that I would carefully consider the case for this approach and the balance of the argument. I have done so now and I am glad to have the opportunity to set out our thoughts on these amendments and to explain why I have concluded that people should be able to appoint more than one representative, as in the existing legislation.

Mae gwelliannau 3, 4, 11 a 12 y Llywodraeth yn newidiadau technegol i sicrhau ei bod yn gwbl glir pwy ddylai roi caniatâd pan fo'r rhai a benodwyd yn gallu gweithredu neu pan nad ydynt yn gallu gwneud hynny. Mae gwelliannau Darren Millar yn adleisio'r gwelliannau a gyflwynwyd ganddo yng Nghyfnod 2 a fyddai'n golygu mai dim ond un cynrychiolydd y byddai unigolion yn gallu ei benodi. Nodais yng Nghyfnod 2 y gallwn weld synnwyr rhai o'r dadleuon yr oedd yn eu gwneud ac y byddwn yn ystyried yr achos dros yr ymagwedd hon a gweddill y ddadl yn ofalus. Rwyf wedi gwneud hynny bellach ac rwyf yn falch o gael cyfle i amlinellu ein syniadau ynghylch y gwelliannau hyn ac i egluro pam yr wyf wedi dod i'r casgliad y dylai pobl allu penodi mwy nag un cynrychiolydd, fel y nodir yn y ddeddfwriaeth bresennol.

I do this despite the attractions of the arguments that Darren has made about the need to make the law simpler to operate. There are, nevertheless, a number of reasons why the choice to appoint more than one representative should not be denied. First, this section maintains consistency with the existing legislation and also allows representatives appointed by persons living in England to be recognised if a person dies in Wales, and vice versa. There would be unwelcome complexity if the operational practice must recognise different rules between England and Wales in this area. While Darren Millar's amendment would simplify the process by allowing the appointment of only one representative, it would complicate it in another way by opening up those cross-border differences.

Rwyf yn gwneud hyn er gwaethaf atyniadau'r dadleuon y mae Darren wedi'u gwneud am yr angen i wneud y gyfraith yn haws ei gweithredu. Fodd bynnag, mae nifer o resymau pam na ddylai'r dewis i benodi mwy nag un cynrychiolydd gael ei wrthod. Yn gyntaf, mae'r adran hon yn gyson â'r ddeddfwriaeth bresennol a hefyd yn caniatáu i gynrychiolwyr a benodir gan bobl sy'n byw yn Lloegr gael eu cydnabod os bydd rhywun yn marw yng Nghymru, ac fel arall. Byddai cymhlethdod annerbyniol pe byddai'n rhaid i'r arfer gweithredol gydnabod rheolau gwahanol rhwng Cymru a Lloegr yn y maes hwn. Er y byddai gwelliant Darren Millar yn symleiddio'r broses drwy ganiatáu penodi dim ond un cynrychiolydd, byddai'n ei chymhlethu mewn ffordd arall drwy agor y gwahaniaethau traws-ffiniol hynny.

Secondly, there is the issue of comparable law. Both the legislation regarding powers of attorney and the executors of wills allows for more than one appointee. The third reason is that we need to provide individuals with choice. What if a person wishes to treat two siblings equally or wishes to see two individuals share the burden? That is the logic of the comparable legislation on powers of attorney and wills, and of the Human Tissue Act 2004. It allows for that choice to be exercised.

Yn ail, rhaid ystyried cyfraith debyg. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â phwerau atwrnai ac ysgutorion ewyllysiau'n caniatáu ar gyfer penodi mwy nag un person. Y trydydd rheswm yw bod angen inni roi dewis i unigolion. Beth os bydd rhywun yn dymuno trin dau frawd neu chwaer yn gyfartal neu'n dymuno gweld dau unigolyn yn rhannu'r baich? Dyna yw rhesymeg y ddeddfwriaeth debyg ar bwerau atwrnai ac ewyllysiau, a Deddf Meinweoedd Dynol 2004. Mae'n golygu bod modd arfer y dewis hwnnw.

Taking those reasons together, I have come to the conclusion that retaining the ability to appoint more than one representative, and therefore remaining consistent with the Human Tissue Act, is preferable despite the attractions of the arguments for moving in the opposite direction. Therefore, we will resist the amendments that move in the opposite direction.

O ystyried y rhesymau hynny gyda'i gilydd, rwyf wedi dod i'r casgliad y byddai'n well cadw'r gallu i benodi mwy nag un cynrychiolydd, ac felly aros yn gyson â'r Ddeddf Meinweoedd Dynol, er gwaethaf atyniadau'r dadleuon o blaid symud i'r cyfeiriad arall. Felly, byddwn yn gwrthod y gwelliannau sy'n symud i'r cyfeiriad arall.

Darren Millar [Bywgraffiad Biography](#)

I am very grateful to the Minister for outlining the Government's position on this and for clarifying that he has investigated the matter thoroughly with his officials. As I said in the debate on group 4, I fully support the principle of nominating a representative to act on somebody's behalf if they have not made a decision before they pass away, but I am concerned that there is very little recourse when time is of the essence and a dispute arises between representatives.

Rwyf yn ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am amlinellu safbwynt y Llywodraeth ar hyn ac am egluro ei fod wedi ymchwilio i'r mater yn drylwyr gyda'i swyddogion. Fel y dywedais yn y ddadl ar grŵp 4, rwyf yn cefnogi'n llwyr yr egwyddor o enwebu cynrychiolydd i weithredu ar ran rhywun os nad yw wedi gwneud penderfyniad cyn marw, ond rwyf yn bryderus nad oes rhyw lawer o atebolrwydd pan fydd amser yn brin ac anghydfod yn codi rhwng cynrychiolwyr.

These amendments are all designed to prevent barriers from being in the way of a transplant activity proceeding where a dispute might arise between two nominated representatives, because we could be in the situation where, to take the Minister's example, two siblings are being treated equally and have been nominated by a parent or another loved one, and one says, 'Yes, go ahead with the transplantation activity', and the other says, 'No'. In those situations, the transplantation activity would be prevented, and I think that we need to have a situation in which there is just one nominated representative, and if that nominated representative is not there, then the ranked system that the Minister has introduced would be available for people to follow so that a clear decision could be made that is very legitimate.

We know that the NHS itself states that timing is crucial, because certain organs need to be transplanted within four to six hours. When you have a number of nominated representatives and, when you cannot find one and go to the next, and then to the next, et cetera, I think that it makes the opportunity to resolve the issue of decision on donation much more protracted. As a result, that will potentially lead to organs perishing and, unfortunately, transplantation opportunities not being taken.

Minister, you mentioned cross-border issues. I am not quite sure how they influence the decision in this respect, because we are going to have a completely different system in Wales in any case from the one over the border in England. We are not removing the opportunity for people in England to appoint more than one representative. If they do so, and they then move to Wales, their commitment to more than one representative will be honoured. I am not seeking to withdraw the opportunity for people to have their original decision, made before they came to Wales, honoured; in fact, I want to protect that. While I understand the issue in relation to the power of law and wanting consistency in the power of attorney and other matters, we already have inconsistency in transplantation. We have a system in Wales that allows for a ranked list of individuals in qualifying relationships to be sought, in the event of a nominated representative not being found. There is no ranked system in England. So, inconsistency is an inconsistent argument in many respects. I therefore urge people to support the amendments that I have tabled. They are in the spirit of wanting to remove barriers to organ transplantation activity.

Bwriedir i'r gwelliannau hyn i gyd beri na fydd dim i rwystrau gweithgaredd trawsblannu rhag mynd yn ei flaen lle gallai anghydfod godi rhwng dau gynrychiolydd enwebedig, oherwydd gallem fod mewn sefyllfa lle mae dau frawd neu chwaer, a chymryd enghraifft y Gweinidog, yn cael eu trin yn gyfartal ac wedi eu henwebu gan riant neu rywun agos, ac un yn dweud, 'Ie, ewch ymlaen â'r gweithgaredd trawsblannu', a'r llall yn dweud, 'Na'. Yn y sefyllfaoedd hynny, byddai'r gweithgaredd trawsblannu'n cael ei atal, ac rwyf yn meddwl bod angen inni sicrhau mai dim ond un cynrychiolydd enwebedig sydd, ac os nad yw'r cynrychiolydd enwebedig yno, yna byddai'r system raddio y mae'r Gweinidog wedi'i chyflwyno ar gael i bobl ei dilyn er mwyn gwneud penderfyniad clir sy'n gwbl ddiyls.

Rydym yn gwybod bod y GIG ei hun yn dweud bod amseru'n hollbwysig, oherwydd mae angen i rai organau penodol gael eu trawsblannu o fewn 4-6 awr. Pan fydd gennych nifer o gynrychiolwyr enwebedig, a phan nad ydych yn gallu dod o hyd i un ac yn mynd at y nesaf, ac yna at y nesaf, ac yn y blaen, credaf fod hynny'n gwneud y broses o benderfynu ynghylch rhoi organau'n broses hwy o lawer. Gallai hynny o bosibl beri bod organau'n dirywio ac, yn anffodus, na fydd modd manteisio ar gyfleoedd i drawsblannu.

Weinidog, soniasoch am faterion traws-ffiniol. Nid wyf yn hollol siŵr sut y maent yn dylanwadu ar y penderfyniad hyn o beth, oherwydd bydd y system yng Nghymru'n hollol wahanol beth bynnag i'r un dros y ffin yn Lloegr. Nid ydym yn cael gwared ar y cyfle i bobl yn Lloegr i benodi mwy nag un cynrychiolydd. Pe byddent yn gwneud hynny, ac yna'n symud i Gymru, byddai eu hymrwymiad i fwy nag un cynrychiolydd yn cael ei anrhydeddu. Nid wyf yn ceisio tynnu'r cyfle i anrhydeddu penderfyniad gwreiddiol pobl, a wnaed cyn iddynt ddod i Gymru, oddi arnynt; mewn gwirionedd, rwyf am amddiffyn hynny. Er fy mod yn deall yr hyn a ddywedwch am rym y gyfraith a chysondeb o ran pŵer atwrnai a materion eraill, mae gennym eisoes anghysondeb o ran trawsblannu. Mae gennym system yng Nghymru sy'n caniatáu llunio rhestr wedi'i graddio o unigolion mewn perthynas gymhwysol, lle nad oes modd dod o hyd i gynrychiolydd enwebedig. Nid oes system wedi'i graddio yn Lloegr. Felly, mae anghysondeb yn ddadl anghyson mewn sawl ffordd. Felly, anogaf bobl i gefnogi'r gwelliannau yr wyf wedi'u cyflwyno. Eu diben yw cael gwared ar rwystrau i weithgarwch trawsblannu organau.

20:02	Kirsty Williams Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The issues around nominated representatives are not simple, and there is merit in both arguments. Therefore, it is a question of balance. It is clear to me that we did not necessarily receive overwhelming evidence from clinicians against the retention of the status quo; they did not necessarily identify it as a cause of grave concern to them. There are disadvantages to proceeding with this system, and Darren has eloquently outlined them, but there are also advantages in allowing individuals that maximum amount of choice when it comes to appointing principals. On that basis, we will support the Government's retention of the ability of an individual to decide how many nominated representatives they have rather than be dictated to by the state that they are allowed to have only one. It is a matter for them, and they are put in the driving seat in making this decision.</p>	<p>Nid yw'r materion yn ymwneud â chynrychiolwyr enwebedig yn rhai syml, ac mae gwerth i'r ddwy ddadl. Felly, mae'n fater o gydbwysedd. Mae'n amlwg i mi na chawsom o reidrwydd dystiolaeth ysgubol gan glinigwyr yn erbyn cadw'r status quo; nid oeddent o reidrwydd yn nodi bod hyn yn peri pryder difrifol iddynt. Mae anfanteision i symud ymlaen â'r system hon, ac mae Darren wedi eu hamlinellu'n huawdl, ond mae hefyd fanteision o ran rhoi'r dewis mwyaf posibl i unigolion wrth benodi prif gynrychiolwyr. Ar sail hynny, byddwn yn cefnogi bwriad y Llywodraeth i ddiogelu gallu unigolion i benderfynu faint o gynrychiolwyr enwebedig sydd ganddynt yn hytrach na bod y wladwriaeth yn pennu nad ydynt ond yn cael un. Mater iddynt hwy yw hynny, a nhw sydd i benderfynu yn hyn o beth.</p>
20:03	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I call the Minister to reply.</p>	<p>Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.</p>
20:03	Mark Drakeford Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>This is an area where arguments are finely balanced. I understand the points that Darren Millar has made. I understand what he means when he says that there is inconsistency in the inconsistent argument, but insofar as we are able to, we have taken the view that we will try to maintain consistency across our border, except where we are sure that there are compelling arguments to depart from it. I do not think that the arguments are compelling in this case, and the Government's position is that we will stick with the existing arrangements. I think that we are probably done with that one.</p>	<p>Mae'r dadleuon yn y maes hwn yn union gytbwys. Rwyf yn deall y pwyntiau y mae Darren Millar wedi'u gwneud. Rwyf yn deall yr hyn y mae'n ei olygu pan ddywed bod anghysondeb yn y ddadl anghyson, ond cyhyd ag y gallwn, rydym wedi penderfynu y byddwn yn ceisio sicrhau cysondeb ar draws ein ffin, ac ethrio lle rydym yn sicr bod dadleuon cryf dros wyro oddi wrth hynny. Nid wyf yn credu bod y dadleuon yn ddigon cryf yn yr achos hwn, a safbwynt y Llywodraeth yw y byddwn yn cadw at y trefniadau presennol. Credaf ein bod wedi gorffen â'r gwelliant hwn.</p>
20:04	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>As there is an amendment to amendment 3, we will dispose of that first. I call Darren Millar to move amendment 3A.</p>	<p>Gan fod gwelliant i welliant 3, ymdriniwn â hynny yn gyntaf. Galwaf ar Darren Millar i gynnis gwelliant 3A.</p>
20:04	Darren Millar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I move amendment 3A in my name.</p>	<p>Cynigaf welliant 3A yn fy enw.</p>
20:04	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>If amendment 3A is not agreed, the following amendments will fall: amendments 42 to 46, 52, 11A, 56 to 60, 20A, 21A, 22A, 28B, 29B to 29H, 61 and 62. So, the question is that amendment 3A be agreed to. Does any member object? There is objection, so we will move to an electronic vote.</p>	<p>Os na dderbynnir gwelliant 3A, bydd y newidiadau canlynol yn methu: gwelliannau 42 i 46, 52, 11A, 56 i 60, 20A, 21A, 22A, 28B, 29B i 29H, 61 a 62. Felly, y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 3A. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.</p>
	<p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 3A.</p>	<p>Result of the vote on amendment 3A.</p>
	<p><i>Gwrthodwyd gwelliant 3A: O blaid 8, Yn erbyn 45, Ymatal 0.</i></p>	<p><i>Amendment 3A not agreed: For 8, Against 45, Abstain 0.</i></p>

20:05	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>If amendment 3 is not agreed, amendment 4 falls. The question is that amendment 3 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 3 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.</p>	<p>Os na dderbynnir gwelliant 3, mae gwelliant 4 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 3 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.</p>
	<p><i>Derbyniwyd gwelliant 3.</i></p>	<p><i>Amendment 3 agreed.</i></p>
	<p><i>Methodd gwelliant 42.</i></p>	<p><i>Amendment 42 fell.</i></p>
20:05	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I call on the Minister to move amendment 4.</p>	<p>Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 4.</p>
20:05	Mark Drakeford Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I move amendment 4 in my name.</p>	<p>Cynigaf welliant 4 yn fy enw.</p>
20:05	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The question is that amendment 4 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 4 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.</p>	<p>Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 4 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.</p>
	<p><i>Derbyniwyd gwelliant 4.</i></p>	<p><i>Amendment 4 agreed.</i></p>
	<p><i>Methodd gwelliant 43.</i></p>	<p><i>Amendment 43 fell.</i></p>
	<p>Grŵp 7: Technegol a Chanlyniadol (Gwelliannau 5, 6, 9, 10, 13, 14, 15, 16, 18, 19, 32 a 37)</p>	<p>Group 7: Technical and Consequential (Amendments 5, 6, 9, 10, 13, 14, 15, 16, 18, 19, 32 and 37)</p>
20:05	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I call on the Minister to move amendment 5 and to speak to it and the other amendments in the group.</p>	<p>Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 5 ac i siarad am y gwelliant hwnnw a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.</p>
20:06	Mark Drakeford Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I move amendment 5 in my name.</p>	<p>Cynigaf welliant 5 yn fy enw.</p>
	<p>I put forward a number of minor amendments that improve the drafting in the Bill but do not alter its meaning in any way. There is also one consequential amendment.</p>	<p>Rwyf yn cyflwyno nifer o fân welliannau sy'n gwella'r drafftio ar y Bil ond nad ydynt yn newid ei ystyr mewn unrhyw ffordd. Mae un gwelliant canlyniadol hefyd.</p>
	<p>Mae gwelliannau 5, 6, 9, 10, 13, 14, 15, 16, 18, 19 a 32 yn newid rhywfaint ar y testun Cymraeg er mwyn sicrhau cysondeb o ran drafftio.</p>	<p>Amendments 5, 6, 9, 10, 13, 14, 15, 16, 18, 19 and 32 propose some changes to the Welsh text in order to ensure consistency in drafting.</p>
	<p>Amendment 37 makes a consequential amendment to the Wills Act 1837 to recognise the provisions contained in the Bill in respect of appointed representatives where a person may wish to provide for this in a will.</p>	<p>Mae gwelliant 37 yn gwneud gwelliant canlyniadol i Ddeddf Ewyllysiau 1837 i gydnabod y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil o ran cynrychiolwyr penodedig lle gallai rhywun ddymuno darparu ar gyfer hyn mewn ewyllys.</p>

20:06	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I have no speakers, so I will move straight to the vote. If amendment 5 is not agreed, amendment 6 falls. The question is that amendment 5 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 5 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 5.</i></p> <p><i>Methodd gwelliannau 44 a 45.</i></p>	<p>Nid oes gennyf siaradwyr, felly symudaf yn syth at y bleidlais. Os na dderbynnir gwelliant 5, mae gwelliant 6 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 5. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 5 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.</p> <p><i>Amendment 5 agreed.</i></p> <p><i>Amendments 44 and 45 fell.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
20:07	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call on the Minister to move amendment 6.</p>	<p>Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 6.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
20:07	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p>I move amendment 6 in my name.</p>	<p>Cynigïaf welliant 6 yn fy enw.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
20:07	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 6 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 6 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 6.</i></p> <p><i>Methodd gwelliant 46.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 6. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 6 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.</p> <p><i>Amendment 6 agreed.</i></p> <p><i>Amendment 46 fell.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
20:07	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call on Darren Millar to move amendment 47.</p>	<p>Galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliant 47.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
20:07	<p>Darren Millar Bywgraffiad Biography</p> <p>I move amendment 47 in my name.</p>	<p>Cynigïaf welliant 47 yn fy enw.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
20:07	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>If amendment 47 is not agreed, amendment 49 falls. The question is that amendment 47 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will move to an electronic vote.</p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 47.</p> <p><i>Gwrthodwyd gwelliant 47: O blaid 10, Yn erbyn 43, Ymatal 1.</i></p>	<p>Os na dderbynnir gwelliant 47, mae gwelliant 49 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 47. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.</p> <p>Result of the vote on amendment 47.</p> <p><i>Amendment 47 not agreed: For 10, Against 43, Abstain 1.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
20:08	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call on Darren Millar to move amendment 48.</p>	<p>Galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliant 48.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
20:08	<p>Darren Millar Bywgraffiad Biography</p> <p>I move amendment 48 in my name.</p>	<p>Cynigïaf welliant 48 yn fy enw.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

20:08

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

If amendment 48 is not agreed, amendment 50 falls. The question is that amendment 48 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will move to an electronic vote.

Os na dderbynnir gwelliant 48, mae gwelliant 50 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 48. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 48.](#)

[Result of the vote on amendment 48.](#)

Gwrthodwyd gwelliant 48: O blaid 10, Yn erbyn 44, Ymatal 0.

Amendment 48 not agreed: For 10, Against 44, Abstain 0.

Methodd gwelliant 49.

Amendment 49 fell.

Methodd gwelliant 50.

Amendment 50 fell.

Grŵp 8: Cydsynio i Roi Organau: Cydsyniad Datganedig (Gwelliant 51)

Group 8: Consent to Donation: Express Consent (Amendment 51)

20:08

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I call on Darren Millar to move amendment 51 and to speak to the amendment.

Galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliant 51 ac i siarad am y gwelliant.

20:09

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 51 in my name.

Cynigaf welliant 51 yn fy enw.

As I indicated at the start of this debate today, I am supportive of organ donation and I believe that it is a gift that should be encouraged and promoted. I also firmly believe that, upon death, someone's express wish, either way, should be respected, and if a transplantation opportunity arises and express consent was given by the deceased, this should proceed. The Minister for Health and Social Services confirmed at Stage 2 that fundamental to this Bill is that the known views of the donor should prevail. Yes, some concerns were raised at Stage 2 regarding distress that might be caused by a decision to proceed where express consent had been given, but I believe that a distinction must be drawn between distress caused by deemed consent and distress caused by express consent. Ultimately, it is the wishes of the deceased that must be followed, and not the presumption of consent that the state makes upon the death of an individual. In situations where express consent has been given, even if distress is caused to family members by transplantation activity, it ought to proceed to ensure that the wishes of the deceased are followed, if it is appropriate that those organs can be retrieved and if a transplantation opportunity arises.

Fel y dywedais ar ddechrau'r ddadl hon heddiw, rwyf yn cefnogi rhoi organau a chredaf fod hon yn rhodd y dylid ei hannog a'i hyrwyddo. Rwyf hefyd yn credu'n gryf y dylid parchu dymuniad datganedig rhywun, ar ôl iddo farw, y naill ffordd neu'r llall, ac os bydd cyfle i drawsblannu'n codi ac os rhoddwyd cydsyniad datganedig gan y sawl a fu farw, y dylai hynny fynd yn ei flaen. Cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghyfnod 2 mai barn hysbys y rhoddwr ddylai fod bwysicaf, a bod hynny wrth wraidd y Bil hwn. Do, fe godwyd rhai pryderon yng Nghyfnod 2 ynghylch y tralod y gellid ei achosi drwy benderfyniad i fwrw ymlaen lle mae cydsyniad datganedig wedi ei roi, ond rwyf yn credu bod yn rhaid gwahaniaethu rhwng tralod a achosir gan gydsyniad tybiedig a thrallod a achosir gan gydsyniad datganedig. Yn y pen draw, mae'n rhaid parchu dymuniad yr ymadawedig, ac nid rhagdybiaeth y wladwriaeth ynghylch cydsyniad tybiedig pan fydd unigolyn farw. Mewn sefyllfaoedd lle mae cydsyniad datganedig wedi ei roi, hyd yn oed os yw gweithgaredd trawsblannu'n achosi tralod i aelodau'r teulu, dylai fynd yn ei flaen er mwyn sicrhau bod dymuniad yr ymadawedig yn cael ei barchu, os yw'n briodol adfer yr organau hynny ac os oes cyfle i'w trawsblannu.

There is an important distinction to be drawn here from the approach that I used at Stage 2, for those Members who sit on the Health and Social Care Committee. I agree with points made by Members that it is plausible for the deceased to have changed their mind since expressing their consent decision. That is why I have included a qualification in the new amendment that express consent can be overridden if somebody in a qualifying relationship can provide evidence that the deceased withdrew their consent to be a donor prior to death. I urge Members to support this amendment and, in doing so, support the principle that the wishes of the deceased should prevail where possible.

Mae gwahaniaeth pwysig rhwng fy ymagwedd yma a fy ymagwedd yng Nghyfnod 2, i'r Aelodau hynny sy'n eistedd ar y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Rwyf yn cytuno â'r pwyntiau a wnaed gan yr Aelodau ei bod yn bosibl bod y sawl sydd wedi marw wedi newid ei feddwl ers datgan penderfyniad i gydsynio. Dyna pam yr wyf wedi cynnwys amod yn y gwelliant newydd y gellir gwrthwneud cydsyniad datganedig os gall rhywun mewn perthynas gymhwysol ddarparu tystiolaeth bod y sawl sydd wedi marw wedi tynnu'n ôl ei gydsyniad i fod yn rhoddwr cyn marw. Anogaf yr Aelodau i gefnogi'r gwelliant hwn a, thrwy hynny, gefnogi'r egwyddor mai dymuniad yr ymadawedig ddylai fod bwysicaf lle bo hynny'n bosibl.

20:11

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf wedi codi i wrthwynebu sawl un o welliannau Darren Millar yn ystod y drafodaeth hon, ac rwy'n codi yn awr i gefnogi'r gwelliant hwn. Mae egwyddor bwysig yn y gwelliant hwn, sef taw barn a dymuniad yr unigolyn sydd bwysicaf yn hyn i gyd. Os yw'r unigolyn hynny wedi cofrestru'r dymuniad i roi organau, ni ddylid gweithredu yn erbyn y dymuniad hwnnw, ond dylid anrhydeddu'r farn sydd wedi ei datgan yn glir. Ar sail hynny, felly, rwy'n hapus i gefnogi'r gwelliant sy'n rhoi ar wyneb y Bil hawl yr unigolyn a barn yr unigolyn, a taw hynny sy'n goroesi.

I have opposed many of Darren Millar's amendments during this debate, but I now rise to support this amendment. There is an important principle in this amendment, which is that it is the view and wishes of the individual that are of paramount importance. If the individual has registered a wish to donate organs, then that wish should not be opposed but honoured as a view that has been stated clearly. On that basis, I am happy to support an amendment that would place on the face of the Bill the right and view of the individual, and that that is what should prevail.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

20:11

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have a number of concerns about the amendment put forward by Darren Millar, although I accept that the wording this afternoon is an improvement on what we had at Stage 2, and does take account of the ability of an individual to change their mind. However, I have concerns on three levels. First, in proposing this amendment, Darren Millar continues to differentiate between forms of consent. As we have discussed many times this afternoon, I personally do not perceive deemed consent to be a poor man's consent, and therefore I do not think that there is a difference between the forms of consent.

Mae gennyf nifer o bryderon am y gwelliant a gyflwynwyd gan Darren Millar, er fy mod yn derbyn bod y geiriad y prynhawn yma wedi gwella ers yr hyn a oedd gennym yng Nghyfnod 2, a'i fod yn ystyried gallu unigolyn i newid ei feddwl. Fodd bynnag, mae gennyf bryderon ar dair lefel. Yn gyntaf, wrth gynig y gwelliant hwn, mae Darren Millar yn parhau i wahaniaethu rhwng mathau o gydsyniad. Fel yr ydym wedi trafod sawl gwaith y prynhawn yma, nid wyf i'n gweld bod cydsyniad tybiedig yn gydsyniad y dyn tlawd, ac felly nid wyf yn credu bod gwahaniaeth rhwng y mathau o gydsyniad.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Secondly, in the last debate, we heard a lot from Darren Millar about protecting the rights of distressed families and ensuring that a distressed family would have their care concerns met by a clinician. In this case, you could have a very distressed family whom the doctor would have to tell, 'I am sorry, I do not care how distressed you are in this situation; because of the legislation passed by the Assembly, I am going to carry out this organ transplantation anyway. The law says that if a person has expressly given consent, it has to go ahead'. That puts clinicians in a very difficult position, and potentially puts them against the very codes that talked about in the previous debate, which say that, professionally and ethically, they have to have consideration for the distress of the family.

Yn ail, yn y ddadl ddiwethaf, clywsom lawer gan Darren Millar am amddiffyn hawliau teuluoedd mewn trallod a sicrhau y byddai clinigydd yn ymddrin â phryderon teuluoedd mewn trallod am ofal. Yn yr achos hwn, gallai fod gennych deulu mewn trallod mawr y byddai'n rhaid i'r meddyg ddweud wrthynt, 'Mae'n ddrwg gennyf, nid oes ots gennyf faint o drallod y mae'r sefyllfa hon yn ei beri ichi; oherwydd y ddeddfwriaeth a basiwyd gan y Cynulliad, rwy'n mynd i drawsblannu'r organau hyn beth bynnag. Mae'r gyfraith yn dweud, os yw rhywun wedi rhoi cydsyniad datganedig, fod yn rhaid iddo fynd yn ei flaen'. Mae hynny'n rhoi clinigwyr mewn sefyllfa anodd iawn, ac o bosibl yn golygu eu bod yn mynd yn groes i'r union godau yr oeddem yn siarad amdanynt yn y ddadl flaenorol, sy'n dweud, yn broffesiynol ac yn foesebol, fod yn rhaid iddynt ystyried trallod y teulu.

Thirdly, what happens to the position of a clinician if he has not carried out a donation that the law expressly states he must? A case might then be brought against him by the potential recipient of a donation. Imagine this: you are waiting for that kidney, liver, lung or heart—you are waiting for a transplantation—and you discover that a clinician in another part of the hospital has directly gone against the Welsh law by not proceeding, even though he is required by law, despite the distress of the family, to carry it out. However, because that clinician is following his professional code, and the code set out by NICE and everybody else, he has decided that, because of the distress of the family, he will not carry out that transplantation. It puts him in a very difficult position in defending himself against an individual who could have benefitted from that organ. This potentially creates a very difficult position for clinicians to work in. It is one that they would not welcome. In these situations, we have to give guidance and we must have a code of practice, but, in the end, we cannot legislate in such a way that would compel a clinician, against their best professional judgment, to carry out a procedure because we in this room had voted that way and had walked away from that situation. For those three reasons, I will not support the amendment.

Yn drydydd, beth yw sefyllfa clinigydd nad yw wedi cymryd organau, er bod y gyfraith yn datgan yn benodol fod yn rhaid iddo wneud hynny? Gallai rhywun sy'n aros am organ ddwyn achos yn ei erbyn. Dychmygwch hyn: rydych yn aros am yr aren, yr afu, yr ysgyfaint neu'r galon—rydych yn aros am drawsblaniad—ac rydych yn cael gwybod bod clinigydd mewn rhan arall o'r ysbyty wedi mynd yn uniongyrchol yn groes i gyfraith Cymru trwy beidio â bwrw ymlaen, er ei bod yn ofynnol iddo wneud hynny yn ôl y gyfraith, er gwaethaf tralod y teulu. Fodd bynnag, oherwydd bod y clinigydd hwnnw'n dilyn ei god proffesiynol, a'r cod a osodwyd gan NICE a phawb arall, mae wedi penderfynu, oherwydd tralod y teulu, na fydd yn cynnal y trawsblaniad. Mae'n ei roi mewn sefyllfa anodd iawn o ran ei amddiffyn ei hun yn erbyn unigolyn a allai fod wedi elwa o'r organ hwnnw. Gallai hyn greu sefyllfa anodd iawn i glinigwyr weithio ynddi. Mae'n un na fyddent yn ei chroesawu. Yn y sefyllfaoedd hyn, mae'n rhaid inni roi arweiniad ac mae'n rhaid inni gael cod ymarfer, ond, yn y pen draw, ni allwn ddeddfu mewn modd a fyddai'n gorfodi clinigydd, yn erbyn ei grebwyll proffesiynol, i gynnal gweithdrefn oherwydd ein bod ni yn yr ystafell hon wedi pleidleisio felly ac wedi cerdded oddi wrth y sefyllfa honno. Am y tri rheswm hyn, ni fyddaf yn cefnogi'r gwlliant.

20:15

Mark Drakeford [Bywgraffiad Biography](#)

We moved on in this group to talk about the situation where someone has opted in and has given their express consent to donation. It is important to understand that, where a person has given express consent during their lifetime, that consent is sufficient for the activity to be lawful and families are always encouraged to accept it. That is the case under the current law and it will be the same under our new legislation. Therefore, in law, if express consent has been given, it cannot be overridden. However, making an activity lawful is not the same as making it inevitable or compulsory.

Amendment 51 tries to take into account the possibility that new information of a late change of mind would be available. However, in law, if the consent is 'expressly or impliedly' withdrawn, as the amendment puts it, then there is no consent, and donation could not proceed, and there is no sense in which we can talk in that way of consent being overridden. The confusion here is that when these donations do not go ahead, despite express consent, it is not because the family is overriding the consent. The consent is there. What is happening is that clinicians are choosing not to act on it. As Kirsty Williams has very plainly pointed out, we should not be in the business of forcing clinicians to act on it.

Symudasom ymlaen yn y grŵp hwn i siarad am sefyllfa lle mae rhywun wedi optio i mewn ac wedi rhoi ei gydsyniad datganedig i roi ei organau. Mae'n bwysig deall, pan fo rhywun wedi rhoi cydsyniad datganedig yn ystod ei fywyd, fod y cydsyniad hwnnw'n ddigonol i'r gweithgaredd fod yn gyfreithlon ac anogir teuluoedd bob amser i dderbyn hynny. Mae hynny'n wir o dan y gyfraith ar hyn o bryd a bydd yr un fath o dan ein deddfwriaeth newydd. Felly, yn ôl y gyfraith, os rhoddwyd cydsyniad datganedig, ni ellir ei wrthwneud. Fodd bynnag, nid yw gwneud gweithgaredd yn gyfreithlon yn gyfystyr â'i wneud yn anochel neu'n orfodol.

Mae gwlliant 51 yn ceisio ystyried y posibilrwydd y gallai gwybodaeth newydd ynghylch newid meddwl hwyr fod ar gael. Fodd bynnag, yn ôl y gyfraith, os yw'r cydsyniad wedi ei dynnu'n ôl 'drwy ddatgan neu awgrymu hynny', fel y mae'r gwlliant yn ei ddweud, yna nid oes cydsyniad, ac ni ellir mynd ymlaen i roi organau, ac nid oes unrhyw ffordd y gallwn siarad felly am wrthwneud cydsyniad. Y dryswch yma yw, pan na fydd yr organau hynny'n cael eu rhoi, er gwaethaf cydsyniad datganedig, nad yw hynny oherwydd bod y teulu'n gwrthwneud y cydsyniad. Mae'r cydsyniad yno. Yr hyn sy'n digwydd yw bod clinigwyr yn dewis peidio â gweithredu ar hynny. Fel y mae Kirsty Williams wedi dweud yn glir iawn, ni ddylem fod yn gorfodi clinigwyr i weithredu ar hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Earlier in this debate, Members referred to the evidence given to the health committee by Phil Walton, a specialist nurse. I will recall part of the compelling evidence that he gave. He talked about a situation in which a family has been at a hospital for three days, waiting to see whether a loved one might be capable of being treated and returned to them. In those three days they have not eaten, washed, slept or been able to change their clothes. For three days, they have been in that intensely distressing situation. At the end of it, when it turns out that the person will not be returned to health, they are asked whether donation can go ahead. Even when they know that the person had expressed consent, there will be some families faced with that situation, and knowing now that hours will be added to their distress while donation goes ahead, and they will say 'We simply cannot face it. We simply cannot agree to it happening. The distress that we are under is so much that we cannot go ahead.' Our position is that clinicians have to be allowed to respond to that situation. No doubt, they will continue to try to see whether there is any way in which donation could happen, but if it cannot, we should not be in the position, as this amendment would make it, of obliging those clinicians to go ahead, whatever the level of family distress. That is why we cannot accept this amendment.

Yn gynharach yn y ddadl hon, cyfeiriodd yr Aelodau at y dystiolaeth a roddwyd i'r pwyllgor iechyd gan Phil Walton, nyrs arbenigol. Rwyf am ddwyn i gof ran o'r dystiolaeth gref a roddodd. Soniodd am sefyllfa lle mae teulu wedi bod yn yr ysbyty am dri diwrnod, yn aros i weld a oes modd i un o'u hanwyliaid gael ei drin a'i ddychwelyd atynt. Yn ystod y tri diwrnod hynny nid ydynt wedi bwyta, ymolchi na chysgu nac wedi gallu newid eu dillad. Am dri diwrnod, maent wedi bod yn y sefyllfa hynod drallodus honno. Ar y diwedd, pan ddaw'n amlwg na fydd y claf yn cael adferiad, gofynnir iddynt a ellir cymryd ei organau. Hyd yn oed pan fyddant yn gwybod bod yr unigolyn wedi datgan cydsyniad, bydd rhai teuluoedd sy'n wynebu'r sefyllfa honno, gan wybod yn awr y bydd oriau'n cael eu hychwanegu at eu trallod tra bydd yr organau'n cael eu rhoi, yn dweud 'Allwn ni ddim wynebu'r peth. Allwn ni ddim cytuno. Rydym mewn trallod enbyd ac ni allwn fynd yn ein blaenau'. Ein safbwynt ni yw bod yn rhaid i glinigwyr gael yr hawl i ymateb i'r sefyllfa honno. Byddant yn ddiau yn parhau i geisio gweld a oes unrhyw ffordd y gellir rhoi'r organau hynny, ond os na ellir, ni ddylem greu sefyllfa, fel y byddai'r gwelliant hwn yn ei wneud, lle bydd y clinigwyr hynny'n gorfod mynd yn eu blaenau, beth bynnag fo trallod y teulu. Dyna pam na allwn dderbyn y gwelliant hwn.

20:18

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There has been much talk this afternoon about the importance and primacy of the views of the individual who may be a potential donor. The Minister and Kirsty Williams have both waxed lyrical about the importance of following the views of the individual who has passed away, and yet, we are in this extraordinary position now where you are arguing against fulfilling the wishes of the individual who has passed away, by allowing somebody to make a decision not to proceed with the transplantation activity, if that may cause distress to the family member.

The fact is, when somebody has died, sometimes their death may result in a will that causes distress to family members, but it is the prerogative of the person who has died, is it not, to be able to put down in writing or through some other form of record keeping, their consent or otherwise, to a transplantation activity proceeding? Whether that causes distress or not, if it is the will of the individual that they are able to contribute their organs, if they are in a fit state to be contributed and transplantation activity arises, it is really important that we should follow the wishes of that individual wherever possible, no matter what distress might be caused to a family member.

Bu llawer o sôn y prynhawn yma am bwysigrwydd a blaenoriaeth barn yr unigolyn a all fod yn ddarpar roddwr. Mae'r Gweinidog a Kirsty Williams ill dau wedi siarad yn huawdl am bwysigrwydd parchu barn yr unigolyn sydd wedi marw, ac eto, rydym mewn sefyllfa hynod yn awr lle rydych yn dadlau yn erbyn parchu dymuniadau'r unigolyn sydd wedi marw, drwy ganiatáu i rywun wneud penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â'r gweithgaredd trawsblannu, os gallai hynny achosi trallod i aelod o'r teulu.

Y gwir amdani yw, pan fydd rhywun wedi marw, y gall ei farwolaeth weithiau arwain at ewyllys sy'n achosi trallod i aelodau'r teulu, ond mae gan y sawl a fu farw, onid oes, hawl i nodi'n ysgrifenedig neu drwy ryw fath arall o gofnod, ei gydsyniad neu fel arall, i weithgarwch trawsblannu fynd yn ei flaen? P'un a yw'n achosi trallod ai peidio, os yw'r unigolyn yn dymuno gallu cyfrannu ei organau, ac os yw'r organau hynny'n addas i'w cyfrannu a bod cyfle'n codi i'w trawsblannu, mae'n bwysig iawn parchu dymuniadau'r unigolyn, lle bynnag y bo modd, waeth pa drallod y gallai hynny ei achosi i aelod o'r teulu.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Kirsty has suggested that I am trying to distinguish between two forms of consent—she has regularly used the term ‘poor man’s consent’. However, the reality is that there are two systems of consent, which this system will introduce in Wales. We are treating them differently in terms of how nominated representatives make a decision and how people’s consent can be deemed. Therefore, we are already distinguishing between two different forms of consent. I am not arguing that one might be inferior to another; I am simply making the point that, where somebody has given express consent for their organs to be retrieved if a transplant activity is appropriate at the time of their death, their views should be paramount, and not the views of anybody else. That is why I would encourage Members still to support the amendments that are before us.

Mae Kirsty wedi awgrymu fy mod yn ceisio gwahaniaethu rhwng dau fath o gydsyniad—mae wedi defnyddio’r term ‘cydsyniad y dyn tlawd’ yn rheolaidd. Fodd bynnag, y gwir yw bod dwy system gydsyniad, y bydd y system hon yn eu cyflwyno yng Nghymru. Rydym yn eu trin yn wahanol o ran sut y mae cynrychiolwyr enwebedig yn gwneud penderfyniad a sut y gellir tybio cydsyniad pobl. Felly, rydym eisoes yn gwahaniaethu rhwng dau fath gwahanol o gydsyniad. Nid wyf yn dadlau y gallai un fod yn israddol i un arall; dweud yr wyf, lle mae rhywun wedi rhoi cydsyniad datganedig i adfer ei organau os bydd gweithgaredd trawsblannu’n briodol adeg ei farwolaeth, mai barn yr unigolyn hwnnw ddylai fod bwysicaf, ac nid barn rhywun arall. Dyna pam y byddwn yn annog yr Aelodau o hyd i gefnogi’r gwelliannau sydd ger ein bron.

20:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 51 be agreed to. Does any Member object? There are objections, so we will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 51. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 51.](#)

[Result of the vote on amendment 51.](#)

Gwrthodwyd gwelliant 51: O blaid 14, Ymatal 0, Yn erbyn 39.

Amendment 51 not agreed: For 14, Abstain 0, Against 39.

20:21 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to dispose of the next amendment on the marshalled list. I call on the Minister to move amendment 7.

Symudwn yn awr i waredu’r gwelliant nesaf ar y rhestr o welliannau wedi’u didoli. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 7.

20:21 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 7 in my name.

Cynigiai welliant 7 yn fy enw.

20:21 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 7 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 7 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 7. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 7 wedi’i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 7.

Amendment 7 agreed.

Methodd gwelliant 52.

Amendment 52 fell.

20:21 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister to move amendment 8.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 8.

20:21 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 8 in my name.

Cynigiai welliant 8 yn fy enw.

20:21 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 8 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 8 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 8. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 8 wedi’i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 8.

Amendment 8 agreed.

**Grŵp 9: Cydsynio: Oedolion a Eithrir
(Gwelliannau 53, 54, 55 a 68)**

**Group 9: Consent: Excepted Adults
(Amendments 53, 54, 55 and 68)**

20:21 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The lead amendment in this group is amendment 53. I call on Darren Millar, who is already on his feet, to move amendment 53 and to speak to that amendment and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 53. Galwaf ar Darren Millar, sydd eisoes ar ei draed, i gynnis gwelliant 53 ac i siarad am y gwelliant hwnnw a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

20:22 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I move amendment 53 in my name.

Cynigaf welliant 53 yn fy enw.

There was much debate in the Health and Social Care Committee as to the definition of 'ordinarily resident' for the purposes of this Bill. The Health and Social Care Committee acknowledged that the Bill should recognise that there will be residents in Wales who are not here voluntarily and that arrangements ought to be made to exclude them from the scope of the Bill. My amendments 53, 54 and 55 seek to do just this.

Cafwyd llawer o drafod yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ddiffiniad 'preswyllo fel arfer' at ddibenion y Bil hwn. Cydnabu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y dylai'r Bil gydnabod y bydd trigolion yng Nghymru nad ydynt yma o'u gwirfodd ac y dylid gwneud trefniadau i'w heithrio o gwmpas y Bil. Mae fy ngwelliannau 53, 54 a 55 yn ceisio gwneud hyn.

Clearly, it is unethical for someone's organs to be removed under a deemed consent system if that person is involuntarily resident in Wales. The committee was particularly concerned about prisoners, members of the armed forces and students during their deliberations and, as a result, I tabled amendments at Stage 2 to address these categories of people. Those amendments were rejected and the Minister raised objections at the inclusion of these on the face of the Bill, saying that this was difficult as it could overlook other categories of people resident in Wales, such as those who may be detained under the Mental Health Act 1983.

Yn amlwg, nid yw'n foesegol i organau rhywun gael eu tynnu o dan system cydsyniad tybiedig os yw'r person hwnnw'n preswyllo'n anwirfoddol yng Nghymru. Roedd y pwyllgor yn arbennig o bryderus am garcharorion, aelodau o'r lluoedd arfog a myfyrwyr yn ystod eu trafodaethau ac, o ganlyniad, cyflwynais welliannau yng Nghyfnod 2 i fynd i'r afael â'r categorïau hyn o bobl. Gwrthodwyd y gwelliannau hynny a mynegodd y Gweinidog wrthwynebiad i gynnwys y rhain ar wyneb y Bil, gan ddweud bod hyn yn anodd oherwydd y gallai anwybyddu categorïau eraill o bobl sy'n byw yng Nghymru, fel y rhai a allai gael eu cadw'n gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

My amendment 53 relates to prisoners and would exclude prisoners who were not previously resident in Wales from having their consent deemed. My amendment 54 deals with armed forces personnel, but it excludes personnel from having consent deemed, provided that they were not previously resident in Wales prior to their posting in Wales. Importantly, amendment 54 also goes further than just the individual service person themselves. In recognition of the fact that many people posted to Wales will bring their families with them and that they will voluntarily be moving with their loved ones into the country, my amendment seeks to extend the exclusion from the scope of the Bill under the new system to members of the household of the armed forces personnel's family, who may be resident in Wales simply by virtue of following their loved one. Neither of the amendments precludes prisoners, or armed forces personnel or their families from opting in to organ donation, as is currently the case.

Mae fy ngwelliant 53 yn ymwneud â charcharorion a byddai'n eithrio carcharorion nad oedd yn preswyllo cyn hynny yng Nghymru o'r drefn cydsyniad tybiedig. Mae fy ngwelliant 54 yn ymdrin â phersonél y lluoedd arfog, ond mae'n eithrio personél o gydsyniad tybiedig, ar yr amod nad oeddent yn preswyllo yng Nghymru cyn iddynt ddechrau gwasanaethu yng Nghymru. Yn bwysig, mae gwelliant 54 hefyd yn mynd ymhellach na dim ond y sawl sy'n gwasanaethu. Er mwyn cydnabod y ffaith y bydd llawer o bobl sy'n dod i wasanaethu yn Nghymru'n dod â'u teuluoedd gyda hwy ac y byddant o'u gwirfodd yn symud gyda'u hanwyliaid i'r wlad, mae fy ngwelliant yn ceisio estyn yr eithriad o gwmpas y Bil o dan y system newydd i aelodau o aelwydydd personél y lluoedd arfog, a allai fod yn byw yng Nghymru dim ond oherwydd iddynt ddilyn eu hanwyliaid. Nid yw'r un o'r gwelliannau hyn yn atal carcharorion, neu bersonél y lluoedd arfog na'u teuluoedd rhag optio i mewn i roi organau, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

In addition to the provisions for prisoners and the armed forces, I have also sought to address the issue raised by the Minister at Stage 2 regarding those detained under the Mental Health Act 1983. It would clearly be inappropriate for anyone detained in Wales under that Act to have their consent deemed if they were in Wales only due to their detention. My previous concerns about reaching students have been satisfied by the Minister's introduction of an improved promotion campaign, which we discussed earlier on this afternoon, and a change in the residency requirement from six months to 12 months that was made at Stage 2.

Very briefly, I will touch on the learning difficulties issue that Angela Burns introduced in amendment 68. I am pleased that Angela has raised this issue. I do not want someone with a recognised learning disability to be subjected to the deemed consent system. However, I am of the opinion that the matter has already been addressed by section 5 of the Bill, which refers to mental capacity. I am concerned that the extension of the provision in Angela's amendment to those who are otherwise vulnerable will be difficult to define, and may prevent perfectly sensible transplantation activities from proceeding. For these reasons, I will not be able, I am afraid, to support amendment 68.

20:25

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Turning first of all to the issue of 'ordinarily resident', during discussion at committee stage, a great deal of concern was expressed with regard to prisoners about the inappropriateness of deeming someone's consent if they found themselves in Wales against their wishes, whether that be as a result of imprisonment, a posting in the armed services or detention for treatment of a mental health disorder that happened to be in Wales. I know that the Minister had grave concerns about this. Indeed, when he took on his job, there was agreement that prisoners would be able to rest easy in their beds in the knowledge that the Minister had strong views in this area.

However, it is clear that case law clearly sets out what is 'ordinarily resident'. Therefore, I am reassured that prisoners and those detained for the treatment of mental health issues in a Welsh institution when they have previously not been here would not be covered by the Bill.

However, I have some concerns about armed service personnel. While I acknowledge that the individual posted to Wales would be covered by 'ordinarily resident', there are issues around bringing family with them. I seek clarification about whether the 'ordinarily resident' rule would cover family as well. If it does not, and I am concerned that it might not, I would have concerns and, therefore, great sympathy with Darren's amendment to explicitly exclude army personnel.

Yn ogystal â'r darpariaethau ar gyfer carcharorion a'r lluoedd arfog, rwyf hefyd wedi ceisio mynd i'r afael â'r mater a godwyd gan y Gweinidog yng Nghyfnod 2 ynghylch y rhai a gedwir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Byddai'n amlwg yn amhriodol ystyried bod unrhyw un a gedwir yng Nghymru o dan y Ddeddf honno wedi rhoi ei gydsyniad tybiedig os nad yw ond yng Nghymru oherwydd ei fod yn cael ei gadw o dan y Ddeddf. Mae fy mhryderon blaenorol am gyrraedd myfyrwyr wedi eu bodloni oherwydd i'r Gweinidog gyflwyno ymgrych hyrwyddo well, a drafodwyd gennym yn gynharach y prynhawn yma, a'r newid yn y gofyniad preswyllo o 6 mis i 12 mis a wnaed yng Nghyfnod 2.

Yn fyr iawn, rwyf am sôn am anawsterau dysgu, sef mater a gyflwynir gan Angela Burns yng ngwelliant 68. Rwyf yn falch bod Angela wedi codi'r mater hwn. Nid wyf am i rywun ag anabledd dysgu cydnabyddedig fod yn ddarostyngedig i'r system cydsyniad tybiedig. Fodd bynnag, rwyf o'r farn fod adran 5 y Bil eisoes yn ymdrin â hynny, lle cyfeirir at alluedd meddyliol. Rwyf yn bryderus y bydd estyn y ddarpariaeth yng ngwelliant Angela i'r rhai sydd fel arall yn agored i niwed yn anodd ei ddiffinio, ac y gallai hynny atal gweithgareddau trawsblannu cwbl synhwyrol rhag mynd yn eu blaenau. Am y rhesymau hyn, ni fyddaf, mae arnaf ofn, yn gallu cefnogi gwelliant 68.

A throi yn gyntaf at 'breswyllo fel arfer', yn ystod y drafodaeth yn y cam pwyllgor, lleisiwyd llawer iawn o bryder ynglŷn â charcharorion a'i bod yn amhriodol tybio cydsyniad rhywun os bydd yng Nghymru yn groes i'w ewyllys, boed hynny am ei fod yn y carchar, am ei fod yn gwasanaethu yn y lluoedd arfog neu'n cael ei gadw yng Nghymru er mwyn trin anhwylder iechyd meddwl. Gwn fod gan y Gweinidog bryderon difrifol ynglŷn â hyn. Yn wir, pan ddechreuodd yn ei swydd, cytunwyd y byddai carcharorion yn gallu gorffwys yn esmwyth yn eu gwelyau gan wybod bod gan y Gweinidog farn gref ar y mater hwn.

Fodd bynnag, mae'n amlwg bod cyfraith achosion yn nodi'n glir beth yw 'preswyllo fel arfer'. Felly, rwyf wedi fy sicrhau na fyddai carcharorion a'r rhai a gedwir er mwyn trin problemau iechyd meddwl mewn sefydliadau yng Nghymru ac nad oeddent yma cyn hynny yn rhan o gwmpas y Bil.

Fodd bynnag, mae gennyf rai pryderon am bersonél y lluoedd arfog. Er fy mod yn cydnabod y byddai 'preswyllo fel arfer' yn berthnasol i'r unigolyn a fyddai'n dod i wasanaethu yng Nghymru, mae materion yn ymwneud â dod â theulu gyda hwy. Gofynnaf am eglurhad ynghylch a fyddai'r rheol 'preswyllo fel arfer' yn cynnwys teuluoedd hefyd. Os nad yw, ac rwyf yn pryderu efallai nad yw, byddai gennyf bryderon ac, felly, gydymdeimlad mawr â gwelliant Darren i eithrio personél y fyddin yn benodol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The issue of learning disabilities is highly sensitive, and one would not wish a person with a learning disability to be put in a position in which they lacked capacity and had their consent deemed. However, a section in the Bill deals with capacity, which covers the circumstances in which consent is deemed, so my concerns are alleviated that that is satisfactory as currently drafted.

Mae anabledau dysgu'n fater hynod sensitif, ac ni fyddai neb yn dymuno i rywun ag anabled dysgu gael ei roi mewn sefyllfa lle na fyddai ganddo alluedd a lle byddai ei gydsyniad yn cael ei dybio. Fodd bynnag, mae adran yn y Bil yn ymdrin â galluedd, sy'n cynnwys yr amgylchiadau lle caiff cydsyniad ei dybio, felly mae hynny'n lliniaru fy mhryderon fod hynny'n foddhaol fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd.

20:28

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to speak to amendment 68 tabled in my name. This amendment seeks to add a further exception to consented excepted adults. The Bill in its current form deals with people who have died and, for a significant period before dying, lacked the capacity to understand the notion that consent to transplantation activities can be deemed to be given.

However, as a result of my work as an Assembly Member, I think that there are two further categories of people who need to be protected. The first are people with recognised learning difficulties who may have received a statement in childhood or during the transition period, and, as such, are known to social services. However, there will also be others whose learning disability has been recognised by a GP or another professional, but who have escaped an official diagnosis or intervention by the state. Either way, I believe that the best protection that we can afford them is to exclude them from deemed consent.

I know a number of adults with learning difficulties, and most of them try to live their lives independently. Some of them are very well-supported, and with the appropriate help, have the ability to explore this issue and be able to reach their own views and choose whether to opt in or out. However, I also know some adults who do not have that support network in place, who do not interface with the system on a regular basis, or who lack the capacity to engage in abstract concepts. These are the people I am seeking to take out of deemed consent.

The second category is people who are vulnerable. I can hear the collective thought of 'define vulnerable', but my understanding is that there is a notion of 'vulnerable' in law, and that any number of people might be in that category, or, more usually, slip in and out of it. We had a debate in this Chamber not long ago on that debilitating illness called 'depression'. We know that the high functioning depressive is someone who can not only behave as if all is well, but keep from their loved ones the true extent of their illness. There are all sorts of times when people hide their true mental state, particularly from those closest to them: people with eating disorders, people with post-natal depression, people who self-harm, people whose mental capacity is impaired for any number of reasons, but who are not registered—Minister, this is the critical point—as lacking capacity. I believe that this section of the Bill does not offer sufficient protection for such people and I would be very interested to hear your views.

Hoffwn siarad am welliant 68 a gyflwynwyd yn fy enw. Mae'r gwelliant hwn yn ceisio ychwanegu eithriad pellach i oedolion a eithrir o'r cydsyniad. Mae'r Bil yn ei ffurf bresennol yn ymdrin â phobl sydd wedi marw ac nad oedd ganddynt alluedd, am gyfnod sylweddol cyn marw, i ddeall y syniad y gellid tybio bod cydsyniad i weithgareddau trawsblannu wedi ei roi.

Fodd bynnag, yn sgil fy ngwaith fel Aelod Cynulliad, credaf fod dau gategori arall o bobl y mae angen eu diogelu. Y cyntaf yw pobl ag anawsterau dysgu cydnabyddedig a allai fod wedi cael datganiad yn ystod eu plentynod neu yn ystod y cyfnod pontio, ac y mae'r gwasanaethau cymdeithasol, felly, yn gwybod amdanynt. Fodd bynnag, bydd eraill hefyd y mae eu hanabledd dysgu wedi cael ei gydnabod gan feddyg teulu neu weithiwr proffesiynol arall, ond nad ydynt wedi cael diagnosis neu ymyriad swyddogol gan y wladwriaeth. Bid hynny fel y bo, credaf mai'r amddiffyniad gorau y gallwn ei roi iddynt yw eu heithrio rhag cydsyniad tybiedig.

Rwyf yn adnabod nifer o oedolion ag anawsterau dysgu, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ceisio byw eu bywydau'n annibynnol. Mae rhai ohonynt yn cael cefnogaeth dda iawn, a chydymorth priodol, gallant ystyried y mater hwn a llunio eu barn eu hunain a dewis p'un ai i optio i mewn neu allan. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn adnabod rhai oedolion nad oes ganddynt rwydwaith i'w cefnogi, nad ydynt yn dod i gysylltiad â'r system yn rheolaidd, neu nad oes ganddynt alluedd i ymdrin â chysyniadau haniaethol. Dyma'r bobl yr wyf yn ceisio eu cymryd allan o gydsyniad tybiedig.

Yr ail gategori yw pobl sy'n agored i niwed. Gallaf eich clywed yn meddwl 'diffiniwch agored i niwed', ond fy nealltwriaeth i yw bod cysyniad o beth yw 'agored i niwed' yn y gyfraith, ac y gallai unrhyw nifer o bobl fod yn y categori hwnnw, neu, yn fwy arferol, lithro i mewn ac allan ohono. Cawsom ddaol yn y Siambr hon dro yn ôl ar y salwch gwanychol hwnnw a elwir yn 'iselder'. Rydym yn gwybod bod yr unigolyn ag iselder sy'n gweithredu ar lefel uchel yn rhywun sydd nid yn unig yn ymddwyn fel pe bai popeth yn iawn, ond yn celu rhag ei anwyliad wir hyd a lled ei salwch. Mae pob math o adegau pan fydd pobl yn cuddio eu gwir gyflwr meddyliol, yn enwedig oddi wrth y rhai agosaf atynt: pobl ag anhwylderau bwyta, pobl sy'n dioddef o iselder ôl-enedigol, pobl sy'n hunan-niweidio, pobl y mae eu galluedd meddyliol wedi ei amharu am nifer o resymau, ond sydd heb eu cofrestru—Weinidog, dyma'r pwynt allweddol—fel pobl heb alluedd. Nid wyf yn credu bod yr adran hon o'r Bil yn cynnig digon o amddiffyniad i bobl o'r fath, a byddwn yn falch iawn o glywed eich barn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

20:30

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have added my name in support of Angela Burns's amendment 68. A number of my constituents have raised concerns with me about the need for vulnerable adults and those with learning difficulties to be protected under this Bill. We are not talking about whether or not they decide to give informed consent; it is about deemed consent. Angela Burns has spoken about how those individuals can be identified, either through a prior history of contact through the NHS, or with social services. Those people who have that vulnerability being genuinely informed in relation to deemed consent is, in my view, an area of real concern, and they deserve to be excluded from the system, because that protects their vulnerability and it protects the integrity of the register system as a whole. I would hope that the Minister would agree.

Rwyf wedi ychwanegu fy enw i gefnogi gwelliant 68 Angela Burns. Mae nifer o fy etholwyr wedi codi pryderon â mi ynghylch yr angen i oedolion sy'n agored i niwed a'r rhai ag anawsterau dysgu gael eu diogelu o dan y Bil hwn. Nid ydym yn sôn am p'un a ydynt yn penderfynu rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth ai peidio; mae'n ymwneud â chydsyniad tybiedig. Mae Angela Burns wedi sôn am sut y gellir adnabod yr unigolion hynny, naill ai drwy hanes blaenorol o gyswllt drwy'r GIG, neu drwy'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae p'un a yw'r bobl hynny sy'n agored i niwed yn cael gwybodaeth wirioneddol ynglŷn â chydsyniad tybiedig, yn fy marn i, yn faes sy'n peri pryder gwirioneddol, ac maent yn haeddu cael eu heithrio o'r system, gan fod hynny'n diogelu eu natur agored i niwed ac yn diogelu uniondeb y system gofrestru yn ei chyfanrwydd. Rwyf yn gobeithio y byddai'r Gweinidog yn cytuno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

20:31

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There is a difference of principle between the way that the Government regards the issues covered by this grouping and the amendments that have been brought forward. Our view is that the best and considered approach is to keep the concept of 'ordinarily resident' on the face of the Bill, and for the code of practice to detail potential scenarios.

The basic definition of 'ordinarily resident' is the one set out by Lord Scarman in his well-known judgment on that matter, where he made it clear that, in order to be considered ordinarily resident, someone must have adopted their abode voluntarily. Once you apply that test, you can see that prisoners are not covered by deemed consent, armed forces personnel who have been directed to serve in Wales are not covered by deemed consent, and people who are here compulsorily for mental health purposes would not be covered by deemed consent. We could go on making amendment after amendment, trying to find more groups that we could identify. There is no need. The basic principle applies to them all and the Government prefers to rely on the principle.

Mae gwahaniaeth o ran egwyddor rhwng y ffordd y mae'r Llywodraeth yn ystyried y materion a drafodir yn y grŵp hwn a'r gwelliannau sydd wedi eu dwyn ymlaen. Ein barn ni yw mai'r dull gorau a'r mwyaf pwylllog yw sicrhau bod cysyniad 'preswyllo fel arfer' ar wyneb y Bil, ac i'r cod ymarfer fanylu ar sefyllfaoedd posibl.

Y diffiniad sylfaenol o 'preswyllo fel arfer' yw'r un a nodir gan yr Arglwydd Scarman yn ei ddyfarniad adnabyddus ar y mater hwnnw, lle dywedodd yn glir fod yn rhaid i rywun, er mwyn cael ei ystyried yn rhywun sy'n preswyllo fel arfer, fod wedi dewis ei gartref o'i wirfodd. Unwaith y byddwch yn cymhwyso'r prawf hwnnw, gallwch weld nad yw carcharorion yn rhan o gwmpas cydsyniad tybiedig, nad yw personél y lluoedd arfog sydd wedi dod i wasanaethu yng Nghymru'n rhan o gwmpas cydsyniad tybiedig, ac na fyddai pobl sydd yma drwy orfodaeth at ddibenion iechyd meddwl yn rhan o gwmpas cydsyniad tybiedig. Gallem barhau i wneud gwelliant ar ôl gwelliant, yn ceisio dod o hyd i fwy o grwpiau y gallem eu nodi. Nid oes angen gwneud hynny. Mae'r egwyddor sylfaenol yn berthnasol i bob un ohonynt ac mae'n well gan y Llywodraeth ddibynnu ar yr egwyddor.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Kirsty Williams raised specifically the issue of the families of armed forces personnel. The Government has been in contact with the armed forces to explore this issue with them. They tell us that they are glad that we are able to confirm that armed forces personnel themselves who are directed to serve in Wales will not be covered by the deemed consent regime, but they understand that we cannot extend that to families, who, in the armed services' view, choose to accompany people who are sent here on their army service. Instead, what they have proposed, and what we will agree to very readily, is that we will provide armed services with all the information that is needed for someone to understand the regime in Wales. Remember, any family will have had to have been here for a minimum of 12 months before they are brought within the deemed consent regime in any event, and they will have been here during a period of information and education. However, over and above that, through the armed forces themselves, we will be able to make sure that family members are provided with a specific set of information that explains to them the position that they will find themselves in in Wales. In that sense, they are no different from many other families, where someone takes up a job in Wales and the family chooses to accompany them.

I turn now to Angela Burns's amendment 68, which proposes to place people with learning difficulties, very specifically, but also a very wide and undefined category of the 'otherwise vulnerable', within the category of excepted adult. I think that we simply have a difference of approach here. People with learning difficulties have a very wide range of capabilities and understanding. Our starting point is that of the Mental Capacity Act 2005, which says that people must be assumed to have capacity unless it is established that they lack capacity, and that a person is not to be treated as unable to make a decision unless all practicable steps have been taken to help them to do so without success. In addition, the Mental Capacity Act 2005 code of practice states:

'An assessment of a person's capacity must be based on their ability to make a specific decision at the time it needs to be made, and not their ability to make decisions in general.'

In this Chamber, for many years, we have made it a point of principle that we treat people with learning disabilities against a social rather than a medical model. We consider what people are capable of rather than how their condition is labelled. That is the advice that we had, for example, from the British Medical Association when it responded to the original White Paper and said:

'The BMA does not believe, however, that blanket exceptions or automatic exclusion of some groups—

such as people with learning disabilities—

'are appropriate but rather that steps—

I will give way to Bethan.

Soniodd Kirsty Williams yn benodol am deuluoedd personél y lluoedd arfog. Mae'r Llywodraeth wedi bod mewn cysylltiad â'r lluoedd arfog i drafod y mater hwn â hwy. Maent yn dweud wrthym eu bod yn falch ein bod yn gallu cadarnhau na fydd personél y lluoedd arfog eu hunain sy'n cael cyfarwyddyd i wasanaethu yng Nghymru'n rhan o gwmpas y drefn cydsyniad tybiedig, ond eu bod yn deall na allwn estyn hynny i deuluoedd, sydd, ym marn y lluoedd arfog, yn dewis mynd gyda phobl sy'n cael eu hanfon yma i wasanaethu yn y fyddin. Yn hytrach, yr hyn y maent wedi ei gynnig, a'r hyn y byddwn yn barod iawn i gytuno ag ef, yw y byddwn yn rhoi i'r gwasanaethau arfog yr holl wybodaeth sydd ei hangen i rywun ddeall y drefn yng Nghymru. Cofiwch, bydd yn rhaid i deuluoedd fod wedi bod yma am o leiaf 12 mis cyn cael eu dwyn i mewn i'r drefn cydsyniad tybiedig beth bynnag, a byddant wedi bod yma yn ystod cyfnod o wybodaeth ac addysg. Fodd bynnag, yn fwy na hynny, drwy'r lluoedd arfog eu hunain, byddwn yn gallu gwneud yn siŵr bod aelodau o'r teulu'n cael set benodol o wybodaeth sy'n esbonio iddynt eu sefyllfa yng Nghymru. Yn hynny o beth, nid ydynt yn wahanol i lawer o deuluoedd eraill, lle mae rhywun yn derbyn swydd yng Nghymru ac mae'r teulu'n dewis mynd gyda hwy.

Trof yn awr at welliant 68 Angela Burns, sy'n cynnig gosod pobl ag anawsterau dysgu, yn benodol iawn, ond hefyd categori eang ac amhenodol iawn 'fel arall yn hyglwyf', yng nghategori'r oedolion eithriedig. Credaf fod ymagwedd y naill a'r llall ohonom at hyn yn wahanol. Mae gan bobl ag anawsterau dysgu ystod eang iawn o alluedd a dealltwriaeth. Ein man cychwyn yw Deddf Galluedd Meddyliol 2005, sy'n dweud bod yn rhaid ystyried bod gan bobl alluedd oni phennir nad oes ganddynt alluedd, ac na ddylid trin rhywun fel pe na bai'n gallu gwneud penderfyniad oni chymerwyd pob cam ymarferol i'w helpu i wneud hynny, ond heb lwyddiant. Yn ogystal, mae cod ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn datgan:

Rhaid i asesiad o alluedd rhywun fod yn seiliedig ar ei allu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei wneud, ac nid ar ei allu i wneud penderfyniadau'n gyffredinol.

Yn y Siambr hon, am nifer o flynyddoedd, rydym wedi gwneud pwynt o egwyddor o drin pobl ag anableddau dysgu'n unol â model cymdeithasol yn hytrach na model meddygol. Rydym yn ystyried yr hyn y mae pobl yn gallu ei wneud yn hytrach na pa label a roddir i'w cyflwr. Dyna'r cyngor yr ydym wedi'i gael, er enghraifft gan y Gymdeithas Feddygol Brydeinig pan ymatebodd i'r Papur Gwyn gwreiddiol a dweud:

Nid yw'r BMA yn credu, fodd bynnag, bod eithriadau cyffredinol neu eithrio rhai grwpiau'n awtomatig—

megis pobl ag anableddau dysgu—

yn briodol ond yn hytrach bod camau—

Ildiaf i Bethan.

- 20:36 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think the same should be said for people with eating disorders and depression. It is quite difficult to sit here and listen to that. People are obviously capable of making decisions. Just because people have a mental disorder, it does not make them unable to make decisions. I think that that perpetuates the stigma associated with those illnesses.
- Rwyf yn credu y dylid dweud yr un peth am bobl ag anhwylderau bwyta ac iselder. Mae'n anodd eistedd yma a gwranddo ar hyn. Mae pobl yn amlwg yn gallu gwneud penderfyniadau. Nid yw'r ffaith fod anhwylder meddyliol ar rywun yn golygu na all wneud penderfyniadau. Credaf fod hynny'n parhau'r stigma sy'n gysylltiedig â'r anhwylderau hynny.
- 20:36 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- While I completely accept that it is not at all the purpose of Angela Burns's amendment to stigmatise people or to draw them into a net that we would not want them to be in, there would be a very real danger that people in the situation described by Bethan Jenkins would be captured by the 'otherwise vulnerable' category set out in the amendment. For those reasons, we are unable to support it this afternoon.
- Er fy mod yn derbyn yn llwyr nad diben gwelliant Angela Burns o gwbl yw stigmatiddio pobl neu eu tynnu i mewn i rwyd na fyddem am iddynt fod ynnddi, byddai perygl gwirioneddol y byddai pobl yn y sefyllfa a ddisgrifir gan Bethan Jenkins yn cael eu rhoi yn y categori 'fel arall yn hyglwyf' a nodir yn y gwelliant. Am y rhesymau hynny, ni allwn ei gefnogi y prynhawn yma.
- 20:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call Darren Millar to reply to the debate.
- Galwaf ar Darren Millar i ymateb i'r ddatl.
- 20:36 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Presiding Officer. I will respond to the points made by Kirsty Williams about prisoners. At present, as it stands, the ordinarily resident test will apply to all prisoners in Welsh prisons and will prevent them from having their consent deemed. However, there may well be prisoners in Welsh prisons who were previously resident in Wales prior to their imprisonment. The purpose of my amendment would not be to prevent transplantation activity from taking place and those prisoners in those circumstances from having their consent deemed. That is where the Minister has failed to address this issue, which was brought to the table at Stage 2, by not redefining the ordinarily resident test when it comes to people who are in Welsh prisons. Exactly the same argument presents itself in relation to mental health detentions. If someone was previously resident in Wales prior to their detention under the Mental Health Act 2007 and were quite happy having their consent deemed, they will not be in a situation where they can have their consent deemed if they suddenly go into a mental health institution as a result of a mental health detention, because the ordinarily resident test would not apply to them in that situation.
We have talked a lot tonight about all of the things that we know—all of the committee reports that we have read, the evidence sessions that we have heard and all the bits and pieces with which people have approached us, particularly the lobbying groups, asking us one way or the other, to partake in this. However, members of the general public do not know all of that; all that they will know tonight, is that we are either going to pass or not pass a Bill, which is why it is so important that, when they get their advice, it is completely impartial and accessible, and in a language that they understand, so that they can make that decision. They will not have had the luxury of sitting here for five hours, or however long it is, nor have they had the luxury of listening to Stage 2 debates and all of the other things that have informed our decision-making processes. We owe it to them to ensure that they have as much information as necessary, which they can understand, to make their decisions.

Rydym wedi sôn llawer heno am yr holl bethau a wyddwn—yr holl adroddiadau pwyllgor yr ydym wedi'u darllen, y sesiynau tystiolaeth yr ydym wedi'u clywed a'r holl ddarnau o wybodaeth y mae pobl wedi eu cyflwyno inni, yn enwedig y grwpiau lobio, yn gofyn inni gymryd rhan yn hyn mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Fodd bynnag, nid yw aelodau o'r cyhoedd yn gwybod hynny i gyd; yr oll y byddant yn ei wybod heno, yw ein bod ni naill ai'n mynd i basio neu beidio â phasio Bil. Dyna pam y mae mor bwysig bod y cyngor, pan fyddant yn ei gael, yn hollol ddiduedd a hygyrch, ac mewn iaith y maent yn ei ddeall, fel y gallant wneud y penderfyniad hwnnw. Ni fyddant wedi cael y fraint o eistedd yma am bum awr, neu ba mor hir bynnag fydd hi, ac ni fyddant wedi cael y fraint o wrando ar ddadleuon Cyfnod 2 a'r holl bethau eraill sydd wedi llywio ein prosesau o wneud penderfyniadau. Er eu mwyn nhw, dylem sicrhau eu bod yn cael cymaint o wybodaeth ddealladwy ag y mae ei hangen arnynt, er mwyn gwneud eu penderfyniadau.

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is quite clear, as Kirsty Williams said, that the standard of medical treatment certainly should not be affected by an individual's decision to consent or not, one way or the other. Therefore, one would hope that we would not need to make this point. However, I support Antoinette's amendment, mainly because I, like other Members, have been approached by constituents who have this fear, and I think that it is easier, rather than brush that fear under the carpet, to get it out there and put something in the Bill—and at least discuss it—that will allay concerns.

I know that I have harked back to the Spanish experience a few times today, and I am one of the few Members who can remember that. I will be very brief. One of the consequences, over time, of the change to the law and of the changes to the infrastructure that followed was that there was an increase in the organs available in hospitals. I am not talking about people who were dying in their homes or on the roads, but people who died in hospitals. The way that they dealt with that was to have transplant teams and infrastructure, which inevitably followed, in those hospitals that dealt with the patients. They had prior information of who was willing to consent and who was not. That will be an inevitable pressure over time. If the Bill is passed tonight and the Welsh Government is successful five years down the line in increasing the number of organs available in Wales, those pressures will be there. Therefore, I think that we need a solid guarantee that patients will be treated equally, whatever their decision was, particularly when it comes to the experience in hospitals. I can see Kirsty Williams wincing at this, but there will hopefully be more organs available, and these issues will arise. Support the amendment.

Mae'n gwbl glir, fel y dywedodd Kirsty Williams, na ddylai penderfyniad unigolyn i gydsynio ai peidio, y naill ffordd na'r llall, effeithio ar safon y driniaeth feddygol. Felly, byddai rhywun yn gobeithio na fyddai angen inni wneud y pwynt hwn. Fodd bynnag, rwyf yn cefnogi gwelliant Antoinette, yn bennaf oherwydd bod etholwyr wedi cysylltu â minnau, fel Aelodau eraill, yn mynegi'r ofn hwn, ac rwyf yn credu ei bod yn haws rhoi sylw i'r peth, yn hytrach na'i sgubo o dan y carped, a rhoi rhywbeth yn y Bil—a thrafod y mater o leiaf—bydd hynny'n lleddfu pryderon.

Rwyf yn gwybod fy mod wedi sôn am y profiad yn Sbaen ychydig o weithiau heddiw, ac rwyf i'n un o'r ychydig Aelodau a all gofio hynny. Byddaf yn gryno iawn. Un o ganlyniadau'r newid yn y gyfraith, dros amser, a'r newidiadau i'r isadeiledd a ddilynodd oedd bod mwy o organau ar gael mewn ysbytai. Nid wyf yn sôn am bobl a oedd yn marw yn eu cartrefi neu ar y ffyrdd, ond pobl a fu farw mewn ysbytai. Y ffordd y gwnaethant ymdrin â hynny oedd cael timau a seilwaith trawsblannu, a ddilynodd yn anochel, yn yr ysbytai hynny a oedd yn delio â'r cleifion. Roedd ganddynt wybodaeth ymlaen llaw ynglŷn â phwy a oedd yn barod i gydsynio a phwy nad oeddent. Bydd hynny'n bwysau anochel dros amser. Os caiff y Bil ei basio heno a bod Llywodraeth Cymru yn llwyddo bum mlynedd yn ddiweddarach i gynyddu nifer yr organau sydd ar gael yng Nghymru, bydd y pwysau hynny'n bodoli. Felly, credaf fod arnom angen gwarant gadarn y bydd cleifion yn cael eu trin yn gyfartal, beth bynnag yw eu penderfyniad, yn enwedig o ran y profiad mewn ysbytai. Gallaf weld Kirsty Williams yn gwingo wrth glywed hyn, ond bydd mwy o organau ar gael, gobeithio, a bydd y materion hyn yn codi. Rwyf yn cefnogi'r gwelliant.

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I must ask Members to resist both of these amendments. Although I am sure it was not intended, there is a sense in which Antoinette Sandbach's amendment casts a shadow over the integrity of medical practitioners in Wales, because it implies that patients will be seen in future as potential organ donors rather than patients to be cared for. That is absolutely and emphatically not the position. Clinicians will always look to the best interests of a dying patient. As Kirsty Williams explained, there is a separation in place so that those clinicians that take forward transplantation are not involved at all in the care of the patient before death. Nick Ramsay says that there is a fear, and I do not wish to feed that fear but I think that that is what this amendment would do.

Rhaid imi ofyn i Aelodau wrthod y ddau welliant hyn. Er fy mod yn siŵr nad dyna'r bwriad, mae gwelliant Antoinette Sandbach mewn rhyw ffordd yn taflu cysgod dros uniondeb ymarferwyr meddygol yng Nghymru, oherwydd ei fod yn awgrymu y bydd cleifion yn cael eu gweld yn y dyfodol fel rhoddwyr organau posibl yn hytrach na chleifion i dderbyn gofal. Yn bendant nid dyna'r sefyllfa o gwbl. Bydd clinigwyr bob amser yn ystyried buddiannau pennaf claf sy'n marw. Fel yr eglurodd Kirsty Williams, mae dyletswyddau'n cael eu gwahanu fel nad yw'r clinigwyr hynny sy'n ymdrin â'r trawsblannu yn cymryd rhan o gwbl yng ngofal y claf cyn iddo farw. Mae Nick Ramsay yn dweud bod ar bobl ofn, ac nid wyf yn dymuno bwydo'r ofn hwnnw, ond rwyf yn meddwl mai dyna fyddai'r gwelliant hwn yn ei wneud.

As regards amendment 74 from Angela Burns, I understand that the intention is to ensure that vulnerable people have access to impartial advice. It would be concerning to me if we believed that the advice given might not be impartial. All communications will be founded on facilitating people to clarify their wishes, or to understand that consent may be deemed if a refusal to consent is not recorded. All day long, I have been asked in interviews whether the Bill will have failed if it leads to lots more people putting themselves on the register as not wanting to be donors. I have replied that, for me, the really important part of the Bill is that it allows people to reach their own decisions. What families say to us is that the worst thing that can happen in those astonishingly difficult circumstances is to not know what the potential donor would have wanted. If they know that the person did not want to be a donor, then I think that that is a success of the debate that we have had in Wales, in allowing people to clarify their own thoughts and to come to their own conclusions. We provide information now that allows people to do just that. Our communications strategy is based on giving people the facts and allowing them to make a decision. That approach will continue. That information includes facts about the positive impacts that the choice to donate can have on those awaiting transplantation, because many people are unaware of how much good can come from organ donation. I make no apologies for that. Our information will be clear and impartial. While I am sure that amendment 74 is motivated by the best of desires, it is unnecessary and we will resist it.

O ran gwelliant 74 gan Angela Burns, rwyf yn deall mai'r bwriad yw sicrhau bod cyngor diduedd ar gael i bobl sy'n agored i niwed. Byddai'n destun pryder imi pe byddem yn credu na fyddai'r cyngor a roddir, o bosibl, yn ddiuedd. Bydd pob cyswllt yn cael ei seilio ar ei gwneud yn haws i bobl egluro eu dymuniadau, neu i ddeall y gellid tybio cydsyniad os na chofnodir bod cydsyniad yn cael ei wrthod. Trwy'r dydd gwyn, mae pobl wedi bod yn gofyn imi mewn cyfweiliadau a fydd y Bil wedi methu os yw'n achosi i lawer mwy o bobl eu rhoi eu hunain ar y gofrestr er mwyn nodi nad ydynt eisiau rhoi organau. Rwyf wedi ateb mai rhan wirioneddol bwysig y Bil i mi, yw ei fod yn galluogi pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Yr hyn y mae teuluoedd yn ei ddweud wrthym yw mai'r peth gwaethaf a all ddiwydd yn yr amgylchiadau rhyfeddol o anodd hynny yw peidio â gwybod beth fyddai'r rhoddwr posibl ei eisiau. Os ydynt yn gwybod nad oedd y person eisiau rhoi organau, yna credaf fod hynny'n llwyddiant i'r ddaol yr ydym wedi'i chael yng Nghymru, sef galluogi pobl i roi trefn ar eu meddyliau eu hunain a dod i'w casgliadau eu hunain. Rydym yn darparu gwybodaeth bellach sy'n caniatáu i bobl wneud yr union beth hwnnw. Mae ein strategaeth gyfathrebu yn seiliedig ar roi'r ffeithiau i bobl a chaniatáu iddynt wneud penderfyniad. Bydd y dull hwnnw'n parhau. Mae'r wybodaeth honno'n cynnwys ffeithiau am yr effeithiau cadarnhaol y gall y dewis i roi organau eu cael i'r rhai sy'n aros am drawsblaniad, gan nad yw llawer o bobl yn ymwybodol o'r daioni a all ddod o roi organau. Nid wyf yn ymddiheuro am hynny. Bydd ein gwybodaeth yn glir a diduedd. Er fy mod yn siŵr yr ysgogir gwelliant 74 gan y dyheadau gorau, mae'n ddiangen a byddwn yn ei wrthwynebu.

21:29 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, my amendment was tabled to provide guidance and you have given that guidance. I am sure that that guidance could equally say that you adopt the BMA's medical ethics—it could be as much as that. To my mind, the amendment was tabled in order to provide protection on the face of the Bill. In relation to Angela Burns's amendment, it is about information provided by health bodies—it is these bodies that need to provide information that is impartial and accessible to all, not the Welsh Government. I think that it is important that it is impartial and accessible, because if it is not impartial and it is not accessible, it does not comply with the first principles that were discussed in amendment 1, about people being aware of and able to understand their rights in order to be able to exercise them.

Weinidog, cyflwynwyd fy ngwelliant i roi arweiniad ac rydych wedi rhoi'r arweiniad hwnnw. Rwyf yn siŵr y gallai'r arweiniad hwnnw ddweud lawn cystal eich bod yn mabwysiadu moeseg feddygol Cymdeithas Feddygol Prydain—gallai fod cymaint â hynny. Yn fy marn i, cyflwynwyd y gwelliant er mwyn darparu amddiffyniad ar wyneb y Bil. O ran gwelliant Angela Burns, mae'n ymwneud â gwybodaeth a ddarperir gan gyrff iechyd—y cyrff hyn, nid Llywodraeth Cymru, sydd ag angen darparu gwybodaeth diduedd a hygyrch i bawb. Credaf ei bod yn bwysig iddi fod yn ddiuedd ac yn hygyrch, oherwydd nad yw'n cydymffurfio â'r egwyddorion cyntaf a drafodwyd yng ngwelliant 1 os nad yw'n ddiuedd ac yn hygyrch, sef y dylai pobl fod yn ymwybodol o'u hawliau a gallu eu deall er mwyn gallu eu harfer.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

21:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 65 be agreed to. Does any Member object? There is objection. We will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddyli'd derbyn gwelliant 65. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad. Byddwn yn symud i bleidlais electronig.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 65.](#)

[Result of the vote on amendment 65.](#)

Gwrthodwyd gwelliant 65: O blaid 8, Yn erbyn 45, Ymatal 1.

Amendment 65 not agreed: For 8, Against 45, Abstain 1.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

21:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have debated all the groups, and we will now dispose of the remaining amendments. I call on Angela Burns to move amendment 74.

Rydym wedi trafod yr holl grwpiau, a byddwn yn awr yn gwaredu gweddill y gwelliannau. Galwaf ar Angela Burns i ynnig gwelliant 74.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

21:30	Angela Burns Bywgraffiad Biography	I move amendment 74 in my name and with the name of Antoinette Sandbach in support.	Cynigiau welliant 74 yn fy enw i a chydag enw Antoinette Sandbach yn ei gefnogi.	Senedd.tv Fideo Video
21:30	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	The question is that amendment 74 be agreed to. Does any Member object? There is objection. We will move to an electronic vote.	Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 74. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad. Byddwn yn symud i bleidlais electronig.	Senedd.tv Fideo Video
		Canlyniad y bleidlais ar welliant 74.	Result of the vote on amendment 74.	
		<i>Gwrthodwyd gwelliant 74: O blaid 12, Yn erbyn 42, Ymatal 0.</i>	<i>Amendment 74 not agreed: For 12, Against 42, Abstain 0.</i>	
21:31	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	I call on the Minister to move amendment 34.	Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 34.	Senedd.tv Fideo Video
21:31	Mark Drakeford Bywgraffiad Biography	I move amendment 34 in my name.	Cynigiau welliant 34 yn fy enw i.	Senedd.tv Fideo Video
21:31	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	The question is that amendment 34 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 34 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.	Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 34. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly derbynnir gwelliant 34 yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.	Senedd.tv Fideo Video
		<i>Derbyniwyd gwelliant 34.</i>	<i>Amendment 34 agreed.</i>	
21:31	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	I call on Darren Millar to move amendment 63.	Galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliant 63.	Senedd.tv Fideo Video
21:31	Darren Millar Bywgraffiad Biography	I move amendment 63 in my name.	Cynigiau welliant 63 yn fy enw i.	Senedd.tv Fideo Video
21:31	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	The question is that amendment 63 be agreed to. Does any Member object? There is objection. We will move to an electronic vote.	Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 63. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad. Byddwn yn symud i bleidlais electronig.	Senedd.tv Fideo Video
		Canlyniad y bleidlais ar welliant 63.	Result of the vote on amendment 63.	
		<i>Gwrthodwyd gwelliant 63: O blaid 14, Yn erbyn 40, Ymatal 0.</i>	<i>Amendment 63 not agreed: For 14, Against 40, Abstain 0.</i>	
21:31	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	I call on the Minister to move amendment 35.	Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 35.	Senedd.tv Fideo Video
21:31	Mark Drakeford Bywgraffiad Biography	I move amendment 35 in my name.	Cynigiau welliant 35 yn fy enw i.	Senedd.tv Fideo Video

21:31	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 35 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 35 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 35.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 35. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly derbynnir gwelliant 35 yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.</p> <p><i>Amendment 35 agreed.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
21:31	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call on the Minister to move amendment 36.</p>	<p>Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 36.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
21:31	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p>I move amendment 36 in my name.</p>	<p>Cynigiaf welliant 36 yn fy enw i.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
21:32	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 36 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 36 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 36.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 36. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly derbynnir gwelliant 36 yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.</p> <p><i>Amendment 36 agreed.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
21:32	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call on the Minister to move amendment 37.</p>	<p>Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 37.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
21:32	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p>I move amendment 37 in my name.</p>	<p>Cynigiaf welliant 37 yn fy enw i.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
21:32	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 37 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 37 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 37.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 37. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly derbynnir gwelliant 37 yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.</p> <p><i>Amendment 37 agreed.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
21:32	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call on the Minister to move amendment 38.</p>	<p>Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 38.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
21:32	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p>I move amendment 38 in my name.</p>	<p>Cynigiaf welliant 38 yn fy enw i.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
21:32	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 38 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 38 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 38.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 38. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly derbynnir gwelliant 38 yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.</p> <p><i>Amendment 38 agreed.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
21:32	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call on the Minister to move amendment 39.</p>	<p>Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 39.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

21:32	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p>I move amendment 39 in my name.</p>	<p>Cynigaf welliant 39 yn fy enw i.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
21:32	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 39 be agreed to. Does any Member object? There is objection. We will move to an electronic vote.</p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 39.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 39: O blaid 46, Yn erbyn 8, Ymatal 0.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 39. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad. Byddwn yn symud i bleidlais electronig.</p> <p>Result of the vote on amendment 39.</p> <p><i>Amendment 39 agreed: For 46, Against 8, Abstain 0.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
21:33	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call on Darren Millar to move amendment 64.</p>	<p>Galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliant 64.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
21:33	<p>Darren Millar Bywgraffiad Biography</p> <p>I move amendment 64 in my name.</p>	<p>Cynigaf welliant 64 yn fy enw i.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
21:33	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 64 be agreed to. Does any Member object? There is objection. We will move to an electronic vote.</p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 64.</p> <p><i>Gwrthodwyd gwelliant 64: O blaid 13, Yn erbyn 41, Ymatal 0.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 64. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad. Byddwn yn symud i bleidlais electronig.</p> <p>Result of the vote on amendment 64.</p> <p><i>Amendment 64 not agreed: For 13, Against 41, Abstain 0.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
21:33	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>We have now reached the end of Stage 3 consideration of the Human Transplantation (Wales) Bill, and I declare that all sections of and Schedules to the Bill are deemed agreed. That concludes Stage 3 proceedings.</p>	<p>Rydym bellach wedi dod i ddiwedd ystyriaeth Cyfnod 3 y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru), ac rwyf yn datgan y bernir bod pob adran ac Atodlen i'r Bil wedi cael eu derbyn. Dyna ddiwedd trafodion Cyfnod 3.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
21:33	<p>Cynnig Cyfnod 4 i Gymeradwyo Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) o dan Reol Sefydlog Rhif 26.47</p> <p>Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>We will now revert to the standard practice of a maximum of five minutes per speaker.</p> <p>Cynnig</p> <p>Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 26.47, yn cymeradwyo'r Bil Trawsblannu Dynol (Cymru).</p>	<p>Stage 4 Standing Order No. 26.47 Y Motion to Approve the Human Transplantation (Wales) Bill</p> <p>Byddwn yn awr yn mynd yn ôl i'r arfer safonol, sef uchafswm o bum munud i bob siaradwr.</p> <p>Motion</p> <p>The National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 26.47, approves the Human Transplantation (Wales) Bill.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
21:33	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services</i></p> <p>I move the motion.</p>	<p>Cynigaf y cynnig.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

This gives me great pleasure, in a debate that completes the journey that began not with this Bill but with a much longer and proud history of innovation in Wales as far as organ donation is concerned. Donor cards were first introduced in Wales, and, long before the Assembly came into being, organisations such as Kidney Wales, the British Heart Foundation and the British Medical Association have led the way. I want to thank them today for their continued support throughout this process.

In the devolution era, the story did not begin with the Bill either. I want to pay tribute to my predecessors in this post, Edwina Hart and Lesley Griffiths, for the leadership of the debate that they showed and for the public consultations that they conducted. That is what has prepared the ground for today's proceedings. I want to thank as well my team of officials—an excellent team that has carried this through to this point.

Wales is a progressive nation, and this is a progressive policy for that progressive nation. That is why this is an historic day for Wales.

If you would allow me just a small indulgence, Llywydd, and allow me to say in an entirely personal way, I also believe that this Bill has demonstrated the huge strengths of the Assembly. There are many of us still here who remember the dire predictions of the opponents of devolution back in 1997, regarding how the whole world would fall apart if policies that applied in Wales were to be decided in Wales by people who had been elected in Wales. This Bill is the latest example of how wrong those Jeremiahs proved to be, but it does so specifically in the new legislative powers context, which were acquired only two years ago.

I therefore wish to pay tribute to the work of all parties on the Health and Social Care Committee. Darren Millar and William Graham were clear from the outset that they had objections to the principle of deemed consent, yet I believe that their work in the committee was always constructive, and always looked to try to improve the Bill, even from that position of basic non-agreement.

The Bill as it is today bears the hallmarks of amendments that were put forward by Kirsty Williams and by Elin Jones. Those have gone a long way to shaping the Bill, as did the contribution of those Labour Members who were critical friends of the legislation—friends of it, of course, but friends who were never afraid to ask difficult questions, and to expose issues that needed further debate.

Some of the most compelling evidence sessions that I have ever had the privilege of attending took place in the Health and Social Care Committee, and the standard of scrutiny of this Bill has been outstanding, up to, and including, today's debate. Therefore, it is an important day for Wales, and an important day for the Assembly. However, most of all, it is an important day for those 226 people who are on the waiting list in Wales for organ donation, and for those three people who die on the waiting list each month in Wales, and for whom this Bill could have made such a difference.

Mae hyn yn rhoi pleser mawr imi, mewn dadl sy'n cwblhau'r daith a ddechreuodd nid gyda'r Bil hwn, ond gyda hanes llawer hirach a balch o arloesi yng Nghymru o safbwynt rhoi organau. Cyflwynwyd cardiau rhoddwr am y tro cyntaf yng Nghymru, ac, ymhell cyn i'r Cynulliad ddod i fodolaeth, arweiniwyd y ffordd gan sefydliadau megis Sefydliad Aren Cymru, Sefydliad Prydeinig y Galon a Chymdeithas Feddygol Prydain. Hoffwn ddiolch iddynt heddiw am eu cymorth parhaus trwy gydol y broses hon.

Nid y Bil oedd dechrau'r stori yng nghyfnod datganoli ychwaith. Hoffwn dalu teyrnged i'm rhagflaenwyr yn y swydd hon, Edwina Hart a Lesley Griffiths, am yr arweiniad a ddangoswyd ganddynt yn y dadl ac am yr ymgynghoriadau cyhoeddus a gynhaliwyd ganddynt. Dyna sydd wedi braenaru'r tir ar gyfer trafodion heddiw. Hoffwn ddiolch i'm tîm o swyddogion hefyd—tîm ardderchog sydd wedi symud hyn ymlaen hyd at y pwynt hwn.

Mae Cymru yn wlad flaengar, ac mae hwn yn bolisi blaengar ar gyfer y wlad flaengar honno. Dyna pam y mae hwn yn ddiwrnod hanesyddol i Gymru.

Os gwnewch chi faddau rhywfaint i mi Lywydd, a chaniatáu i mi ddweud mewn ffordd hollol bersonol, fy mod innau hefyd yn credu bod y Bil hwn wedi dangos cryfderau enfawr y Cynulliad. Mae llawer ohonom yn dal yma sy'n cofio proffwydoliaethau enbyd y rhai a oedd yn gwrthwynebu datganoli yn ôl ym 1997, ynglŷn â sut y byddai'r byd yn chwalo pe byddai polisiau a oedd yn berthnasol i Gymru yn cael eu penderfynu yng Nghymru gan bobl sydd wedi eu hethol yng Nghymru. Y Bil hwn yw'r enghraifft ddiweddaraf o pa mor anghywir oedd y pesimistiaid hynny, ond mae'n gwneud hynny'n benodol yng nghyd-destun y pwerau deddfwriaethol newydd, a gafwyd dim ond dwy flynedd yn ôl.

Felly, rwyf yn dymuno talu teyrnged i waith yr holl bleidiau ar y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Roedd Darren Millar a William Graham yn glir o'r cychwyn cyntaf bod ganddynt wrthwynebiad i'r egwyddor o gydsyniad tybiedig, ond rwyf yn credu bod eu gwaith yn y pwyllgor bob amser yn adeiladol, a'u bod bob amser yn ceisio gwella'r Bil, hyd yn oed o'r safbwynt sylfaenol hwnnw o anghytundeb.

Mae'r Bil fel ag y mae heddiw yn dwyn nodweddion gwelliannau a gyflwynwyd gan Kirsty Williams a chan Elin Jones. Mae'r rhain wedi gwneud llawer i lunio'r Bil, fel y gwnaeth cyfraniad yr Aelodau Llafur hynny a oedd yn ffrindiau beirniadol i'r ddeddfwriaeth—ffrindiau, wrth gwrs, ond ffrindiau nad oeddent erioed yn ofni gofyn cwestiynau anodd, ac amlygu materion yr oedd angen eu trafod ymhellach.

Cynhaliwyd rhai o'r sesiynau tystiolaeth mwyaf grymus yr wyf erioed wedi cael y fraint o'u mynychu yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac mae safon y craffu ar y Bil hwn wedi bod yn eithriadol, hyd at, a chan gynnwys, y dadl heddiw. Felly, mae'n ddiwrnod pwysig i Gymru, ac yn ddiwrnod pwysig i'r Cynulliad. Fodd bynnag, yn bennaf oll, mae'n ddiwrnod pwysig i'r 226 o bobl hynny sydd ar y rhestr aros yng Nghymru ar gyfer organau, ac i'r tri o bobl hynny sy'n marw ar y rhestr aros bob mis yng Nghymru, ac y gallai'r Bil wneud cymaint o wahaniaeth iddynt.

Last week, I sat next to a young woman who had received a new heart, new lungs, a liver, pancreas and kidneys. She is a doctor today, working in the NHS in Wales. If you had sat next to her, and had heard her story, you would know just how important the Bill that we are passing today is. This is a Bill that has been improved in relation to the family, residence and education, and that has clarity on novel transplantation. Furthermore, it has strengthened rights for children too. It is a better Bill, and a stronger Bill, and it is a Bill that reflects and reinforces the dedication of people in Wales to the gift relationship. It is a willingness to reach out, in the most difficult circumstances imaginable, not simply to family or to friends, but to offer the gift of life to strangers—people whose families will never meet, and will never know, but whose lives will be connected forever. It is for that reason that this is a Bill that offers hope. It offers hope to people who have no other hope—people whose very lives depend on the availability of transplantation, which this Bill promotes.

Therefore, I commend the Bill to you all, at this final stage of a long debate. Let us have the courage of our convictions, and let us support this Bill.

Yr wythnos diwethaf, roeddwn yn eistedd wrth ymyl menyw ifanc a oedd wedi derbyn calon newydd, ysgyfaint newydd, afu, pancreas ac arenau. Mae hi'n feddyg heddiw, yn gweithio yn y GIG yng Nghymru. Pe byddech chi wedi eistedd wrth ei hymyl, ac wedi clywed ei hanes, byddech yn gwybod pa mor bwysig yw'r Bil yr ydym yn ei basio heddiw. Mae hwn yn Fil sydd wedi'i wella o ran y teulu, rheolau preswyllo ac addysg, ac sy'n eglur o ran mathau newydd o drawsblannu. Ar ben hynny, mae wedi cryfhau hawliau plant hefyd. Mae'n well Bil, ac yn Fil cryfach, ac mae'n Fil sy'n adlewyrchu ac yn atgyfnerthu ymroddiad pobl Cymru at y berthynas rhoi. Mae'n barodrwydd i estyn allan, yn yr amgylchiadau mwyaf anodd y gellid eu dychmygu, nid yn unig i deulu neu ffrindiau, ond i gynnyg y rhodd o fywyd i ddiethriaid—pobl na fydd teuluoedd fyth yn eu cyfarfod, ac na fyddent fyth yn gwybod, ond y bydd eu bywydau yn gysylltiedig am byth. Dyna pam mae hwn yn Fil sy'n cynnig gobaith. Mae'n cynnig gobaith i bobl nad oes ganddynt unrhyw obaith arall—pobl y mae eu bywydau yn dibynnu ar drawsblaniad, sef yr hyn y mae'r Bil hwn yn ei hyrwyddo.

Felly, cymeradwyaf y Bil i chi i gyd, ar gam olaf dadl hir. Gadewch inni fod yn barod i sefyll dros ein hegwyddorion, a gadewch inni gefnogi'r Bil hwn.

21:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I did say that we were going to revert to five minutes each, but there is a technical reason why I have to cut that even shorter. Believe it or not, at 10 p.m., the lights are going to go out. [Laughter.] We would have to wait until the lights could be readjusted. Please be as brief as you can. Darren Millar, you have two minutes.

Diolch, Weinidog. Dywedais ein bod yn mynd i ddychwelyd i bum munud yr un, ond mae rheswm technegol pam y mae'n rhaid i mi dorri hynny hyd yn oed yn fyrrach. Credwch neu beidio, am 10 p.m., bydd y goleuadau'n diffodd. [Chwerthin.] Byddai'n rhaid i ni aros hyd nes inni allu newid y goleuadau. Byddwch mor gryno ag y gallwch os gwelwch yn dda. Darren Millar, mae gennych ddau funud.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

21:39 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. My views on the principle of this Bill are well known. However, I have always sought, throughout the legislative process, which was embarked upon last year, to ensure that my views have made a positive contribution to the debate that has taken place. I take this opportunity to thank the Minister, and his officials, for the positive way in which they have engaged with me, and with other members of the Health and Social Care Committee throughout this process, as well as for the way in which they have engaged with me on some of those issues that I have brought to the Minister's attention as shadow Minister. I have been very grateful for his open-door policy, and for the opportunity to discuss issues with him.

I also take this opportunity to thank the legislation clerks who supported the committee in its deliberations on the Bill, and I thank all those individuals who gave evidence on it. As I said, I will be voting against this Bill, but I want to put on record my support for organ donation. I will be encouraging people to opt in to the system in the future, and I look forward to scrutinising the Minister on the implementation process that he will now embark upon.

Diolch ichi, Lywydd. Mae fy marn i am egwyddor y Bil hwn yn hysbys iawn. Fodd bynnag, rwyf bob amser, trwy gydol y broses ddeddfwriaethol a ddechreuwyd y llynedd, wedi ceisio sicrhau bod fy sylwadau wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at y ddaol a gynhaliwyd. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r Gweinidog, a'i swyddogion, am y ffordd gadarnhaol y maent wedi ymgysylltu â mi, ac aelodau eraill y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol trwy gydol y broses hon, yn ogystal ag am y ffordd y maent wedi ymgysylltu â mi ar rai o'r materion hynny yr wyf wedi eu dwyn i sylw'r Gweinidog fel Gweinidog yr wrthblaid. Rwyf wedi bod yn ddiolchgar iawn am ei bolisi drws agored, ac am y cyfle i drafod materion gydag ef.

Rwyf hefyd yn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r clerod deddfwriaeth a gefnogodd y pwyllgor wrth iddo drafod y Bil, ac rwyf yn diolch i'r holl unigolion hynny a roddodd dystiolaeth arno. Fel y dywedais, byddaf yn pleidleisio yn erbyn y Bil hwn, ond rwyf am roi ar gofnod fy nghefnogaeth i roi organau. Byddaf yn annog pobl i optio i mewn i'r system yn y dyfodol, ac edrychaf ymlaen at graffu ar y Gweinidog a'r broses weithredu y bydd yn awr yn cychwyn arni.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Dylwn fod wedi esbonio ar ddechrau Cyfnod 3, bum awr yn ôl, fod gan Plaid Cymru bleidlais rydd ar y gwelliannau ac ar y ddeddfwriaeth y prynhawn yma. Byddaf yn cefnogi'n frwdfrydig y ddeddfwriaeth o'n blaen ni'r prynhawn yma. Soniodd Simon Thomas am gydhaelioni pobl Cymru yn cefnogi rhoi organau, ac mae'r ddeddfwriaeth hon yn ddatblygiad naturiol o'n cydhaelioni ni fel cenedl.

Rwyf am gydnabod y ffaith bod Dr Dai Lloyd yma yn y Cynulliad y prynhawn yma. A bod yn deg ag ef, mae'r Prif Weinidog wedi cydnabod rôl allweddol Dr Dai Lloyd fel yr Aelod Cynulliad cyntaf i gyflwyno'r syniad o ddeddfu yn y maes arloesol hwn. I rai, mae'n siŵr mai 'Deddf Drakeford' fydd y Ddeddf hon, ac mae rôl y Gweinidog—a'i rôl fel Cadeirydd yn flaenorol—wedi bod yn allweddol yn natblygiad y Ddeddf hon, ond rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn maddau i mi os mai 'Deddf Dai' fydd y Ddeddf hon i mi.

Rwy'n hyderus y bydd y ddeddfwriaeth hon yn dangos bod Cymru yn arwain yn y maes pwysig hwn. Lle rydym ni'n arwain heddiw, mae Gogledd Iwerddon eisoes yn dilyn ac, o fewn 10 mlynedd, dywedaf y bydd Lloegr a'r Alban hefyd wedi dilyn.

I should have explained at the beginning of Stage 3, five hours ago, that Plaid Cymru has a free vote on the amendments and on the legislation this afternoon. I will wholeheartedly support the legislation before us this afternoon. Simon Thomas talked about the collective generosity of the people of Wales, and this debate is a natural development of our collective generosity as a nation.

I want to acknowledge that Dr Dai Lloyd is in the Assembly this afternoon. To be fair, the First Minister has acknowledged the key role played by Dr Dai Lloyd as the first Assembly Member to put forward the idea of legislating in this innovative field. To some, this Act will probably be known as 'Drakeford's Act', and the Minister's role—and his role as Chair before that—has been key in the development of this Act, but I hope that he will forgive me if I refer to it as 'Dai's Act'.

I am confident that this legislation will show that Wales is leading the way in this important field. Where we lead today, Northern Ireland is already following, and, within 10 years, I say that England and Scotland will also have followed.

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do not wish to detain colleagues at this late hour, especially if we are in danger of being plunged into darkness. I believe that tonight is what we have all aspired to: a Parliament that brings forward life-changing legislation, and a Parliament in which Assembly Members have the capacity to scrutinise legislation and make it better. Those are abstract concepts, I know, but this piece of legislation does have the opportunity to transform lives: Welsh lives, and lives beyond the borders of Wales.

As has already been said, we have a proud history of supporting organ donation. More than any other part of the UK, our efforts in promoting the concept of donation have seen the numbers on the register rise and rise. I hope that this legislation will make it possible for even more people to benefit from that most altruistic of gifts: an organ donated by a family in the gravest and saddest of circumstances.

However, I have this warning for the Government: the Minister knows that the legislation alone will not be enough to deliver that vision. We have today talked about the capacity issues that will constrain the doctors and nurses working in NHS Wales to make the most of this legislative opportunity. Though supporting the Bill today, Welsh Liberal Democrats will carry on scrutinising the Government's performance in this particular area. However, today is an opportunity, I think, to celebrate the ability to have a constructive, respectful debate about the most serious of topics, and to move forward in a way that is so positive. I feel very proud to be part of the institution this evening.

Nid wyf yn dymuno cadw cydweithwyr ar yr awr hwyr hon, yn enwedig os oes perygl y bydd hi'n mynd yn nos arnom. Credaf mai heno yw'r hyn yr ydym i gyd wedi dyheu amdano: Senedd sy'n cyflwyno deddfwriaeth sy'n newid bywydau, a Senedd lle y mae gan Aelodau'r Cynulliad y gallu i graffu ar ddeddfwriaeth a'i gwneud yn well. Cysyniadau haniaethol yw'r rhain, fe wn, ond mae gan y darn hwn o ddeddfwriaeth y cyfle i drawsnewid bywydau: bywydau yng Nghymru, a bywydau y tu hwnt i ffiniau Cymru.

Fel y dywedwyd eisoes, mae gennym hanes balch o gefnogi'r egwyddor o roi organau. Yn fwy nag unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig, mae ein hymdrechion i hyrwyddo'r cysyniad o roi organau wedi gweld y niferoedd ar y gofrestr ac yn cynyddu ac yn cynyddu. Rwyf yn gobeithio y bydd y ddeddfwriaeth hon yn ei gwneud yn bosibl i fwy fyth o bobl elwa ar y rhodd mwyaf anhunanol o'r cwbl: organ a roddwyd gan deulu yn yr amgylchiadau tristaf a mwyaf difrifol.

Fodd bynnag, mae gennyf y rhybudd hwn i'r Llywodraeth: mae'r Gweinidog yn gwybod na fydd y ddeddfwriaeth ar ei phen ei hun yn ddigon i gyflawni'r weledigaeth honno. Rydym wedi sôn heddiw am y materion staffio a fydd yn cyfyngu ar allu'r meddygon a'r nyrsys sy'n gweithio yn GIG Cymru i wneud y gorau o'r cyfle deddfwriaethol hwn. Er inni gefnogi'r Bil heddiw, bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn parhau i graffu ar berfformiad y Llywodraeth yn y maes penodol hwn. Fodd bynnag, mae heddiw yn gyfle, mi gredaf, i ddathlu'r gallu i gael dadl adeiladol, barchus am y pwnc mwyaf difrifol hwn, ac i symud ymlaen mewn ffordd sydd mor gadarnhaol. Rwyf yn teimlo'n falch iawn o fod yn rhan o'r sefydliad heno.

21:43

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to thank everybody for the debate today. I started out not knowing which way I would vote, but I have now decided, and I will support the Government on this. For me, this is a really big step, because I am so angry about the Human Tissue Act and the right that we have to take a healthy, mentally incapacitated person and do harm to them. Therefore, I have decided that I shall simply campaign to overturn that rotten piece of legislation. I do not hold this Government at fault for that, and I will support this Bill.

I, too, have a little health warning, however: in five years' time, even if I am not an Assembly Member, I will not let go of the fact that I have wrestled over this for so long, and I will be calling you to account and making sure that this is implemented throughout Wales in the best possible way.

Hoffwn ddiolch i bawb am y ddadl heddiw. Dechreuais heb wybod pa ffordd y byddwn yn pleidleisio, ond rwyf bellach wedi penderfynu, a byddaf yn cefnogi'r Llywodraeth yn hyn o beth. I mi, mae hwn yn gam mawr iawn, oherwydd fy mod mor ddig ynglŷn â'r Ddeddf Meinweoedd Dynol a'r hawl sydd gennym i gymryd person iach, sy'n analluog yn feddyliol, a gwneud niwed iddynt. Felly, rwyf wedi penderfynu y byddaf, yn syml iawn, yn ymgyrchu i wrthdroi'r darn pwdr hwnnw o ddeddfwriaeth. Nid wyf yn rhoi bai ar y Llywodraeth hon am hynny, a byddaf yn cefnogi'r Bil hwn.

Mae gennyf innau, hefyd, rybudd bach, fodd bynnag: ymhen pum mlynedd, hyd yn oed os nad wyf yn Aelod o'r Cynulliad, ni fyddaf yn gollwng gafael ar y ffaith fy mod wedi ymaflyd dros hyn am gyhyd, a byddaf yn eich dwyn i gyfrif a sicrhau bod hwn yn cael ei roi ar waith ledled Cymru yn y ffordd orau bosibl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

21:44

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Fel un sydd wedi gwrandao ar y drafodaeth hon a heb gyfrannu iddi, ac fel un a ddaeth at y pwnc hwn fel cefnogwr brwd i'r egwyddor o gyfrannu organau, ond fel rhywun a oedd yn sylweddoli hefyd fod y Bil gwreiddiol wedi cael ei ddrafftio yn eithriadol o wael ac yn eithriadol o wan, rwy'n credu bod y drafodaeth a'r broses hon wedi dangos ein bod ni'n gallu creu deddfwriaeth dda yn y lle hwn, er bod y dechreuadau wedi bod mor sigledig. Hoffwn roi teyrnged arbennig i'r Gweinidog. Rwy'n credu bod ei berfformiad y prynhawn yma wedi bod yn feistrolgar. Rwy'n credu ei fod e wedi bod yn glir, yn gytbwys ac yn gynhwysfawr yn ei ymatebion, ac mae wedi dangos i ni bwysigrwydd creu deddfwriaeth y gellir ei gweithredu.

Roedd llawer o ddadleuon a oedd yn dod o ideoleg ac roedd llawer o ganfyddiadau camarweiniol iawn. Fel rhywun sy'n perthyn i gymuned ffydd, rwyf am ddweud bod y canfyddiad bod cymunedau ffydd yn eu cyfanrwydd, a'u holl aelodau, yn gwrthwynebu'r Bil hwn fel roedd wedi ei gyflwyno i ni, yn gwbl gamarweiniol. Nid wyf i wedi cael unrhyw fath o gyswllt gan etholwyr ar y mater hwn, a dim ond cyfathrebu drwy e-bost gan un etholwr a chan ryw gymdeithas sy'n honni cynrychioli cymunedau ffydd. Os mai dyna eu dadleuon nhw, maen nhw'n ddadleuon sydd ar dir diwinyddol gwan a sigledig iawn. Rwy'n falch ein bod ni wedi cyrraedd y pwynt hwn, Weiniidog, ac y gallwn symud ymlaen a gweithredu'r Bil hwn er mwyn achub bywydau a rhoi'r cyfle i bobl sydd angen y cyfle i gael bywyd llawn.

As one who has listened to this discussion without contributing to it, and as one who approached this subject as a keen supporter of the principle of organ donation, but one who also realises that the original Bill had been drafted exceptionally poorly and weakly, I believe that this discussion and process have demonstrated that we are able to make good law in this place, even though we had a shaky start. I would like to pay special tribute to the Minister, as I believe that his performance this afternoon has been masterful. I believe that he has been clear, balanced and comprehensive in his responses, and he has shown the importance of creating legislation that can be implemented.

There were many arguments that came from an ideological point of view and there were many misleading perceptions. As someone who belongs to a faith community, I want to say that the perception that faith communities in their entirety, and all their members, are opposed to this Bill as presented to us, is totally misleading. I have not had any kind of contact from constituents on this matter, and only communication via e-mail from one constituent and one society claiming to represent communities of faith. If those are their arguments, they are on very weak and shaky theological grounds. I am pleased that we have arrived at this point, Minister, and that we can move forward to implement this legislation in order to save lives and give people who need it the opportunity to lead a full life.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

21:46

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, do you wish to reply to the debate?

Weiniidog, a ydych am ymateb i'r ddadl?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

21:46

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No.

Nac ydw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

21:46

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that the Human Transplantation (Wales) Bill be passed. Does any Member object? There is objection, so we move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) yn cael ei basio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly symudwn i bleidlais electronig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Canlyniad y bleidlais ar y cynnig.

Result of the vote on the motion.

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 43, Yn erbyn 8, Ymatal 2.

Motion agreed: For 43, Against 8, Abstain 2.

21:47

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Therefore, I am delighted to say that the Human Transplantation (Wales) Bill has passed. [Applause].

Felly, rwyf yn falch o ddweud bod y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) wedi ei basio. [Cymeradwyaeth].

Cyfnod Pleidleisio

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis welliant 1 i gynnis NDM5279.](#)

Voting Time

[Result of the vote on amendment 1 to NDM5279.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order No. 6.20 the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis welliant 2 i gynnis NDM5279.](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5279.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order No. 6.20 the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnis NDM5279.](#)

[Result of the vote on amendment 3 to NDM5279.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 18, Yn erbyn 36, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 18, Against 36, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5279.](#)

[Result of the vote on motion NDM5279.](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 27, Yn erbyn 18, Ymatal 9.

Motion agreed: For 27, Against 18, Abstain 9.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5280.](#)

[Result of the vote on motion NDM5280.](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 27, Yn erbyn 18, Ymatal 9.

Motion agreed: For 27, Against 18, Abstain 9.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5277.](#)

[Result of the vote on motion NDM5277.](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 29, Yn erbyn 25, Ymatal 0.

Motion agreed: For 29, Against 25, Abstain 0.

21:50

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

That brings tonight's business to a close.

Daw hynny â thrafodion heno i ben.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.51 p.m.

The meeting ended at 9.51 p.m.